*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod o'r **PWYLLGOR ARCHWILIO** yn cael ei gynnal
**DDYDD LLUN 16 MEHEFIN 2025** am **09.30 o'r gloch**
yn rhithiol **drwy Zoom**

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Fuddiant**

3. **Hysbysiad o Faterion Brys**
Hysbysiad o'r eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2025**

5. **Materion yn Codi**

6. **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol a Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol 2024-25**

7. **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Mehefin 2025**

8. **Diweddariad Diogelu Blynyddol 2024–25**

9. **Adroddiad Rheoli'r Trysorlys 2024-25**

10. **Strategaeth Gaffael Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru 2025-30**

11. **Gosod Cyllideb 2026-27 (lafar)**

12. **Datganiad Drafft o'r Cyfrifon 2024-25**

13. **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024-25**

14. **Cynllun Archwilio 2024-25**

15. **Materion Brys**
Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

## RHAN II

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 16. Dim

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion **Pwyllgor Archwilio** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 17 Mawrth 2025 yn rhithiol dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 09.30 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Mark Young (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Gareth R Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Beverley Parry-Jones (gadawodd 10:14) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Anthony Jones | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Elgan W Roberts | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Swyddog Monitro |
| Carwyn Rees | Archwilio Cymru |
| Angharad Ellis | Mersey Internal Audit Agency |
| Carwyn Rees | Archwilio Cymru |
| George Jones | Cyfieithydd |
| Lisa Allington | Cynorthwyydd Gweithredol – Cofnodydd |

**1.0 YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Gwynfor Owen (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |

**2.0 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

## 3.0 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Croesawyd PSTC Ant Jones i'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ddau ddigwyddiad tanau gwyllt a ddigwyddodd dros y 24 awr ddiwethaf. Roedd y cyntaf ym Mlaenau Ffestiniog tua 18:30 y noson flaenorol ac roedd o ganlyniad i losgi rheoledig a oedd wedi dod yn anodd ei drin ac felly wedi'i gadarnhau fel tân gwyllt. Roedd yr uned tanau gwyllt, yr uned rheoli a'r uned lles yn bresennol ynghyd â chwe phwmp. Roedd rhywfaint o bryder y gallai'r tân ledaenu tuag at anheddau preswyl a ffatri blastigau. Yn anterth y digwyddiad, roedd ffrynt y tân (hyd y tân o un pen i'r llall) tua 300m. Oherwydd ei bod yn dywyll nid oedd yn bosibl defnyddio'r hofrennydd; fodd bynnag, roedd drôn Heddlu Gogledd Cymru wedi rhoi golwg dda o beth oedd yn digwydd. Swyddog Tanau Gwyllt Lefel 3 oedd y swyddog â gofal ac roedd y criwiau wedi defnyddio sawl tacteg, gan gynnwys curwyr i ymosod ar y tân ac fe lwyddon nhw i'w ddiffodd toc cyn hanner nos. Mae criwiau'n parhau ar y safle i chwilio am fannau problemus.

3.2 Roedd yr ail ddigwyddiad wedi cael ei adrodd am 22:00 neithiwr yn Nhrawsfynydd ac wedi digwydd ar yr un pryd â'r digwyddiad ym Mlaenau Ffestiniog. Roedd wedi cychwyn fel tân bach yn yr awyr agored ac yna cafodd ei ddatgan yn dân gwyllt gan griwiau. Roedd yr ardal yr effeithiwyd arni i ddechrau tua 86 erw o eithin a rhedyn gyda thua 200 hectar o dir wedi'i losgi, ac ar ei anterth roedd ffrynt y tân wedi bod yn 500m ar draws gydag uchder y fflamiau'n 1m. Roedd Swyddog Tanau Gwyllt Lefel 3 hefyd wedi mynd i'r digwyddiad hwn. Roedd ardal fawr o dir, cors a nentydd, a'r flaenoriaeth oedd amddiffyn eiddo. Roedd y gwynt wedi codi ers hynny gan arwain at gynnydd yn hyd y tân ac mae criwiau'n parhau ar dir y digwyddiad yn gweithio i atal y tân rhag lledaenu i dir y goedwig leol. Byddai ymosodiad mwy effeithiol yn bosibl yn ystod oriau golau dydd, a thrwy gydol y ddau ddigwyddiad roedd criwiau wedi defnyddio eu sgiliau a'u gwybodaeth leol yn hynod o effeithiol. Canmolwyd y timau rheoli hefyd am reoli'r adnoddau ar gyfer y ddau ddigwyddiad.

## 4.0 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 RHAGFYR 2024

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2024 i'w cymeradwyo. Cynigiwyd eu bod yn gofnod cywir o'r trafodion, ac eiliwyd hyn gyda phawb o blaid.

## 4.2 PENDERFYNWYD:

**i) cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd, gan nodi'r gwelliannau uchod.**

## 5.0 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd angen trafod unrhyw faterion yn codi.

**6.0 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL 2024-25**

6.1 Croesawyd Angharad Ellis o MIAA i'r cyfarfod a chyflwynodd yr adroddiad cynnydd gan Archwilio Mewnol, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am y gwaith a wnaed gan ddarparwyr archwilio mewnol yr Awdurdod, MIAA, ar 28 Chwefror 2025.

6.2 Diolchodd PSTC MacArthur i Angharad a'r tîm ac anogodd yr Aelodau i gymryd rhan yn unrhyw un o'r gweithdai y mae MIAA yn eu cyflwyno gan eu bod yn allweddol o ran datblygu dealltwriaeth. Cadarnhaodd Angharad y byddai calendr newydd allan yn fuan ar gyfer 2025/26 a bod gweithdy ar dwyll yn debygol o gael ei gynnwys.

**6.3 PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2024/25; a**
- **ii) Nodi'r gwaith a gwblhawyd yn derfynol rhwng 1 Rhagfyr 2023 a 28 Chwefror 2025.**

**7.0 CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2025/26**

7.1 Gwahoddwyd Angharad Ellis i gyflwyno papur Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26 a oedd yn cyflwyno'r cynllun archwilio mewnol arfaethedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 i'r Aelodau.

7.2 Cyfeiriwyd yr Aelodau at adran 6 ac Atodiad A a oedd yn nodi'r cynllun archwilio mewnol strategol tair blynedd.

7.3 Nododd y Trysorydd fod y cynllun ar gyfer y flwyddyn wedi'i ddangos ar dudalen 26 y pecyn, a gofynnodd a oedd MIAA yn teimlo mai'r defnydd gorau o adnodd cyfyngedig oedd eu bod yn cymryd rhan yn y gweithdai Craffu ar y Gyllideb. Cadarnhaodd Angharad mai dim ond pum niwrnod o'r 70 a ddyrannwyd oedd wedi'u neilltuo ar gyfer y gweithdai hyn ac felly'r Aelodau ddylai benderfynu a oeddent yn teimlo ei bod yn ddefnyddiol eu bod yn mynd iddynt.

7.4 Cadarnhaodd PSTC MacArthur y byddai'r model achos busnes newydd yn cael ei gyflwyno fel rhan o broses graffu'r gyllideb ac y gallai fod yn fwy effeithiol iddynt dreulio'r pum niwrnod ar hynny. Cytunwyd bod y pum niwrnod yn parhau i fod yn hyblyg i'w dreulio yn ôl yr angen.

**7.5 PENDERFYNWYD:**

- **i) Cymeradwyo'r rhaglen waith archwilio arfaethedig ar gyfer 2025/26.**

## 8.0 ARCHWILIO CYMRU – CRYNODEB O ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2024

8.1 Croesawyd Carwyn Rees o Archwilio Cymru i'r cyfarfod a chyflwynodd bapur Crynodeb o'r Archwiliad Blynyddol, Archwilio Cymru 2024.

8.2 Nodwyd nad oedd unrhyw faterion newydd i'w hadrodd ac roedd y cyfrifon wedi derbyn barn ddiamod.

8.3 Roedd rhai adroddiadau cenedlaethol wedi'u nodi o fewn y papur a allai fod o ddiddordeb i'r Aelodau.

8.4 Nododd y Trysorydd fod y sefyllfa o ran yr archwiliad o'r cyfrifon wedi bod yn dda iawn dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf ac roedd hyn i'w ganmol. Cadarnhaodd Carwyn fod cynlluniau ar waith i ddechrau'r broses archwilio ychydig yn gynharach eleni a fyddai'n golygu y byddai'r flwyddyn ganlynol hefyd yn gallu cychwyn yn gynharach, gan symleiddio prosesau. Nododd hefyd eu bod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Pennaeth Cyllid a Chaffael newydd, Elgan Roberts, am flwyddyn ariannol lawn a diolchodd iddo am ei gefnogaeth amhrisiadwy.

**8.5 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r crynodeb o'r archwiliad blynyddol.**

## 9.0 ASESIAD RISG BLYNYDDOL ARCHWILIO CYMRU

9.1 Gofynnwyd i Carwyn Rees o Archwilio Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am Asesiad Risg Blynyddol Archwilio Cymru.

9.2 Cadarnhaodd fod cynllunio ar gyfer archwiliad perfformiad 2025/26 wedi dechrau a dylai'r meysydd risg yn y datganiad ariannol gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2025. Nododd fod y dull archwilio yn newid o raglen genedlaethol sy'n edrych ar themâu o'r blaenoriaethau Cenedlaethol, i fwy o ffurfioli gwaith cynllunio lleol o fewn yr Awdurdod er mwyn sicrhau bod gwaith archwilio yn canolbwyntio ar risgiau'r Awdurdod. Roedd hyn yn rhywbeth a wnaed ar lefel uwch yn y gorffennol ac roedd mwy o adnoddau bellach yn cael eu neilltuo ar gyfer hyn oherwydd yr amgylchedd risg sy'n newid o fewn yr holl awdurdodau tân.

9.3 Gofynnwyd sut y datblygwyd y Flaenraglen Waith er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â llwythi gwaith, ac atebodd Carwyn fod trafodaethau'n digwydd yn y tîm o fewn y Gwasanaeth i gynnal yr archwiliad mewn dau ran i gyd-fynd yn well ag ymrwymiadau staff. Roedd rhai darnau angenrheidiol, yn bennaf ynghylch adolygu dogfennau, a gallai fod yn feichus i swyddogion ddelio â hyn ar unwaith. Byddai hyn yn cael ei ategu gan gyfweliadau ag unigolion perthnasol o fewn y Gwasanaeth. Trafodwyd a chytunwyd y dylid cyfweld â'r trysorydd fel y swyddog S151 a PSTC MacArthur ar yr un pryd.

9.4 Cadarnhaodd Carwyn ymhellach na fyddai adroddiad yn cael ei ddarparu i'r Aelodau yn sgil yr Asesiad Risg, ac yn hytrach y byddai adroddiadau'n cael eu darparu fel eithriad.

**9.5 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys y diweddariad a roddwyd.**

**10.0 ADRODDIAD RHEOLI'R TRYSORLYS Ch3 2024/25**

10.1 Cyflwynodd Dafydd Edwards Adroddiad Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Ch3 2024/25 i'r aelodau a chynghorodd mai pwrpas yr adroddiad hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Awdurdod am weithgaredd rheoli'r trysorlys a chydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Rhagfyr 2024.

10.2 Tynnwyd sylw at feysydd allweddol Adroddiad Rheoli'r Trysorlys a nododd un Aelod, mewn perthynas â'r agweddau ail-ariannu, ei bod yn ymddangos y byddai'r rhan fwyaf o'r benthyciadau yn dod i ben o fewn naill ai blwyddyn neu ddeng mlynedd a gofynnodd beth oedd y cyd-destun y tu ôl i hynny. Ymatebodd y Trysorydd fod hyn yn aml yn ganlyniad hanesyddol o ran y ffordd yr oedd cyfraddau llog wedi symud dros amser ac roedd y canllawiau a dderbyniwyd gan Arlingclose wedi bod yn gywir gan eu bod wedi cynghori i beidio â benthyca mwy tra bod cyfraddau llog yn uchel. Roedd hwn yn faes a fyddai'n cael ei ystyried ym mis Awst pan oedd angen benthyca mwy, a byddai'r proffil yn cael ei gynllunio fel na fyddai'r holl adbryniadau yn digwydd ar yr un pryd.

**10.3 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r gweithgarwch o ran rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2024.**

**11.0 BUDDION Y GYFLOGRES 2025-26**

11.1 Cyflwynodd Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael, y papur Buddion Cyflogres 2025-26 a roddodd ddiweddariad i aelodau'r Pwyllgor Archwilio ar y gofyniad i weithredu holl Fuddion Gweithwyr, sy'n gofyn am ffurflen P11D ar ddiwedd pob Blwyddyn Dreth, trwy'r System Gyflogres. Yn 2024, cyhoeddodd y Llywodraeth y bydd yn ofynnol i gyflogwyr, o 6 Ebrill 2026, adrodd a thalu Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol (NIC) Dosbarth 1A ar y rhan fwyaf o Fuddion mewn Nwyddau (BiKs) mewn amser real ar y Cyflwyniad Taliad Llawn (FPS).

11.2 Gofynnwyd sut y byddai dealltwriaeth staff o'r dull newydd yn cael ei sicrhau, a chadarnhaodd ER fod rhestr o'r holl staff o fewn cwmpas y gofynion wedi ei llunio ac y byddai'r newid yn cael ei drin fel prosiect gyda sianeli cyfathrebu gyda'r staff a'r rhanddeiliaid hynny yn hanfodol er mwyn ei weithredu'n llwyddiannus.

11.3 Gofynnodd un Aelod, mewn perthynas â pharagraff 7 ynghylch profi'r broses ar nifer fach o weithwyr, a oedd unrhyw wrthwynebiadau gan y gweithwyr hynny a ddewiswyd i gymryd rhan yn y treial hwn. Cadarnhaodd ER y byddai'r Rheolwr Cyflogau yn cysylltu â'r staff hynny sy'n cymryd rhan a byddai'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu nodi ar gyfer y dyfodol.

11.4 Eglurodd PSTC MacArthur mai'r peth pwysig i'w gydnabod oedd nad oedd hyn yn newid swm y dreth y byddai staff yn ei dalu, yn hytrach, roedd yn gwella eu dealltwriaeth o'r broses ac yn sicrhau bod unrhyw ddidyniadau yn digwydd yn y man cychwyn yn hytrach nag ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

11.5 Gofynnodd un Aelod, mewn perthynas â'r newid mewn deddfwriaeth gyda'r cerbydau cab dwbl, a oedd staff y byddai hynny'n effeithio arnynt, ac a fyddai staff yn cael eu rhybuddio cyn gynted ag y bydd y system hon yn cael ei gweithredu i'w galluogi i wneud rhywbeth gwahanol os oedd angen.

11.6 Cadarnhaodd PSTC MacArthur nad oedd hi'n ymwybodol o unrhyw staff y byddai'r newidiadau arfaethedig i'r dreth cab dwbl yn effeithio arnynt ond byddai'r dull newydd yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o unrhyw newidiadau yn llawer cynt nag o dan y trefniadau presennol.

**11.7 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth; a**
**ii) Chefnogi treialu buddion y gyflogres yn raddol dros flwyddyn ariannol 2025/26 i baratoi ar gyfer eu gweithredu'n llawn o fis Ebrill 2026 yn unol â'r gofyniad deddfwriaethol.**

## 12.0 CYFLWYNO SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL (IFRS) 16 AR GYFER 2024/25

12.1 Cyflwynodd Elgan Roberts bapur Cyflwyno Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16 ar gyfer 2024/25, a'i bwrpas oedd rhoi diweddariad i aelodau'r awdurdod am y newidiadau angenrheidiol sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 (IFRS 16) ar gyfer cyfrifon blynyddol 2024/25.

12.2 Tynnwyd sylw'r Aelodau at baragraff 14 y papur a oedd yn rhoi rhestr o brydlesi yr effeithir arnynt gan y gweithrediad hwn.

12.3 Gofynnodd un Aelod am eglurhad o'r *de minimis* o ddeng mil o bunnoedd a chadarnhaodd ER mai dyma'r terfyn technegol ar gyfer IFRS 16. Eglurodd PSTC MacArthur ymhellach fod hyn yn golygu na fyddai prydlesi llai, fel llogi llungopïwyr, yn cael eu trin fel asedau cyfalaf gan leihau'r llwyth gwaith gofynnol. Roedd hyn yn arfer safonol ar draws sefydliadau.

12.4 Diolchodd y Trysorydd i ER am ei waith i gyflawni hyn, gan ei fod wedi bod yn yr arfaeth ers tua 2020, ac argymhellodd fod yr Aelodau yn cymeradwyo'r adroddiad.

**12.5 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r newid deddfwriaethol ar gyfer IFRS 16;**
**ii) cymeradwyo lefel *de minimis* o £10k ar gyfer cydnabod prydlesi; a**
**iii) chymeradwyo'r gyfradd ddisgownt i fod yn seiliedig ar y gost fenthyca ar 1 Ebrill 2024, neu ar ddechrau'r brydles.**

## 13.0 CRYNODEB O REOLAU GWEITHDREFN CONTRACTAU ATAGC 2025

13.1 Esboniodd Elgan Roberts i'r Aelodau mai pwrpas yr adroddiad hwn oedd cyflwyno'r newidiadau arfaethedig i Reolau Gweithdrefn Contractau (CPR) yr Awdurdod, yn dilyn diwygiadau i gyd-fynd â Deddf Caffael 2023, a weithredwyd ar 24 Chwefror 2025 a thrafododd y newidiadau allweddol.

13.2 Tynnodd PSTC MacArthur sylw at y ffaith bod cydweithio a chaffael ar y cyd yn digwydd gyda Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru (GTA) lle bo hynny'n bosibl.

13.3 Gofynnodd Aelod sut y sicrheir bod gan y Gwasanaeth y gallu i gydymffurfio â'r CPR. Cadarnhaodd ER fod cynlluniau ar waith i gyflogi Swyddog Caffael i ddarparu cefnogaeth werthfawr i'r Rheolwr Contractau a Chaffael wrth symud ymlaen. Yn ogystal, byddai technoleg yn cael ei defnyddio i symleiddio'r broses adrodd a rhoddodd ER yr enghraifft bod yr holl gyflenwyr wedi'u categoreiddio o fewn y cyfriflyfr ariannol a gallai'r wybodaeth hon gael ei chasglu'n gyflym pan fo angen.

13.4 Tynnodd ER sylw ymhellach at y ffaith bod cyflenwyr lleol yn cael eu defnyddio lle bo hynny'n bosibl, a rhoddodd enghreifftiau o ble y bu newid i ddefnyddio cyflenwyr lleol yn rhanbarth Gogledd Cymru. Gofynnodd y Cadeirydd sut y gellid dangos gwerth am arian gydag un dyfynbris a dywedodd ER fod un dyfynbris yn isafswm absoliwt. Fodd bynnag, fel arfer da, ac i ddangos y cynnig mwyaf manteisiol, byddai dau neu fwy o ddyfynbrisiau bob amser yn cael eu ceisio lle bo hynny'n bosibl.

13.5 Gofynnwyd a oedd yna gydweithio â chwmnïau bach hyd at £30k er mwyn sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau i roi dyfynbris a chadarnhaodd PSTC MacArthur fod hynny'n digwydd. Nodwyd y byddai cyflogi'r Swyddog Caffael uchod hefyd yn helpu yn y maes hwn gan y byddent yn gallu adeiladu gwell cysylltiadau ledled Gogledd Cymru.

**13.6 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r newidiadau allweddol yn y CPR; ac**
**ii) argymell bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r CPR.**

## 14.0 MATERION BRYS

14.1 Nododd PSTC MacArthur fod yr Aelodau wedi cael dolen er mwyn llenwi ffurflen datganiad o fuddiant electronig a gofynnodd iddynt sicrhau eu bod yn ei chwblhau cyn gynted â phosibl, ac erbyn diwedd mis Mawrth fan bellaf, gan fod hyn yn un o ofynion yr archwiliad blynyddol.

14.2 Gofynnodd Elgan Roberts i'r Aelodau a oeddent yn teimlo, mewn perthynas â gosod y gyllideb ar gyfer 2026-27, fod y gweithdai Craffu ar y Gyllideb yn werthfawr ac a dylid parhau gyda nhw.

14.3 Pleidleisiodd yr aelodau dros barhau'r gweithdai hyn ac y dylid dilyn yr un broses â blynyddoedd blaenorol gyda phum cyfarfod yn cael ei gynnal fel yn y flwyddyn flaenorol, gydag un cynrychiolydd o bob awdurdod lleol cyfansoddiadol.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:55

*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Mehefin 20265** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur PSTC Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis, MIAA** |
| Pwnc | **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol a Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol 2024/25** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 O dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 Rhan 3 5. (2), mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei system Rheolaeth Fewnol. Mae Archwilio Mewnol yn rhan annatod o'r system honno, ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

2 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus CIPFA 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddarparu sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r holl system rheolaeth fewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r trefniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol.

3 Mae'r adroddiad yn dadansoddi gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25 ac yn cynnwys y datganiad sicrwydd yn seiliedig ar waith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

4 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn gallu rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio, yn seiliedig ar y gwaith archwilio mewnol a wnaed, ynghyd â'n gwybodaeth barhaus am y sefydliad a'i weithdrefnau, fod gan yr Awdurdod drefniadau effeithiol ar gyfer llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol er mwyn rheoli'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod.

5 Mae'r adolygiadau archwilio yn rhoi lefel sylweddol o sicrwydd ynghylch digonolrwydd y systemau rheolaeth fewnol sydd ar waith, gyda 18 o argymhellion wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â rhai gwendidau. Mae proses ddilynol ffurfiol yn ei lle i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

6 Nid yw'r gwaith Archwilio Mewnol wedi canfod unrhyw wendidau a fyddai'n rhoi amod ar y farn hon ac nid oes unrhyw faterion o bwys yn berthnasol wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

7 Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sicrwydd fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig i alluogi'r Awdurdod i gael sicrwydd o'r farn hon.

## ARGYMHELLION

8 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio a Chaffael a'r 'farn' gyffredinol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith yr Awdurdod ar gyfer llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth.

## CEFNDIR

### Rôl Archwilio Mewnol

9 O dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, mae gan Awdurdodau Tân gyfrifoldeb statudol i gynnal "system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol".

10 Rôl y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yw darparu, i'r rheolwyr, asesiad gwrthrychol ynghylch p'un ai yw'r systemau a'r rheolaethau'n gweithio'n iawn ai peidio. Mae'n rhan allweddol o system rheolaeth fewnol y sefydliad oherwydd ei fod yn mesur ac yn gwerthuso pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r rheolaethau eraill, fel bod:

- Y Pwyllgor Archwilio a'r uwch reolwyr yn ymwybodol i ba raddau y gallant ddibynnu ar yr holl system; a bod
- rheolwyr unigol yn ymwybodol o ba mor ddibynadwy yw'r systemau a'r rheolaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.

11 Mae'r system rheolaeth fewnol yn cynnwys yr holl rwydwaith o systemau a rheolaethau a sefydlwyd i reoli'r Awdurdod, a hynny er mwyn sicrhau y caiff ei amcanion eu cyflawni. Mae'n cynnwys rheolaethau ariannol a rheolaethau eraill, a hefyd y trefniadau ar gyfer sicrhau bod yr Awdurdod yn cael gwerth am arian o'i weithgareddau.

12 Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio gyflwyno barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gall yr Awdurdod eu defnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu.

## GWYBODAETH

### Barn Archwilio Mewnol 2024/25

13 Mae'r Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol yn fodlon bod y gwaith archwilio mewnol a gyflawnwyd, ynghyd â'n gwybodaeth barhaus am y sefydliad a'i ddulliau, yn ein galluogi i ddod i gasgliad rhesymol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu'r Awdurdod.

14 Y farn a roddir gan y Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol yw bod system dda o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y sefydliad a'i bod, yn gyffredinol, yn cael ei chymhwyso'n gyson.

15 Wrth roi barn archwilio, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn absoliwt er bod hyn yn rhoi sicrwydd rhesymol yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn y flwyddyn honno, nad oes unrhyw wendidau mawr y mae angen eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio.

16 Gellir defnyddio'r farn archwilio gyffredinol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac mae'r adroddiad llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad A

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcan llesiant hirdymor yr Awdurdod sef hwyluso gwasanaethau tân ac achub ymatebol, o ansawdd uchel sydd wedi'u hintegreiddio'n well fel y gall gweithgareddau atal ac ymateb mewn argyfwng barhau i fod ar gael pan fo'u hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg. |
| Cyllideb | Mae'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn cael eu darparu gan gontractwr allanol cymwys ac o fewn y gyllideb y cytunwyd arni. |
| Cyfreithiol | Mae'r adroddiad yn cefnogi'r Pwyllgor Archwilio i gyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol |
| Staffio | Amh. |
| Cydraddoldebau/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Amh. |
| Risgiau | Mae'r Datganiad Sicrwydd yn cael ei gyflwyno'n unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o'r fath gan yr archwilydd mewnol, ni fyddai'r Aelodau'n ymwybodol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a'i allu cysylltiedig i gyflawni ei amcanion. |

# Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol a Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol 2024/25

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

miaa

# Cynnwys


1 Crynodeb Gweithredol

2 Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

3 Yr hyn sy'n Dylanwadu ar ein Barn

4 Cwmpas ac Allbynnau Archwilio Mewnol

5 Meysydd i'w hystyried – eich Datganiad Llywodraethu Blynyddol

6 Sicrhau Ansawdd

## 1 Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn dangos eich Barn Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25, ynghyd â'r cwmpas a'r allbynnau archwilio mewnol a gynlluniwyd ar gyfer 2024/25 a Dangosyddion Ansawdd Gwasanaeth MIAA.

Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS), mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddarparu barn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg a llywodraethu risg y sefydliad, a hynny yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw. Dylai'r farn gyfrannu at ddatganiad llywodraethu blynyddol y sefydliad.

<table>
<tr><th>Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol</th><th>1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024</th><th>1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025</th><th></th><th>Y ffactorau a ystyriwyd wrth ffurfio ein barn</th></tr>
<tr><td>Sicrwydd Uchel - mae system gref o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gyflawni amcanion y sefydliad, ac mae rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson ym mhob maes a adolygwyd.</td><td></td><td></td><td rowspan="5"></td><td rowspan="5">• Risgiau cynhenid yn y meysydd a archwiliwyd<br>• Cyfyngiadau o ran cwmpas yr adolygiadau archwilio unigol<br>• Gwendidau rheoli a nodwyd a'u heffaith<br>• Yr amgylchedd rheoli mewnol: ei ddigonolrwydd a'i effeithiolrwydd<br>• Ymatebion y rheolwyr i argymhellion<br>• Cynnydd o ran gweithredu argymhellion gan reolwyr</td></tr>
<tr><td>Sicrwydd Sylweddol – mae system dda o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y sefydliad, ac mae rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson yn gyffredinol.</td><td>✓</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>Sicrwydd Cymedrol - mae system ddigonol o reolaeth fewnol, ond mewn rhai meysydd mae gwendidau o ran dylunio a/neu gymhwyso rheolaethau'n anghyson yn peryglu cyflawni rhai o amcanion y sefydliad.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Sicrwydd Cyfyngedig - mae'r system o reolaeth fewnol dan fygythiad gan fod gwendidau o ran dylunio a/neu gymhwyso rheolaethau'n anghyson yn effeithio ar y system rheolaeth fewnol gyffredinol ac yn peryglu cyflawni amcanion y sefydliad.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Dim Sicrwydd - mae system annigonol o reolaeth fewnol gan y gallai gwendidau rheolaeth a/neu ddiffyg cydymffurfio cyson â rheolaethau arwain at fethu â chyflawni amcanion y sefydliad, neu bod hynny eisoes wedi digwydd.</td><td></td><td></td></tr>
</table>

| Maes Allweddol | Crynodeb |
|---|---|
| Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol | Fel y nodwyd uchod, mae'r farn gyffredinol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 hyd 31 Mawrth 2025 yn darparu **Sicrwydd Sylweddol, bod system dda o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y sefydliad, a bod y rheolaethau yn cael eu cymhwyso'n gyson yn gyffredinol.**<br><br>**Cyd-destun:** Mae'r farn hon yn cael ei darparu yn y cyd-destun bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC), fel sefydliadau eraill ar draws y sector cyhoeddus, yn wynebu nifer o faterion heriol a ffactorau sefydliadol ehangach, yn enwedig o ran newidiadau yn y dirwedd wleidyddol, heriau ariannol a chynyddu'r cydweithio ar draws sefydliadau a systemau.<br><br>O ran yr Uwch Dîm Arweinyddol (SLT), bu rhai newidiadau ar draws y swyddi Prif Swyddog Tân Cynorthwyol yn ystod y flwyddyn.<br><br>Mae GTAGC wedi datblygu a gweithredu eu Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) ar gyfer 2024–29, gyda'r bwriad o nodi pa risgiau sy'n wynebu'r gymuned ac mae'n disgrifio sut y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rheoli'r risgiau hynny, ac yn parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill. Bwriad y cynllun yw cynorthwyo i wneud penderfyniadau tryloyw, y gellir eu cyfiawnhau, ac i helpu'r Gwasanaethau Tân ac Achub i adnabod cyfleoedd i gydweithredu â sefydliadau partner yn haws.<br><br>Mewn ymateb i'r adolygiad o Wydnwch Corfforaethol yn GTAGC mae'r Awdurdod wedi comisiynu Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i weld pa opsiynau sydd ar gyfer ymateb brys, ac mae'r adolygiad hwnnw yn parhau.<br><br>Bu gweithgor Craffu ar y Gyllideb yn cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, ac roedd yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Archwilio er mwyn cymeradwyo'r broses asesu cynllunio ariannol i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26.<br><br>Ym mis Chwefror 2025, cyhoeddodd GTAGC (ynghyd â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru) ei adroddiad terfynol o'r Adolygiad Diwylliannol Annibynnol a gomisiynwyd ar y cyd. Mae'r Gwasanaeth bellach yn bwrw ymlaen â'r argymhellion a wnaed fel rhan o'r adolygiad, gyda'r nod o greu diwylliant yn y gweithle sy'n gefnogol, yn gynhwysol ac yn flaengar.<br><br>Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cyhoeddi lefel sicrwydd gyfyngedig mewn perthynas â Rheoli Risg. Mae gwaith mewnol yn digwydd o fewn y Gwasanaeth, megis datblygu Strategaeth Rheoli Risg, gweithredu'r cofrestrau risg yn llwyr, ymgorffori prosesau rheoli risg ar draws yr Adrannau, a chyflwyno'r ddarpariaeth hyfforddiant. Cydnabuwyd hefyd bod y gwaith Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25 wedi canolbwyntio ar y risgiau allweddol i fusnes GTAGC a'r meysydd pryder allweddol. |

| Maes Allweddol | Crynodeb |
|---|---|
| | **Cydymffurfio â safonau proffesiynol:** Wrth ddarparu'r farn hon gallwn gadarnhau cydymffurfiaeth barhaus â'r diffiniad o archwilio mewnol (fel y nodir yn eich Siarter Archwilio Mewnol), cod moeseg a safonau proffesiynol. Rydym hefyd yn cadarnhau annibyniaeth sefydliadol y gwaith archwilio ac na fu unrhyw ymyrraeth o ran cwmpasu, cyflawni ac adrodd.<br><br>**Pwrpas:** Diben ein Barn Pennaeth Archwilio Mewnol yw cyfrannu at y sicrwydd sydd ar gael i'r Swyddog Atebol a'r Awdurdod Tân sy'n sail i'w hasesiad eu hunain o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. O'r herwydd, mae'n un elfen y mae'r Swyddog Atebol ar ran yr Awdurdod Tân yn ei hystyried wrth wneud ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.<br><br>*Dylech gynnwys y testun crynhoi yn y tabl uchod wrth gyfeirio at Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol yn eich Datganiad Llywodraethu Blynyddol.* |
| Cwmpas a Chyfyngiadau Ein Gwaith | Rydym yn ffurfio ein barn trwy gwblhau cynllun aseiniadau sy'n seiliedig ar risg ac sydd wedi'i gytuno â'r rheolwyr ac wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio.<br><br>Mae gan ein barn y cyfyngiadau cynhenid canlynol:<br><br>• Nid ydym wedi adolygu'r holl risgiau a sicrwydd sy'n ymwneud â'r sefydliad.<br>• Mae'r farn yn deillio'n sylweddol o weithrediad cynlluniau sy'n seiliedig ar risg a gynhyrchir o fframwaith sicrwydd cadarn a arweinir gan y sefydliad. Un gydran yw'r fframwaith sicrwydd y mae'r bwrdd yn ei hystyried wrth wneud ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.<br>• Mae'r farn yn seiliedig ar ganfyddiadau a chasgliadau'r aseiniadau archwilio y cytunwyd arnynt, ac a oedd wedi'u cyfyngu i'r amcanion a'r cwmpas y cytunwyd arnynt â'r rheolwyr.<br>• Pan fo rheolaethau cryfion wedi'u canfod a'u cadarnhau, mae'n bosibl y gallai fod amhariad ar eu heffeithiolrwydd mewn rhai achosion. Gall hyn fod o ganlyniad i gamgymeriadau pobl, penderfyniad rheoli anghywir, diystyru gan reolwyr, osgoi rheolaethau, neu lai o gydymffurfiaeth.<br>• Oherwydd cwmpas cyfyngedig yr aseiniadau archwilio unigol, efallai y bydd gan rai rheolaethau wendidau nad ydym yn ymwybodol ohonynt, neu rai na chawsom wybod amdanynt.<br>• Mae'r pwyntiau a godir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r materion a welsom wrth gynnal gwasanaeth archwilio mewnol yn unig. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr o'r holl wendidau neu welliannau posibl. Mae'r rheolwyr yn gyfrifol am |

| Maes Allweddol | Crynodeb |
| --- | --- |
| | gynnal system gadarn o reolaethau mewnol, ac ni ddylid defnyddio archwilio mewnol fel yr unig sail ar gyfer nodi'r holl gryfderau a gwendidau.<br>• Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi at ddefnydd y Pwyllgor Archwilio a'r Awdurdod Tân yn unig. |
| Cwmpas ac Allbynnau Archwilio a Gynlluniwyd | Mae Cynllun Archwilio Mewnol 2024/25 wedi'i gyflawni gan ganolbwyntio ar ddarparu eich Barn Pennaeth Archwilio Mewnol. Adroddwyd am y sefyllfa hon yn yr adroddiadau cynnydd dros y flwyddyn ariannol. Mae cwmpas yr adolygiad wedi canolbwyntio ar:<br>• Fframwaith Sicrwydd y sefydliad<br>• Adolygiadau craidd a mandadol, gan gynnwys gwaith dilynol; ac<br>• Amrywiaeth o adolygiadau sicrwydd unigol sy'n seiliedig ar risg. |
| Argymhellion / Camau gan y Rheolwyr | Rydym wedi nodi 18 o argymhellion fel rhan o'r adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod 2024/25. Mae'r rheolwyr wedi derbyn yr holl argymhellion a godwyd gan MIAA, ond nid yw MIAA wedi dilyn eu hynt eto gan nad yw'r dyddiadau gweithredu disgwyliedig wedi cyrraedd eto.<br>• O’r argymhellion hyn: Roedd 0 yn gritigol, a 4 yn argymhellion risg uchel mewn perthynas â'r adolygiadau o Reoli Risg.<br>• Ar ddechrau blwyddyn 2024/25, roedd 8 argymhelliad o flynyddoedd blaenorol heb eu gweithredu. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynnal adolygiadau dilynol a gallwn ddod i'r casgliad bod y sefydliad wedi rhoi 2 gam gweithredu ar waith yn ystod 2024/25.<br>• Cyfanswm nifer yr argymhellion o flynyddoedd blaenorol sydd heb eu gweithredu yw 6, ac o'r rhain mae 1 yn risg uchel sy'n ymwneud â'r adolygiad Rheolaethau Sefydliadol Seiber. Nid oedd yr un o'r 6 argymhelliad sydd heb gael eu gweithredu (ac sy'n ymwneud â'r adolygiad Rheolaethau Sefydliadol Seiber) yn hwyr hyd yma, ac mae tystiolaeth wedi'i darparu i gadarnhau bod y rhain wedi'u gweithredu'n rhannol. Byddwn yn mynd ar drywydd y rhain eto yn Chwarter 2 2025/26. |
| Dangosyddion Ansawdd Gwasanaeth MIAA | Mae MIAA yn gweithredu systemau i Safonau Ansawdd ISO. Mae'r Asesiad Ansawdd Allanol, a gynhaliwyd gan CIPFA (2020), yn rhoi sicrwydd o gydymffurfiaeth lawn MIAA â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Rydym hefyd yn |

| Maes Allweddol | Crynodeb |
|---|---|
| | cynnal asesiadau mewnol rheolaidd i sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gwblhau ein hunanasesiad blynyddol o gydymffurfiaeth â PSIAS a gallwn barhau i gadarnhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau hyn.<br><br>Mae MIAA wedi ymrwymo i ddarparu ac arddangos y safonau uchaf o lywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch i ddiogelu nid yn unig ein gwybodaeth a'n systemau ond hefyd y data rydym yn ei gasglu a'i greu trwy ein gweithgareddau archwilio a chynghori gyda chleientiaid.<br><br>Rydym wedi cyflwyno ffurflen Pecyn Cymorth Diogelwch a Diogelu Data y GIG sy'n cydymffurfio yn gyson ac rydym yn un o ddim ond tua 20 o sefydliadau'r GIG sydd wedi'u hardystio i safon Cyber Essentials Plus. Roedd sicrhau ardystiad i'r safon hon yn gofyn am brofion annibynnol trylwyr o'n rheolaethau seiberddiogelwch ar draws ein dyfeisiau. Mae'r ffaith ein bod wedi cael yr ardystiad hwn nid yn unig yn dangos diogelwch ein dyfeisiau ond hefyd yn dilysu'r monitro a'r cynnal a chadw rhagweithiol sydd gennym ar waith i amddiffyn data a systemau rhag bygythiadau maleisus. |

# 2 Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

Mae eich gwasanaeth archwilio mewnol wedi'i gyflawni yn unol â methodoleg archwilio mewnol MIAA sy'n cydymffurfio â PSIAS. Mae PSIAS yn mynnu ein bod yn cydymffurfio â gofynion moesegol perthnasol, gan gynnwys gofynion annibyniaeth, a'n bod yn cynllunio ac yn cyflawni ein gwaith i gael tystiolaeth ddigonol, briodol i seilio ein casgliad arni.

## 2.1 Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'r Awdurdod Tân yn atebol ar y cyd am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol ac mae'n gyfrifol am wneud trefniadau i gael sicrwydd am effeithiolrwydd y system gyffredinol honno.

Mae’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ddatganiad blynyddol gan y Swyddog Atebol ar ran yr Awdurdod Tân, sy'n nodi:

- sut mae cyfrifoldebau unigol y Swyddog Atebol yn cael eu cyflawni o ran cynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion;
- diben y system rheolaeth fewnol trwy gyfrwng disgrifiad o'r prosesau rheoli ac adolygu risg, gan gynnwys proses y Fframwaith Sicrwydd; a’r
- modd y cynhelir yr adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol a’i ganlyniadau, gan gynnwys unrhyw ddatgeliadau o fethiannau rheoli sylweddol ynghyd â sicrwydd bod camau gweithredu yn cael eu cymryd neu y byddant yn cael eu cymryd lle bo hynny'n briodol i fynd i'r afael â’r materion sy'n codi.

Dylai fframwaith sicrwydd y sefydliad ddwyn ynghyd yr holl dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi gofynion y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Yn unol â PSIAS, mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddarparu barn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg a llywodraethu risg y sefydliad (h.y. system rheolaeth fewnol y sefydliad), a hynny yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd ac yn gyfyngedig i’r gwaith hwnnw. Cyflawnir hyn drwy gynllun gwaith sy'n seiliedig ar risg, y cytunwyd arno gyda'r rheolwyr a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, a all roi sicrwydd, yn amodol ar y cyfyngiadau cynhenid a ddisgrifir isod. Mae canlyniadau a manylion cyflawni’r cynllun archwilio mewnol i’w cael yn Adran 4.

# 3 Yr Hyn sy'n Dylanwadu ar ein Barn

## 3.1 Sail y Farn

Dyma'r sail y ffurfiwyd ein barn arni:

| | |
|---|---|
| 1 | Asesiad o ddyluniad a gweithrediad y gwaith llywodraethu strategol sylfaenol, trefniadau rheoli risg a phrosesau ategol. |
| 2 | Asesiad o'r ystod o sicrwydd unigol sy'n deillio o'n haseiniadau archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg a nodwyd drwy gydol y cyfnod. Mae'r asesiad hwn wedi ystyried perthnasedd cymharol y systemau a adolygwyd a chynnydd y rheolwyr o ran mynd i'r afael â'r gwendidau rheoli a nodwyd. |
| 3 | Asesiad o ymateb y sefydliad i argymhellion Archwilio Mewnol, a'r graddau y maent wedi'u gweithredu. |

## 3.2 Sylwadau

Mae'r sylwadau isod yn darparu'r cyd-destun ar gyfer ein barn ac ynghyd â'r farn dylid eu darllen yn eu cyfanrwydd.

Mae ein barn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, gan gynnwys y ddau ddyddiad hynny, ac mae'n seiliedig ar y gwaith a wnaed drwy'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg.

**A) Fframwaith Sicrwydd**

Mae adolygiad Rheoli Risg wedi'i gynnal yn 2024/25 a arweiniodd at roi lefel sicrwydd gyfyngedig. Codwyd pum argymhelliad ac mae disgwyl iddynt gael eu cwblhau ym mis Medi 2025; mae'r rhain yn ymwneud â chwblhau Strategaeth Rheoli Risg ar gyfer y Gwasanaeth, adolygu cofrestrau risg, trefniadau goruchwylio ac adrodd, a darparu hyfforddiant rheoli risg. Byddwn yn dilyn hynt yr argymhellion hyn yn 2025/26 fel rhan o'n gwaith dilynol.

**B) Adolygiadau Craidd ac Adolygiadau yn Seiliedig ar Risg a Gyhoeddwyd**

Dyma'r hyn a gyhoeddwyd gennym:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **0 barn sicrwydd uchel:** | Amh. | 1 barn sicrwydd **gyfyngedig:** | Rheoli Risg |
| **3 barn sicrwydd sylweddol:** | Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hyfforddi<br>Rheolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol<br>Caffael | 0 barn **dim** sicrwydd | Amh. |
| **0 barn sicrwydd cymedrol:** | Amh. | 1 adolygiad heb sgôr sicrwydd: | Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb |

**C) Camau Dilynol**

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cynnal adolygiadau dilynol a gallwn ddod i'r casgliad bod y sefydliad wedi gwneud **cynnydd da** o ran gweithredu argymhellion. Byddwn yn parhau i olrhain a mynd ar drywydd y camau gweithredu sy'n weddill.

*Chris Harrop*
Rheolwr Gyfarwyddwr, MIAA
Mawrth 2025

*Louise Cobain*
Cyfarwyddwr Sicrwydd, MIAA
Mawrth 2025

## 4 Cwmpas ac Allbynnau Archwilio Mewnol

Mae Cynllun Archwilio Mewnol 2024/25 wedi'i gyflawni gan ganolbwyntio ar ddarparu eich Barn Pennaeth Archwilio Mewnol. Adroddwyd am y sefyllfa hon yn yr adroddiadau cynnydd dros y flwyddyn ariannol.

Mae elfen aseiniad archwilio y Farn wedi'i chyfyngu i gwmpas ac amcanion pob un o'r adolygiadau unigol. Mae gwybodaeth fanwl am gyfyngiadau (gan gynnwys cwmpas) yr adolygiadau wedi'i darparu yn yr adroddiadau archwilio unigol a thrwy Adroddiadau Cynnydd y Pwyllgor Archwilio drwy gydol y flwyddyn.

Mae crynodeb o'r adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn i'w weld isod:

| | Adolygiad | Barn Sicrwydd | Argymhellion a Godwyd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Critigol | Uchel | Canolig | Isel | Cyfanswm |
| 1 | Rheoli Risg | Cyfyngedig | - | 4 | - | 1 | 5 |
| 2 | Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hyfforddi | Sylweddol | - | - | 4 | - | 4 |
| 3 | Rheolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol | Sylweddol | - | - | 3 | 3 | 6 |
| 4 | Caffael | Sylweddol | - | - | 2 | 1 | 3 |
| 5 | Cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. |
| | | CYFANSWM | **-** | **4** | **9** | **5** | **18** |

Nid oedd unrhyw argymhellion critigol na risg uchel yn hwyr ar adeg yr adroddiad. Byddwn yn parhau i olrhain cynnydd ar yr holl argymhellion fel rhan o Gynllun Archwilio Mewnol 2025/26.



miaa

| |
|---|
| **CEFNOGAETH AC ARWEINIAD CYNGHOROL:** Meysydd lle mae MIAA wedi cefnogi'r sefydliad i gryfhau trefniadau ynghylch llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. |
| Paratoi ar gyfer gwaith y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) a’r cymorth a roddir mewn perthynas â'r hysbysiadau preifatrwydd. |
| Gwaith ymgysylltu a chefnogaeth a roddwyd gan MIAA Solutions mewn perthynas â’r Ganolfan Hyfforddi. |

| |
|---|
| **CYFRANIAD AT WELLIANNAU LLYWODRAETHU, RHEOLI RISG A RHEOLAETH FEWNOL:** *Meysydd ychwanegol lle mae MIAA wedi darparu cyfraniadau gwerth ychwanegol.* |
| Sicrhau golwg fanwl ar y prosesau Llywodraethu a Sicrwydd cyffredinol drwy gyswllt drwy gydol y flwyddyn gyda'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol / Trysorydd, Uwch Dîm Rheoli a Swyddogion. |
| Ymwneud a pherthynas â'r sefydliad (e.e. presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb). |
| Defnydd effeithiol o archwilio mewnol gan gynnwys cyfathrebu o fewn y flwyddyn, a newidiadau i'r cynllun archwilio mewn perthynas â Chynllun Gweithredu'r Strategaeth Hyfforddi yn hytrach na'r adolygiad o'r Rhestr Ddyletswyddau/System Dyletswydd Amser Cyflawn. |

## 5 Meysydd i'w Hystyried – eich Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae barn y Pennaeth Archwilio Mewnol yn un ffynhonnell sicrwydd sydd gan y sefydliad wrth ddarparu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol, a dylid ystyried sicrwydd gan drydydd partïon eraill hefyd. Yn ogystal, dylai'r sefydliad ystyried sicrwydd annibynnol arall sy'n cael ei ystyried yn berthnasol.

Rydym wedi nodi nifer o heriau strategol eraill y dylai'r Swyddog Atebol eu hystyried ar ran yr Awdurdod Tân wrth ddrafftio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Er y byddai cwmpas y Cynllun Archwilio Mewnol wedi ystyried elfennau o'r rhain, mae'n bwysig bod yr Awdurdod Tân yn adlewyrchu'n ehangach ar sut y dylid cynnwys rhain yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Dyma rai meysydd i'w hystyried:


- Partneriaeth/cydweithio ac ymgysylltu ehangach ar draws Ôl Troed Gogledd Cymru.
- Newidiadau i drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol (gan gynnwys yr effaith ar brosesau gwneud penderfyniadau).
- Arweinyddiaeth y Gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw newidiadau sylweddol i'r Uwch Dîm Rheoli.
- Gallu, ymgysylltiad, lles a datblygiad y gweithlu.
- Sicrhau bod seilwaith addas i'r diben.
- Diogelwch seiber, risgiau llywodraethu gwybodaeth ac unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig y dylid rhoi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth amdanynt.
- Perthynas a rheolaeth darparwyr trydydd parti y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt, a'r sicrwydd a ddarperir ganddynt.
- Cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, safonau a rheoliadau perthnasol a Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2016.
- Arolygiadau ac adborth a gafwyd yn ystod 2024/25, gan gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd datblygu (gan gynnwys yr adolygiad Diwylliant Annibynnol).
- Perfformiad sefydliadol, gan gynnwys heriau wrth gyflawni dyletswyddau ariannol, darparu Cyllidebau yn Seiliedig ar Flaenoriaeth a phwysau gwasanaeth a reolwyd yn ystod y flwyddyn.
- Risgiau a heriau yn sgil gweithio mewn partneriaeth ehangach.

# 6 Sicrhau Ansawdd

Mae strategaeth MIAA yn cadw ansawdd wrth wraidd popeth a wnawn ac mae ein dull cyffredinol o sicrhau ansawdd yn cynnwys achrediad ISO9001:2015, cydymffurfio â PSIAS, ansawdd ein pobl a sut rydym yn eu cefnogi, lefelau staffio, mesurau cydymffurfio a chanlyniadau.

## Safonau ac Achrediadau Proffesiynol

Mae MIAA yn cydymffurfio'n llwyr ag arfer gorau proffesiynol, safonau archwilio mewnol a gofynion cyfreithiol.



## Mesurau darparu gwasanaethau a chanlyniadau

Mae'n bwysig bod sefydliadau cleientiaid yn sicrhau Gwasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol, ac er bod mesurau mewnbwn a phrosesau yn cynnig rhywfaint o sicrwydd, dylai'r pwyslais fod ar ganlyniadau ac effaith y gwasanaeth. Mae'r ffeithlun ar y dudalen hon yn cadarnhau'r mesurau yr ydym ni'n credu eu bod yn dangos gwasanaeth effeithiol i chi.

Mae MIAA yn adrodd yn rheolaidd ar ddangosyddion perfformiad allweddol mewnbwn a phrosesau fel rhan o'n hadroddiadau Cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio, a gellir asesu'r mesurau effaith ac effeithiolrwydd trwy Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol.

**MESURAU MEWNBWN**

- Cyfuniad sgiliau uchel
- % o staff cymwys
- Timau Arbenigol
- Ffioedd Cystadleuol
- Ffocws Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol
- Ymgysylltiad a phresenoldeb lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Perthnasoedd ac Ymgysylltu

**MESURAU PROSES**

- Asesiad Risgiau Strategol a Gweithredol
- Fframwaith Sicrhau Ansawdd
- Prydlondeb adrodd ac ymateb rheolwyr
- Cydymffurfiaeth â PSIAS
- Hyfforddiant a datblygiad staff
- Ymchwil a Datblygu

**GWERTH YCHWANEGOL (EFFAITH AC EFFEITHIOLRWYDD)**

- Darparu sicrwydd mewn meysydd critigol a chymhleth
- Gwybodaeth, Meincnodi a Briffio sy'n tynnu sylw at feysydd i ganolbwyntio arnynt a rhannu arfer gorau
- Digwyddiadau lleol gyda siaradwyr cenedlaethol nodedig a chyfleoedd rhwydweithio
- Rhwydweithiau a Fforymau Cadeiryddion Pwyllgor Archwilio a Chyllid

**Anne-marie Harrop**

Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol

Ffôn: 07920150313

E-bost: Anne-marie.Harrop@miaa.nhs.uk

**Angharad Ellis**

Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol

Ffôn: 07469378328

E-bost: Angharad.Ellis@miaa.nhs.uk

*This document is available in English* Eitem Agenda 7

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Mehefin 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis (MIAA)** |
| Pwnc | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Mehefin 2025** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wnaed gan ddarparwyr archwilio mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), MIAA, ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 ac am y cyfnod hyd at 31 Mai 2025.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith ar gyfer archwilio systemau rheoli. Penodwyd MIAA ym mis Mehefin 2023 i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r Awdurdod.

3 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 yn erbyn y cynllun archwilio mewnol y cytunwyd arno a'r cynnydd hyd at 31 Mai 2025.

4 Mae'r adroddiad a gynhwysir o fewn Atodiad 2 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt sy'n deillio o adroddiadau blaenorol.

## ARGYMHELLION

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2024/25; ac yn
ii) Nodi'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhelliad y cytunwyd arnynt.

## CEFNDIR

6 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

7 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, ac mae'n rhaid hysbysu Aelodau'r Awdurdod am ganfyddiadau'r archwiliad. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn flynyddol.

## GWYBODAETH

8 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod 2024/25 ac yn cadarnhau bod y cynllun y cytunwyd arno wedi'i gyflawni'n llawn.

9 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 2 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd gweithredu'r argymhellion o adroddiadau blaenorol.

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithredu systemau ariannol a reolir yn gywir yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion llesiant yn ogystal â chynaliadwyedd tymor hwy ein gwasanaethau. |
| Cyllideb | Mae sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r prosesau ar gyfer gosod cyllideb yn effeithiol. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Mae'r adolygiad o systemau ariannol allweddol gan gynnwys y gyflogres yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol a bod taliadau yn unol â pholisïau a dulliau y cytunwyd arnynt. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>y Gymraeg | Mae'r arweinydd ymgysylltu o fewn MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd drwy'r prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae'r archwiliad mewnol o brosesau ariannol craidd yn cefnogi nodi a rheoli risgiau yn effeithiol. |

# Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Y Pwyllgor Archwilio (Mehefin 2025)

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

miaa

# Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Negeseuon Allweddol i Sylw'r Pwyllgor Archwilio

Atodiad A: Perfformiad y Contract

Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Atodiad C: Meysydd Allweddol a Chamau Gweithredu i'w Cyflawni

Atodiad D: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

## Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

Cwblhawyd ein gwaith yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac mae'n cydymffurfio â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Arfer Archwilio Mewnol Proffesiynol.

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r cynnydd a wnaed o ran y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26 ac yn dwyn eich sylw at faterion sy'n berthnasol i'ch cyfrifoldebau fel aelodau o'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn rhoi crynodeb o’r gweithgarwch Archwilio Mewnol ac yn cydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Darperir adroddiadau cynhwysfawr sy'n manylu ar ganfyddiadau, argymhellion a’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt i'r sefydliad, ac maent wedi’u cynnwys ym mhapurau’r Pwyllgor Archwilio. Hefyd, adroddir ar y sefyllfa gyfunol o safbwynt y camau dilynol o bryd i’w gilydd i'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Mawrth a 31 Mai 2025.

## 3 Crynodeb Gweithredol

| Adolygiadau Archwilio 2024/25 |
|---|
| Mae'r adolygiadau canlynol wedi'u cwblhau:<br>• Rheoli Risg (Sicrwydd Cyfyngedig)<br>Pan wnaed yr adolygiad, roedd Strategaeth Rheoli Risg ffurfiol ar gyfer y Gwasanaeth wrthi’n cael ei drafftio. Gwelodd adolygiad o’r gofrestr risg fod fformat y gofrestr wedi’i wella. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y gofrestr risg wedi cael ei llenwi’n gyson ar gyfer risgiau, a hynny ar draws y Cofrestrau Risg Strategol a Gweithredol. Hefyd, nid oedd cofnodion cynnydd wedi’u cynnwys gyda’r rhan fwyaf o risgiau a nodwyd ar y gofrestr risg. Er bod rhywfaint o hyfforddiant asesu risg wedi’i roi, dylid cyflwyno’r hyfforddiant yn ehangach. Hefyd, dylid nodi anghenion hyfforddiant rheoli risg yn glir ar gyfer yr holl staff a dylid cytuno ar drefniadau at ddibenion monitro cydymffurfiaeth. Pan wnaed yr adolygiad hwn, roedd y Pwyllgor Risg Strategol wedi cwrdd ddwywaith ers iddo gael ei sefydlu i adolygu ac i oruchwylio'r Cofrestrau Risg Strategol a Gweithredol ar draws y Gwasanaeth. Fodd bynnag, dylid gwella’r ddogfennaeth er mwyn rhoi tystiolaeth o’r trafodaethau, yr heriau, y gwaith craffu a’r dadleuon ynghylch risgiau a geir yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Risg Strategol. Dylai unrhyw faterion sydd angen sylw uwch gael eu cyfeirio i’r Uwch Dîm Arweinyddol.<br>Gweler Atodiad C am fanylion y Meysydd a’r Camau Gweithredu Allweddol i'w Cyflawni |

## Adolygiadau Archwilio 2025/26

Mae'r adolygiadau canlynol ar y gweill:

- Rheoli Asedau Offer (Gwaith Maes)
- Menter Twyll Genedlaethol (Ar y gweill)
- Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb (pan mae'n ofynnol)

## Camau Dilynol

Mae crynodeb o statws presennol yr holl weithgareddau dilynol wedi'i gynnwys fel adroddiad ar wahân.

## Newidiadau i'r Cynllun Archwilio

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio ar gyfer unrhyw newidiadau i'r cynllun gwreiddiol ac amlygir hynny ar wahân isod i hwyluso'r broses fonitro.

- Mae'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol wedi gofyn i amseriad yr adolygiad Cynllunio Busnes gael ei newid i Chwarter 2 2025/26, a bod yr adolygiad Rheoli Asedau Offer yn cael ei symud ymlaen i Chwarter 1 2025/26.

## Gwerth Ychwanegol

### Nodiadau Briffio

Dyma ein nodiadau briffio/blogiau/podlediadau diweddaraf:

- MIAA Blog - Insights from the 2024 NHS Staff Survey

- Key NHS Publications - March 2025
- Summary of NHS Planning Guidance
- Key NHS Publications - February 2025
- 24/25 MIAA Checklist Series - Local Safety Standards for Invasive Procedures (LocSSIPs)
- Key NHS Publications - January 2025
- Cyfrannodd Cyfarwyddwr Sicrwydd MIAA, Louise Cobain, at nodyn briffio diweddaraf HFMA: The value of internal audit | HFMA
- 24/25 MIAA Insight – Wellbeing Reviews Benchmarking
- Key NHS Publications - November 2024
- 24/25 MIAA Insight - EU Artificial Intelligence Act and its wider implications

Digwyddiadau

- Climate Change and the Public Sector – Placing sustainability at the core to deliver better services and support a healthier population (21 Mai 2025): Mae newid yn yr hinsawdd yn fygythiad mawr i'n hiechyd a'n lles ni yn ogystal â'n planed. Mae'r amgylchedd yn newid, ac mae'r newid hwnnw'n cyflymu, ac mae hyn yn cael canlyniadau uniongyrchol ar y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn anad dim ar y bobl hynny sy'n derbyn gofal a chefnogaeth.
- Psychological safety as an enabler to innovation, engagement and productivity (10 Gorffennaf 2025): Byddwn yn clywed gan arbenigwyr yn y maes ac yn ystyried sut mae gwaith arweinwyr yn hanfodol wrth fodelu'r dull hwn. Mae hyn yn golygu ystyried ein rhagfarnau ein hunain, ein ffyrdd o weithio, a'n parodrwydd i dderbyn ansicrwydd a newid.

## Atodiad A: Perfformiad y Contract

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn datgan bod rhaid i'r prif swyddog archwilio gweithredol roi barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gall y sefydliad eu defnyddio fel sail i'w ddatganiad llywodraethu.

**Isod ceir trosolwg o'r gwaith cyflawni ar gyfer Barn eich Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25:**

| Maes Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol | Cytuno ar Gylch Gorchwyl | Statws | Lefel Sicrwydd | Adroddiad y Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Risg | ✓ | Wedi ei gwblhau | Cyfyngedig | Mehefin 2025 |
| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hyfforddi | ✓ | Wedi ei gwblhau | Sylweddol | Rhagfyr 2024 |
| Rheolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol | ✓ | Wedi ei gwblhau | Sylweddol | Rhagfyr 2024 |
| Caffael | ✓ | Wedi ei gwblhau | Sylweddol | Medi 2024 |
| Menter Twyll Genedlaethol (Rhyddhawyd cyfatebiaethau data) | Amh. | Cyhoeddwyd nodyn briffio | Amh. | Mawrth 2025 |
| Cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb | Amh. | Wedi ei gwblhau | Amh. | Amh. |
| Camau Dilynol | | | | |
| Ch1 | Amh. | Wedi ei gwblhau | Amh. | Mehefin 2024 |

| Maes Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol | Cytuno ar Gylch Gorchwyl | Statws | Lefel Sicrwydd | Adroddiad y Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|---|---|
| Ch4 | Amh. | Wedi ei gwblhau | Amh. | Mehefin 2025 |

Os nad ydym ni'n gallu sicrhau digon o ddyfnder neu gwmpas oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, efallai y bydd angen i ni roi rhybudd o hyn gyda'r farn ac egluro'i effaith a beth fydd yn cael ei wneud i adfer y sefyllfa yn y dyfodol.

**Mae'r tabl yn crynhoi gwaith cyflawni eich Barn Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26:**

| Maes Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol | Cytuno ar Gylch Gorchwyl | Statws | Lefel Sicrwydd | Adroddiad y Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Risg - Rheolaethau Craidd | | Cyflawni Ch4 | | Mehefin 2026 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | Amh. | Ar y gweill | | Medi 2025 |
| Systemau Ariannol Allweddol | | Cyflawni Ch3 | | Rhagfyr 2025 |
| Cynllunio Busnes | | Cyflawni Ch2 | | Rhagfyr 2025 |
| Rheoli Asedau Offer | ✓ | Gwaith Maes | | Medi 2025 |
| Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb | Amh. | Yn ôl yr angen | | Amh. |
| Camau Dilynol | | | | |
| Ch1 | Amh. | Wedi ei gwblhau | Amh. | Mehefin 2025 |
| Ch4 | Amh. | Cyflawni Ch4 | | Mehefin 2026 |

## Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Y prif fesur o berfformiad eich archwilydd mewnol yw'r allbynnau sy'n deillio o'r gwaith a wnaed. Mae'r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad i gefnogi'r Pwyllgor wrth asesu perfformiad yr Archwiliad Mewnol.

| Elfen | Adrodd ar Reoleidd-dra | Statws | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol (Cynnydd yn erbyn y Cynllun) | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | Dim materion i'w hadrodd |
| Cyhoeddi Holiadur Boddhad Cleientiaid ar ôl cwblhau pob archwiliad. | Mae pob adroddiad terfynol yn cynnwys holiadur i gasglu adborth cleientiaid | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion a godwyd y cytunwyd arnynt | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion sy'n cael eu gweithredu | Adroddir ar gamau dilynol ddwywaith y flwyddyn | Gwyrdd | |
| Staff Cymwysedig | Blynyddol | Gwyrdd | Mae gan MIAA weithlu tra chymwys ac amrywiol sy'n cynnwys 75% o staff cymwysedig. |
| Ansawdd | Blynyddol | Gwyrdd | Mae MIAA yn gweithredu systemau i Safonau Ansawdd ISO. Mae'r Asesiad Ansawdd Allanol, a gynhelir gan CIPFA, yn rhoi sicrwydd o gydymffurfiaeth MIAA â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae MIAA yn cydymffurfio â Chod Moeseg Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. |

## Atodiad C: Meysydd Allweddol o'n Gwaith a'r Camau Gweithredu i'w Cyflawni

| **Teitl yr Adroddiad** | **Rheoli Risg** | | | |
|---|---|---|---|---|
| Noddwr Gweithredol | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | | | |
| Amcan | Gwerthuso effeithiolrwydd y systemau a'r prosesau rheoli risg. | | | |
| Argymhellion | 0 x Critigol | 4 x Uchel | 0 x Canolig | 1 x Isel |
| Crynodeb | • Penodwyd y Dirprwy Brif Swyddog Tân (fel y manylir yn y Strategaeth Rheoli Risg ddrafft) i fod yn Arweinydd Gweithredol ac yn Uwch Berchennog Risg ar gyfer rheoli risg o fewn y Gwasanaeth.<br>• Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth wedi adolygu a chytuno ar ei ddatganiad ynghylch ei barodrwydd i dderbyn risg, ac mae bellach wedi'i gysylltu â'r amcanion strategol. Cafodd hwn ei ddiweddaru a'i gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2024 gan y Pwyllgor Risg Strategol a chan Banel Gweithredol yr Awdurdod Tân ac Achub.<br>• Datblygwyd Cofrestr Risg Strategol ac mae wedi cael ei rhannu ar sianel Teams arbennig, lle gall holl aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddol a'r rheolwyr risg dynodedig gael gafael arni.<br>• Gwelodd adolygiad MIAA o'r gofrestr risgiau corfforaethol bresennol (fel yr oedd ym mis Mawrth 2025) fod y fformat wedi'i ddiweddaru a'i wella er mwyn cynnwys sgoriau ar gyfer risgiau (gros, gweddilliol a tharged), manylion y rheolaethau sydd ar waith ar hyn o bryd er mwyn lliniaru'r risgiau a nodwyd, y sicrwydd sydd ar gael, a phwy yw'r perchennog risg cyfrifol.<br>• Mae'r Rheolwr Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad a'r Pennaeth Hyfforddiant wedi datblygu ac wedi darparu rhywfaint o hyfforddiant rheoli risg.<br>• Mae hyfforddiant ffurfiol wedi'i gyflwyno yn ddiweddar gan ddefnyddio darparwr allanol. Rhoddwyd hyfforddiant wyneb yn wyneb (o fis Ionawr 2025 ymlaen) gan ddechrau gydag aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddol (Lefel 3). Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi defnyddio "Learnpro" (adnodd hyfforddi ar-lein) ar gyfer hwyluso mathau eraill o hyfforddiant, a chawsom wybod y bydd gwaith yn cael ei wneud i weld a ellid ei ddefnyddio i ddarparu hyfforddiant Rheoli Risg. Mae presenoldeb aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddol mewn hyfforddiant wedi cael ei fonitro er mwyn cofnodi absenoldeb fel y gellir sicrhau bod pawb | | | |

| | |
|---|---|
| | wedi cydymffurfio'n llwyr â'r hyfforddiant. Pan wnaed yr adolygiad, roedd hyfforddiant Lefel 4 ar gyfer aelodau'r ATA yn cael ei drefnu.<br>• Mae adroddiad risg Corfforaethol yn cael ei gynhyrchu gan y Pwyllgor Risg Strategol bob chwarter a chaiff ei rannu gyda'r tîm Gweithredol. Mae hwn yn canolbwyntio ar sefyllfa risg gyffredinol y Gwasanaeth. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys risgiau sydd wedi cael gradd uchel neu uchel iawn gan yr Adran.<br>• Fe wnaeth y Pwyllgor Risg Strategol adolygu'r Gofrestr Risg Strategol ym mis Chwefror 2025, gan gynnwys yr holl risgiau â sgôr o 15 neu fwy.<br>• Cadarnhaodd adolygiad MIAA o bapurau cyfarfod Rhagfyr 2024 ar gyfer Panel Gweithredol yr ATA fod diweddariad wedi'i roi mewn perthynas â Rheoli Risg Strategol. Roedd hyn yn cynnwys diweddariad ar ddatblygiad y prosesau rheoli risg, amlinelliad o'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg drafft, a throsolwg o'r Gofrestr Risg Strategol. |
| Meysydd Allweddol y Cytunwyd i Weithredu Arnynt | • Pan wnaed yr adolygiad, roedd Strategaeth Rheoli Risg ffurfiol ar gyfer y Gwasanaeth wrthi'n cael ei drafftio. (Risg Uchel)<br>• Nododd adolygiad o'r gofrestr risg (dyddiedig Mawrth 2025) na chwblhawyd fformat y gofrestr risg yn gyson ar gyfer risgiau ar draws y Cofrestrau Risg Strategol a Gweithredol e.e. rheolaethau cyfredol, sicrwydd ar waith, bylchau mewn rheolaeth/sicrwydd a chynlluniau gweithredu. Hefyd, nid oedd diweddariadau cynnydd wedi'u cofnodi ar gyfer y rhan fwyaf o'r risgiau yn y gofrestr risg (roedd hyn hefyd yn wir am 4 o 6 risg yn y Gofrestr Risg Strategol). (Risg Uchel)<br>• Gwelodd adolygiad o bapurau'r Pwyllgor Risg Strategol nad oedd cofnodion o'r cyfarfodydd wedi'u cadw. O ganlyniad, ni allem gadarnhau pa drafodaethau a gynhaliwyd nac ychwaith lefel yr her, craffu a dadl a gafwyd mewn perthynas â risgiau. Hefyd, wrth adolygu cofnodion cyfarfodydd diweddar yr Uwch Dîm Arweinyddol, ni allem gadarnhau bod materion mewn perthynas â rheoli risg wedi'u huwchgyfeirio'n briodol o'r Pwyllgor Risg Strategol e.e. diffyg diweddariadau cynnydd a chamau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd. (Risg Uchel)<br>• Nid oes gan y Gwasanaeth Ddadansoddiad o'r Anghenion Hyfforddi (TNA) ffurfiol ar gyfer Rheoli Risg. Er bod ein hadolygiad wedi nodi bod rhywfaint o hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi'i roi i aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddol (Lefel 3), dylid cyflwyno'r ddarpariaeth hyfforddi i Lefelau 1, 2 a 4 hefyd. Dylid cytuno ar y trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth hefyd. (Risg Uchel)<br>• Pan wnaed yr adolygiad, roedd Cylch Gwaith y Pwyllgor Risg Strategol ar ffurf ddrafft ac roedd angen cytundeb ffurfiol arno gan yr Uwch Dîm Arweinyddol. (Risg Isel) |

## Atodiad D: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| Uchel | Mae system gref o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gyflawni amcanion y system, ac mae rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson ym mhob maes a adolygwyd. |
| Sylweddol | Mae system dda o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y system, ac mae rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson yn gyffredinol. |
| Cymedrol | Mae system ddigonol o reolaeth fewnol; ond mewn rhai meysydd mae gwendidau o ran dylunio a/neu gymhwyso rheolaethau'n anghyson yn peryglu cyflawni rhai agweddau ar amcanion y system. |
| Cyfyngedig | Mae'r system o reolaeth fewnol dan fygythiad gan fod gwendidau wrth ddylunio a / neu weithredu mesurau rheolaeth yn anghyson yn peryglu cyflawni amcanion y system. |
| Dim | Mae system annigonol o reolaeth fewnol gan y gallai gwendidau rheolaeth a/neu ddiffyg cydymffurfio cyson â rheolaethau arwain at fethu â chyflawni amcanion y sefydliad, neu bod hynny eisoes wedi digwydd. |

| Sgôr Risg | Rhesymeg Asesu |
|---|---|
| Critigol | Gwendid rheoli a allai gael effaith sylweddol nid yn unig ar amcanion y system, swyddogaeth neu broses ond hefyd ar gyflawni amcanion y sefydliad mewn perthynas â:<br>• defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau<br>• diogelu asedau<br>• paratoi gwybodaeth ariannol a gweithredol ddibynadwy<br>• cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. |
| Uchel | Gwendid rheoli sydd wedi neu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses. Nid yw'r gwendid hwn, er ei fod yn cael effaith fawr o ran y system, swyddogaeth neu broses, yn cael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad. |
| Canolig | Gwendid rheoli:<br>• sy'n cael effaith fach ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses;<br>• sydd wedi golygu bod y system, swyddogaeth neu'r broses yn agored i risg allweddol, ond mae'r tebygolrwydd y bydd y risg hon yn digwydd yn isel. |
| Isel | Gwendid rheoli nad yw'n effeithio ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses; fodd bynnag, byddai gweithredu'r argymhelliad yn gwella rheolaeth gyffredinol. |

## Cyfyngiadau

Dim ond y materion a ddaeth i'n sylw yn ystod ein gwaith archwilio mewnol yw’r rhai a godir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac o'r holl welliannau y gallai fod angen eu gwneud. Er bod pob gofal wedi'i gymryd i sicrhau bod yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn mor gywir â phosibl, yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd a'r ddogfennaeth a adolygwyd, ni ellir rhoi gwarant gyflawn o ran y cyngor a'r wybodaeth a gynhwysir yma. Nid yw ein gwaith yn rhoi sicrwydd llwyr nad oes gwallau, colled na thwyll materol yn bodoli.

Mae'r cyfrifoldeb dros system gadarn o reolaethau mewnol ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall yn parhau i fod yn nwylo’r rheolwyr ac ni ddylid dibynnu ar waith a gyflawnir gan archwiliad mewnol i nodi'r holl gryfderau a gwendidau mewn rheolaethau mewnol, na dibynnu arno i nodi pob amgylchiad o dwyll neu afreoleidd-dra. Mae’n bwysig bod rheolwyr yn gweithredu ein hargymhellion yn effeithiol ac yn amserol er mwyn cynnal system reoli fewnol ddibynadwy.

Mae adroddiadau a baratowyd gan MIAA yn cael eu paratoi at eich defnydd chi yn unig ac nid yw MIAA na'r archwilwyr yn cymryd cyfrifoldeb ar gyfer unrhyw gyfarwyddwr neu swyddog yn rhinwedd eu swyddogaeth unigol. Ni dderbynnir atebolrwydd i unrhyw drydydd parti gan nad yw’r adroddiad wedi’i baratoi ar gyfer, ac nid yw wedi’i fwriadu ar gyfer, unrhyw ddiben arall ac ni fydd gan berson nad yw’n barti i’r cytundeb ar gyfer darparu Archwiliad Mewnol unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

**Anne-marie Harrop**

Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol

Ffôn: 07920 150313

E-bost: Anne-marie.harrop@miaa.nhs.uk

**Angharad Ellis**

Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol

Ffôn: 07469 378328

E-bost: Ann.ellis@miaa.nhs.uk

miaa

# Adroddiad Neilltuo Gwaith Dilynol ar Argymhellion 2025/26

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Mehefin 2025

# Cynnwys

1 Crynodeb Gweithredol

2 Crynodeb o'r Canfyddiadau

3 Argymhellion Lefel Critigol / Uchel sydd heb eu Cyflawni

Atodiad A: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

Atodiad B: Rhestr Ddosbarthu’r Adroddiad

Hoffai MIAA ddiolch i’r holl staff am eu cydweithrediad a’u cymorth wrth gwblhau’r adolygiad hwn.

Mae’r adroddiad wedi’i baratoi fel y’i comisiynwyd gan y sefydliad, ac mae at eich defnydd chi yn unig. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r adolygiad hwn, cysylltwch â'r Rheolwr Ymgysylltu.  I drafod unrhyw faterion eraill, cysylltwch â’r Cyfarwyddwr.

## 1 Crynodeb Gweithredol

Rhan allweddol o'r gwaith a wna MIAA fel eich archwilwyr mewnol yw'r argymhellion ar sut i wella a chryfhau llywodraethiant, rheolaeth risg, a rheolaethau'r sefydliad er mwyn eich cefnogi i gyflawni eich amcanion. Rhaid gwneud gwaith dilynol i olrhain cynnydd y camau gweithredu y cytunwyd arnynt, a hynny i wirio bod manteision yr argymhellion yn cael eu gwireddu ac er mwyn asesu:

- A yw'r argymhellion wedi'u gweithredu ynteu a ydynt wedi cael eu disodli gan ddigwyddiadau diweddarach; ac
- A gafodd y camau gweithredu yr effaith a fwriadwyd?

Mae'r camau dilynol hyn, felly, yn agwedd hanfodol o'r broses archwilio mewnol, ac mae ailymweld â'r gwaith a neilltuwyd yn flaenorol yn rhan o'n polisi ni yn unol â'r cynllun Archwilio Mewnol.

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn nodi pa feysydd ac argymhellion a arolygwyd y tro hwn ac yn dangos lefel y cynnydd a wnaed. Mae ein hadolygiad yn cadarnhau bod cynnydd da wedi digwydd o ran gweithredu argymhellion.

## 2 Crynodeb o'r Canfyddiadau

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn nodi pa feysydd ac argymhellion a adolygwyd y tro hwn ac yn dangos lefel y cynnydd a wnaed.

| Adroddiad Archwilio | Cyfanswm Argymhellion i'w | Wedi' u gweithredu | Yn rhannol | | | | Heb eu gweithredu | | | | Wedi eu disodli/Wedi'u gwrthod | | | | Heb eu dilyn hyd yma | | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | C | H | M | L | C | H | M | L | C | H | M | L | C | H | M | L | |
| 2023/24 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Rheolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol | 2 | 2 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | Mae'r holl argymhellion bellach wedi'u gweithredu. |
| Adolygiad o'r Rheolaethau Sefydliadol Seiber | 6 | - | - | 1 | 5 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | Mae 6 argymhelliad wedi'u gweithredu'n rhannol mewn perthynas â'r camau canlynol:<br>• Rheoli ac ymateb i ddigwyddiadau a rhoi adroddiadau am fygythiadau (***Uchel***)<br>• Ymgorffori seiberddiogelwch, datblygu diwylliant seiberddiogelwch cadarnhaol a chynyddu arbenigedd seiber (***Canolig***)<br>• Rheolaeth trydydd parti/partner (***Canolig***)<br>• Adnabod asedau seiber (***Canolig***) |

| Adroddiad Archwilio | Cyfanswm Argymhellion i'w | Wedi'u gweithredu | Yn rhannol | | | | Heb eu gweithredu | | | | Wedi eu disodli/Wedi'u gwrthod | | | | Heb eu dilyn hyd yma | | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | C | H | M | L | C | H | M | L | C | H | M | L | C | H | M | L | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | • Cyfundrefn seiberddiogelwch (***Canolig***)<br>• Mesurau seiberddiogelwch (***Canolig***)<br>Dyddiadau gweithredu diwygiedig – Ebrill 2025<br>Bydd ein Tîm Sicrwydd Risg Technoleg yn ailedrych ar yr argymhellion hyn yn Ch2 2025/26 a bydd diweddariad yn y Pwyllgor Archwilio nesaf ym mis Medi 2025.<br>Swyddog Cyfrifol – Pennaeth TGCh |
| 2024/25 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Caffael | 3 | 2 | - | - | - | 1 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | Mae 1 argymhelliad wedi'i weithredu'n rhannol mewn perthynas â'r camau canlynol:<br>• Proses â llaw ar gyfer contractau (***Isel***)<br>Dyddiad gweithredu diwygiedig – Diwedd Chwarter 2 2025/26<br>Swyddog Cyfrifol – Rheolwr Caffael a Chytundebau / Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael |

| Adroddiad Archwilio | Cyfanswm Argymhellion i'w | Wedi'u gweithredu | Yn rhannol | | | | Heb eu gweithredu | | | | Wedi eu disodli/Wedi'u gwrthod | | | | Heb eu dilyn hyd yma | | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | C | H | M | L | C | H | M | L | C | H | M | L | C | H | M | L | |
| Rheolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol | 6 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 3 | 3 | Byddwn yn ailedrych ar yr argymhellion hyn fel rhan o'r adolygiad Rheolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol a drefnwyd ar gyfer Chwarter 3 2025/26. |
| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hyfforddi | 4 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 4 | - | Nid oes yr un o'r dyddiadau gweithredu wedi mynd heibio eto (diwedd Chwarter 1 2025/26) |
| Rheoli Risg | 5 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 4 | - | 1 | Nid oes yr un o'r dyddiadau gweithredu wedi mynd heibio eto (Medi 2025) |
| **CYFANSWM** | 26 | 4 | - | 1 | 5 | 1 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 4 | 7 | 4 | |

## 3 Argymhellion Lefel Critigol / Uchel sydd heb eu Cyflawni

| Enw’r Adolygiad | Argymhelliad | Swyddog Cyfrifol (Teitl) |
|---|---|---|
| Adolygiad o’r Rheolaethau Sefydliadol Seiber | Rheoli ac ymateb i ddigwyddiadau a rhoi adroddiadau am fygythiadau<br><br>Argymhelliad – 1. Ffurfioli / gweithredu cynllun i ddiweddaru Cynlluniau Ymateb i Ddigwyddiadau a'r Cynllun Parhad Busnes (BCP) / Cynllun Ymateb Seiber.<br><br>2. Amserlennu / gweithredu amserlen i brofi cynlluniau / llawlyfrau’r Cynllun Parhad Busnes a chynnwys cynrychiolaeth o Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Fel rhan o'r profion, adolygu’r rolau a'r cyfrifoldebau, y ddogfennaeth a'r sicrwydd cysylltiedig ynghylch trefniadau gwytnwch. Cofnodi’r gwersi a ddysgwyd yn ffurfiol.<br><br>3. Tystiolaeth wedi'i diweddaru yn dogfennu cynlluniau / amserlenni adfer wedi trychinebau seiber / TG / ymateb i ddigwyddiadau i sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli digwyddiad system gyfan yn cael eu deall ac ar gyfer sicrhau bod cyfathrebiadau yn effeithiol.<br><br>4. Cyhoeddi polisi ymateb i ddigwyddiadau cyffredinol cymeradwy ar draws yr holl ddarparwyr. I gynnwys:-<br><br>a. diffiniad o beth yw digwyddiad seiber.<br><br>b. cysylltiadau allweddol a’r llwybrau hysbysu ar gyfer pob ardal / trydydd partïon / y rhanbarth / yn genedlaethol fel NCSC<br><br>c. blaenoriaethau gwasanaeth / asedau IAR critigol y cytunodd Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth arnynt.<br><br>d. asedau critigol a rhestr adfer system gritigol yn seiliedig ar flaenoriaethau gwasanaeth.<br><br>e. llwybrau uwchgyfeirio rhwng Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth / TGCh ar gyfer digwyddiadau seiber a’r awdurdod i gymeradwyo / targedu grwpiau i wneud penderfyniadau fel cymeradwyo costau fforensig.<br><br>f. Rhestr ddosbarthu cynghori ynghylch digwyddiadau / hysbysiadau diogelwch | Cyfrifoldeb am Weithredu – Pennaeth TGCh<br><br>Dyddiad cau gwreiddiol ar gyfer gweithredu –<br>1. Mawrth 24<br>2. Hydref 24<br>3. Gorffennaf 24<br>4. Gorffennaf 24<br>5. parhaus<br>6. parhaus<br>7. Hydref 24<br>8. Mawrth 24<br>9. Ebrill 25<br>10. Mehefin 24<br>11. Ebrill 25<br>12. a) Mehefin 24 – cafwyd trafodaeth<br>b) tystiolaeth o’r dangosfyrddau – dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Dyddiad cau diwygiedig ar gyfer gweithredu – diwedd Ebrill 2025<br><br>Bydd ein Tîm Sicrwydd Risg Technoleg yn ailedrych ar yr argymhellion hyn yn Ch2 2025/26 a bydd diweddariad yn y Pwyllgor Archwilio nesaf ym mis Medi 2025. |

g. cyd-fynd â phrosesau diweddaru diogelwch.

h. ffurfioli'r cysylltiad rhwng dysgu gwersi o ddigwyddiadau a'r cynllun i ddadansoddi anghenion hyfforddi.

5. Adolygu a sicrhau bod trefniadau cymorth cyflenwyr / Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn rhoi sylw priodol o ran rheoli digwyddiadau ac adroddiadau sicrwydd diogelwch. Parhau i weithio gyda Pherchnogion Asedau Gwybodaeth (IAO) i sicrhau bod cynlluniau lleol yn cael eu deall ac yn cyd-fynd ag amcanion y busnes.

6. Cyhoeddi a chymeradwyo strategaeth TGCh / Digidol yn ôl y cynllun.

7. Dogfennu'r polisi cofnodi a monitro (a chadw data) a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r strategaeth TGCh newydd. Er enghraifft, er mwyn gallu gorfodi erlyniadau a / neu i allu dwyn cyflenwyr / staff i gyfrif.

8. Ffurfioli a chyhoeddi cynllun digidol ar gyfer y dyfodol gan gynnwys, er enghraifft, rheoli / cynnal datrysiadau yn barhaus, manylion prosiectau arfaethedig / rhaglenni peilot / gwelliannau megis mwy o awtomeiddio / sgriptio, segmentu / profi rhwydwaith ychwanegol, adolygiad rheolaidd o drefniadau ar alwad / setiau offer ategol, ac ati.

9. Amserlennu / gweithredu hyfforddiant CIPR, fel y bo'n briodol, ac adolygu'r disgrifiad swydd ar gyfer y Rheolwr Digwyddiadau.

10. Parhau i gasglu tystiolaeth bod adroddiadau am fygythiadau'n cael eu gwneud yn rheolaidd a'u hadrodd i'r grŵp llywodraethu priodol.

11. Trefnu profion treiddio rheolaidd a chasglu tystiolaeth o gynnydd yn erbyn cynlluniau gwella cysylltiedig o ganlyniad i'r profion / sganiau / adolygiadau hyn.

12. Casglu tystiolaeth o raddnodi dangosfyrddau datrysiadau yn erbyn ei gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd.

Ymateb y Rheolwyr (Cytunwyd ar Gamau Adferol) –

1. Bydd y cynllun yn cael ei ffurfio ar y cyd â'r strategaeth adrannol flynyddol (sy'n cael ei drafftio ar hyn o bryd). Disgwylir fersiwn derfynol yn Chwefror 2024 (i'w gadarnhau)

2. Pennaeth TGCh i gynhyrchu llawlyfr ar y cyd â'r tîm seilwaith gyda'r targed o gynnal ymarferiad bwrdd erbyn diwedd Ch2 24/25 ar y cyd â’r Pwyllgor Llywio Gwybodaeth (ISC). Mae ISC yn cynnwys cynrychiolwyr o Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth o'r Ystafell Reoli, yr Ochr Weithredol, TGCh, a phrif swyddog.

3. Mae Cynllun Ymateb Seiber Cymru Gyfan yn cael ei lunio gan y Fforwm Gwydnwch Lleol (dan arweiniad Heddlu Gogledd Cymru). Unwaith y caiff hwn ei ddosbarthu, bydd GTAGC yn addasu ei weithrediadau technolegol ei hun. Nid oedd yn bosibl sefydlu dyddiad cyhoeddi ar hyn o bryd, er y disgwylir iddo ddigwydd cyn diwedd 23/24. Mae disgwyl Cynllun Ymateb Seiber drafft hanner ffordd trwy'r flwyddyn ganlynol (2024).

4. Fel yr uchod

5. Pennaeth TGCh i weithio gyda rheolwyr goruchwylio TGCh ac i adolygu wrth i gontractau gael eu hadnewyddu yn ystod 24/25, neu yn ystod adolygiadau contract ar gyfer contractau aml-flwyddyn.

6. Gweler pwynt 1

7. Pennaeth TGCh i weithio gyda'r Rheolwr Seilwaith i lunio polisi sy'n barod am ymgynghoriad erbyn diwedd Ch2 24/25.

8. Pennaeth TGCh i weithio gyda rheolwyr TGCh goruchwyliol i ddatblygu strategaeth 1 a 5 mlynedd gan gynnwys datblygiadau technolegol a phrofion seiberddiogelwch. I’w ddisgwyl erbyn diwedd blwyddyn 23/24 (Mawrth).

9. Pennaeth TGCh i gyflwyno cais ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 25/26, gyda'r posibilrwydd o ddod â hyfforddiant ymlaen os yw’r gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer 24/25 ddigon hyblyg.

10. Gweithgor Seiberddiogelwch i'w ffurfioli ar ddechrau'r flwyddyn 24/25 a bydd y Cylch Gwaith yn cynnwys hyn.

11. Pennaeth TGCh i gyflwyno cais ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 25/26, gyda'r posibilrwydd o ddod â hyfforddiant ymlaen os yw'r gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer 24/25 ddigon hyblyg. Rhaid ystyried a oes gan y tîm seilwaith ddigon o gapasiti i ymgymryd â'r gwaith hwn hefyd.

12. Bydd angen cynnal trafodaethau gyda'r Rheolwr Seilwaith ynglŷn â hyn yn Ch1 24/25, nid oedd hyn yn bosibl pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn.

Diweddariad Mawrth 2025 – Mae Rhannau 6, 8, 10 a 12 wedi'u cwblhau.

1. Cawsom ein cynghori bod y fersiwn cyntaf o'r Cynllun Gweithredu Ymateb Seiber wedi'i greu. Roedd disgwyl i ddrafft gael ei gyflwyno i'r ISC erbyn diwedd cyfnod 2024/25.

2. Clywsom y byddai'r llawlyfr yn cael ei ddrafftio unwaith y bydd y Cynllun Gweithredu Ymateb Seiber wedi'i gymeradwyo, sy'n debygol o fod yn seiliedig ar ymarferiad NCSC 'mewn bocs'. Gydag amcanion TGCh 2025/26, cawsom wybod bod cynllun ar gyfer ymarferiad pen desg Rheoli Parhad Busnes (BCM) yn hanner cyntaf y flwyddyn, gydag ymarferiad bywyd go iawn posibl tua diwedd y flwyddyn. Hefyd, roedd y Pennaeth TGCh wedi ymuno â'r grŵp Rheoli Parhad Busnes newydd.

3. Cawsom ein cynghori bod y ddogfennaeth wedi'i diweddaru ar gynlluniau adfer wedi trychinebau seiber / TG ac ymateb i ddigwyddiadau, gan gynnwys atodlenni sy'n diffinio rolau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli digwyddiadau system gyfan ac i sicrhau cyfathrebu effeithiol, yn cael eu cynnwys fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Ymateb Seiber.

4. Cawsom ein cynghori bod elfennau'r polisi ymateb i ddigwyddiadau cyffredinol yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun Gweithredu Ymateb Seiber.

| Enw'r Adolygiad | Argymhelliad | Swyddog Cyfrifol (Teitl) |
|---|---|---|
| | 5. Cawsom wybod bod y Gwasanaeth yn ymchwilio i gost yr adnodd 'Risk Ledger' erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r costau dangosol (£10-15K) yn cael eu hystyried yn ormod at ddefnydd TGCh yn unig, ond yn ôl sgyrsiau gyda'r rheolwr caffael roedd potensial i'w gyflwyno i'r gwasanaeth cyfan. Roedd sgyrsiau yn parhau ac roedd disgwyl arddangosiad gan Risk Ledger o'r hyn y gall ei wneud.<br><br>Casglu tystiolaeth – adolygu a sicrhau bod trefniadau cymorth cyflenwyr / Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn rhoi sylw priodol o ran rheoli digwyddiadau ac adroddiadau sicrwydd diogelwch. Parhau i weithio gyda Pherchnogion Asedau Gwybodaeth (IAO) i sicrhau bod cynlluniau lleol yn cael eu deall ac yn cyd-fynd ag amcanion y busnes.<br><br>7. Cawsom ein cynghori bod polisi Cofnodi a Monitro yn cael ei ysgrifennu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.<br><br>9. Cawsom ein cynghori bod y Pennaeth TGCh yn mynd i drefnu a mynd ar hyfforddiant CIPR ym mlwyddyn ariannol 25/26, os oes digon o gyllid.<br><br>11. Roedd profion treiddio ar gyfer systemau corfforaethol yn mynd i gael eu trefnu ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, ac mae trefniadau i brofi systemau sensitif fel CAD yn 2024/25. | |

## Atodiad A: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| Uchel | Mae system gref o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gyflawni amcanion y system, ac mae’r rheolaethau’n cael eu gweithredu’n gyson ym mhob maes a adolygwyd. |
| Sylweddol | Mae system dda o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y system, ac mae’r rheolaethau’n cael eu gweithredu’n gyson ar y cyfan. |
| Cymedrol | Mae system ddigonol o reolaeth fewnol; fodd bynnag, mewn rhai meysydd mae gwendidau o ran cynllunio a/neu weithredu rheolaethau’n anghyson yn peryglu cyflawni rhai agweddau ar amcanion y system. |
| Cyfyngedig | Mae’r system o reolaeth fewnol dan fygythiad gan fod gwendidau o ran cynllunio a / neu weithredu mesurau rheolaeth yn anghyson yn peryglu cyflawni amcanion y system. |
| Dim | Mae system annigonol o reolaeth fewnol gan fod gwendidau o ran rheolaeth a/neu ddiffyg cydymffurfio cyson â rheolaethau wedi, neu fe allai, arwain at fethu â chyflawni amcanion y system. |

| Sgôr Risg | Rhesymeg Asesu |
|---|---|
| Critigol | Gwendid rheoli a allai gael effaith sylweddol nid yn unig ar amcanion y system, swyddogaeth neu broses ond hefyd ar gyflawni amcanion y sefydliad mewn perthynas â:<br>• defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau<br>• diogelu asedau<br>• paratoi gwybodaeth ariannol a gweithredol ddibynadwy<br>• cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. |
| Uchel | Gwendid rheoli sydd wedi neu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses. Nid yw'r gwendid hwn, er ei fod yn cael effaith fawr o ran y system, swyddogaeth neu broses, yn cael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad. |
| Canolig | Gwendid rheoli:<br>• sy’n cael effaith fach ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses;<br>• sydd wedi golygu bod y system, swyddogaeth neu'r broses yn agored i risg allweddol, ond mae'r tebygolrwydd y bydd y risg hon yn digwydd yn isel. |
| Isel | Gwendid rheoli nad yw'n effeithio ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses; fodd bynnag, byddai gweithredu'r argymhelliad yn gwella rheolaeth gyffredinol. |

## Atodiad B: Rhestr Ddosbarthu'r Adroddiad

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Y Pwyllgor Archwilio | |

Angharad Ellis
Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol
Ffôn: 07469378328
E-bost: Angharad.Ellis@miaa.nhs.uk

## Cyfyngiadau

Mae adroddiadau a baratowyd gan MIAA yn cael eu paratoi at eich defnydd chi yn unig ac nid yw MIAA na'r archwilwyr yn cymryd cyfrifoldeb ar gyfer unrhyw gyfarwyddwr neu swyddog yn rhinwedd eu swyddogaeth unigol. Ni dderbynnir atebolrwydd i unrhyw drydydd parti gan nad yw'r adroddiad wedi'i baratoi ar gyfer, ac nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer, unrhyw ddiben arall ac ni fydd gan berson nad yw'n barti i'r cytundeb ar gyfer darparu Archwiliad Mewnol unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

## Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

Cwblhawyd ein gwaith yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac mae'n cydymffurfio â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Arfer Archwilio Mewnol Proffesiynol.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Mehefin 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **PSTC Anthony Jones, Trawsnewid, Cynllunio a Pherfformiad** |
| Swyddog Cyswllt | **Y Rheolwr Ardal Paul Kay, Atal a Diogelu** |
| Pwnc | **Diweddariad Diogelu Blynyddol 2024–25** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Mae'r Adroddiad Diogelu Blynyddol hwn yn amlinellu gweithgareddau diogelu Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Mae'n ailddatgan ymrwymiad y Gwasanaeth i ddiogelu unigolion sy'n agored i niwed ledled Gogledd Cymru, gan fanylu ar nifer ac ar natur yr atgyfeiriadau diogelu a wnaed ar gyfer plant ac oedolion mewn perygl. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at staff yn bod yn rhagweithiol wrth adnabod ac ymateb i arwyddion o gamdriniaeth, esgeulustod, a chamfanteisio.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Yn 2024–2025, gwnaed 24 atgyfeiriad diogelu plant a 269 atgyfeiriad diogelu oedolion gan y Gwasanaeth. Er bod nifer yr atgyfeiriadau plant ychydig yn is na'r blynyddoedd blaenorol, roedd atgyfeiriadau oedolion yn parhau i fod yn uchel, gan adlewyrchu'r ffaith bod y Gwasanaeth yn gwneud mwy a mwy o waith diogelu cymunedol. Yn Sir Ddinbych y gwelwyd y gyfradd uchaf o ran atgyfeirio plant, ac yng Nghonwy y gwelwyd y gyfradd uchaf o ran atgyfeirio oedolion.

3 Roedd y Gwasanaeth yn dal i wynebu heriau wrth ddarparu hyfforddiant, a hynny oherwydd gofynion cymwysterau, ond cafodd hyn ei liniaru gan bartneriaethau a llwyfannau dysgu digidol. Mae'r blaenoriaethau strategol ar gyfer 2025 yn cynnwys ymgorffori arweinwyr diogelu ar draws rhanbarthau, gwella systemau data, ac addasu hyfforddiant i gyd-fynd â safonau cenedlaethol. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnal gwelliant parhaus, tryloywder, a chydweithredu aml-asiantaeth.

## ARGYMHELLIAD

4 Argymhellir bod yr Aelodau'n nodi ymrwymiad y Gwasanaeth i:

i) Ehangu gallu hyfforddi mewnol trwy gefnogi staff i gael cymwysterau diogelu uwch;
ii) gwella ymwybyddiaeth o ddiogelu mewn ardaloedd lle ceir cyfraddau atgyfeirio isel, fel Wrecsam ac Ynys Môn, trwy dargedu allgymorth a hyfforddiant;
iii) cryfhau'r gwaith o gasglu a dadansoddi data er mwyn monitro tueddiadau yn well ac i lywio penderfyniadau strategol; a
iv) chyflwyno arweinwyr diogelu swyddogaethol ar draws pob ardal weithredol er mwyn sicrhau cysondeb mewn arfer ac arweinyddiaeth.

## CEFNDIR

5 Mae'r Gwasanaeth yn chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu unigolion agored i niwed trwy gyflawni ei swyddogaethau atal, amddiffyn, ac ymateb brys. Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu o fewn fframwaith cyfreithiol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mae'n gweithio'n agos gyda Byrddau Diogelu Rhanbarthol, awdurdodau lleol, a gwasanaethau iechyd. Mae diogelu yn fater sydd wedi'i ymgorffori yn niwylliant y Gwasanaeth, ac mae'n cael ei gefnogi gan strwythurau llywodraethiant, hyfforddiant, a chydweithrediad rhyng-asiantaethol.

## GWYBODAETH

6 Plant: 24 o atgyfeiriadau yn 2024, gyda Sir Ddinbych yn cyfrif am draean ohonynt. Dim atgyfeiriadau yn Wrecsam nac yn Ynys Môn.

7 Oedolion: 269 o atgyfeiriadau, gyda'r nifer fwyaf yng Nghonwy. Tuedd gynyddol dros bum mlynedd yn arwydd o'r cynnydd yn y gwaith diogelu a wna'r Gwasanaeth.

8 Hyfforddiant: 906 wedi cwblhau hyfforddiant Lefel A; 893 o staff wedi cwblhau hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Gwaith ar y cyd â Chyngor Conwy yn cefnogi cyflwyno Lefel B.

9 Llywodraethiant: Mae goruchwyliaeth gan Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), a thimau archwilio mewnol yn sicrhau cydymffurfiaeth ac atebolrwydd.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r gwaith diogelu yn cefnogi amcanion llesiant GTAGC yn uniongyrchol trwy amddiffyn unigolion sy'n agored i niwed, hyrwyddo cymunedau diogel, a chyfrannu at nodau ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| Cyllideb | Mae darparu hyfforddiant diogelu, ehangu'r capasiti mewnol, a gwella systemau data yn gofyn am fuddsoddiad ariannol. |
| Cyfreithiol | Rhaid i GTAGC gydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac â'r ddeddfwriaeth diogelu gysylltiedig. |
| Staffio | Mae cyfrifoldebau diogelu yn gosod gofynion ychwanegol ar staff, yn enwedig o ran hyfforddiant a rhoi gwybod am achosion. |
| Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / Y Gymraeg | Rhaid i waith diogelu fod yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb, a rhaid iddo barchu hawliau ac anghenion diwylliannol unigolion. |
| Risgiau | Mae'r risgiau allweddol yn cynnwys diffyg rhoi gwybod am achosion mewn rhai ardaloedd, safonau hyfforddi anghyson, a gallu hyfforddi mewnol cyfyngedig. |

# Diweddariad Diogelu Blynyddol 2024–25

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



**Diweddariad Diogelu Blynyddol 2024–25**

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

Mae'r Adroddiad Diogelu Blynyddol hwn yn amlinellu gweithgareddau diogelu Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Mae'n ailddatgan ymrwymiad y Gwasanaeth i ddiogelu unigolion bregus ledled Gogledd Cymru, gan fanylu ar nifer ac ar natur yr atgyfeiriadau diogelu a wnaed ar gyfer plant ac oedolion mewn perygl. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at rôl ragweithiol staff wrth adnabod ac ymateb i arwyddion o gamdriniaeth, esgeulustod a chamfanteisio.

Yn ogystal â data atgyfeirio, mae'r adroddiad yn dangos gwelliannau sylweddol mewn llywodraethiant, hyfforddiant, a chydweithrediad rhyng-asiantaethol o ran diogelu. Mae'n rhoi sicrwydd i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth, yr Awdurdod Tân ac Achub, a'n partneriaid bod cyfrifoldebau diogelu yn cael eu cyflawni yn unol â deddfwriaeth Cymru a chanllawiau cenedlaethol. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i flaenoriaethu gwelliant parhaus, gan sicrhau bod ei arferion diogelu yn esblygu i ddiwallu anghenion sy'n dod i'r amlwg a chynnal y safonau uchaf o ofal ac amddiffyniad.

## 2. Ystadegau Diogelu Plant a Phobl Ifanc

Yn 2024, gwnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) gyfanswm o 24 o atgyfeiriadau diogelu plant ledled y rhanbarth. Sir Ddinbych oedd â'r nifer uchaf gydag 8 atgyfeiriad yn cynrychioli traean o'r cyfanswm. Gall hyn adlewyrchu nifer uwch o bryderon diogelu plant, nodi ac adrodd yn rhagweithiol gan griwiau tân lleol, neu grynodiad o boblogaethau bregus (e.e., ardaloedd â mwy o amddifadedd neu fwy o leoliadau gofal). Cofnododd Conwy a Sir y Fflint 6 yr un, a Gwynedd yn cofnodi 4. Yn nodedig, nid oedd Wrecsam nac Ynys Môn wedi adrodd am unrhyw atgyfeiriadau, gan godi pryderon ynghylch diffyg rhoi gwybod am achosion posibl neu fylchau mewn ymwybyddiaeth ac ymwneud â diogelu yn yr ardaloedd hynny.

Mae'r duedd bum mlynedd yn dangos uchafbwynt yn 2022 (32 o atgyfeiriadau), ac yna gostyngiad graddol i 24 yn 2024. Er y gallai hyn awgrymu gostyngiad mewn digwyddiadau, gallai hefyd adlewyrchu newidiadau mewn arferion adrodd. Y cyfartaledd tair blynedd (2022–2024) yw 28 o atgyfeiriadau, tra bo'r cyfartaledd pum mlynedd (2020–2024) yn 20.8. Mae'r ffigurau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd gwyliadwriaeth barhaus, hyfforddiant wedi'i dargedu, ac arferion diogelu cyson ar draws yr holl awdurdodau unedol i sicrhau nad ydym yn methu â sylwi ar unrhyw blentyn sydd mewn perygl.

## 3. Ystadegau Diogelu Oedolion

Yn 2024, gwnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) gyfanswm o 269 o atgyfeiriadau diogelu oedolion, gan adlewyrchu ymrwymiad cryf y Gwasanaeth i amddiffyn oedolion bregus ledled y rhanbarth. Roedd y nifer uchaf o atgyfeiriadau (77) yng Nghonwy, sy'n cynrychioli bron i 29% o'r cyfanswm. Gall hyn ddangos bod pryderon diogelu yn fwy cyffredin, bod mecanweithiau adrodd yn fwy effeithiol, neu ffactorau demograffig fel poblogaeth hŷn fwy.

Dangosodd Gwynedd (46), Sir Ddinbych (39), a Sir y Fflint (37) lefelau atgyfeirio cymedrol, sy'n awgrymu ymgysylltiad cytbwys, er na ellir diystyru diffyg rhoi gwybod am achosion posibl. Wrecsam (34) ac Ynys Môn (36) oedd â'r nifer lleiaf o atgyfeiriadau, a allai adlewyrchu naill ai lai o ddigwyddiadau neu fylchau wrth ganfod ac adrodd.

Mae'r duedd bum mlynedd yn dangos cynnydd cyson mewn atgyfeiriadau, gan godi o 91 yn 2020 i uchafswm o 275 yn 2023, gyda gostyngiad bach i 269 yn 2024. Mae'r trywydd cynyddol hwn yn dangos rôl gynyddol GTAGC mewn diogelu, gan danlinellu ei swyddogaeth esblygol fel partner allweddol mewn diogelwch cymunedol a gofal cymdeithasol trwy ddull amlasiantaethol.

## 4. Dysgu a Gwella

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn parhau i fod yn ymrwymedig i roi'r wybodaeth a'r cymwyseddau diogelu angenrheidiol i bob aelod o staff. Yn wahanol i lawer o wasanaethau tân ac achub yn y DU sy'n dilyn Lefelau 1–4 Hyfforddiant Diogelu Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, mae GTAGC yn sicrhau bod ei hyfforddiant yn cyd-fynd â Lefelau Diogelu A–F Gofal Cymdeithasol Cymru. Er bod y dull hwn yn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r sector iechyd a gofal cymdeithasol ehangach yng Nghymru, mae wedi cyflwyno heriau gweithredol a strategol, yn enwedig o ran cysondeb, y gallu i gymharu a chynllunio.

Mae fframwaith Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân yn cynnig model sefydledig, haenog a fabwysiadwyd yn eang ar draws gwasanaethau tân y DU, gyda chefnogaeth adnoddau a chanllawiau cenedlaethol. Mewn cyferbyniad, er bod model Gofal Cymdeithasol Cymru yn gynhwysfawr, mae wedi'i gyflwyno'n raddol, gan arwain at oedi ac ansicrwydd wrth ei weithredu. Mae'r gwahaniaeth hwn wedi ei gwneud hi'n anoddach i GTAGC feincnodi safonau hyfforddi yn genedlaethol a sicrhau gallu diogelu unffurf ar draws pob rôl. Bydd mynd i'r afael â'r heriau hyn yn allweddol i gynnal arferion diogelu effeithiol a sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi'n llawn yn eu cyfrifoldebau.

## 5. Effaith Weithredol a Lliniaru

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (NWFRS) yn parhau i wynebu heriau gweithredol wrth ddarparu hyfforddiant diogelu oherwydd y gofyniad bod yn rhaid i hyfforddwyr fod yn gymwys ar lefel uwch na'r un y maent yn ei addysgu. Mae hyn wedi cyfyngu ar y capasiti hyfforddi mewnol, yn enwedig ar gyfer Lefelau B ac uwch, gan nad yw'r cymwysterau ar gael yn llawn eto. Er mwyn lliniaru hyn, mae hyfforddiant Lefel A ar gael yn eang trwy LearnPro a PDRPro, gyda 906 wedi ei gwblhau yn ôl y cofnodion. Yn ogystal, mae GTAGC yn cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i alluogi Swyddogion Diogelu a Rheolwyr Partneriaeth i ddarparu hyfforddiant Lefel B, a fydd yn cael ei gyflwyno i bob aelod o staff sy'n ymwneud â'r cyhoedd.

Mae hyfforddiant diogelu gorfodol bellach ar waith i bob aelod o staff, gyda sesiynau gloywi rheolaidd wedi'u cynllunio. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi gwella ei gyfathrebu mewnol ynghylch diogelu ac wedi egluro beth yw'r llwybrau atgyfeirio i sicrhau gweithredu amserol a phriodol. Mae cyfanswm o 893 o staff wedi cwblhau hyfforddiant Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDA), gan atgyfnerthu ymrwymiad GTAGC i feithrin gweithlu gwybodus.

Mae trosolwg o'r arferion diogelu yn cael ei gynnal trwy gyfuniad o lywodraethiant mewnol ac archwiliadau allanol. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, drwy Archwilio Cymru, yn darparu craffu cyffredinol, tra gall Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a Byrddau Diogelu Rhanbarthol gynnal adolygiadau sy'n benodol i ddiogelu. Mae timau archwilio mewnol hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau cydymffurfiaeth a gwelliant parhaus, gan atgyfnerthu tryloywder ac atebolrwydd ar draws y Gwasanaeth.

## 6. Blaenoriaethau Diogelu a Chyfeiriad Strategol – 2025

Dros y flwyddyn nesaf, bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn ymgorffori diogelwch yn ddyfnach mewn gweithrediadau bob dydd. Bydd ffocws allweddol ar hyfforddi staff i nodi ac ymateb i bryderon diogelu, gan sicrhau bod arweinwyr diogelu cymwys ar gael ar draws ardaloedd y Dwyrain, y Canolbarth a'r Gorllewin. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn anelu at wella sut mae'n cofnodi, adolygu, ac yn dysgu o achosion diogelu i amddiffyn unigolion bregus yn well.

Yn strategol, bydd GTAGC yn cryfhau ei fframwaith diogelu trwy integreiddio arweinwyr diogelu yn swyddogaethol ar draws y sefydliad ac yn sicrhau bod diogelu yn cyd-fynd ag ymdrechion ehangach i leihau risg yn y gymuned. Mae'r blaenoriaethau hyfforddi yn cynnwys ehangu'r capasiti mewnol i ddarparu hyfforddiant Lefel B a pharatoi ar gyfer darpariaeth lefel uwch wrth i gymwysterau ddod ar gael. Bydd gwelliannau mewn casglu data ac adrodd yn gymorth i wneud mwy o graffu a dysgu a chynyddu atebolrwydd.

Er mwyn cefnogi'r nodau hyn, mae GTAGC yn trosglwyddo i fodel swyddog diogelu swyddogaethol, dan arweiniad Swyddog Diogelu pwrpasol. Bydd y strwythur hwn yn cynnig arweinyddiaeth gliriach, ymarfer cyson, ac ymgysylltiad cryfach â phartneriaid allanol. Bydd mecanweithiau llywodraethu cadarn yn cael eu gweithredu i fonitro perfformiad diogelu, nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg, a sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol.

## 7. Casgliad

Mae GTAGC yn mabwysiadu dull rhagweithiol a strwythuredig o ddiogelu, gan sicrhau ei fod nid yn unig yn ofyniad cydymffurfio ond yn rhan greiddiol o ddiwylliant y gwasanaeth. Trwy gynllunio strategol, datblygu staff, a llywodraethiant cryfach, mae'r Gwasanaeth mewn sefyllfa dda i gynyddu'r dylanwad mae'n ei gael drwy ddiogelu ac amddiffyn y rhai mwyaf bregus yng Ngogledd Cymru.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Mehefin 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Adroddiad Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Blwyddyn 2024/25** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am weithgarwch rheoli'r trysorlys ac am gydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2024 hyd at 31 Mawrth 2024.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Ym mis Rhagfyr 2003, mabwysiadodd yr Awdurdod gòd ymarfer *Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus (2021)* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (y Cod CIPFA), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod, ar y lleiaf, gymeradwyo adroddiadau alldro chwarterol a blynyddol ynghylch rheoli'r trysorlys.

3 Roedd Cod CIPFA hefyd yn cynnwys gofyniad newydd i roi adroddiadau chwarterol ar y dangosyddion rheoli trysorlys o fis Ebrill 2023 ymlaen. Mae'r dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhai trysorlys wedi'u cynnwys yn adroddiad monitro refeniw a chyfalaf arferol yr Awdurdod.

4 Cymeradwywyd strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2024/25 mewn cyfarfod ar 18 Mawrth 2024. Gan fod yr Awdurdod yn benthyca ac yn buddsoddi symiau sylweddol o arian, rhaid rhoi ystyriaeth i risgiau ariannol, gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith newid cyfraddau llog ar refeniw. Mae nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn parhau i fod yn ganolog i strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod.

5 Yn ystod y flwyddyn, arhosodd benthyca a buddsoddiadau'r Awdurdod o fewn y terfynau a osodwyd yn wreiddiol. Nid oedd unrhyw ddiffygion newydd gan fanciau lle'r oedd yr Awdurdod wedi adneuo arian. Ymhellach, roedd incwm buddsoddi gwirioneddol yr Awdurdod yn uwch na'r incwm a ddisgwylid yn y gyllideb 2024/25.

**ARGYMHELLION**

6 Gofynnir i'r Aelodau:

**i) nodi'r gweithgarwch rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.**

## CYD-DESTUN ALLANOL

7 Mae chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) blynyddol y DU wedi aros uwchlaw targed 2% Banc Lloegr (BoE). Adroddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) fod prisiau defnyddwyr penawdol yn 2.8% ym mis Chwefror 2025, i lawr o 3.0% yn y mis blaenorol ac yn is na'r disgwyl. Arhosodd CPI craidd hefyd yn uchel, gan ostwng ychydig ym mis Chwefror i 3.5% o 3.7% ym mis Ionawr, ychydig yn is na'r disgwyl o 3.6% ond yn uwch na'r tri mis diwethaf o'r flwyddyn galendr.

8 Cynhaliodd Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) y BoE gyfradd Banc ar 4.5% yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2025, ar ôl ei leihau i'r lefel honno ym mis Chwefror. Roedd hyn yn dilyn gostyngiadau o 0.25% ym mis Tachwedd ac Awst 2024 o'r uchafbwynt o 5.25%. Yn y cyfarfod MPC ym mis Mawrth, pleidleisiodd 8-1 o aelodau i gadw'r gyfradd ar 4.5%, gyda'r un aelod anghytuno yn ffafrio gostyngiad arall o 25 pwynt sylfaenol. Yn y cofnodion, uwchraddiodd y Banc ei ragolwg CMC ar gyfer Ch1 2025 i tua 0.25% o'r amcangyfrif blaenorol o 0.1%.

9 Ym mis Mai 2025, gostyngwyd y gyfradd Banc i 4.25%. Disgwylir i gyfraddau llog ostwng ymhellach i mewn i 2025, yn ddibynnol ar dwf cyflogau, chwyddiant gwasanaethau, ac amodau economaidd ehangach.

## CYD-DESTUN LLEOL

10 Ar 31 Mawrth 2025, roedd benthyciad net yr Awdurdod yn £19.07m, a hynny'n deillio o wariant cyfalaf.

11 Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), ac adnoddau mantolen yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Mae'r ffactorau hyn yn cael eu crynhoi yn Nhabl 1 isod.

12 Mae Tabl 1 yn cadarnhau bod benthyciadau net yr Awdurdod yn is na'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR).

**Tabl 1: Crynodeb o'r Fantolen**

| | **31.03.24 Gwirioneddol £m** | **31.03.25 Gwirioneddol £m** |
|---|---|---|
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol | 27.94 | 29.68 |
| Benthyca allanol | -17.78 | -19.07 |
| **Benthyca mewnol** | **10.16** | **10.61** |
| Llai: Adnoddau mantolen | -13.13 | -13.13 |
| Llai: Buddsoddiadau Newydd | 2.97 | 2.52 |
| **Benthyca newydd** | **0.00** | **0.00** |

13 Mae sefyllfa rheoli'r trysorlys ar 31 Mawrth a'r newid dros y deuddeg mis yn cael eu dangos yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2: Crynodeb Rheoli Trysorlys**

| | 31.3.24 Balans | Symudiad | 31.03.25 Balans | 31.03.25 Cyfradd |
|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | % |
| Benthyca tymor hir | 14.07 | -5.61 | 8.46 | 2.81 - 4.80 |
| Benthyca byrdymor | 3.71 | 6.91 | 10.62 | 1.07 – 5.20 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **17.78** | **1.29** | **19.07** | |
| Buddsoddiadau byrdymor | -1.48 | 1.48 | 0.00 | 4.45 - 5.19 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | -1.48 | -1.04 | -2.52 | 4.34- 5.14 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **-2.96** | **0.44** | **-2.52** | |
| **Benthyciad net** | **14.82** | **1.73** | **16.55** | |

## BENTHYCA

14 Mae Cod Darbodus CIPFA 2021 yn amlinellu na ddylai awdurdodau lleol fenthyca er mwyn buddsoddi gyda'r nod pennaf o elwa'n ariannol. Nid yw'n ddarbodus i awdurdodau lleol wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi neu wariant a fydd yn cynyddu'r gofyniad ariannu cyfalaf ac yn arwain at fenthyciadau newydd, oni bai ei fod yn uniongyrchol ac yn bennaf gysylltiedig â swyddogaethau'r Awdurdod.

15 Nid yw'r Awdurdod wedi buddsoddi mewn asedau ar gyfer elw ariannol ac mae'r holl wariant yn gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod.

## STRATEGAETH A GWEITHGARWCH BENTHYCA

16 Yn unol â strategaeth y trysorlys, prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca oedd mabwysiadu strategaeth risg isel, gan gydbwyso costau llog isel a chael sicrwydd cost trwy gydol y cyfnod y mae angen cyllid ar ei gyfer. Ail nod yw sicrhau hyblygrwydd i aildrafod benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir yr Awdurdod yn newid. Mae strategaeth fenthyca yr Awdurdod yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwyedd, a hynny heb gyfaddawdu ar sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyled.

17 Am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, roedd cost benthyca tymor byr gan awdurdodau lleol eraill yn dilyn y Cyfradd Sylfaen yn agos, tua 5.00% – 5.25%. Fodd bynnag, o ddiwedd 2024 ymlaen, dechreuodd cyfraddau godi, gan gyrraedd uchafbwynt o tua 6% ym mis Chwefror a Mawrth 2025.

18 Roedd cyfradd sicrwydd PWLB ar gyfer aeddfedrwydd 10 mlynedd yn 4.8% ar ddechrau'r cyfnod ac yn 5.42% ar y diwedd. Y gyfradd aeddfedrwydd 10 mlynedd isaf oedd 4.52% a'r uchaf oedd 5.71%. Roedd cyfraddau ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd 20 mlynedd yn amrywio o 5.01% i 6.14% yn ystod y cyfnod, a benthyciadau aeddfedrwydd 50 mlynedd o 4.88% i 5.88%.

19 Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan yr Awdurdod £19.07m o fenthyciadau, cynydd o £1.29m o'i gymharu â 31 Mawrth 2024. Ceir crynodeb o'r benthyciadau sy'n weddill ar 31 Mawrth yn Nhabl 3A isod.

**Tabl 3A: Sefyllfa Fenthyca**

| | 31.03.24 Balans £m | Symudiad Net £m | 31.03.25 Balans £m | 31.03.25 Cyfradd Gyfartalog wedi'i Phwysoli % | 31.03.25 Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli (blynyddoedd) |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 17.78 | -3.714 | 14.073 | 3.200 | 7.150 |
| Awdurdodau lleol (tymor byr) | 0.00 | 5.000 | 5.000 | 5.200 | 0.410 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **17.78** | **1.29** | **19.073** | | |

20 Cymerodd yr Awdurdod fenthyciad newydd tymor byr o £5M gan awdurdod lleol ym mis Rhagfyr 24 sy'n ddyledus i'w ad-dalu ym mis Awst 25. Mae'r holl fenthyciadau tymor byr eraill yn cael eu dal gyda'r PWLB. Nid oes angen benthyca pellach tan fis Awst, fodd bynnag, os bydd symudiad sydyn yn y farchnad gyda cyfraddau gwell, yr awdurdod yn elwa ar hyn ar ôl cael cyngor gan ein cynghorwyr trysorlys Arlingclose.

**Tabl 3B: Benthyciadau Dyddiad Hir a fenthycwyd**

| | Swm £m | Cyfradd % | Cyfnod (Blynyddoedd) |
|---|---|---|---|
| Benthyciad Aeddfedrwydd PWLB | 2.00 | 4.80 | 28 |
| Benthyciad EIP PWLB | 0.59 | 3.09 | 13 |
| Benthyciad EIP PWLB | 4.17 | 3.91 | 17 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **6.76** | | |

21 Nid yw penderfyniadau benthyca'r Awdurdod yn cael eu seilio ar unrhyw ganlyniad unigol o ran cyfraddau llog, ac mae'n ceisio cynnal portffolio cytbwys o fenthyca byrdymor a hirdymor.

**GWEITHGARWCH BUDDSODDI TRYSORLYS**

22 Cyhoeddodd CIPFA Reolaeth Trysorlys ddiwygiedig yn y Cod Ymarfer Gwasanaethau Cyhoeddus a Nodiadau Canllawiau Traws-Sectoraidd ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r rhain yn diffinio buddsoddiadau rheoli trysorlys fel buddsoddiadau sy'n deillio o lifoedd arian y sefydliad neu weithgarwch rheoli risg trysorlys sydd, yn y pen draw, yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi nes bydd angen yr arian i'w ddefnyddio ar gyfer busnes.

23 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd o flaen gwariant, ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y flwyddyn, roedd balansau buddsoddi'r Awdurdod yn amrywio rhwng £1.37m a £9.13m. Mae'r sefyllfa fuddsoddi yn cael ei dangos yn Nhabl 4 isod.

**Tabl 4: Y Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys**

| | 31.3.24 | | 31.03.25 | 31.03.25 | 31.03.25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Balans** | **Symudiad Net** | **Balans** | **Adenillon Incwm** | **Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli** |
| | **£m** | **£m** | **£m** | **%** | **dyddiau** |
| Cymdeithasau Adeiladu a Banciau | 1.48 | 1.04 | 2.52 | 4.34 - 5.14 | Ar alwad |
| Benthyciad cyfnod penodol | | 0 | 0 | 4.75 | 37 |
| Llywodraeth Ganolog | 1.48 | -1.48 | 0.00 | 4.45 - 5.19 | 4 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **2.96** | **-0.44** | **2.52** | | |

24 Mae Cod CIPFA a chanllawiau'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gyllid yn ddoeth, a rhoi sylw i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau trysorlys cyn ceisio'r gyfradd enillion neu incwm orau bosibl. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw cael y cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi anaddas o isel.

25 Fel y mae meincnod atebolrwydd yr adroddiad hwn yn ei ddangos, mae'r Awdurdod yn disgwyl bod yn fenthyciwr hirdymor ac felly gwneir buddsoddiadau trysorlys newydd yn bennaf er mwyn rheoli llif arian parod o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr.

26 Gostyngwyd y gyfradd Banc o 5.25% i 5.00% ym mis Awst, eto i 4.75% ym mis Tachwedd 2024 ac unwaith eto i 4.5% ym mis Chwefror 2025 gyda chyfraddau llog tymor byr yn bennaf o gwmpas y lefelau hyn. Roedd y cyfraddau ar adneuon DMADF yn amrywio rhwng 4.45% a 5.19%, a chyfraddau'r farchnad arian rhwng 4.34% a 5.14%.

**CYDYMFFURFIAETH**

27 Mae'r holl weithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi cydymffurfio â'r egwyddorion yng Nghod Rheoli Trysorlys a Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod. Mae gan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) ddau gyfrif adnau a ddefnyddir ar gyfer adneuon tymor byr, gyda Banc Lloyds a Banc Barclays. Mae'r cyfraddau llog a gynigir ar adneuon trysorlys yn dueddol o fod yn fwy ffafriol; fodd bynnag, cafodd adneuon eu cadw gyda Lloyd a Barclays yn ystod y cyfnod hwn oherwydd y gofyniad hylifedd ar gyfer prynu'r tir ar gyfer y ganolfan hyfforddi newydd.

28 Mae'r awdurdod hefyd yn defnyddio ei gyfrif gyda'r Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO), gan nad yw Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn rhoi cyfyngiad ar faint o arian y gellir ei roi i'r DMO.

29 Dangosir cydymffurfiaeth â therfynau buddsoddi penodol yn Nhabl 5 isod.

**Tabl 5: Terfynau Buddsoddi**

| Sefydliad | Disgrifiad | Terfyn | 31.03.25 Gwirioneddol | Wedi Cydymffurfio? Ydy / Nac ydy |
|---|---|---|---|---|
| Banciau | Holl fanciau'r DU a'u his-gwmnïau sydd â chyfraddau da (Fitch neu gyfwerth). Mae hyn yn cael ei ddiffinio fel hirdymor (BBB) ar hyn o bryd. | £5m | **£2.52m** | ydy |
| Llywodraeth Ganolog | Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) | Diderfyn | **0** | ydy |
| Cronfeydd y Farchnad Arian (MMF) | Dim ond ar y cyd â chyngor ar gyfer Arlingclose. | £1m fesul cronfa | **0** | ydy |
| Awdurdodau Lleol | Pob un ac eithrio'r rhai sy'n destun cyfyngiad treth gyngor a phraeseptau dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 | £2m | **0** | ydy |
| Cymdeithasau Adeiladu | Cymdeithasau adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio) | £2m | **0** | ydy |
| Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1bn) | Cymdeithasau adeiladu heb sgôr ond gydag asedau o £1biliwn neu fwy | £2m/9 mis | **0** | ydy |

30 Dangosir Cydymffurfiaeth â'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer dyled allanol yn Nhabl 6 isod.

**Tabl 6: Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol**

| | 31.03.25 Gwirioneddol £m | 2024/25 Ffin Weithredol £m | 2024/25 Terfyn Awdurdodedig £m | Wedi Cydymffurfio |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 19.07 | 28.99 | 30.99 | Do |
| **Cyfanswm y ddyled** | **19.07** | **28.99** | **30.99** | |

31 Gan fod y ffin weithredol yn offeryn rheoli ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn, efallai y bydd achlysuron pan fydd y benthyca gwirioneddol yn fwy na'r targed hwn. Gallai hyn ddigwydd oherwydd amrywiadau yn y llif arian parod ac ni fyddai torri'r terfyn yn y byrdymor yn cyfrif fel methiant i gydymffurfio.

## DANGOSYDDION RHEOLI TRYSORLYS

32 Fel sy'n ofynnol gan God Rheoli Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Awdurdod yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol o ran rheoli trysorlys.

**Meincnod Atebolrwydd**

33 Mae'r dangosydd newydd hwn yn cymharu benthyca gwirioneddol yr Awdurdod ar hyn o bryd yn erbyn meincnod atebolrwydd a gyfrifwyd i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod atebolrwydd yn offeryn pwysig i helpu i benderfynu a yw'r Awdurdod yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac i addasu ei ffocws strategol a'i ddull o wneud penderfyniadau yn sgil hynny.

34 Mae'r dangosydd yn cynrychioli amcangyfrif o swm cronnol y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei gynnal er mwyn ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw presennol, gan gadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf o £2.0m sy'n ofynnol i reoli llif arian o ddydd i ddydd.


| | **31.03.24 Gwirioneddol £m** | **31.03.25 Gwirioneddol £m** | **31.03.26 Rhagolwg £m** | **31.03.27 Rhagolwg £m** |
|---|---|---|---|---|
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf Benthyciadau | 27.94 | 29.68 | 40.30 | 42.200 |
| Llai: Adnoddau mantolen | -13.12 | -13.13 | -16.20 | -15.70 |
| **Gofyniad benthyciadau net** | 14.82 | 16.55 | 24.10 | 26.60 |
| A: Lwfans hylifedd | 2.00 | 2.00 | 2.00 | 2.00 |
| **Meincnod atebolrwydd** | **16.82** | **18.55** | **26.10** | **28.60** |
| **Benthyciadau presennol** | **-17.78** | **-19.07** | **-8.50** | **-7.10** |

35 Nid yw'r rhagolwg uchod yn cynnwys unrhyw gostau ar gyfer y ganolfan hyfforddi arfaethedig.

36 Yn dilyn y rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod atebolrwydd hirdymor yn tybio y bydd gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu drwy fenthyca rhwng £4m - £6m y flwyddyn. Mae'r ddarpariaeth refeniw isafswm ar gyfer gwariant cyfalaf newydd wedi'i seilio ar fywydau'r asedau presennol, yn unol â'r polisi cyfrifyddu. Disgwylir i incwm a gwariant gynyddu 2.5% y flwyddyn oherwydd chwyddiant, ynghyd â gostyngiad graddol yn y cronfeydd wrth gefn. Dangosir hyn yn y siart isod, ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyca presennol yr Awdurdod.

37 Mae'r graff yn dangos bod angen i'r Awdurdod fenthyca yn y blynyddoedd i ddod. Bydd gan yr Awdurdod ofyniad benthyca trwy'r adeg gan nad oes ganddo arian parod neu gronfeydd wrth gefn sylweddol a dim ond mynediad cyfyngedig sydd ganddo at gyllid grant cyfalaf.

38 Mae'r llinell las yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca (y Gofyniad Ariannu Cyfalaf neu CFR). Mae'r llinellau coch yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca unwaith y bydd cronfeydd wrth gefn a gwargedion (neu ddiffygion) cyfalaf gweithio wedi'u hystyried – mewn gwirionedd dyma'r gwir angen i fenthyca y mae CIPFA wedi'i ddiffinio fel y Meincnod Atebolrwydd. Mae’r llinell goch doredig yn cynrychioli’r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac mae’r llinell solet yn cynrychioli’r sefyllfa ganol blwyddyn ar gyfartaledd. Mae’r rhannau llwyd yn dangos benthyciadau gwirioneddol. Pan fydd y rhan lwyd yn gostwng dan y llinellau coch, mae’n golygu bod angen benthyca.




**Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau**

39 Mae’r dangosydd hwn yn rheoli amlygiad yr Awdurdod i risg ailariannu. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd pob benthyciad oedd:

| | 31.03.25 Gwirioneddol | Terfyn Gwirioneddol | Uchaf Terfyn | Isaf Terfyn | Wedi Cydymffurfio Do/Naddo |
|---|---|---|---|---|---|
| <12 mis | 9.3 | 48.77% | 60.00% | 0.00% | I |
| 12 mis ac <24 mis | 1.5 | 7.87% | 45.00% | 0.00% | I |
| 24 mis ac <5 mlynedd | 1.2 | 6.29% | 45.00% | 0.00% | I |
| 5 i <10 mlynedd | | 0.00% | 75.00% | 0.00% | I |
| >10 mlynedd a mwy | 7.07 | 37.07% | 100.00% | 0.00% | I |

40 Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedu ar gyfer benthyca yw’r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

**Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Hirdymor**

41 Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau trysorlys hirdymor.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. Mae'n sicrhau bod pryniant asedau i gefnogi darparu gwasanaethau rheng flaen yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Mae'r gyllideb yn cael ei phennu'n flynyddol ar gyfer ariannu cyfalaf yn unol â'r adroddiad Trysorlys. |
| **Cyfreithiol** | Mae'r fframwaith rheoleiddio wedi'i nodi ym mharagraff 1. |
| **Staffio** | Dim. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim. |
| **Risgiau** | Buddsoddi arian dros ben – mae risg y gallai'r sefydliad ariannol lle buddsoddir arian y gwasanaeth fethu, gan arwain at golli rhan o'r prif fuddsoddiad. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad yw lliniaru'r risg hon. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Mehefin 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Strategaeth Gaffael Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru 2025-2030** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio Strategaeth Gaffael Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru Gyfan 2025-2030.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Strategaeth Gaffael Cymru Gyfan 2025-2030 yn darparu fframwaith cyffredin ar gyfer pob un o'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru i gyflawni arbedion, gwerth am arian a manteision eraill mewn perthynas â chaffael nwyddau a gwasanaethau.

3 Mae'r Strategaeth yn cefnogi'r rhagdybiaeth o weithio ar y cyd a chydweithredu ac mae'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau sylfaenol. Bydd y gweithredu a'r monitro yn cael eu goruchwylio gan y Bwrdd Caffael Strategol.

**ARGYMHELLION**

4 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

**i) Nodi a chymeradwyo Strategaeth Gaffael Cymru Gyfan 2025-2030**

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r defnydd effeithiol o adnoddau yn cefnogi cyflawni Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yr Awdurdod, sy'n ymgorffori'r Amcanion Llesiant. |
| Cyllideb | Mae caffael nwyddau a gwasanaethau yn cynnwys ystyriaeth ariannol. |
| Cyfreithiol | Mae'r Strategaeth hon yn cyd-fynd â'r holl ddeddfwriaeth a'r rheoliadau sylfaenol. |
| Staffio | Mae cydweithio yn galluogi'r defnydd gorau o adnoddau ac amser staff. |
| Cydraddoldebau/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r holl weithgareddau caffael yn rhoi sylw dyledus i sicrhau cydymffurfiaeth ac ystyriaeth. |
| Risgiau ac Ansicrwydd | Mae caffael a rheoli contractau mewn modd effeithiol yn cefnogi dull yr Awdurdod o reoli risgiau. |

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# *STRATEGAETH GAFFAEL GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB CYMRU 2025-2030*

# Cynnwys


Cynnwys ........ 2
1. Cefndir a Phwrpas ........ 3
2. Diffiniad o Gaffael Cynaliadwy ........ 5
3. Strwythur Llywodraethiant ........ 6
4. Gwariant Cyflenwyr ........ 6
5. Cydweithio ........ 6
6. Amcanion Caffael Strategol ........ 7
Atodiad A: ........ 9

# 1. Cefndir a Phwrpas

Mae'r Strategaeth hon yn nodi'r fframwaith ar gyfer caffael o fewn y Gwasanaethau Tân ac Achub (GTA) yng Nghymru rhwng 2025 a 2030 ac mae'n unol â Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC) Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad A).

Mae'r Strategaeth yn creu Strwythur Caffael i'r Gwasanaeth Tân ac Achub (GTA) sy'n gwneud y gorau o'r cyfleoedd i gyflawni effeithlonrwydd a gwelliannau eraill wrth gael gafael ar nwyddau, gwasanaethau a dyfarnu contractau, ar draws y tri GTA yng Nghymru.

Yn bwysig, mae'r Strategaeth hefyd yn paratoi'r ffordd ar gyfer archwilio'r cyfraniad y gall y Gwasanaeth Tân ac Achub ei wneud i greu gweledigaeth ehangach ar gyfer caffael cyhoeddus.

Nodau allweddol y Strategaeth yw:

- Bod ei weithgaredd caffael yn cyd-fynd â Deddf Caffael 2023, Rheoliadau Caffael 2024, Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

- Pwysleisio pwysigrwydd caffael cydweithredol yn y GTA oherwydd yr effeithlonrwydd amlwg a buddion eraill y gall ei gyflawni.

- Cefnogi Rhwydwaith Caffael Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (RhCCLILC), Hwb Cyflenwi Masnachol Llywodraeth Cymru (HCMLlC), Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC) a chonsortia cyfatebol addas eraill wrth hyrwyddo caffael ar y cyd.

- Datblygu gwell dealltwriaeth a dadansoddiad o wariant yn y GTA er mwyn cefnogi caffael mwy effeithiol ac er mwyn datblygu systemau gwell ar gyfer adrodd yn rheolaidd ar y buddion a'r cyfleoedd a gyflwynir gan gydweithio.

- Hyrwyddo arferion cynaliadwyedd ym mhroses gaffael y GTA, sy'n cyd-fynd ag uchelgais sero net Llywodraeth Cymru erbyn 2030.

Mae Cynllun Contract Strategol Cymru Gyfan ar waith ac yn cael ei arwain gan Fwrdd Caffael Strategol a ddatblygwyd gan Bwyllgor Materion Cenedlaethol (PMC) Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, sy'n cynghori ar gyfeiriad strategol caffael yn Sector Tân ac Achub Cymru. Mae'r Bwrdd Caffael Strategol yn cynnwys tri arweinydd strategol o GTAau Cymru ynghyd â gweithwyr caffael proffesiynol o dri GTA Cymru.

Mae'r Strategaeth hon wedi'i chynllunio i ystyried y polisïau canlynol ac annog rhanddeiliaid i ystyried goblygiadau hirdymor pob gweithgaredd caffael. Mae crynodebau o'r polisïau hyn ynghlwm yn Atodiad A:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Strategaeth Cymru Can ar gyfer 2023-2030.
- Datganiad Polisi Caffael Cymru Llywodraeth Cymru (DPCC).
- Ffyniant i bawb: Cymru Carbon Isel.
- Strategaeth Economi Gylchol "Mwy nag Ailgylchu" Cymru.
- Safon Caffael a Masnachol y Bwrdd Safonau Tân.

Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu'n flynyddol neu'n unol ag unrhyw bolisïau / deddfwriaeth newydd sy'n effeithio ar gaffael. Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â chyd-destun Fframwaith Cenedlaethol Gwasanaeth Tân ac Achub Llywodraeth Cymru sydd, ymhlith pethau eraill, yn gosod disgwyliad clir o fwy o gydweithio er mwyn sicrhau effeithlonrwydd.

Mae'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol (PMC) yn ysgogi cydweithio ar draws tri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru yn unol ag agenda'r Llywodraeth ar gyfer diwygio'r Sector Cyhoeddus. Mae'r ddogfen strategaeth hon yn amlinellu cynigion i sicrhau bod y cyfleoedd caffael cydweithredol a nodwyd gan Fwrdd Caffael Strategol y PMC yn cael eu cyflawni'n effeithlon ac yn effeithiol ar draws y tri Gwasanaeth.

Mae'r ddogfen strategaeth hon yn nodi sut mae Bwrdd Caffael Strategol y PMC yn ceisio mabwysiadu dull strategol o gaffael a fydd yn sail i'w ymdrechion i ddatgloi'r effeithlonrwydd hwn a chyflawni gwerth am arian. Wrth gymryd golwg gyfannol ac integreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwyac e-gaffael trwy bob gweithgaredd, gall y sector cyhoeddus wneud y gorau o effaith gadarnhaol caffael cyfrifol; gan sicrhau bod arbedion yn gysylltiedig i'r un graddau â gwneud y gorau o gostau oes cyfan, sicrhau buddion lles a chymryd dull cynaliadwy, lle bynnag y bo modd.

Mae'r strategaeth hon yn ceisio sicrhau bod gweithgareddau Gwasanaethau Caffael Tân ac Achub Cymru yn ystyried yr HCMLlC a'r RhCCLlLC ar gyfer meysydd o wariant cyffredin ac ailadroddus.

Mae Timau Caffael GTA Cymru yn hyrwyddo proffesiynoldeb caffael er mwyn cefnogi staff i ymgysylltu â chyflenwyr a sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau caffael yn briodol ac yn effeithiol er mwyn annog arloesedd, hyrwyddo cynaliadwyedd ac yn y pen draw ddarparu gwerth am arian a buddion lles.

## 2. Diffiniad o Gaffael Cynaliadwy

At ddibenion y ddogfen strategaeth hon, diffinnir caffael cynaliadwy fel:

*Y broses lle mae sefydliadau yn diwallu eu hanghenion o ran nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan o ran creu buddion nid yn unig i'r sefydliad, ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, gan effeithio cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd."*

Felly, ystyrir bod swyddogaethau caffael yn:

- **Nodi angen busnes –** Bydd gan gaffael rôl allweddol wrth nodi a oes angen pendant am offer, adeiladau neu wasanaethau trwy gynlluniau prynu a chraffu ar Gyllidebau Refeniw / Taliadau cyfalaf, adolygu cynhyrchion a gwasanaethau presennol o natur debyg o fewn y gwasanaeth tân, adolygu opsiynau er mwyn darparu gwasanaeth yn fewnol a'r potensial ar gyfer cydweithio.
- **Gwasanaethau Technegol (Ymchwil a Datblygu) –** Gan gynnwys cwblhau asesiadau risg, dull cyson o werthuso opsiynau, trosi'r angen busnes i feini prawf perfformiad mesuradwy, cydlynu a gwerthuso treialon sy'n hyrwyddo ymgysylltiad â'r gweithlu, cynhyrchu deunyddiau hyfforddi ategol a nodiadau canllaw. Yn hyn o beth, mae GTAau Cymru wedi cytuno ar ddull cyffredin fel rhan o'r broses gaffael. Bydd hyn yn galluogi unrhyw un o GTAau Cymru i ymgymryd â'r broses gaffael gyflawn ar ran GTAau eraill Cymru a thrwy hynny leihau dyblygu a gwneud y defnydd gorau o adnoddau. Byddwn felly yn ei wneud unwaith dros Gymru ac yn osgoi ailadrodd.
- **Prynu a Chontractio –** Gan gynnwys caffael strategol ac arferol, cyhoeddi hysbysiadau Gwasanaeth Dod o Hyd i Dendr, tendro, contractau, tasgau cyfreithiol a chyllidol, a chydymffurfio â Rheolau Sefydlog.
- **Comisiynu –** Gan gynnwys cynhyrchu deunyddiau diogelwch a thechnegol terfynol, hyfforddiant a dosbarthu.
- **Rheoli Contractau** – Costau oes gyfan, gan gynnwys gwasanaethu, cynnal a chadw a gwaredu'r offer ar ddiwedd ei oes ddefnyddiol, rheoli a monitro contractau a pherthnasoedd a datblygiad cyflenwyr. Mae costau oes gyfan yn parhau i fod yn ystyriaeth trwy gydol y cylch caffael ac ni ellir eu hesgeuluso ar ôl y cam gwerthuso opsiynau. Rheoli a monitro contractau i ddigwydd drwy systemau electronig.
- **Dadgomisiynu ac Amnewid –** Gan gynnwys adolygiad o berfformiad offer neu gontract a gwaredu yn y pen draw. Mae caffael cynaliadwy a'r economi sylfaenol a chylchol yn egwyddor allweddol i'w hymgorffori mewn prosesau caffael.

## 3. Strwythur Llywodraethiant

Yn dilyn adolygiad o gaffael ar draws GTAau Cymru fel y'i cychwynnwyd gan y Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn 2014, sefydlwyd gwasanaeth caffael rhithwir i hwyluso mwy o gydweithio a gwella effeithlonrwydd.

Mae'r tîm caffael rhithwir yn gweithio o fewn eu GTAau priodol ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Caffael Strategol sy'n cael ei arwain gan dri aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, un o bob un o dri GTAau Cymru.

Bydd y Tîm Caffael Rhithwir yn cefnogi staff trwy ddarparu cyfarwyddyd caffael strategol, cynnig cyngor ac arweiniad proffesiynol ar holl faterion caffael, cynorthwyo i wneud y broses gaffael yn fwy effeithlon ac effeithiol a sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r cymwyseddau angenrheidiol i ymgymryd â'u dyletswyddau caffael trwy hwyluso hyfforddiant priodol.

## 4. Gwariant Cyflenwyr

Mae'r Tri GTA yng Nghymru yn dadansoddi eu data gwariant trwy ddefnyddio offer dadansoddi gwariant Llywodraeth Cymru sy'n eu galluogi i nodi patrymau gwariant a meysydd cydweithio posibl. Mae hefyd yn eu galluogi i nodi gwariant categori fel y gellir canolbwyntio ymdrechion ar feysydd blaenoriaeth.

Bydd dadansoddi data yn golygu bod modd lleihau nifer y cyflenwyr a ddefnyddir, cydgrynhoi gwariant, cynyddu cyfran gwariant BBaChau, nodi dulliau talu amgen ar gyfer trafodion gwerth isel, a bydd hefyd yn darparu meincnod er mwyn gallu nodi meysydd sy'n addas ar gyfer mentrau lleihau carbon.

## 5. Cydweithio

Mae GTAau Cymru yn cefnogi cydweithio trwy ddefnyddio fframweithiau cenedlaethol gan gynnwys HCMLlC, RhCCLlLC a Hwb Caffael CCPT, Gwasanaethau Masnachol y Goron, a Chyrff Prynu eraill. Mae yna hefyd gydweithrediad traws-sector â chyrff sector cyhoeddus eraill trwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus lleol a thrwy grwpiau caffael rhanbarthol, sy'n cyfrannu at Rwydwaith Caffael CLlLC.

Yn unol â'n dull cydweithredol, mae gennym nod i safoni manylebau cyn belled â phosibl er mwyn sicrhau arbedion maint a rhyngweithredededd.

## 6. Amcanion Caffael Strategol

Er mwyn hyrwyddo arfer gorau wrth gaffael, parhau i gydymffurfio'n gyfreithiol, bodloni Egwyddorion DPCC Cymru a gweithredu er mwyn atal newid yn yr hinsawdd trwy flaenoriaethu lleihau carbon ac allyriadau sero i gyflawni ein huchelgais i fod yn sero net erbyn 2030, mae'r amcanion caffael allweddol canlynol wedi'u nodi fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella. Gellir gweld Datganiad Polisi Caffael Cymru yn Atodiad A.

a) **Caffael Strategol** – Mae'r Bwrdd Caffael Strategol, sy'n cynnwys aelodau o Dimau Arweinyddiaeth Gweithredol pob un o'r GTAau yn dylanwadu ar gaffael strategol.

b) **Adnoddau proffesiynol** -Sicrhau dull cyson o hyfforddi a datblygu staff sydd â rôl gaffael ledled y gwasanaeth tân yn unol ag arfer da.

c) **Effaith Economaidd, Gymdeithasol ac Amgylcheddol** – Nid yn unig i gael y gwerth gorau posibl i'r Gwasanaeth o ran cost oes gyfan (o gaffael i waredu) a chanlyniadau ansawdd trwy gyrchu, cyflenwi a monitro perfformiad yn effeithiol, ond hefyd i roi budd i gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd, nawr ac yn y dyfodol.

d) **Caffael Cynaliadwy** – integreiddio ystyriaethau cynaliadwyedd i'r broses gaffael, gweithredu'r fframwaith Asesu Risg Cynaliadwy a gweithredu'r cynllun gweithredu caffael cynaliadwy a'r strategaeth ymgysylltu â chyflenwyr.

e) **Buddion Lles** - rhaid i ddarparu budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol trwy weithredu Buddion Lles Llywodraeth Cymru yn effeithiol fod yn ystyriaeth annatod o ran caffael.

f) **Cystadleuaeth agored a hygyrch** – Hysbysebu pob cyfle contract dros £30,000 trwy GwerthwchiGymru, a thrwy hynny annog cystadleuaeth agored a theg.

g) **Symleiddio Prosesau Safonol** – Symleiddio a safoni dogfennaeth a phrosesau caffael GTAau Cymru.

h) **Cydweithio** – Hyrwyddo ac annog cydweithio pellach trwy ffrydiau gwaith y PMC er mwyn sicrhau arbedion maint, safoni ac i gyflawni effeithlonrwydd prosesau caffael.

i) **Ymgysylltu â Chyflenwyr ac Arloesi** – Annog ymgysylltu â chyflenwyr yn fwy effeithiol cyn tendro o ran profi'r farchnad a digwyddiadau cyn tendro cyflenwyr, ac ar ôl tendro o ran rhoi adborth adeiladol ar gyflwyniadau. Annog cyflenwyr i ddefnyddio Busnes Cymru i gael cyngor ac arweiniad o ran ceisiadau.

j) **Datblygu a Gweithredu Polisi** – cefnogi'r gwaith o gyflawni'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) a chydymffurfio â safonau perthnasol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Caffael 2023, Rheoliadau Caffael 2024, Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

k) **Monitro perfformiad a chyflenwi** – Bydd cyflawni'r Strategaeth hon yn cael ei reoli trwy Gynllun Gweithredu gyda chynnydd wedi'i adrodd yn flynyddol yn seiliedig ar yr amcanion caffael strategol. Bydd y cynllun yn cynnwys camau gweithredu a Dangosyddion Perfformiad Allweddol manwl.

l) **Rheoli Risg a Chontractau** – Sicrhau bod risgiau prosiectau, masnachol, sefydliadol ac iechyd a diogelwch yn cael eu hystyried ym mhob proses gaffael allweddol, bod cynlluniau wrth gefn addas yn eu lle ar gyfer cynhyrchion allweddol a bod pawb mewn rolau rheoli prosiectau a rheoli contractau yn meddu ar y sgiliau a'r profiad priodol.

m) **eGaffael** – Sicrhau bod y GTA yn gallu cwrdd â thargedau e-lywodraeth mewn perthynas â chaffael a bod dull cyson yn cael ei gymryd yn genedlaethol o ran gweithredu eGaffael o fewn y GTA.

# Atodiad A:

Dylai'r gweithgareddau caffael cynaliadwy gael eu strwythuro o amgylch yr ysgogiadau a'r mentrau polisi allweddol canlynol:

- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2016 yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Nod y Ddeddf yw helpu i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Yn bwysig, mae'r Ddeddf yn cydnabod rôl bwysig caffael: "Bydd rôl caffael yn rhan bwysig o'r ffordd y mae corff cyhoeddus yn dyrannu adnoddau o dan y Ddeddf. Disgwylir y bydd cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol presennol mewn perthynas â chaffael a'u bod hefyd yn cymhwyso Datganiad Polisi Caffael Cymru. Mae'r polisi hwn yn mabwysiadu diffiniad y Tasglu Caffael Cynaliadwy o gaffael cynaliadwy. Mae hwn yn nodi'r arferion caffael a'r camau gweithredu penodol a ddisgwylir gan bob sefydliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru."

  Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith, a ddangosir isod, sef sut mae dull o gael polisi Caffael Cynaliadwy yn bodloni'r nodau hyn, gan ganolbwyntio'n arbennig ar economi gylchol.

  Mae Cymru Can yn nodi eu strategaeth ar gyfer 2023 – 2030 a'u gweledigaeth hirdymor. Mae'n crynhoi'r dull y maent yn bwriadu ei gymryd, yn rhoi trosolwg o'r ffordd y byddant yn gweithio, ac yn amlinellu sut y byddant yn mesur eu heffaith.

**Ffigur 1:** Canlyniadau System Gaffael Gynaliadwy sy'n Addas ar Gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol[1]



- Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC) yn sefydlu nifer o egwyddorion allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i brosesau caffael cyhoeddus eu gweithredu ledled Cymru a'u dulliau adrodd. Mae hyn yn cynnwys sawl egwyddor sy'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn uniongyrchol, sef:

    - Cydweithio ar draws gweithgareddau caffael a chyda rhanddeiliaid.
    - Integreiddio datrysiadau digidol ar gyfer caffael sy'n seiliedig ar ddata yng nghanol polisi Cymru.
    - Caffael cynaliadwy, seiliedig ar werth sy'n sicrhau canlyniadau hirdymor i Gymru.

- Ffyniant i bawb: Cymru Carbon Isel. Lleihau allyriadau a throsglwyddo i economi carbon isel, gan sicrhau manteision ehangach i Gymru a chreu cymdeithas sy'n fwy teg, yn fwy iach ac yn fwy cyfartal Mae'r cynllun yn nodi'n glir yr hyn y mae'n ei ddisgwyl gan arweinyddiaeth yn y sector cyhoeddus: Bydd cyflawni'r targedau datgarboneiddio a'r uchelgais carbon niwtral yn gofyn am arweinyddiaeth sylweddol gan y sector cyhoeddus mewn meysydd fel adeiladau, trafnidiaeth a chaffael.

    - Mae hyn yn cael ei ategu gan ddatganiad LIC bod yn rhaid i lywodraeth leol yng Nghymru gyflawni Carbon Sero Net o ran eu hallyriadau erbyn 2030. Bydd caffael yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni hyn.

- Strategaeth Economi Gylchol "Mwy nag Ailgylchu" Cymru. Nod y strategaeth, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, yw cefnogi'r adferiad gwyrdd trwy ganolbwyntio ar gamau gweithredu diwastraff, carbon sero net sy'n defnyddio adnoddau yn deg. Mae'r ddogfen yn amlinellu themâu allweddol i Gymru:

    - Hybu arloesi wrth ddefnyddio deunyddiau
    - Uwchraddio mentrau atal ac ailddefnyddio
    - Adeiladu ar y record ailgylchu
    - Buddsoddi mewn seilwaith
    - Galluogi cymunedau a busnesau i weithredu
    - Cysoni dulliau ysgogi'r Llywodraeth

- Safonau Caffael a Masnachol y Bwrdd Safonau Tân – Gwasanaeth tân ac achub y mae ei arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd caffael ac arfer gorau masnachol sy'n sicrhau bod contractau a pherthnasoedd â'i gyflenwyr yn gwireddu gwerth am arian ac yn arwain at ddarparu nwyddau, gwasanaethau a gwaith cyhoeddus o safon sy'n cefnogi'r amgylchedd ac amrywiaeth, diogelwch a lles ei bobl a'i gymunedau. Gwasanaeth sy'n gwneud penderfyniadau caffael a masnachol strategol, moesegol a gwybodus sy'n cyd-fynd â nodau sefydliadol, gan sicrhau tegwch, tryloywder ac uniondeb trwy gydol cylch oes ei weithgaredd caffael. Gwasanaeth sy'n ystyried caffael ac opsiynau masnachol yn gadarn ac yn drylwyr, yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â staff a marchnadoedd ehangach i ystyried anghenion, ac yn partneru ag eraill i ddiffinio'r dull caffael a masnachol gorau posibl. Gwasanaeth sy'n sefydlu prosesau cystadleuaeth, sy'n cydymffurfio'n gyfreithiol a thryloyw ac yn mabwysiadu arferion rheoli contractau cadarn, gan sicrhau bod gwerth am arian a sicrwydd y cyflenwad yn cael ei ddarparu trwy gydol y cylch caffael a chontractio. Gwasanaeth sy'n croesawu arloesedd ac yn cyfrannu at welliant a chydweithio parhaus ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'n deall yr effaith y mae caffael a gweithgarwch masnachol yn ei gael ar bobl, yr economi leol, yr amgylchedd, a'i fod yn cyflawni ei werth cymdeithasol a thargedau sero net. Gwasanaeth sy'n sefydlu ac yn cynnal gallu a chapasiti priodol trwy sicrhau bod gan dimau'r sgiliau technegol, arbenigedd masnachol, a'r adnoddau i gadw cymunedau'n ddiogel, gan gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ei bobl caffael a masnachol.

*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg* **Eitem Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Mehefin 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Datganiad Drafft o'r Cyfrifon 2024-25** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 I gyflwyno Datganiad o'r Cyfrifon heb eu harchwilio ar gyfer 2024/25, gan gynnwys sefyllfa refeniw a chyfalaf, sefyllfa'r fantolen, a symudiadau ariannol allweddol ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Awdurdod wedi cynnal sefyllfa ariannol gadarn er gwaethaf pwysau parhaus. Mae canlyniad refeniw 2024/25 yn dangos gwarged o £293k, gyda chronfeydd defnyddiadwy yn cynyddu i £10.879m. Mae'r cyfrifon llawn gan gynnwys yr adroddiad naratif wedi'u cynnwys yn Atodiad i.

3 Cyfanswm gwariant cyfalaf oedd £3.087m, gyda £2.589m wedi'i gario ymlaen. Mae'r cyfrifon yn ymgorffori mabwysiadu IFRS 16 a buddsoddiad parhaus mewn cynaliadwyedd, seilwaith hyfforddi, a gwytnwch gweithredol.

4 Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys yr ymateb a ddarparwyd i Archwilio Cymru yn dilyn ymholiadau mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu sy'n berthnasol i'r Datganiad o Gyfrifo, wedi'i atodi fel Atodiad ii.

**ARGYMHELLION**

5 Argymhellir bod yr Aelodau:

**i) Nodi'r sefyllfa refeniw a chyfalaf heb eu harchwilio;**
**ii) Nodi'r sefyllfa mantolen heb ei harchwilio;**
**iii) Nodi a chymeradwyo'r symudiad i ac o gronfeydd wrth gefn; a**
**iv) Cymeradwyo'r ymateb i Archwilio Cymru mewn perthynas â materion llywodraethu sy'n berthnasol i'r Datganiad o Gyfrifon.**

**CEFNDIR**

6 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi datganiad o gyfrifon yn flynyddol. Mae'r amserlenni cyn-Covid a bennir yn y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad drafft o gyfrifon gael ei gyhoeddi erbyn 31 Mai, gyda therfyn amser archwilio o 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

7 Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru, yn dilyn ymgynghoriad â Chymdeithas Trysoryddion Cymru ac Archwilio Cymru, y dylid paratoi'r datganiad drafft o gyfrifon ar gyfer 2024/25 erbyn 30 Mehefin 2025, ac y dylid archwilio'r datganiad o gyfrifon erbyn 31 Hydref 2025.

8 Ardystiwyd y Datganiad Drafft o Gyfrifon gan Drysorydd yr Awdurdod ar 30 Mai 2025 ac mae'r archwiliad allanol gan Archwilio Cymru yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Yn dilyn cwblhau'r archwiliad, cyflwynir y cyfrifon i'r Awdurdod Tân llawn i'w cymeradwyo'n derfynol.

**GWYBODAETH**

9 Mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi'i baratoi yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ac mae'n darparu trosolwg cynhwysfawr o berfformiad ariannol a sefyllfa'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025.

10 Mae hefyd yn cynnwys Adroddiad Naratif, sy'n amlinellu cyd-destun gweithredol, blaenoriaethau strategol, a chyflawniadau allweddol yr Awdurdod. Pwrpas yr Adroddiad Naratif yw helpu rhanddeiliaid i ddeall y datganiadau ariannol a'r amgylchedd ehangach y mae'r Awdurdod yn gweithredu ynddo.

11 Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cadarnhau bod balans terfynol cronfeydd defnyddiadwy yn £10.879m (Nodyn 8, tudalen 36) sy'n cynnwys y gwarged o £0.293m ar y gronfa gyffredinol a chynnydd o £1.540m mewn cronfeydd wrth gefn penodol.

12 Fel rhan o'r archwiliad o'r Datganiad o Gyfrifon, mae Archwilio Cymru yn ceisio sicrwydd gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ar y trefniadau llywodraethu sy'n berthnasol i'r Datganiad o Gyfrifon. Darperir yr ymateb i'r ymholiadau archwilio yn Atodiad B ac mae wedi'i gymeradwyo gan Gadeirydd yr Awdurdod Tân.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. Mae cyllid ar gyfer y Gwasanaeth o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod bob blwyddyn yn unol â darpariaeth arfaethedig y gwasanaeth sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith atal. |
| Cyfreithiol | Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod lunio'r Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r safonau a ragnodir. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae incwm a gwariant yn cael eu monitro'n agos er mwyn sicrhau bod unrhyw achosion o wyro o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu canfod yn briodol, a'u hadrodd i'r Aelodau. |

# Dataganiad o Gyfrifon

2024-2025

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



| **DATGANIAD O GYFRIFON** | **TUDALEN** |
|---|---|
| Adroddiad Naratif | 2-18 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau | 19 |
| Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol | 20-23 |
| Dadansoddiad o Wariant a Chyllid | 24 |
| Datganiadau Ariannol Craidd | 25-30 |
| Nodiadau i’r Datganiadau Ariannol Craidd | 31-66 |
| Cyfrif Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân | 67-68 |
| Polisïau Cyfrifyddu | 69-82 |

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw cynnal a chadw gwefan yr Awdurdod a sicrhau ei bod yn gywir; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn wreiddiol.

# Adroddiad Naratif

Mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi'i baratoi yn unol â gofynion y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Ei nod felly yw rhoi gwybodaeth fel y gall aelodau o'r cyhoedd a thrigolion Gogledd Cymru, Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub, partneriaid, rhanddeiliaid, a phartïon eraill â diddordeb:

- Ddeall sefyllfa ariannol gyffredinol yr Awdurdod a'r sefyllfa alldro ar gyfer 2024/25;
- Bod yn hyderus bod yr arian cyhoeddus sydd wedi'i roi yng ngofal yr Awdurdod wedi cael ei ddefnyddio mewn modd priodol a bod cyfrif priodol wedi'i roi amdano; a
- Bod yn sicr bod sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn gadarn ac yn ddiogel.

Mae arddull a fformat y cyfrifon yn cydymffurfio â safonau CIPFA. Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y cyfrifon hyn yn cael ei chyflwyno mor syml a chlir â phosibl. Fodd bynnag, mae cyfrifon sefydliad fel Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn ôl eu natur, yn dechnegol ac yn gymhleth.

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys y datganiadau ariannol craidd, sef:

**Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant (CIES**) – yn dangos cost cyfrifyddu darparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn, yn unol â safonau cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu drwy drethiant.

**Dadansoddiad o Wariant ac Ariannu (EFA)** – yn dangos yr un wybodaeth â'r CIES ond hefyd yn darparu'r addasiadau cyfrifyddu sy'n cael eu dileu yn Nodiad 7 i sicrhau nad yw'r addasiadau hyn yn cael eu hariannu gan Drethdalwyr.

**Datganiad Symudiad Mewn Cronfeydd (MIRS)** – yn dangos symudiad y cronfeydd a ddelir gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, wedi'u dadansoddi rhwng cronfeydd 'defnyddiadwy' a 'ddefnyddiadwy'. Mae'r datganiad yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod a sut mae'r costau hynny'n cael eu hariannu o'r cronfeydd amrywiol.

**Y Fantolen** – yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r asedau net yn cyfateb i'r cronfeydd a ddelir gan yr Awdurdod.

**Datganiad Llif Arian** – yn dangos y newidiadau mewn arian parod a chyfwerthoedd arian parod yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd.

## Rhagair gan y Cadeirydd

Fel Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2024/25. Er gwaethaf heriau ariannol parhaus, rwy'n hynod falch o sut mae'r Gwasanaeth, gyda chefnogaeth yr Awdurdod, wedi llwyddo i wasanaethu ein cymunedau'n effeithiol a chynnal sefydlogrwydd ariannol ar yr un pryd.

Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymroddedig i sicrhau gwasanaeth tân effeithlon ac effeithiol sy'n cyd-fynd â'n cenhadaeth: *gwneud Gogledd Cymru yn lle diogel i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.* Mae cyflawni hyn yn gofyn nid yn unig am gydbwyso'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol ond hefyd cynllunio ar gyfer dyfodol ariannol cynaliadwy. Rhan hanfodol o'r strategaeth hon yw buddsoddi mewn asedau a fydd yn cefnogi'r Gwasanaeth a'r gymuned am flynyddoedd i ddod.

Er bod y rhagolygon ariannol ar gyfer y dyfodol yn parhau i fod yn heriol, rwy'n hyderus y bydd y sefyllfa ariannol gref yr ydym wedi'i chynnal yn ein galluogi i lywio'r heriau hyn yn llwyddiannus.

**Y Cynghorydd Dylan Rees**
**Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**



## Cyflwyniad gan Dawn Docx, Prif Swyddog Tân

Bwriad y Datganiad Naratif hwn yw rhoi dealltwriaeth gliriach i ddarllenwyr o'r Awdurdod Tân ac Achub, ei amgylchedd gweithredu, a helpu i ddehongli'r Datganiad o Gyfrifon cysylltiedig.

Yn ogystal â gwybodaeth ariannol, mae'r Datganiad Naratif yn cynnig cipolwg ar weithgareddau gweithredol, mentrau strategol, a metrigau perfformiad yr Awdurdod. Mae'r trosolwg cynhwysfawr hwn yn helpu darllenwyr i werthfawrogi'r cyd-destun ehangach y mae'r Awdurdod yn gweithredu ynddo.

Er bod y cyfrifon eu hunain yn gymhleth ac yn dechnegol, rwy'n eich annog i gymryd yr amser i'w hadolygu, ynghyd â'r Datganiad Naratif hwn, sy'n rhoi trosolwg manwl o'r flwyddyn ariannol a sefyllfa ariannol yr Awdurdod Tân ac Achub ar 31 Mawrth 2025. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cyfrifon, darperir manylion cyswllt yn y Datganiad Naratif hwn.

**Dawn Docx**

**Prif Swyddog Tân**



## Cyflwyniad i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae'r cyfrifon hyn yn ymdrin â'r flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025 ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r Awdurdod yn gwasanaethu ardal ddaearyddol gyfan o 2,400 milltir sgwâr gydag amcangyfrif o boblogaeth o oddeutu 700,000 o bobl. Mae 44 o orsafoedd tân yng Ngogledd Cymru – 8 gorsaf amser llawn a 36 gorsaf ar alwad.

Yn ogystal ag ymateb brys, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddiogelwch cymunedol ac atal tanau. Rydym yn cydweithio ag ysgolion, busnesau, a grwpiau cymunedol lleol i gyflwyno rhaglenni addysgol ac ymgyrchoedd diogelwch.

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 28 o gynghorwyr etholedig o chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru, gyda nifer y cynrychiolwyr yn cael ei bennu gan boblogaeth ardal y Cyngor cyfansoddol. Mae mwy o wybodaeth am yr Awdurdod, ei aelodau a'i gyfrifoldebau ar gael yma.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei arwain gan Brif Swyddog Tân a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys Uwch Swyddogion a Rheolwyr sy'n gyfrifol am adrannau sy'n gofalu am swyddogaethau gweithredol a chorfforaethol allweddol ein Gwasanaeth.


## Ein hegwyddorion

Yn GTAGC, rydym yn cael ein harwain gan ein hegwyddorion sy'n llywio ein gweithredoedd a'n penderfyniadau. Sef:




Mae'r egwyddorion hyn yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel a chynnal ymddiriedaeth a diogelwch y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

# About Our Service Area



## Adnoddau

**44** gorsaf dân

**54** injan dan rheng flaen

**43** peiriant arbennig gan gynnwys cychod achub a pheiriannau cyrraedd yn uchel

**878** o staff gyda **29%** ohonynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl

## Gweithgareddau Atal ac Amddiffyn

Cwblhawyd **20,021** o Archwiliadau Diogel ac Iach

Cynhaliwyd **320** o archwiliadau busnes

**133** o sgyrsiau diogelwch gyda **11,563** o blant a phobl ifanc

**22** o gyrsiau ffenics gyda **203** o gyfranogwyr yn cwblhau'r rhaglen

## Gweithgareddau ymateb

Deliwyd â **14,530** o alwadau brys

Wedi mynychu **6,485** o ddigwyddiadau brys

Mynychwyd **1,801** o danau gyda **43** ohonynt yn danau gwyllt

**3,263** fo alwadau diangen

## Llywodraethu

Yn y flwyddyn ariannol 2024/25, fe wnaethom ganolbwyntio ar wneud ein gweithrediadau yn dryloyw, atebol, ac effeithlon. Mae ein fframwaith llywodraethu yn ein helpu i wneud penderfyniadau, rheoli risgiau, a monitro perfformiad.

### Datblygiadau Llywodraethu Allweddol

Eleni, fe wnaethom newidiadau pwysig i'n strwythur llywodraethu:

- **Adolygiad o'r Strwythur Llywodraethu:** Fe wnaethom adolygu a diweddaru ein strwythur llywodraethu i ddiwallu ein hanghenion yn well. Roedd hyn yn cynnwys diweddaru rolau a chyfrifoldebau pwyllgorau allweddol.
- **Rheoli Risg:** Fe wnaethom wella ein rheolaeth risg trwy gynnwys asesiadau risg yn ein prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau.
- **Archwilio Mewnol:** Rydym ar ail flwyddyn cynllun archwilio mewnol tair blynedd i adolygu ein rheolaethau mewnol a sicrhau ein bod yn dilyn polisïau a gweithdrefnau sefydledig.

### Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol, sy'n dod gyda'r datganiadau ariannol, yn rhoi cyfrif manwl o'n fframwaith llywodraethu a'i effeithiolrwydd yn ystod y flwyddyn. Mae'n tynnu sylw at faterion llywodraethu allweddol a'r camau a gymerwyd gennym i wella arferion llywodraethu.

### Mentrau Llywodraethu yn y Dyfodol

Wrth edrych ymlaen, rydym wedi ymrwymo i wella ein llywodraethu yn barhaus. Mae'r mentrau allweddol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn cynnwys:

- **Hyfforddiant a Datblygu:** Byddwn yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu parhaus i aelodau a swyddogion er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gyflawni eu rolau llywodraethu yn effeithiol.
- **Monitro Perfformiad:** Byddwn yn gwella mecanweithiau monitro ac adrodd ar berfformiad er mwyn rhoi gwybodaeth amserol a chywir am ein perfformiad yn erbyn amcanion strategol.

### Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth

Mae strwythur Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth yn cynnwys y Prif Swyddog Tân a Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol. Mae gweddill Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth yn cynnwys Rheolwyr Ardal a Phenaethiaid Adrannau, gan sicrhau fframwaith arweinyddiaeth cynhwysfawr ac effeithiol.

## Model Gweithredu

Mae model gweithredu'r Awdurdod Tân yn esbonio sut yr ydym yn gweithio i gadw ein cymunedau'n ddiogel. Mae'n dangos sut yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau, rheoli ein gwasanaethau, a chyrraedd ein nodau.

Mae ein prif wasanaethau'n cynnwys:

- **Ymateb Brys:** Ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i danau, galwadau gwasanaeth arbennig, a digwyddiadau eraill.
- **Atal a Diogelu:** Hyrwyddo ac addysgu diogelwch tân, cwblhau arolygiadau, a gorfodi rheolau i leihau risg.
- **Ymgysylltu â'r Gymuned:** Gweithio gyda thrigolion, busnesau, a grwpiau lleol i hyrwyddo diogelwch a pharodrwydd.

Rydym yn gwirio ac yn addasu yn rheolaidd sut yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau i wneud yn siŵr ein bod yn cwrdd â'n nodau yn effeithlon. Mae hyn yn cynnwys adolygu ein cyllideb, ein staffio, a'n hanghenion offer, yn ogystal ag asesu ein perfformiad a'n heffaith.

Isod mae map o'n holl gyfleusterau ledled Gogledd Cymru.

## Yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys

Yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod Tân ym mis Rhagfyr 2023 i beidio â bwrw ymlaen ar cynig gwreiddi (Opsiwn 1a, fel y'i cyflwynwyd ym mis Rhafyr 2023), sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys newydd ym mis Ionawr 2024.


Trwy gydol y flwyddyn, mae'r grŵp wedi archwilio argymhellion ychwanegol a gyflwynwyd yn ystod yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i wella elfen ymateb brys y model gweithredu.

Amcan allweddol yw gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd patrymau shifft presennol a pheilota modelau newydd i ddiffoddwyr tân amser cyflawn allu gweithredu mewn ardaloedd gwledig allweddol i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer diffodd tanau.

Bellach, mae'r Prif Swyddog Tân ac Undeb y Brigadau Tân wedi dod i "Gytundeb ar y Cyd", gan nodi egwyddorion eang y newidiadau arfaethedig.

Mae'r Gwasanaeth bellach yn canolbwyntio ar ddatblygu a chyflawni cynllun gweithredu, gyda cherrig milltir allweddol wedi'u cytuno a ffrydiau gwaith ar y gweill.

# Map Cyfleusterau/Gorsafoedd GTAGC



## Cynllun Rheoli Risg Cymunedol

Roedd eleni yn nodi diwedd swyddogol Cynllun Corfforaethol 2021–2024 a chyflwyno'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) newydd, sy'n ail-lunio sut mae'r Gwasanaeth yn nodi ac yn rheoli risgiau ledled Gogledd Cymru.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cyhoeddodd yr Awdurdod Tân ei gynllun a'i amcanion tymor canolig newydd ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r rhain ar gael yma.

Mae'r CRhRC, sy'n rhedeg o 2024 i 2029, yn amlinellu'r risgiau allweddol sy'n wynebu ein cymunedau ac yn nodi sut y byddwn yn mynd i'r afael â nhw, gan barhau hefyd i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill.

Er mwyn cefnogi'r CRhRC, rydym yn cynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol blynyddol. Mae cynllun 2024–2025, a gyhoeddwyd hefyd ym mis Gorffennaf, ar gael yma.  Mae'r cynlluniau gweithredu hyn yn manylu ar y camau penodol y byddwn yn eu cymryd bob blwyddyn i gyflawni ein nodau a chadw ein cymunedau'n ddiogel. Mae hefyd yn cynnwys amcanion llesiant a gwella, yn unol â deddfwriaeth Cymru.



## Perfformiad Blynyddol

Roedd Asesiad Perfformiad Blynyddol GTAGC, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024, yn nodi blwyddyn olaf y Cynllun Corfforaethol tair blynedd. Adolygodd berfformiad yn erbyn amcanion blynyddol a myfyrio ar gyflawniadau ar hyd oes y cynllun.

Yn ogystal ag adrodd ar dri dangosydd perfformiad statudol ar draws y sector gyfan, asesodd yr adroddiad gynnydd yn erbyn saith amcan gwella a llesiant. Roedd y rhain yn cynnwys gwella diogelwch a gwydnwch cymunedol, gwella cynaliadwyedd amgylcheddol, ac ymgorffori gwerth cymdeithasol mewn caffael.

Roedd yr asesiad perfformiad blynyddol hefyd yn tynnu sylw at ymrwymiad yr Awdurdod i ddatblygu'r gweithlu, ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac effeithlonrwydd gweithredol. Cynhwyswyd crynodeb o'r data perfformiad a'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer 2023/24 hefyd.

Mae'r Datganiad LLywodraethu Blynyddol cysylltiedig (sy'n aros am gymeradwyaeth ar adeg cyhoeddi hwn) yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu ac yn nodi'r cynllun gwaith ar gyfer 2024/25

Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gael yma.



## Diwylliant a Gwelliant Sefydliadol

Yn ystod 2024/25, cyhoeddodd yr Awdurdod Adolygiad Diwylliannol Annibynnol, a gomisiynwyd ar y cyd â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Cafodd yr adolygiad ei gyflwyno gan Crest Advisory a'i gyhoeddi ym mis Chwefror 2025, ac roedd yn cynnwys arolygon, cyfweliadau, grwpiau ffocws, ac ymweliadau safle. Tynnodd sylw at gryfderau o ran ymrwymiad staff a gwasanaeth cyhoeddus, a nodi meysydd i'w gwella o ran gweledededd arweinyddiaeth, cyfathrebu, ac atebolrwydd.

Mewn ymateb, datblygodd y Gwasanaeth Gynllun Gwella Diwylliant wedi'i lunio trwy weithdai staff, a oedd yn cyd-fynd ag argymhellion yr adolygiad. Mae'r cynllun yn cael ei oruchwylio gan Bwrdd Diwylliannol, ac mae’r Bwrdd yn cynnwys aelodau o’r tîm arweinyddiaeth, Cadeirydd yr Awdurdod, Hyrwyddwr Aelod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), ac cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. Mae cynnydd yn cael ei olrhain trwy amcanion CAMPUS ac adrodd yn rheolaidd.

Gofynnwyd am gefnogaeth hefyd gan Lywodraeth Cymru i helpu i weithredu'r newidiadau. Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i feithrin gweithle diogel, cynhwysol, sy'n cael ei arwain gan werthoedd.

## Datblygu canolfan hyfforddi newydd.

Yn ystod 2024/25, gwnaeth yr Awdurdod gynnydd sylweddol wrth fwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer canolfan hyfforddi tân ac achub newydd sy'n addas i'r diben.

Datblygwyd achos amlinellol strategol a'i gymeradwyo'n ffurfiol gan yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Hydref 2024. Mae'r prosiect yn cael ei arwain gan Brif Swyddog Tân Cynorthwyol, gyda'r Pennaeth Hyfforddiant a Datblygu yn goruchwylio’r gwaith cyflawni gweithredol, gyda chefnogaeth tîm prosiect.

Cefnogir llywodraethu rhaglenni gan fframwaith strwythuredig sy'n cynnwys bwrdd rhaglen, grŵp rhaglen, is-grwpiau, a grwpiau gorchwyl a gorffen. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o blith staff, tîm cyfleusterau Heddlu Gogledd Cymru, Cynghorwyr, cynrychiolwyr Undebau Llafur, ac ymgynghorwyr allanol, gan sicrhau ymgysylltiad eang, tryloywder, a gwneud penderfyniadau cydweithredol drwy gydol datblygiad y rhaglen.

Mae'r ganolfan newydd yn elfen allweddol o strategaeth hirdymor yr Awdurdod i wella parodrwydd gweithredol, gwella gallu hyfforddi ac effeithlonrwydd wrth ddarparu hyfforddiant, a chefnogi cyflawni'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024–2029

## Cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd

Yn 2024/25, parhaodd yr Awdurdod i weithredu ei Strategaeth Amgylcheddol (2023–2030), gan ganolbwyntio ar ddatgarboneiddio ar draws y fflyd, ystadau a chaffael. Arweiniodd Gweithgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd y gwaith o ddatblygu cynlluniau manwl i gefnogi targed Sero Net 2030 y Gwasanaeth.

Cwblhawyd prawf llwyddiannus o Olew Llysiau wedi’i drin â Hydrogen (HVO) fel dewis arall yn lle disel, gyda threial mewn gorsafoedd bellach ar y gweill. Mae cynlluniau ar waith i osod tanciau HVO ac offer dosbarthu mewn ugain safle.

Parhaodd y cynnydd ar System Rheoli Amgylcheddol bwrpasol sy’n cyd-fynd ag ISO 14001, gyda'r nod o wella perfformiad amgylcheddol trwy ddefnyddio adnoddau yn well a lleihau gwastraff. Disgwylir i'r gweithredu ddechrau ym 2026/27.

Gan weithio gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, datblygwyd cynllun datgarboneiddio gwresogi i lywio rhaglen dreigl o amnewid systemau, gan flaenoriaethu ar sail cyllid ac anghenion gweithredol. Mae gosodiadau cychwynnol wedi’u cynllunio ar gyfer gorsafoedd tân Llandudno a Chonwy.

Dyfarnwyd grant o £295k gan y Tîm Gwres Carbon Isel yng Ngwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i ariannu 90% o'r gost o osod system wresogi carbon isel yng Ngorsaf Dân Llandudno, gyda'r 10% sy'n weddill yn cael ei dalu o gyllideb gyfalaf yr Awdurdod. Sicrhawyd £131k ychwanegol trwy'r grant Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan (EVCI), sy'n talu 75% o gyfanswm y gost sy'n gysylltiedig â chaffael a gosod seilwaith gwefru cerbydau.

Yn ystod 2024/25, sicrhaodd yr Awdurdod £492k o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, y dyrannwyd £117k ohono i fentrau cynaliadwyedd, gan gynnwys prynu dau gar trydan a dwy fan drydan.








## Perfformiad Ariannol

Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau atal tân, gorfodi ac ymateb brys o ansawdd uchel. Yn 2024/25, parhaodd yr Awdurdod i lywio tirwedd ariannol heriol, gan gydbwyso costau cynyddol â’r angen i gynnal effeithiolrwydd gweithredol a diogelwch cymunedol.

Er mwyn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor, ailddatganodd yr Aelodau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a chytuno i gynyddu cyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol 8.9% i £48,322k, ochr yn ochr â'r defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a mesurau anghylchol i gynnal cyflwyno’r gwasanaethau.

Parhaodd yr heriau recriwtio, yn enwedig mewn rolau arbenigol ac ar alwad, er bod cynnydd wedi'i wneud wrth weithredu argymhellion y gweithlu a chyd-fynd â thrafodaethau cenedlaethol ar delerau ac amodau. Parhaodd y gwaith hefyd ar ddatblygu model Darpariaeth Frys diwygiedig, yn dilyn ymgynghoriad 2023.

Er gwaethaf pwysau parhaus, cynhaliodd yr Awdurdod sefydlogrwydd ariannol trwy fonitro’r gyllideb yn ofalus, rheoli swyddi gwag, a chynhyrchu incwm yn ystod y flwyddyn. Wrth edrych ymlaen, mae'r Awdurdod yn parhau i ganolbwyntio ar reoli costau pensiwn a chyflogres, gan sicrhau ar yr un pryd bod penderfyniadau ariannol yn parhau i gefnogi gwydnwch gweithredol a blaenoriaethau strategol.

### Perfformiad Refeniw

Cofnododd yr Awdurdod danwariant o £293k yn 2024/25, ar ôl cymhwyso addasiadau cyfrifyddu statudol a throsglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn. Mae hyn yn cymharu ag amcangyfrif canlyniad o £330k ddiwedd mis Mawrth.

Cynyddodd y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio £1,785k yn ystod y flwyddyn, gan ddod ar cyfanswm i £10,879k. Mae’r cronfeydd wedi’u neilltuo i gefnogi gofynion gwasanaeth parhaus gan gynnwys hawliadau yswiriant a chitiau tân. Rhagwelir y bydd y cronfeydd wrth gefn yn lleihau yn y blynyddoedd i ddod. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Nodyn 8.

### Mabwysiadu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16

Fel rhan o'r newidiadau a gyflwynwyd o dan IFRS 16, mae'r Awdurdod wedi cydnabod y rhan fwyaf o gytundebau prydles—megis ar gyfer cerbydau ac offer—fel asedau ac atebolrwydd ar y fantolen. Mae'r newid hwn yn gwella tryloywder trwy ddangos gwerth llawn asedau ar brydles ac ymrwymiadau ariannol tymor hir yr Awdurdod, yn hytrach na thaliadau prydles blynyddol yn unig. Cyfanswm gwerth yr asedau a gydnabyddir oedd £904k.

## Crynodeb Refeniw

| 2024/25 | Cyllideb £000 | Alldro £000 | Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn £000 | Cyfraniadau CERA £000 | Cyfanswm £000 | Amrywiant £000 | Amrywiant % |
|---|---:|---:|---:|---:|---:|---:|---:|
| Gweithwyr | 35,429 | 33,937 | 525 | 0 | 34,462 | (968) | -2.7% |
| Adeiladau | 3,530 | 2,921 | 317 | 0 | 3,238 | (292) | -8.3% |
| Trafnidiaeth | 1,259 | 1,085 | 102 | 0 | 1,187 | (72) | -5.7% |
| Cyflenwadau | 6,622 | 6,305 | 596 | 0 | 6,901 | 279 | 4.2% |
| Taliadau Trydydd Parti | 363 | 385 | 0 | 0 | 385 | 23 | 6.2% |
| Cyllid Cyfalaf a Thaliadau | 2,989 | 2,397 | 0 | 1,459 | 3,856 | 866 | 29% |
| Incwm | (946) | (1,774) | 0 | 0 | (1,774) | (828) | 87% |
| Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn | (924) | 0 | 0 | 0 | 0 | 924 | -100% |
| **Is-Gyfanswm** | **48,322** | **45,257** | **1,540** | **1,459** | **48,256** | **(65)** | **-0.1%** |
| Ardollau | (48,322) | (48,549) | 0 | 0 | (48,549) | (227) | 0.5% |
| **Sefyllfa Alldro** | | | | | **(293)** | **(293)** | **0.6%** |

## Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy

| Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | Balans 31 Mawrth 2024 | Trosglwyddiadau (i mewn/)/allan 2024/25 | Balans 31 Mawrth 2025 |
|---|---:|---:|---:|
| | £000 | £000 | £000 |
| Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | (7,398) | (1,540) | (8,938) |
| Cronfa Gyffredinol | (1,575) | (293) | (1,868) |
| Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso | (48) | 48 | 0 |
| Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | (73) | 0 | (73) |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy** | **(9,094)** | **(1,785)** | **(10,879)** |

## Perfformiad Cyfalaf

Cymeradwyodd yr Awdurdod raglen gyfalaf o £5,676k ym mis Ionawr 2024, yr oedd £1,100k ohono yn gyllid treigl o 2023/24. Cyfanswm y gwariant cyfalaf ar gyfer 2024/25 oedd £3,087k, gyda dadansoddiad manwl o'r cynlluniau isod. Yn gynwysedig, roedd y tir a brynwyd am £2,714k, a oedd yn rhan allweddol o strategaeth asedau tymor hir yr Awdurdod.

Oherwydd llithriant prosiectau, bydd tua £2,589k yn cael ei gario ymlaen i 2025/26 i gwblhau cynlluniau sy’n dal i fynd rhagddynt. Mae'r Awdurdod yn parhau i fonitro cyflawni cyfalaf yn fanwl, gyda gwell prosesau craffu a chynllunio bellach ar waith.

### Ariannu Cyfalaf

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd yr Awdurdod hefyd gyllid grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwelliannau gweithredol allweddol. Roedd hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer cael radios safleoedd tân newydd yn lle’r rhai presennol yn unol ag argymhellion Ymchwiliad Tŵr Grenfell, ac ar gyfer prynu cerbydau newydd i gefnogi cyflwyno’r gwasanaethau rheng flaen. Mae'r buddsoddiadau hyn yn cyfrannu at ddiogelwch diffoddwyr tân a gwydnwch asedau tymor hir yr Awdurdod.

| Cyllid | Swm £000 |
|---|---|
| Benthyca Mewnol | 710 |
| Cyllid Grant | 918 |
| Cyfraniadau | 1,459 |
| **Cyfanswm** | 3,087 |

| Cynllun | Dyraniad £000 | Gwirioneddol £000 | Arian Treigl £000 |
|---|---|---|---|
| Gwellianau TGCH | 827 | 377 | 450 |
| Tyrrau hyfforddi | 305 | 34 | 271 |
| Gwelliannau i orsafoedd | 1100 | 394 | 706 |
| Gwaith cynaliadwyedd | 470 | 0 | 470 |
| Uwchraddio cyfleusterau hyfforddi | 300 | 0 | 300 |
| Cerbydau tân | 427 | 534 | 0 |
| Cerbydau ysgafn | 166 | 194 | 0 |
| Cerbydau ysgafn arbenigol | 632 | 570 | 0 |
| Offer gweithredol | 290 | 0 | 242 |
| Offer fflyd | 50 | 0 | 0 |
| Treigl 2023/24 | | | |
| Cerbydau tân | 960 | 984 | 0 |
| Gwaith cynaliadwyedd | 150 | 0 | 150 |
| **Total** | **5,676** | **3,087** | **2,589** |
| Tir | 3,000 | 2,714 | 0 |
| Grant | 918 | 1,012 | 0 |

Yn ychwanegol at y dyraniad cyfalaf, derbyniwyd cyllid atodol o £918k gan wahanol gyrff, gyda £1,012k wedi’i wario — yn bennaf ar fentrau cynaliadwyedd. Mae hyn yn adlewyrchu blaenoriaethu cynlluniau a ariennir gan grantiau.

Mae gofyniad i drosglwyddo £2,589k i gefnogi cwblhau prosiectau sy’n dal i fynd rhagddynt, fel y nodir uchod.

### Rheoli Trysorlys

Parhaodd yr Awdurdod i gydymffurfio â'i Strategaeth Rheoli Trysorlys drwy gydol 2024/25. Arhosodd benthyca a buddsoddiadau o fewn y terfynau cymeradwy, ac nid adroddwyd am unrhyw ddiffygdalu. Roedd incwm buddsoddiadau yn uwch na disgwyliadau'r gyllideb, ac roedd sefyllfa fenthyca net yr Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn £19,070k yn is na'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf.

Mae'r Awdurdod yn parhau i weithio gydag cynghorwyr trysolrys Arlingclose i reoli risg cyfradd llog a’r strategaeth fenthyca yn effeithiol.

### Costau Pensiynau

Cyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân oedd £4,906, gyda chyfanswm y taliadau i aelodau sydd wedi ymddeol yn £9,737. Mae'r cynllun yn parhau i fod yn gynllun nad yw’n cael ei ariannu ymlaen llaw, gyda'r atebolrwydd yn lleihau i £208,143 oherwydd newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol.

O ran y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, arhosodd y cyfradd sylfaenol y cyflogwr yn 18.3%, gyda gostyngiad cyfradd eilaidd o £525k.

## Rhagolwg

### Llif Arian ac Ystyriaethau yn y Dyfodol

Cynhaliodd yr Awdurdod sefyllfa arian parod gref trwy gydol 2024/25, a hynny wedi’i gefnogi yn sgil cael praeseptau yn brydlon a gwaith rheoli trysorlys gweithredol.

Wrth edrych ymlaen, gall amseru prosiectau cyfalaf effeithio ar lif arian yn y dyfodol - yn enwedig datblygiad y Ganolfan Hyfforddi. Mae'r Awdurdod yn parhau i fonitro hylifedd yn fanwl, gan ddefnyddio buddsoddiadau tymor byr a chynllunio senarios i sicrhau digon o hyblygrwydd i fodloni ymrwymiadau gweithredol a chyfalaf. Darperir cyngor arbenigol gan Arlingclose, gan gefnogi dull yr Awdurdod o wneud penderfyniadau trysorlys darbodus a gwybodus.

### Ymrwymiadau Allweddol

Cymeradwyodd yr Awdurdod ddyraniad o £2,940k i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer canolfan hyfforddi gyda'r cyllid yn cael ei gyflwyno’n raddol hyd at 2026/27.

### Pwysau Cyllidebol a Lliniaru yn y Dyfodol

Mae'r Awdurdod yn parhau i wynebu pwysau cost cynyddol a mwy a mwy o alw am wasanaethau. Cymeradwywyd cyllideb 2025/26 gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i reoli diffygion yn y dyfodol trwy arbedion effeithlonrwydd, blaenoriaethu gwasanaethau, a defnyddio cronfeydd wrth gefn yn ofalus.

## Ystyriaeth o Adran 114

Yn unol â chanllawiau wedi'u diweddaru gan CIPFA ar gyfer 2024/25, adolygodd yr Awdurdod y risg o gyhoeddi hysbysiad Adran 114—cam ffurfiol a gymerir pan na all awdurdod lleol gydbwyso ei gyllideb. Er gwaethaf y pwysau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yn ehangach, cynhaliodd yr Awdurdod oruchwyliaeth ariannol gref trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys monitro rheolaidd ar gyllidebau, cronfeydd wrth gefn, a risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Ni chafodd hysbysiad Adran 114 ei ystyried yn angenrheidiol ar unrhyw adeg. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad yr Awdurdod i reolaeth ariannol gadarn a'i ddull rhagweithiol o ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau cynaliadwyedd tymor hir.

## Gwybodaeth Bellach

Mae rhagor o wybodaeth am y cyfrifon hyn ar gael gan Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael ar gyfer Gwasanaeth Tân & Achub Gogledd Cymru, Ffordd Salesbury, Llanelwy, LL17 0JJ.

Mae gan aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb hawl statudol i archwilio'r cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau.

Mae argaeledd y cyfrifon i'w harchwilio yn cael ei hysbysebu ar wefan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

[https://www.tangogleddcymru.llyw.cymru/awdurdod-tan-ac-achub/ariannol/](https://www.tangogleddcymru.llyw.cymru/awdurdod-tan-ac-achub/ariannol/)

## Diolchiadau

Wrth gloi, hoffwn fynegi fy niolch diffuant i gydweithwyr ar draws y sefydliad sydd wedi cyfrannu at baratoi'r adroddiad naratif hwn a'r Datganiad o Gyfrifon ehangach. Yn benodol, hoffwn gydnabod ymroddiad a phroffesiynoldeb y tîm Cyllid, y mae eu hymdrechion wedi sicrhau cwblhau’r adroddiadau ariannol eleni yn brydlon ac yn gywir.

Rydym hefyd yn parhau i fod yn ddiolchgar i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad parhaus drwy gydol 2024/25.

**Dafydd Edwards**

**Trysorydd a Swyddog Adran 151**
**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O GYFRIFON

### CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn gywir ac i sicrhau bod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y cyfryw swyddog yw'r Trysorydd
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

**ARDYSTIAD YR AWDURDOD**

Rwy'n cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2025.

Llofnod ______________________________ Dyddiad _________________

**Y Cynghorydd, Cadeirydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

### CYFRIFOLDEBAU'R TRYSORYDD

Y Trysorydd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn unol ag arferion priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon, mae'r Trysorydd wedi:

- dethol polisïau cyfrifyddu addas, ac yn wedi eu defnyddio'n gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus
- cydymffurfio â'r Cod Ymarfer
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfoes
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysonderau eraill.

**ARDYSTIAD Y TRYSORYDD**

Rwy'n tystio bod y cyfrifon yn darparu golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2025, ynghyd â'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Llofnod ______________________________ Dyddiad 30/05/2025

**Trysorydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Adroddiad yr Archwilwyr i'w gynnwys yma

Adroddiad yr Archwilwyr i'w gynnwys yma

Adroddiad yr Archwilwyr i'w gynnwys yma

Adroddiad yr Archwilwyr i'w gynnwys yma

## DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID

Mae’r datganiad hwn yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a’i ariannu o adnoddau (grantiau, cyfraniadau ac ati) gan awdurdodau lleol o’i gymharu ag adnoddau a ddefnyddir neu a enillir gan awdurdodau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau yn unol â'r math o wariant yr eir iddo. Caiff Incwm a Gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (GAAP) eu cyflwyno'n llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| 2023/24 | | | | 2024/25 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2023/24 £’000 | Adjustments Between the Funding and Accounting Basis £’000 | Net Expenditure in the Comprehensive Income & Exp Statement £’000 | | 2024/25 £’000 | Adjustments Between the funding and Accounting Basis £’000 | Net Expenditure in the Comprehensive Income & Exp Statement £’000 |
| 43,123 | (7,682) | 35,441 | Darparu Gwasanaethau Tân | 46,716 | (9,309) | 37,407 |
| (44,394) | 10,557 | (33,837) | Incwm a Gwariant Arall | (48,549) | 10,318 | (38,231) |
| **(1,271)** | **2,875** | **1,604** | **Diffyg (neu Warged) ar Ddarparu Gwasanaethau** | **(1,833)** | **1,009** | **(824)** |

| 2023/24 | | | | 2024/25 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| General Fund Balance £'000 | Earmarked General Fund Reserves £'000 | Total General Fund £'000 | | Balans y Gronfa Gyffredinol £’000 | Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd y Gronfa Gyffredinol £’000 | Cyfanswm y Gronfa Gyffredinol -49,467 |
| (1,480) | (6,341) | (7,821) | Dygwyd Ymlaen | (1,575) | (7,519) | (9,094) |
| (1,271) | | (1,271) | (Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | (1,833) | | (1,833) |
| | 37 | 37 | Trosglwyddo rhwng Balans y Gronfa Gyffredinol a Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso | | 48 | 48 |
| 1,176 | (1,215) | (39) | Trosglwyddo rhwng Balans y Gronfa Gyffredinol a Chronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol a Glustnodwyd | 1,540 | (1,540) | 0 |
| **(1,575)** | **(7,519)** | **(9,094)** | **Balans Terfynol y Gronfa Gyffredinol** | **(1,868)** | **(9,011)** | **(10,879)** |

## DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost gyfrifo yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (GAAP), yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu o gyfraniadau. Mae gwariant yr Awdurdod yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Dangosir y sefyllfa cyfrannu yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

| 2023/24 | | | | 2024/25 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros £'000** | **Incwm Gros £'000** | **Gwariant Net £'000** | | **Sylwer** | **Gwariant Gros £'000** | **Incwm Gros £'000** | **Gwariant Net £'000** |
| 36,878 | (1,437) | 35,441 | Darparu Gwasanaethau Tân | | 39,181 | (1,774) | 37,407 |
| **36,878** | **(1,437)** | **35,441** | **Cost Gwasanaethau** | | **39,181** | **(1,774)** | **37,407** |
| (14) | 0 | (14) | Other Operating Expenditure | | 56 | 0 | 56 |
| 11,071 | (429) | 10,642 | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | **9** | 11,362 | (182) | 11,180 |
| 0 | (44,465) | (44,465) | Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol | **10** | 0 | (49,467) | (49,467) |
| | | **1,604** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | | | **(824)** |
| 557 | 0 | 557 | (Gwarged) neu ddiffyg ar Ailbrisio Eiddo, ac Asedau Offer | **18** | 0 | 0 | 0 |
| | | 1,096 | Ailfesur yr Ymrwymiad Buddion Diffiniedig Net | **18** | | | (26,136) |
| | | **1,653** | **(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(26,136)** |
| | | **3,257** | **Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **(26,960)** |

## DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd sydd gan yr Awdurdod, wedi'i ddadansoddi'n gronfeydd defnyddiadwy' (sef y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu i leihau cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol) a chronfeydd eraill. Mae'r Gwarged neu'r (Diffyg) ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod, a dangosir rhagor o fanylion am hynny yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sydd angen eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol, sy'n cael ei hariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol. Mae'r llinell Cynnydd / Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd a Glustnodwyd yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol cyn i'r Awdurdod wneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i'r cronfeydd a glustnodwyd ac ohonynt.

| 2023-24 | Sylwer | Balans y Gronfa Gyffredinol £'000 | Cronfeydd wrth Gefn a Grantiau a Glustnodwyd £'000 | Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000 | Derbyniadau Cyfalaf a Glustnodwyd £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000 | Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio £'000 | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **(1,575)** | **(7,398)** | **(48)** | **(73)** | **(9,094)** | **203,757** | **194,663** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2023/2024** | | | | | | | | |
| Diffyg (neu Warged) ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau | | (824) | 0 | 0 | 0 | (824) | 0 | (824) |
| (Incwm) a Gwariant Arall Cynhwysfawr | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (26,136) | (26,136) |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **(824)** | **0** | **0** | | **(824)** | **(26,136)** | **(26,960)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan y rheoliadau | **7** | (962) | 0 | | 0 | (962) | 962 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd** | | **(1,786)** | **0** | **0** | **0** | **(1,786)** | **(25,174)** | **(26,960)** |
| Trosglwyddiadau Eraill i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | **8** | 1,493 | (1,540) | 48 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2023/24** | **6** | **(293)** | **(1,540)** | **48** | **0** | **(1,785)** | **(25,174)** | **(26,959)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | **(1,868)** | **(8,938)** | **0** | **(73)** | **(10,879)** | **178,583** | **167,704** |

## DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

| 2023-24 | Sylwer | Balans y Gronfa Gyffredinol £'000 | Cronfeydd wrth Gefn a Grantiau a Glustnodwyd £'000 | Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000 | Derbyniadau Cyfalaf a Glustnodwyd £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000 | Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio £'000 | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **(1,480)** | **(6,222)** | **(85)** | **(34)** | **(7,821)** | **199,227** | **191,406** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2023/2024** | | | | | | | | |
| Diffyg (neu Warged) ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau | | 1,604 | 0 | 0 | 0 | 1,604 | 0 | 1,604 |
| (Incwm) a Gwariant Arall Cynhwysfawr | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,653 | 1,653 |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **1,604** | **0** | **0** | | **1,604** | **1,653** | **3,257** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan y rheoliadau | **7** | (2,877) | 0 | | 0 | (2,877) | 2,877 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd** | | (1,273) | 0 | 0 | 0 | (1,273) | 4,530 | 3,257 |
| Trosglwyddiadau Eraill i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | **8** | 1,178 | (1,176) | 37 | (39) | 0 | 0 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2023/24** | **6** | **(95)** | **(1,176)** | **37** | **(39)** | **(1,273)** | **4,530** | **3,257** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | **(1,575)** | **(7,398)** | **(48)** | **(73)** | **(9,094)** | **203,757** | **194,663** |

## Y FANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth, ar ddyddiad y Fantolen, yr asedau a'r ymrwymiadau a gydnabyddir gan yr Awdurdod. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai ymrwymiadau) yn cael eu cyfateb gan y cronfeydd sydd gan yr Awdurdod. Adroddir ynghylch cronfeydd mewn dau gategori. Y categori cyntaf o gronfeydd yw cronfeydd defnyddiadwy sef cronfeydd y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (e.e. y Gronfa Dderbyniadau na ellir ond ei defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Yr ail gategori o gronfeydd yw'r rhai nad yw'r Awdurdod yn gallu eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd yn cynnwys cronfeydd sy'n dal enillion na wireddwyd a cholledion (e.e. y Gronfa Ailbrisio), pryd na fyddai symiau ond ar gael i ddarparu gwasanaethau os caiff yr asedau eu gwerthu; ac mae cronfeydd sy'n dal gwahaniaethau amseru yn cael eu dangos yn y llinell Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd 'Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu o dan reoliadau.'

| **31 Mawrth 2024 £'000** | | **Sylwer** | **31 Mawrth 2025 £'000** |
|---|---|---|---|
| 56,044 | Eiddo, Peiriannau ac Offer | **11** | 60,872 |
| 141 | Asedau Anniriaethol | **11** | 99 |
| 62 | Dyledwyr Tymor Hir | **14** | 102 |
| **56,247** | **Asedau Tymor Hir** | | **61,073** |
| 614 | Rhestrau Stoc | **13** | 662 |
| 1,275 | Dyledwyr Tymor Byr | **14** | 2,527 |
| 0 | Buddsoddiadau Tymor Byr | **15** | 0 |
| 2,973 | Arian a Chyfwerth Ariannol | **15** | 2,523 |
| **4,862** | **Asedau Cyfredol** | | **5,712** |
| (3,830) | Benthyca Tymor Byr | **12** | (10,617) |
| (217) | Darpariaethau | **17** | (374) |
| (6,042) | Credydwyr Tymor Byr | **16** | (6,433) |
| **(10,089)** | **Ymrwymiadau Cyfredol** | | **(17,424)** |
| (231,610) | Rhwymedigaeth Pensiwn | **18** | (208,143) |
| 0 | Darpariaethau Tymor Hir | **17** | 0 |
| 0 | Credydwyr Tymor Hir | **16** | (466) |
| (14,073) | Benthyca Tymor Hir | **12** | (8,456) |
| **(245,683)** | **Rhwymedigaethau Tymor Hir** | | **(217,065)** |
| **(194,663)** | **Asedau Net** | | **(167,704)** |
| (9,094) | Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | **8** | (10,879) |
| 203,757 | Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio | **18** | 178,583 |
| **194,663** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn** | | **167,704** |

## DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau yn arian a chyfwerth ag arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Awdurdod yn creu ac yn defnyddio arian a chyfwerth ag arian trwy gategoreiddio llif arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian net sy'n deillio o'r gweithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o'r graddau y mae gweithrediadau'r Awdurdod yn cael eu hariannu trwy gyfraniadau ac incwm grant neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae'r gweithgareddau buddsoddi yn dangos y graddau y mae'r all-lifiadau arian wedi eu gwneud ar gyfer adnoddau sydd â'u bwriad o gyfrannu at y modd y gall yr Awdurdod ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r llifoedd arian sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol wrth ragweld ceisiadau o lifiadau arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyca) i'r Awdurdod.

| 2023/24 £'000 | | Sylwer | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|---|
| **1,604** | **(Gwarged)/Diffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau** | | **(824)** |
| (11,409) | Addasiadau i'r (Gwarged) neu Ddiffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Symudiadau nad ydynt yn Arian | **19** | (4,948) |
| (263) | Addasiadau ar gyfer Eitemau sydd yn y (Gwarged) neu Ddiffyg net wrth Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi neu Ariannu | **19** | (447) |
| (10,068) | Llifoedd Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | **19** | (6,219) |
| 2,240 | Gweithgareddau Buddsoddi | **20** | 7,508 |
| 9,032 | Gweithgareddau Cyllido | **21** | (839) |
| 1,204 | (Cynnydd) neu Ostyngiad Net mewn Arian a Chyfwerth ag Arian | | 450 |
| **(4,177)** | **Arian a Chyfwerth ag Arian ar ddechrau'r Cyfnod adrodd** | | **(2,973)** |
| **(2,973)** | **Arian a Chyfwerth ag Arian ar ddiwedd y Cyfnod adrodd** | **15** | **(2,523)** |

## NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r nodiadau'n rhoi gwybodaeth am sail y gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol a'r polisïau cyfrifyddu penodol a ddefnyddiwyd.  Maent yn darparu gwybodaeth nad yw'n cael ei chyflwyno yn unlle arall yn y datganiadau ariannol ac sy'n berthnasol er mwyn deall y cyfrifon.

### 1 SAFONAU CYFRIFYDDU SYDD WEDI CAEL EU CYHOEDDI OND NAD YDYNT WEDI’U MABWYSIADU ETO

Pan fo Safon newydd wedi'i chyhoeddi ond heb ei mabwysiadu gan y Cod, rhaid i'r Awdurdod ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith y newid o ran cyfrifyddu.  Dyma’r newidiadau a gyflwynwyd gan God 2025/26:

a) **IAS 21 Effeithiau Newidiadau mewn Cyfraddau Cyfnewid Tramor (Diffyg Cyfnewidioldeb)** a gyhoeddwyd ym mis Awst 2023. Mae’r diwygiadau i IAS 21 yn egluro sut y dylai endid asesu a yw arian cyfred yn gyfnewidiol a sut y dylai bennu cyfradd gyfnewid fanwl pan nad oes cyfnewidioldeb, yn ogystal â mynnu datgelu gwybodaeth sy’n galluogi defnyddwyr datganiadau ariannol i ddeall effaith arian cyfred nad yw’n gyfnewidiol.

b) **IFRS 17 Contractau Yswiriant** a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017. Mae IFRS 17 yn disodli IFRS 4 ac yn nodi egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu contractau yswiriant.

c) Mae’r newidiadau i fesur asedau nad ydynt yn fuddsoddiadau o fewn Cod 2025/26 yn cynnwys addasiadau a dehongliadau o IAS 16 Eiddo, Peiriannau ac Offer ac IAS 38 Asedau Anamrwd. Mae’r rhain yn cynnwys nodi tri phroses ailbrisio ar gyfer eiddo, peiriannau ac offer gweithredol, mynnu mynegeio ar gyfer asedau diriaethol nad ydynt yn fuddsoddiadau a gofyniad i brisio asedau anamrwd gan ddefnyddio’r dull cost hanesyddol. Mae’r rhain yn cael yr un effaith â gofyn newid polisi cyfrifyddu oherwydd diwygiad i safonau, a fyddai fel arfer yn cael ei ddatgelu o dan IAS 8. Fodd bynnag, mae’r addasiadau hefyd yn cynnwys esemptiad rhag gofynion IAS 8 yn dilyn newid polisi cyfrifyddu fel y cadarnhawyd ym mharagraff 3.3.1.4.

Nid yw’n cael ei ragweld y bydd y diwygiadau uchod yn cael effaith sylweddol ar y wybodaeth a ddarperir yn natganiadau ariannol yr Awdurdod.

### 2 DYFARNIADAU HOLLBWYSIG WRTH GYMHWYSO POLISIAU CYFRIFYDDU

Mae polisïau cyfrifyddu yn cyfeirio at yr egwyddorion, y sail, y confensiynau, y rheolau a’r arferion penodol a gymhwysir gan awdurdod wrth baratoi a chyflwyno datganiadau ariannol.

Wrth gymhwyso’r polisïau cyfrifyddu a nodir yn Atodiad 1, mae’r Awdurdod wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau barnol ynghylch trafodion cymhleth neu rai sy’n cynnwys ansicrwydd ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol. Y farn hanfodol yn y Datganiad Ariannol yw oherwydd y raddfa uchel o ansicrwydd ynghylch lefelau cyllido’r dyfodol ar gyfer llywodraeth leol yn ei chyfanrwydd.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon eto i ddarparu arwydd y gallai asedau'r Awdurdod gael eu niweidio o ganlyniad i'r angen i ostwng lefelau darpariaeth gwasanaethau.

## 3 RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL O AMCANGYFRIF AC ANSICRWYDD

Mae'r datganiad o gyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan yr awdurdod ynglŷn â'r dyfodol neu eu bod fel arall yn ansicr. Llunnir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu balansau gyda sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r prif eitemau ym Mantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2025, y mae risg sylweddol y bydd angen addasiad perthnasol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn:

**Eiddo, Peiriannau ac Offer** - Mae'r Awdurdod yn ailbrisio ei asedau bob 5 mlynedd. Mae'n bosibl y gallai gwerth eiddo barhau i amrywio, yn enwedig ar adegau o ansicrwydd economaidd. Mae prisiadau'n seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyflwr asedau, bywyd defnyddiol, gwerthoedd gweddilliol ac amodau'r farchnad. Mae'r dyfarniadau hyn yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael ac yn cael eu gwneud gan briswyr cymwys.

Cwblhawyd yr ailbrisiad llawn diwethaf ar 31 Mawrth 2023. Oherwydd bod data pellach ar gael mewn perthynas â phrisio gorsafoedd tân, mae adolygiad wedi'i gwblhau, o holl adeiladau'r orsaf, ar 31 Mawrth 2024.

**Ymrwymiad Pensiwn** - Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau yn cynyddu yn unol â hi, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac, ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yr enillion a ddisgwylir ar asedau'r gronfa bensiwn.

Penodir actiwarïaid ymgynghorol i roi cyngor arbenigol i'r Awdurdod ynglŷn â'r rhagdybiaethau i'w cymhwyso. Darperir rhagor o wybodaeth o fewn cyfrif y gronfa bensiwn.

## 4 DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi cael ei awdurdodi I'w gyhoeddi gan y Trysorydd ar 30 Fai 2025. Nid yw digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau.

Lle bo digwyddiadau cyn y dyddiad hwn wedi darparu gwybodaeth am amgylchiadau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2025, mae'r ffigurau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau wedi'u haddasu ym mhob agwedd ddeunyddiol i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau deunyddiol wedi digwydd ar ôl dyddiad y Fantolen.

Pan oedd digwyddiadau a gynhaliwyd cyn y dyddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am yr amodau sy'n bodoli ar 31 Mawrth 2025, mae'r ffigurau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob ffordd berthnasol i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau perthnasol ar ôl dyddiad y fantolen.

## 5 NODYN I'R DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID

| **2024/25** | **Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf £'000** | **Tâl net ar gyfer Addasiadau Pensiwn £'000** | **Arall Addasiadau £'000** | **Cyfanswm Addasiadau £'000** |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Darparu Gwasanaethau Tân | (1,443) | (8,064) | 198 | (9,309) |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **(1,443)** | **(8,064)** | **198** | **(9,309)** |
| **Incwm a Gwariant Arall** Incwm a Gwariant Arall o'r dadansoddiad gwariant ac ariannu | (862) | 10,733 | 447 | 10,318 |
| **Gwahaniaethau rhwng gwarged y Gronfa Gyffredinol a gwarged Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ddarparu gwasanaethau** | **(2,305)** | **2,669** | **645** | **1,009** |

| **2023/24** | **Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf £'000** | **Tâl net ar gyfer Addasiadau Pensiwn £'000** | **Arall Addasiadau £'000** | **Cyfanswm Addasiadau £'000** |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Darparu Gwasanaethau Tân | (1,217) | (7,008) | 543 | (7,682) |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **(1,217)** | **(7,008)** | **543** | **(7,682)** |
| **Incwm a Gwariant Arall** Incwm a Gwariant Arall o'r dadansoddiad gwariant ac ariannu | (85) | 10,379 | 263 | 10,557 |
| **Gwahaniaethau rhwng gwarged y Gronfa Gyffredinol a gwarged Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ddarparu gwasanaethau** | **(1,302)** | **3,371** | **806** | **2,875** |

**Addasiadau at ddibenion cyfalaf** – mae'r golofn hon yn ychwanegu dibrisiant ac enillion a cholledion amhariad ac ailbrisio yn y llinell gwasanaethau, ac ar gyfer:

- Gwariant gweithredu arall – yn addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf drwy drosglwyddo incwm wrth waredu asedau a'r symiau a ddilëwyd ar gyfer yr asedau hynny.
- Gwariant ac incwm ariannu a buddsoddi - y newidiadau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf h.y. didynnir isafswm darpariaeth refeniw a chyfraniadau refeniw eraill o wasanaethau gan nad yw'r rhain yn symiau y gellir codi amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

- Trethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol - caiff grantiau cyfalaf eu haddasu ar gyfer incwm na ellir codi amdano o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae grantiau refeniw yn cael eu haddasu o'r rhai y gellir eu derbyn yn y flwyddyn i'r rhai y gellir eu derbyn heb amodau neu y bodlonwyd amodau ar eu cyfer drwy gydol y flwyddyn. Mae'r llinell trethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol yn cael ei gredydu â grantiau cyfalaf y gellir eu derbyn yn y flwyddyn heb amodau neu rai y bodlonwyd amodau ar eu cyfer yn y flwyddyn.

**Newid net ar gyfer yr addasiadau pensiwn** - Newid net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegu gwariant ac incwm Buddiannau Cyflogeion IAS19 sy'n ymwneud â

- Ar gyfer gwasanaethau, mae hyn yn cynrychioli dileu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a wnaed gan yr awdurdod fel y'i caniateir drwy statud a disodli costau gwasanaeth presennol a chostau gwasanaeth a roddwyd.
- Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi – codir y llog net ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Addasiadau Eraill** - Gwahaniaethau eraill rhwng symiau a ddebydwyd/credydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a symiau taladwy/derbyniadwy i'w cydnabod o dan statud:

- Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi, mae’r golofn addasiadau statudol arall yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer y gwahaniaethau amseru ar gyfer premiymau a gostyngiadau.
- Mae'r tâl o dan Drethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng yr hyn y gellir ei godi o dan reoliadau statudol y rhagamcanwyd y byddid yn ei dderbyn ar ddechrau'r flwyddyn a'r incwm a gydnabyddir o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y Cod. Mae hwn yn wahaniaeth amseru gan y bydd unrhyw wahaniaeth yn cael ei ddwyn ymlaen mewn Gwargedion neu Ddiffygion ar y Gronfa Gyffredinol yn y dyfodol.

## 6 DADANSODDI GWARIANT AC INCWM YN ÓL NATUR

| **2023/24 £0** | | **2024/25 £000** |
|---:|---|---:|
| | **Gwariant** | |
| 24,003 | Gweithwyr | 25,888 |
| 10,079 | Costau Gweithredu Eraill | 10,312 |
| 318 | Gwasanaethau Cefnogi | 385 |
| (14) | Enillion ar waredu asedau | 56 |
| 11,071 | Gwariant Ariannu a Buddsoddi | 11,362 |
| 2,478 | Costau Ariannu Cyfalaf | 2,595 |
| **47,935** | **Cyfanswm y Gwariant** | **50,598** |
| | **Incwm** | |
| (546) | Ffioedd, Taliadau & Incwm Gwasanaeth Arall | (792) |
| (429) | Incwm Llog a Buddsoddi | (182) |
| (44,394) | Cyfraniadau gan Awdurdodau Cyfansoddol | (48,549) |
| (962) | Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth | (1,899) |
| **(46,331)** | **Cyfanswm yr Incwm** | **(51,422)** |
| **1,604** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **-824** |

## 7 ADDASIADAU RHWNG Y SAIL GYFRIFYDDU A’R SAIL ARIANNU YN ÓL STATUD

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol i nodi’r adnoddau y mae darpariaethau statudol yn pennu eu bod ar gael i'r awdurdod i fodloni gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

Mae'r canlynol yn nodi disgrifiad o'r cronfeydd wrth gefn y gwneir yr addasiadau yn eu herbyn.

**Balans y Gronfa Gyffredinol**

Y Gronfa Gyffredinol yw'r gronfa statudol y mae'n ofynnol i holl dderbyniadau awdurdod gael eu talu iddi ac y mae holl rwymedigaethau'r awdurdod i'w talu ohoni, ac eithrio i'r graddau y gallai rheolau statudol ddarparu fel arall. Gall y rheolau hyn hefyd nodi'r flwyddyn ariannol lle dylai rhwymedigaethau a thaliadau effeithio ar falans y Gronfa Gyffredinol, nad yw o reidrwydd yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol. Felly, mae balans y Gronfa Gyffredinol yn crynhoi'r adnoddau y mae'r awdurdod wedi'i rymuso'n statudol i'w wario ar ei wasanaethau neu ar fuddsoddiad cyfalaf (neu'r diffyg adnoddau y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei adennill) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Cronfa derbyniadau cyfalaf**

Mae'r gronfa derbyniadau cyfalaf yn dal yr elw o waredu tir neu asedau eraill, sydd wedi'i gyfyngu gan statud rhag cael ei ddefnyddio heblaw am ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i'w neilltuo i ariannu gwariant cyfalaf hanesyddol. Mae'r balans ar y gronfa wrth gefn yn dangos yr adnoddau sydd eto i'w cymhwyso at y dibenion hyn ar ddiwedd y flwyddyn.

**Grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso**

Mae'r cyfrif (cronfa wrth gefn) grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r awdurdod wedi cwrdd â’r amodau ar eu cyfer ac a fyddai fel arall yn gofyn am ad-dalu'r arian, ond nad ydynt wedi'u cymhwyso eto i dalu am wariant. Mae'r balans wedi'i gyfyngu gan delerau grant o ran y gwariant cyfalaf y gellir ei gymhwyso yn ei erbyn a/neu'r flwyddyn ariannol y gellir gwneud hyn.

| 2023/24 | | | | | | 2023/24 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000** | **Cronfeydd Cyfalaf a Glustnodwyd £'000** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000** | **Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Ariannu o dan y Rheoliadau** | **Balans y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £'000** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000** |
| (2,446) | 0 | 0 | (2,446) | 2,446 | Dibrisiant ac amhariad | (2,595) | 0 | (2,595) | 2,595 |
| (32) | 0 | 0 | (32) | 32 | Colledion/enillion ailbrisio/enillion ar Eiddo | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 14 | 0 | (39) | (25) | 25 | Gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol | (56) | 0 | (56) | 56 |
| 1,101 | 0 | 0 | 1,101 | (1,101) | Gwariant cyfalaf wedi'i ariannu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd/CERA | 1,459 | 0 | 1,459 | (1,459) |
| 71 | 0 | 0 | 71 | (71) | Ariannu gwariant cyfalaf o grantiau | 918 | 0 | 918 | (918) |
| 1,902 | 0 | 0 | 1,902 | (1,902) | Cyllid Ariannu (MRP) | 1,949 | 0 | 1,949 | (1,949) |
| **610** | **0** | **(39)** | **571** | **(571)** | | **1,675** | **0** | **1,675** | **(1,675)** |
| 10,532 | 0 | 0 | 10,532 | (10,532) | Cyfraniadau a thaliadau Pensiwn Cyflogwyr i bensiynwyr | 11,028 | 0 | 11,028 | (11,028) |
| (13,903) | 0 | 0 | (13,903) | 13,903 | Gwrthdroi buddion ymddeol yn y CIES | (13,697) | 0 | (13,697) | 13,697 |
| **(3,371)** | **0** | **0** | **(3,371)** | **3,371** | | **(2,669)** | **0** | **(2,669)** | **2,669** |
| 0 | 37 | 0 | 37 | (37) | Addasiad i'r Gronfa Grantiau wrth Gefn | 0 | 48 | 48 | (48) |
| (114) | | | (114) | 114 | Symuiad o ran cronni Absenoldeb Cronedig | (16) | 0 | (16) | 16 |
| **(2,875)** | **37** | **(39)** | **(2,877)** | **2,877** | **Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail ariannu o dan y rheoliadau** | **(1,010)** | **48** | **(962)** | **962** |

## 8 CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r symiau a neilltuwyd o falans y Gronfa Gyffredinol mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwariant yn y dyfodol a'r symiau a drosglwyddwyd yn ôl o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i fodloni gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2023/24.

| Cronfa | Diben y Gronfa Wrth Gefn | Balans 1 Ebrill 2023 £'000 | Trosglwydd-iadau (i mewn) / allan 2023/24 £'000 | Balans 31 Mawrth 2024 £'000 | Trosglwydd-iadau (i mewn) / allan £'000 | Balans 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Wrth Gefn y Gwasanaeth** | | | | | | |
| Cronfa Bensiwn | Costau pensiwn ychwanegol yn ymwneud â newidiadau i reolau pensiwn | (545) | 0 | (545) | (525) | (1,070) |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer Llog | Gwrthbwyso cynnydd mewn cyfraddau llog a fyddai'n effeithio ar y gyllideb refeniw | (300) | 0 | (300) | 0 | (300) |
| Atgyweirio Hydrantau Tân | Ariannu ôl-groniad o ran atgyweirio hydrantau | (90) | 0 | (90) | 0 | (90) |
| PPE Gwisg / Stoc | Mwy o gostau gwisg oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth | (250) | (447) | (697) | (71) | (768) |
| Newid Trawsffurfio | Cyllid ar gyfer cyflawni prosiectau newid trawsnewidiol | (851) | 0 | (851) | 0 | (851) |
| Gwella Cyfleusterau | Sicrhau bod adeiladau'n cwrdd â'r safon ofynnol a gwella effeithlonrwydd ynni | (651) | 0 | (651) | (329) | (980) |
| Atebolrwydd Cyfreithiol | Ariannu rhwymedigaethau cyfreithiol yn y dyfodol ar gyfer hawliadau hysbys/ disgwyliedig | (186) | (124) | (310) | 0 | (310) |
| Hyfforddiant | Gweithredu gofynion deddfwriaethol ar gyfer newidiadau i ddarpariaeth hyfforddiant | (250) | 0 | (250) | 0 | (250) |
| Digwyddiadau mawr | Gwrthbwyso costau digwyddiadau mawr sy'n fwy na'r gyllideb | (150) | 0 | (150) | 0 | (150) |
| Gwella Systemau | Cyllid ar gael i weithredu gwelliannau i'r system | (711) | 0 | (711) | 0 | (711) |
| Chwyddiant | Gwrthbwyso costau chwyddiant sy'n fwy na'r gyllideb | (250) | 0 | (250) | 0 | (250) |
| Adolygiad o Strwythur Tâl Diffoddwyr Tân | Cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer trafodaethau parhaus ynghylch y strwythur tâl ar gyfer dilyniant cyflog i staff | 0 | (473) | (473) | 0 | (473) |
| **Cronfeydd Cyfalaf a Grantiau Wrth Gefn** | | | | | | |
| Prosiectau Cyfalaf | Cyllid ar gyfer cynlluniau lle ceir oedi a chostau cadw | (1,043) | 129 | (914) | (89) | (1,003) |
| Cynllun Radio | Uwchraddio'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys - gwrthbwyso rhai o'r costau ychwanegol | (750) | (261) | (1,011) | (526) | (1,537) |
| Gostyngiad Grant | Gwrthbwyso gostyngiad yn y cyllid Diogelwch Tân gan Lywodraeth Cymru | (195) | 0 | (195) | 0 | (195) |
| **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | | **(6,222)** | **(1,176)** | **(7,398)** | **(1,540)** | **(8,938)** |
| Cronfa Gyffredinol | Ar gael at ddibenion cyffredinol ac i ddarparu gwytnwch gweithredol | (1,480) | (95) | (1,575) | (293) | (1,868) |
| Cronfa Derbyniadau Cyfalaf | Yn dal derbyniadau o werthu asedau, ar gael i ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol | (34) | (39) | (73) | 0 | (73) |
| Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso | Yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r Awdurdod wedi cwrdd â'r amodau ar eu cyfer ac a fyddai fel arall yn gofyn am ad-dalu'r arian, ond nad ydynt wedi'u cymhwyso eto i dalu am wariant. | (85) | 37 | (48) | 48 | 0 |
| **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | | **(7,821)** | **(1,273)** | **(9,094)** | **(1,785)** | **(10,879)** |

## 9 INCWM A GWARIANT ARIANNU A BUDDSODDI

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| 692 | Llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg a godir | 629 |
| (429) | Llog a dderbynnir ac incwm tebyg | (182) |
| 10,379 | Llog Net ar rwymedigaeth buddiannau diffiniedig net | 10,733 |
| **10,642** | **Cyfanswm** | **11,180** |

## 10 TRETHIANT AC INCWM GRANT AMHENODOL

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| 7,478 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 8,063 |
| 4,403 | Cyngor Sir Ynys Môn | 4,871 |
| 7,914 | Cyngor Gwynedd | 10,944 |
| 6,064 | Cyngor Sir Ddinbych | 6,812 |
| 9,936 | Cyngor Sir y Fflint | 8,308 |
| 8,599 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 9,551 |
| **44,394** | **Cyfraniadau gan Awdurdodau Cyfansoddol** | **48,549** |
| 71 | Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau | 918 |
| **44,465** | **Cyfanswm Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol** | **49,467** |

## 11 EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER AC ASEDAU ANNIRIAETHOL

Gyda mabwysiadu IFRS 16 am y tro cyntaf yn 2024/25, nid yw'r balans agoriadol ar gyfer Eiddo, Peiriannau ac Offer wedi'i addasu ar gyfer yr asedau hawl-i-ddefnyddio yn unol â'r cod.

Mae'r asedau hawl-i-ddefnyddio a gydnabyddir yn ymwneud â cherbydau a adeiladau ar brydles, ac fe'u cyflwynir o fewn categorïau asedau 'Cerbydau' ac 'Adeiladau' yn y drefn honno. Ar 31 Mawrth 2025, mae'r canlynol wedi'i gynnwys yn y tabl isod ar gyfer asedau hawl-i-ddefnyddio:

| | |
|---|---|
| Cydnabyddiaeth o Asedau Hawl-i-ddefnyddio Cerbydau | £310k |
| Cydnabyddiaeth o Asedau Hawl-i-ddefnyddio Adeiladau | £593k |
| **Cyfanswm** | **£903k** |
| | |
| Dibrisiant o Asedau Hawl-i-ddefnyddio Cerbydau | (£147k) |
| Dibrisiant o Asedau Hawl-i-ddefnyddio Adeiladau | (£110k) |
| **Cyfanswm** | **(£257k)** |

## 11 EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER AC ASEDAU ANNIRIAETHOL

### Symudiadau ar Falansau

| 2024-2025 | Tir ac Adeiladau<br>£’000 | Cerbydau ac Offer<br>£’000 | Asedau Wrthi'n cael eu Hadeiladu<br>£’000 | Eiddo, Peiriannau ac Offer Cyfanswm<br>£’000 | Asedau Anniriaethol<br>Cyfanswm<br>£’000 | Asedau a Gedwir i'w Gwerthu Cyfanswm<br>£’000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth Llyfr Gros ar 1 Ebrill 2024** | **46,253** | **24,129** | **1,060** | **71,442** | **233** | **0** |
| Ailgategoreiddio asedau | 483 | 577 | (1,060) | 0 | 0 | 0 |
| Ychwanegiadau | 3,995 | 2,676 | 766 | 7,437 | 0 | 0 |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | 0 | (777) | 0 | (777) | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Gwerth Llyfr Gros ar 1 Mawrth 2025** | **50,731** | **26,605** | **766** | **78,102** | **233** | **0** |
| **Dibrisiant Cronedig & Amhariad**<br>Ar 1 Ebrill 2024 | (43) | (15,355) | 0 | (15,398) | (92) | 0 |
| Dibrisiant ac Amorteiddiad a godir | (984) | (1,569) | 0 | (2,553) | (42) | 0 |
| Dibrisiant wedi'i ysgrifennu o'r Gronfa Ailbrisio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dibrisiant wedi'i ysgrifennu i'r Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 0 | | |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | 721 | 0 | 721 | 0 | 0 |
| **Dibrisiant Cronedig ar 31 Mawrth 2025** | **0** | **0** | **0** | **0** | **(134)** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2025** | **50,731** | **26,605** | **766** | **78,102** | **99** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2024** | **46,210** | **8,774** | **1,060** | **56,044** | **141** | **0** |

| 2023-2024 | Land and Buildings<br><br>£'000 | Vehicles and Equipment<br><br>£'000 | Assets Under Construction<br><br>£'000 | Property Plant & Equipment Total<br>£'000 | Intangible Assets<br>Total<br>£'000 | Assets Held for Sale<br>Total<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth Llyfr Gros ar 1 Ebrill 2023** | **47,289** | **24,721** | **85** | **72,095** | **431** | **0** |
| Ailgategoreiddio asedau | 0 | 36 | (36) | 0 | 0 | 0 |
| Ychwanegiadau | 414 | 758 | 1,011 | 2,183 | 0 | 0 |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn | (1,352) | 0 | 0 | (1,352) | 0 | 0 |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | (95) | 0 | 0 | (95) | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | (3) | (1,303) | 0 | (1,306) | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | (83) | 0 | (83) | (198) | 0 |
| **Gwerth Llyfr Gros ar 1 Mawrth 2024** | **46,253** | **24,129** | **1,060** | **71,442** | **233** | **0** |
| **Dibrisiant Cronedig & Amhariad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | (4) | (15,250) | 0 | (15,254) | (209) | 0 |
| Dibrisiant ac Amorteiddiad a godir | (897) | (1,468) | 0 | (2,365) | (81) | 0 |
| Dibrisiant wedi'i ysgrifennu o'r Gronfa Ailbrisio | 795 | 0 | 0 | 795 | 0 | 0 |
| Dibrisiant wedi'i ysgrifennu i'r Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 63 | | | 63 | | |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | 0 | 1,280 | 0 | 1,280 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | 83 | 0 | 83 | 198 | 0 |
| **Dibrisiant Cronedig ar 31 Mawrth 2024** | **(43)** | **(15,355)** | **0** | **(15,398)** | **(92)** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2024** | **46,210** | **8,774** | **1,060** | **56,044** | **141** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2023** | **47,285** | **9,471** | **85** | **56,841** | **222** | **0** |

**Dibrisiad**

Dibrisir adeiladau gan ddefnyddio cydranu, lle gwneir amcangyfrif o oes ddefnyddiol pob cydran o'r adeilad ac yna defnyddir cyfartaledd pwysol i gyfrifo'r tâl blynyddol.

Mae asedau eraill yn cael eu cydnabod ar y gost hanesyddol, sy'n brocsi ar gyfer y gost bresennol ar asedau ag oes fer ac yn cael ei ddibrisio dros eu hoes ddefnyddiol.

**Ailbrisiadau ac Amariadau**

Mae'r awdurdod yn sicrhau bod yr holl eiddo, peiriannau ac offer y mae'n ofynnol eu mesur ar eu gwerth cyfredol yn cael eu hailbrisio'n ddigon rheolaidd fel nad yw eu swm cario yn sylweddol wahanol i'w gwerth presennol ar ddiwedd y flwyddyn, ac o leiaf bob pum mlynedd. Cyflawnwyd yr holl brisiadau’n fewnol. Cynhaliwyd prisiadau tir ac adeiladau yn unol â'r methodolegau a'r sail ar gyfer amcangyfrif a nodir yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Cynhaliwyd adolygiad o holl adeiladau'r gorsafoedd tân, fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2025, yn dilyn cyngor gan y priswyr bod y gost o godi adeiladau eraill yn eu lle wedi gostwng. Mae gorsafoedd tân yn cael eu prisio ar gost codi adeilad arall yn eu lle gyda dibrisiant. Cafodd y swyddfeydd a’r gweithdai eu hailbrisio yn 2023/24 ac maent wedi’u prisio ar sail gwerth eu defnydd presennol.

Mae prisiadau cerbydau, peiriannau ac offer yn seiliedig ar brisiau cyfredol lle mae marchnad ail-law weithredol neu'r prisiau rhestr diweddaraf wedi'u haddasu yn ôl cyflwr yr ased.

**YMRWYMIADAU CYFALAF**

Mae'r Awdurdod wedi ymrwyo i wariant cyfalaf mewn cyfnodau yn y dyfodol sy'n deillio o gontractau a oedd yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r gwariant cyfalaf yr ymrwymwyd iddo ar 31 Mawrth 2025 ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol yn cyfateb i £1,661k (2023/24: £3,804k). Mae'r ymrwymiadau'n ymwneud â'r canlynol:

| **Disgrifiad** | **£’000** |
|---|---|
| Gwaith Adeiladu | 626 |
| Cerbydau | 1,035 |
| **Cyfanswm** | **1,661** |

**ASEDAU DROS BEN (Eiddo, peiriannau ac offer nad ydynt yn weithredol**)

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw asedau perthnasol dros ben.

## 12 OFFERYNNAU ARIANNOL

### Categorïau Offerynnau Ariannol

Mae'r categorïau canlynol o offerynnau ariannol yn cael eu cario yn y Fantolen:

| | Heb fod yn gyfredol | | Cyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
| **Asedau Ariannol ar Gost** | | | | |
| Arian parod a Chyfwerth ag arian parod | 0 | 0 | 2,973 | 2,523 |
| Dyledwyr | 62 | 102 | 1,275 | 2,527 |
| **Rhwymedigaeth Ariannol ar Gost Amorteiddiedig**: | | | | |
| Llog Cronedig | 0 | 0 | (116) | 0 |
| Benthyciadau | (14,073) | (8,456) | (3,714) | (10,617) |
| Cyfanswm Benthyciadau | (14,073) | (8,456) | (3,830) | (10,617) |
| Credydwyr | 0 | 0 | (6,042) | (6,898) |

### Offerynnau Ariannol Enillion/Colledion

Mae'r enillion a'r colledion a gydnabuwyd yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant mewn perthynas ag offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau canlynol:

| | 2023/24 | | 2024/25 | |
|---|---|---|---|---|
| | Ymrwymiadau Ariannol Mesur ar gost amorteiddiedig £'000 | Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau £'000 | Ymrwymiadau Ariannol Mesur ar gost amorteiddiedig £'000 | Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau £'000 |
| Gwariant llog | 692 | | 629 | |
| **Cyfanswm y gwariant yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **692** | | **629** | |
| Incwm llog | | (429) | | (182) |
| **Cyfanswm yr incwm yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | **(429)** | | **(182)** |
| **Enillion net/(colledion) am y flwyddyn** | **692** | **(429)** | **629** | **(182)** |

**Gwerth Teg Asedau ac Ymrwymiadau sy'n cael eu Cario ar Gost Amorteiddiedig**

Mae'r ymrwymiadau ariannol a'r asedau ariannol a gynrychiolir gan fenthyciadau a derbyniadau yn cael eu cario ar y Fantolen ar gost amorteiddiedig (mewn asedau/ymrwymiadau tymor hir gyda llog cronedig mewn asedau/ymrwymiadau cyfredol). Gellir asesu eu gwerth teg trwy gyfrifo gwerth presennol y llif arian sy'n digwydd dros weddill oes yr offerynnau, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- O ran benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a benthyciadau eraill sy'n daladwy, mae benthyciadau gan y Bwrdd wedi cael eu defnyddio i ddarparu gwerth teg dan weithdrefnau ad-dalu dyledion y Bwrdd;
- O ran benthyciadau a dderbynnir, defnyddiwyd y cyfraddau farchnad meincnod cyffredinol i ddarparu'r gwerth teg;
- Ni chydnabyddir ad-daliad cynnar nac amhariad;
- Pan fo offeryn yn aeddfedu ymhen llai na 12 mis, neu pan fo'n swm masnach neu'n swm derbyniadwy arall, cymerir mai'r gwerth teg yw'r swm sy'n cario neu'r swm ar yr
- Cymerir mai gwerth teg swm masnach neu swm derbyniadwy arall yw'r swm ar yr anfoneb neu'r infois.

Dyma'r gwerthoedd teg a gyfrifir:

| | 31-Mar-24 | | 31-Mar-25 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Swm cario £'000** | **Gwerth teg £'000** | **Swm cario £'000** | **Gwerth teg £'000** |
| Dyled y BBGC | (17,787) | (17,118) | (14,073) | (13,300) |
| Dyled nad yw'r BBGC | 0 | 0 | (5,000) | (5,000) |
| **Cyfanswm Dyledion** | **(17,787)** | **(17,118)** | **(19,073)** | **(18,300)** |

Mae'r gwerth teg wedi ei gyfrifo gan gyfeirio'n benodol at ddyfynbrisiau a gyhoeddwyd mewn marchnad weithredol. Yn achos yr Awdurdod Tân ac Achub, maent yn seiliedig ar bremiymau a fyddai'n daladwy pe ildiwyd benthyciadau'r BBGC ac maent yn darparu rhagamcan o'r llog ychwanegol sy'n daladwy i'w gymharu â'r un benthyciad ar gyfraddau cyfredol y farchnad â disgownt yn ôl i'r cyfnod presennol.

## 13 RHESTRAU STOC

| | Prif Storfeydd | | Stoc Fflyd | | Cyfansymiau | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2023/24 £'000** | **2024/25 £'000** | **2023/24 £'000** | **2024/25 £'000** | **2023/24 £'000** | **2024/25 £'000** |
| Balans ar ddechrau'r flwyddyn | 451 | 413 | 187 | 201 | 638 | 614 |
| Pryniadau | 314 | 952 | 229 | 203 | 543 | 1,155 |
| Dileuadau | -50 | (3) | (1) | (1) | (51) | (4) |
| Cydnabyddir fel Gwariant yn y flwyddyn | -302 | (925) | (214) | (177) | (516) | (1,103) |
| **Balans sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn** | **413** | **437** | **201** | **226** | **614** | **662** |

## 14 DYLEDWYR

| 2023/24<br>£'000 | | 2024/25<br>£'000 |
|---:|---|---:|
| | **Tymor Hir** | |
| 62 | Rhagdaliadau | 102 |
| **62** | **Cyfanswm Tymor Hir** | **102** |
| | **Tymor Byr** | |
| 286 | Symiau Derbyniadwy Eraill | 445 |
| 488 | Symiau Masnach Derbyniadwy | 1,509 |
| 501 | Rhagdaliadau | 573 |
| **1,275** | **Cyfanswm Tymor Byr** | **2,527** |
| **1,337** | **Cyfanswm Dyledwyr Tymor Hir a Thymor Byr** | **2,629** |

## 15 ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

| 31-Mar-24<br>£'000 | | 31-Mar-25<br>£'000 |
|---:|---|---:|
| 1,483 | Balansau Arian Parod a Balansau Banc | 2,517 |
| 1,480 | Adneuon Tymor Byr | 0 |
| 10 | Imprest Arian Mân | 6 |
| **2,973** | **Cyfanswm** | **2,523** |

## 16 CREDYDWYR

| 2023/24<br>£'000 | | 2024/25<br>£'000 |
|---:|---|---:|
| | **Tymor Hir** | |
| 0 | Dyledion Masnach | (466) |
| **0** | **Cyfanswm Tymor Hir** | **(466)** |
| | **Tymor Byr** | |
| (3,364) | Symiau Taladwy Eraill | (820) |
| (2,678) | Symiau Masnach Taladwy | (5,612) |
| **(6,042)** | **Cyfanswm Tymor Byr** | **(6,432)** |
| **(6,042)** | **Cyfanswm** | **(6,898)** |

## 17 DARPARIAETHAU

Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan yr Awdurdod ddarpariaethau yn werth £374k yn ymwneud ag ymrwymiadau tuag at weithwyr cyflogedig. Defnyddir y ddarpariaeth hon yn erbyn gwariant refeniw, pan fydd yn digwydd:

| | Balans Agoriadol<br>£'000 | Symudiadau I Mewn<br>£'000 | Symudiadau Allan<br>£'000 | Balans Terfynol<br>£'000 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Darpariaethau Tymor Byr | (217) | (175) | 18 | (374) |
| Darpariaethau Tymor Hir | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **(217)** | **(175)** | **18** | **(374)** |

## 18 CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| 31-Mar-24<br>£'000 | | 31-Mar-25<br>£'000 |
|---:|---|---:|
| (17,304) | Cronfa Ailbrisio | (17,009) |
| (10,935) | Cyfrif Addasu Cyfalaf | (12,954) |
| 231,610 | Cronfa Pensiynau | 208,143 |
| 386 | Cyfrif Absenoldebau Cronedig | 403 |
| **203,757** | **Cyfanswm** | **178,583** |

### 18a Cronfa Ailbrisio

Mae'r Gronfa Ailbrisio yn cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, ei Beiriannau a'i Offer.

Bydd y balans yn cael ei ostwng pan fo asedau gydag enillion cronedig yn:

- cael eu hailbrisio am i lawr, neu'n cael eu hamharu a'r enillion yn cael eu colli;
- cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, a'r enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiad, neu'n cael eu gwaredu, a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Nid yw'r Gronfa ond yn cynnwys enillion cronedig ers 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crewyd y Gronfa. Mae enillion cronedig sy'n deillio cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu cyfuno yn y balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| 2023/24<br>£'000 | | 2024/25<br>£'000 |
|---:|---|---:|
| **(18,175)** | **Balans ar 1 Ebrill** | **(17,304)** |
| 0 | Ailbrisio asedau am i fyny | 0 |
| 557 | Ailbrisio asedau a cholledion amhariad i lawr nas codir ar y gwarged/diffyg wrth ddarparu gwasanaethau | 0 |
| 0 | Addasiad o'r Cyfrif Addasu Cyfalaf | 0 |
| 314 | Gwahaniaeth rhwng dibrisiad gwerth teg a dibrisiad cost hanesyddol | 295 |
| **(17,304)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(17,009)** |

### 18b Cyfrif Addasu Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sydd rhwng y trefniadau gwahanol ar gyfer rhoi cyfrif am dreuliant asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan y darpariaethau statudol.

Debydir y Cyfrif gyda chost caffael, adeiladu neu wella gan fod dibrisiad, colled amhariad ac amorteiddiad yn cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda chofnodion cyson o'r Gronfa Ailbrisio i drosi ffigyrau gwerth teg yn sail cost hanesyddol). Credydir y Cyfrif gyda'r symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod fel arian ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi, ac enillion a gydnabuwyd ar asedau rhoddedig sydd eto i gael eu defnyddio gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion prisio a gronnwyd ar Eiddo, Peiriannau ac Offer cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crewyd y Gronfa Ailbrisio ar gyfer dal enillion o'r fath.

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| **(10,013)** | **Balans ar 1 Ebrill** | **(10,935)** |
| 2,445 | Taliadau am ddibrisiad ac amhariad asedau anghyfredol | 2,595 |
| 25 | Swm yr ased anghyfredol wedi'i ddileu wrth waredu neu werthu | 56 |
| 32 | Addasiad sy'n ymwneud ag ailbrisio asedau | 0 |
| (314) | Addasu symiau a ddilëwyd o'r Gronfa Ailbrisio | (295) |
| **2,188** | **Swm net a ddilëwyd o gost yr asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn** | **2,356** |
| (71) | Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a ddefnyddiwyd ar gyfer ariannu cyfalaf | (918) |
| (1,101) | Gwariant cyfalaf a godir yn erbyn y Gronfa Gyffredinol/ Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi | (1,459) |
| (36) | Defnydd o grantiau i ariannu cyfalaf o'r cyfrif grantiau cyfalaf nas defnyddiwyd | (49) |
| (1,902) | Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf a godwyd yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | (1,949) |
| **(3,110)** | **Ariannu Cyfalaf a Ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn** | **(4,375)** |
| **(10,935)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(12,954)** |

### 18c Cronfa Pensiynau

Mae'r gronfa pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n digwydd oherwydd y trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifyddu buddion ôl-gyflogi a buddion ariannu yn unol â'r darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am fuddion ôl-gyflogi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan fod y buddion yn cael eu hennill gan weithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r ymrwymiadau a gydnabyddir i adlfewyrchu chwyddiant, newid rhagdybiaethau ac adenillion buddsoddiadau ar unrhyw adnoddau a neilltuir i gwrdd â'r costau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fuddion a enillir gael eu hariannu gan fod yr awdurdod yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i'r cronfeydd pensiwn neu yn y pen draw yn talu unrhyw bensiynau y mae'n gyfrifol amdanynt yn uniongyrchol. Felly mae'r balans debyd ar y gronfa pensiynau yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion a enillwyd gan weithwyr blaenorol a chyfredol a'r adnoddau y mae'r Awdurdod wedi eu neilltuo ar eu cyfer. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi'i neilltuo erbyn adeg talu'r buddion.

| 2023/24<br>£'000 | | 2024/25<br>£'000 |
|---:|---|---:|
| **227,143** | **Balans Agoriadol ar 1 Ebrill** | **231,610** |
| 1,096 | Ailfesur yr ymrwymiad budd diffiniedig net | (26,136) |
| 13,903 | Gwrthdroi eitemau yn berthnasol i fuddion ymddeoliad wedi'u debydu i'r Darpariaeth Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 13,697 |
| (10,532) | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | (11,028) |
| **4,467** | **Symudiad ar y Gronfa Pensiynau** | **(23,467)** |
| **231,610** | **Balans ar 31 Mawrth** | **208,143** |

## 18d Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn digwydd ar falans y Gronfa Cyffredinol o ganlyniad i absenoldebau digolledol a enillwyd ond chymerwyd yn y flwyddyn e.e hawl i wyliau blynyddol wedi ei gario drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn mynnu bod yr effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei niwtraleiddio trwy drosglwyddo i mewn neu allan o'r Cyfrif.

| 2023/24<br>£’000 | | 2024/25<br>£’000 |
|---:|---|---:|
| **272** | **Balans ar 1 Ebrill** | **386** |
| (272) | Setlo neu ganslo croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | (386) |
| 386 | Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol | 403 |
| **386** | **Balans ar 31 Mawrth** | **403** |

## 19 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| **1,604** | **(Gwarged)/Diffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau** | **(824)** |
| | **Addasiadau i (warged)/diffyg net ar gyfer symudiadau anariannol** | |
| (26) | Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Stoc | 49 |
| (3,736) | Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Dyledwyr | 1,293 |
| (1,754) | Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Credydwyr | (857) |
| (2,446) | Cost Dibrisio | (2,595) |
| 39 | Cyfraniadau a Dderbyniwyd/Derbyniadau Cyfalaf | 0 |
| (3,371) | Addasiadau Pensiwn IAS 19 | (2,608) |
| (32) | Codi am Amhariad/Ailbrisio Asedau | 0 |
| (25) | Swm cario Asedau Anghyfredol wedi'u gwerthu neu eu dadadnabod | (56) |
| 56 | Cyfraniad (i)/o Wahanol Ddarpariaethau | (158) |
| 0 | Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu costio i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau | 0 |
| (114) | Cronfa wrth gefn Absenoldebau Cronedig | (16) |
| **(11,409)** | **Llai Cyfanswm** | **(4,948)** |
| | **Addasiadau am eitemau sydd yn y (Gwarged) neu'r Diffyg net ar Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi ac Ariannu** | |
| (692) | Llog a dalwyd | (629) |
| 429 | Llog a gafwyd | 182 |
| **(263)** | | **(447)** |
| **(10,068)** | **Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredol** | **(6,219)** |

## 20 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| 2,183 | Prynu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 6,534 |
| (14) | Enillion o werthu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 56 |
| 71 | Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi | 918 |
| **2,240** | **Llifau arian net o weithgareddau buddsoddi** | **7,508** |

## 21 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU ARIANNU

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| 0 | Derbyniadau arian parod o fenthyca tymor byr a thymor hir | (5,000) |
| 8,769 | Ad-dalu benthyca tymor byr a thymor hir | 3,714 |
| 263 | Taliadau eraill am weithgareddau ariannu | 447 |
| **9,032** | **Llif arian net o weithgareddau ariannu** | **(839)** |

## 22 LWFANSAU AELODAU

Talodd yr Awdurdod y symiau canlynol i aelodau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn:

| 2023/24<br>£ | | 2024/25<br>£ |
|---:|---|---:|
| 84,804 | Lwfansau Aelodau Etholedig | 90,515 |
| 2,209 | Treuliau Aelodau Etholedig | 1,560 |
| 2390 | Costau Aelodau Cyfetholedig | 1,142 |
| **89,403** | **Cyfanswm** | **93,217** |

**Aelodau Etholedig**
Mae Aelodau Etholedig yr Awdurdod Tân ac Achub yn gymwys i dderbyn lwfansau fel cydnabyddiaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r lwfansau hyn yn cynnwys cyflog sylfaenol sy'n daladwy i bob aelod, ac, lle bo'n berthnasol, cyflogau uwch i'r rhai sy'n ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol megis Cadeirydd neu Is-gadeirydd yr Awdurdod neu ei bwyllgorau.

Yn ogystal â lwfansau, gall Aelodau Etholedig hawlio ad-daliad am dreuliau a gafwyd wrth gyflawni eu dyletswyddau swyddogol. Fel arfer, mae'r treuliau hyn yn cynnwys costau teithio a chynhaliaeth sy'n gysylltiedig ag ymweld â chyfarfodydd yr Awdurdod, sesiynau hyfforddi, a chyfarfodydd cymeradwy eraill.

**Aelodau Cyfetholedig**
Nid yw Aelodau Cyd-ethol, sydd wedi'u penodi i ddarparu mewnbwn annibynnol neu arbenigedd arbenigol—megis y rhai sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau—yn derbyn lwfans. Yn lle hynny, maent yn gymwys i dderbyn taliadau fel cydnabyddiaeth o'u cyfranogiad mewn cyfarfodydd swyddogol a gweithgareddau cysylltiedig.

## 23  TALIADAU SWYDDOGION

Mae'r taliadau a delir i uwch weithwyr yr Awdurdod wedi'i nodi yn y tabl canlynol. Enwir Uwch Swyddogion y mae eu cyflog yn £150,000 neu fwy.

| Teitl Swydd | Blwyddyn | Cyflog (gan gynnwys Ffioedd a Lwfansau)<br>£ | Cyfraniadau Pensiwn<br>£ | Cyfanswm y Taliadau<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| Prif Swyddog Tân: Dawn Docx | 2023/24 | 160,231 | 29,216 | 189,447 |
| | **2024/25** | **156,392** | **28,620** | **185,012** |
| Dirprwy Brif Swyddog Tân | 2023/24 | 127,594 | 34,833 | 162,427 |
| | **2024/25** | **125,114** | **38,785** | **163,899** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (wedi ymddeol Mehefin 2023) | 2023/24 | 31,369 | 6,888 | 38,257 |
| | **2024/25** | **0** | **0** | **0** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (secondiad Mawrth 2024)* | 2023/24 | 104,335 | 28,483 | 132,818 |
| | **2024/25** | **47,314** | **13,938** | **61,252** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | 2023/24 | 120,176 | 21,912 | 142,088 |
| | **2024/25** | **117,294** | **21,465** | **138,759** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol dros dro (penodwyd ym mis Mawrth 2024)** | 2023/24 | 6,530 | 1,421 | 7,951 |
| | **2024/25** | **101,921** | **25,901** | **127,822** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol dros dro (penodwyd ym mis Ionawr 2025) | 2023/24 | 0 | 0 | 0 |
| | **2024/25** | **28,926** | **7,431** | **36,357** |
| Trysorydd - Swyddog Adran 151 (15 diwrnod y flwyddyn) | 2023/24 | 8,180 | 2,860 | 11,040 |
| | **2024/25** | **8,340** | **1,526** | **9,866** |

Mae ffigurau 2023/24 uchod yn cynnwys ôl-daliadau o £38k, o fis Ionawr 2022, oherwydd setliad dyfarniad cyflog Rheolwyr y Frigâd y cytunwyd arno ym mis Mai

*Prif Swyddog Tân Cynorthwyol ar secondiad dros dro i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru fel Prif Swyddog Tân, o 12 Chwefror 2024. Mae costau cyflog ar gyfer y cyfnod hwn, yn cyfanswm o £107,708, a chostau pensiwn o £22,423, wedi'u talu gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

** Daeth contract tymor penodol Prif Swyddog Tân Cynorthwyol i ben ddiwedd Rhagfyr. Yn dilyn hyn, oherwydd newidiadau yn argaeledd y prif swyddogion, cafodd ei ail-benodi'n dros dro ym mis Chwefror 2025.

Mae'r Swyddog. Monitro yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir y Fflint fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth felly ni ddangosir unrhyw gostau unigolyn yn y tabl uchod.   Ceir rhagor o wybodaeth ar gostau'r Swyddog Monitro yn Nodyn 27 - Partion Cysylltiedig.

Talwyd y symiau canlynol i gyflogeion eraill yr awdurdod a oedd yn cael cydnabyddiaeth o fwy na £60,000 ar gyfer y flwyddyn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr):

| BAND TALIAD | 2023/24<br>NIFER Y GWEITHWYR CYFLOGEDIG | 2024/25<br>NIFER Y GWEITHWYR CYFLOGEDIG |
|---|---|---|
| £60,000 - £64,999 | 19 | 22 |
| £65,000 - £69,999 | 6 | 6 |
| £70,000 - £74,999 | 6 | 4 |
| £75,000 - £79,999 | 1 | 2 |
| £80,000 - £84,999 | 0 | 0 |
| £85,000 - £89,999 | 2 | 2 |
| £90,000 - £94,999 | 1 | 2 |

Mae'r tabl canlynol yn rhoi'r gymhareb rhwng tâl y Prif Swyddog Tân a thál canolrifol staff y Gwasanaeth Tân ac Achub:

| 2023/24<br>£ | | 2024/25<br>(£) |
|---|---|---|
| 160,231 | Prif Swyddog Tân | 156,392 |
| 36,226 | Canolrif | 37,675 |
| 4.42 | Cymhareb | 4.15 |

Mae'r staff a gyflogir o dan gontractau System Dyletswydd wrth gefn wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad ar eu pwynt graddfa Cyfwerth ag Amser Llawn yn hytrach nag enillion gwirioneddol. Mae’r data uchod yn cynnwys cyfanswm y cyflog a dalwyd ac mae hefyd yn cynnwys ôl-daliad ar gyfer y CFO sy’n ymwneud â 2023-24 sydd wedi adlewyrchu ar y gymhareb (ac eithrio cyfraniadau pensiwn).

Nid oedd unrhyw becynnau ymadael yn 2023/24 a 2024/25.

## 24 COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Ffioedd sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol a gynhelir gan yr archwilydd penodedig:

| 2023/24<br>£’000 | | 2024/25<br>£’000 |
|---|---|---|
| 60 | Gwaith archwilio ariannol | 60 |
| 16 | Gwaith Archwilio Perfformiad | 17 |
| **76** | **Cyfanswm** | **77** |

## 25 GRANTIAU

| 2023/24 £'000 | Credydwyd i Wasanaethau | 2024/25 £'000 |
|---:|---|---:|
| 169 | Lleihau Tanau Bwriadol | 0 |
| 240 | Offer Diogelwch yn y Cartref | 250 |
| 322 | Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan | 304 |
| 141 | Ymgysylltu â Phobl Ifanc ac Ieuenctid | 145 |
| 14 | Operation Ugain | 72 |
| 5 | Hanfodion Seibr | 0 |
| 0 | Windrush Cymru | 2 |
| 0 | Pwysau Cyflog y Gwasanaeth Tân ac Achub | 209 |
| **891** | **CYFANSWM** | **982** |
| | **Credydwyd i drethiant ac incwm a gwariant amhenodol** | |
| 71 | Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan | 0 |
| | Radios | 377 |
| | Cerbydau Trydan | 115 |
| | Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan | 131 |
| 0 | Grant gwres carbon isel y sector cyhoeddus | 295 |
| **71** | **CYFANSWM** | **918** |

## 26 GWASANAETHAU ASIANTAETH

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru wrth weinyddu dau gynllun grant ar gyfer yr holl Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'r grantiau cymeradwy yn cael eu talu i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru sydd wedyn yn gyfrifol am ddosbarthu'r grantiau i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant ar gyfer y Fforwm Cadernid Lleol. Mae hon yn bartneriaeth amlasiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, y GIG, Asiantaeth yr Amgylchedd ac eraill. Mae cyfraniadau gan y cyrff cyhoeddus amrywiol yn cael eu talu i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Defnyddir y cyllid hwn i dalu am wariant y Fforwm. Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan yr Awdurdod gyllid o £11k yn ymwneud â'r Fforwm.

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---:|---|---:|
| 3,144 | Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan | 3,117 |
| 266 | Ymgysylltu â Phlant ac Ieuenctid | 227 |
| 135 | Fforwm Cydnerthedd Lleol | 110 |
| **3,545** | **Cyfanswm** | **3,454** |

## 27 PARTION CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu trafodion o bwys gyda phartion cysylltiedig – cyrff neu unigolion a allai reoli neu ddylanwadu ar yr Awdurdod neu gael eu rheoli neu eu dylanwadu gan yr Awdurdod. Mae datgelu'r trafodion hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu i ba raddau y gallai'r Awdurdod fod wedi cael ei gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhwydd â'r awdurdod.

**Llywodraeth Cymru**

Mae gan Lywodraeth Cymru gryn ddylanwad dros weithrediad cyffredinol yr Awdurdod – mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r awdurdod yn gweithredu o'i fewn. Mae'n darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau (caiff y Grant Cynnal Refeniw ei dalu i awdurdodau cyfansoddol) ac mae'n rhagnodi telerau llawer o'r trafodion sydd gan yr awdurdod â phartion eraill. Yn Nodyn 25, dangosir y derbyniadau grant a geir yn uniongyrchol, ac yn Nodyn 10 dangosir cyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol.

**Aelodau**

Mae gan aelodau'r awdurdod reolaeth uniongyrchol dros bolisiau ariannol a gweithredol yr awdurdod. Yn Nodyn 22 gwelir cyfanswm lwfansau'r aelodau a dalwyd yn 2024/25.

Mae pob Aelod wedi cwblhau ffurflen datganiad o fuddiant gyda phartïon cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn 2024/25. Ac eithrio lwfanau a threuliau, ni nodwyd unrhyw drafodion eraill. Ni thalwyd dim gan yr Awdurdod yn ystod 2024/25, dan drefniadau o'r fath (2023/24: dim), ac nid oedd yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw incwm yn ystod 2024/25 (2023/24: dim).

Mae rhestr o fuddiannau Aelodau Etholedig yn cael ei chadw gan y Swyddog Monitro ac mae ar gael i'w gweld ar y wefan - Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru - Awdurdod Tân ac Achub - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (gov.wales)

**Uwch Swyddogion**

Roedd yr Uwch Swyddogion wedi cwblhau datganiad buddiannau gyda phartion cysylltiol am y flwyddyn 2024/25. Yn Nodyn 23, dangosir cydnabyddiaeth ariannol yr Uwch Swyddogion.

Roedd un o'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol wedi datgan buddiant fel un o ymddiriedolwyr Pentre Peryglon. Mae'r elusen annibynnol yn rhedeg canolfan gweithgareddau addysg sydd wedi'i lleoli yng Ngogledd Cymru. Roedd taliadau gwerth £13,300 wedi cael eu gwneud i Bentre Peryglon yn 2024/25 fel rhan o gyllid grant Llywodraeth Cymru (2023/24: £12,844). Hefyd, darperir cyllid ar gyfer cost gweinyddwr, sy'n werth £34,826 (2023/24: £32,258).

Roedd y Swyddog Adran 151 hefyd wedi'i gontractio fel Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd ar gyfer Cronfa Bensiwn Powys, ac fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd Adra, cymdeithas dai.

Nid oedd yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw incwm yn ystod 2024/25 (2023/24: dim).

**Cyrff Cyhoeddus Eraill**
Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu rôl Swyddog Monitro. Delir y swydd hon gan y Prif Swyddog (Llywodraethu)/Swyddog Monitro ac roedd taliadau yn £20k (2023/24: £19k).

Yn flaenorol, darparwyd gwasanaethau cyfreithiol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gyda'r trefniant yn dod i ben yn ystod 2023/24 (2023/24: £12k).Ar 31 Mawrth 2025, roedd £12k yn ddyledus.

Ers 1 Ebrill 2024, mae Mersey Internal Audit wedi darparu gwasanaethau archwilio mewnol, a thalwyd cyfanswm o £23k amdanynt. Ar 31 Mawrth 2024, nid oedd unrhyw daliadau'n

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, sy'n gweithredu ar ran Cronfa Bensiwn Dyfed, yn rheoli'r taliadau a wneir i ddiffoddwyr tân sy'n bensiynwyr ar ran yr Awdurdod. Maent hefyd yn gyfrifol am reoli cofnodion pensiynwyr presennol ac aelodau gweithredol y cynllun. Roedd y trafodion yn y flwyddyn yn £113k (2023/24: £91k). Ar 31 Mawrth 2025, nid oedd unrhyw daliadau'n

Trwy gytundeb secondiad, mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn darparu Arweinydd Pensiwn Diffoddwyr Tân, ac yn ystod y flwyddyn talwyd £18k (2023/24: £2k) am hyn, a oedd heb ei dalu ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae trefniadau ar y cyd gyda Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn ogystal ag ystafell reoli a rennir. Cyfanswm cyfraniad yr Awdurdod tuag at reoli cyfleusterau oedd £234k (2023/24: £220k). Yn flaenorol, darparwyd cyngor caffael, gyda'r trefniant yn dod i ben yn ystod 2023/24 (2023/24: £7k). Ar 31 Mawrth 2025, roedd £7k yn dal heb ei dalu.

## 28 GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dangosir cyfanswm y gwariant cyfalaf yr aed iddo yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod, (gan gynnwys gwerth asedau a gaffaelwyd dan brydlesi ariannu a chytundebau PFI), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle y bwriedir ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy daliadau a godir ar refeniw wrth i asedau gael eu defnyddio gan yr awdurdod, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y gofyniad ariannu cyfalaf, sef mesur o'r gwariant cyfalaf yr aed iddo'n hanesyddol gan yr awdurdod sydd eto i'w ariannu.

| 2023/24 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---:|---|---:|
| 28,877 | Gofyniad Ariannu Cyfalaf Agoriadol | 27,950 |
| | **Buddsoddiad Cyfalaf** | |
| 2,183 | Eiddo, Peiriannau ac Offer | 7,437 |
| | **Ffynonellau Cyllid** | |
| (107) | Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth | (967) |
| (1,902) | Symiau wedi'u neilltuo o refeniw | (1,949) |
| (1,101) | Cyfraniadau Refeniw Uniongyrchol | (1,459) |
| **27,950** | Gofyniad Ariannu Cyfalaf Terfynol | **31,012** |
| (927) | Cynnydd)/gostyngiad yn yr angen gwaelodol i fenthyca (heb gymorth ariannol gan y llywodraeth) | 3,062 |
| **(927)** | **Cynnydd / (gostyngiad) mewn Gofyniad Ariannu Cyfalaf** | **3,062** |

## 29 PRYDLESI

### Awdurdod fel lesddeiliad

Cydnabyddir lesau fel asedau hawl i ddefnyddio gyda rhwymedigaeth gyfatebol o'r dyddiad y mae'r ased wedi'i lesio ar gael i'w ddefnyddio (neu ddyddiad pontio IFRS 16, os yn hwyrach). Mae'r lesau fel arfer ar gyfer cyfnodau penodol dros flwyddyn, ond gallant gynnwys opsiynau estyn.

Mae'r awdurdod wedi caffael cerbydau ac offer drwy gytundebau les nodweddiadol o bedair blynedd. Yn ogystal, mae'r awdurdod yn lesu tri adeilad gyda thelerau les nodweddiadol o bum mlynedd.

Mae'r tabl isod yn dangos y newid yn yr asedau hawl i ddefnyddio a ddelir o dan lesau gan yr Awdurdod.

| | Tir ac Adeiladau | Cerbydau ac Offer | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2024 | 593 | 310 | 903 |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 | 0 |
| Ailbrisio | 0 | 0 | 0 |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | (108) | (143) | (251) |
| Gwarediadau | 0 | (3) | (3) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **485** | **164** | **649** |

Mae'r awdurdod wedi ysgwyddo'r treuliau a'r llif arian canlynol mewn perthynas â lesau:

| | Tir ac Adeiladau | Cerbydau ac Offer | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr** | | | |
| Treuliau llog ar rwymedigaethau les | 29 | 17 | 46 |
| Treuliau sy'n ymwneud â lesau tymor byr | 0 | 4 | 4 |
| Treuliau sy'n ymwneud â lesau eithriedig o eitemau | 0 | 2 | 2 |
| | | | |
| **Datganiad llif arian** | | | |
| Taliadau lleiaf les | 115 | 155 | 270 |

Fel y caniateir gan y Cod, mae'r awdurdod yn eithrio lesau:

- ar gyfer eitemau gwerth isel sy'n costio llai na £10,000, yn unol â'r lefel gwariant de-minimus ar gyfer Eiddo, Planhigion ac Offer.
- gyda thymor byrrach na 12 mis.

Mae'r rhwymedigaethau les i'w setlo dros y bandiau amser canlynol (wedi'u mesur ar sail symiau heb eu disgowntio o daliadau arian disgwyliedig):

| | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Dim hwyrach na blwyddyn | 444 | 437 |
| Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd | 1,182 | 466 |
| Hwyrach na 5 mlynedd | 72 | 0 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau heb eu disgowntio** | **1,698** | **903** |

## 30 CYNLLUNIAU PENSIWN BUDDION DIFFINIEDIG

**Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn**

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddion ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion hyn yn daladwy nes bod gweithwyr cyflogedig yn ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau (ar gyfer y buddion hynny) a'u datgelu ar yr adeg y mae gweithwyr cyflogedig yn ennill eu hawl iddynt yn y dyfodol.

Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yn cael ei weithredu o dan fframwaith reoleiddio'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r CPLlL yn gynllun a ariennir â buddion wedi'u diffinio y mae'r Awdurdod yn aelod cyflogwr ohono o gronfa Bensiwn Clwyd. Cronfa Bensiwn Clwyd, Cyngor Sir y Fflint sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun hwn yn ei rinwedd fel Rheolwr y Cynllun a'r Awdurdod Gweinyddol.

Mae'r polisi yn cael ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Gronfa Bensiynau ac yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Pensiwn, gan gynnwys penodi'r rheolwyr buddsoddi. Prif risgiau'r cynllun i'r awdurdod yw'r rhagdybiaethau ynghylch hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (h.y. tynnu allan o'r cynllun ar raddfa fawr), newidiadau i chwyddiant, arenillion bond a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y

Mae'r rhain yn cael eu lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol ar gyfer ailbrisio actiwaraidd yn rheolaidd ac ar gyfer gosod cyfraddau cyfraniadau cyflogwr a gweithwyr. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn cael eu codi ar gost gwasanaethau yn seiliedig ar enillion cyflogai yn y cyfnod yn hytrach na phan delir y buddion fel pensiynau yn y pen draw.

Mae'r hyn a godir ar yr ardoll yn adlewyrchu'r taliadau pensiwn gwirioneddol a wnaed yn ystod y flwyddyn yn unig. Fodd bynnag, i ddangos cost lawn buddion ymddeol, mae'r rhain yn cael eu cofnodi yn gyntaf yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ac yna eu gwrthdroi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r cofnodion canlynol yn adlewyrchu'r addasiadau hyn.

Mae unrhyw fuddion yn ôl disgresiwn neu gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ymddeoliadau ar sail salwch yn gost heb ei ariannu ac yn cael eu codi ar wahân ar yr Awdurdod. I'r graddau y mae costau o'r fath yn hysbys, maent yn cael eu cynnwys yn y broses o bennu'r gyllideb ac mae'r Awdurdod yn cadw cronfa wrth gefn i fynd i'r afael ag unrhyw gostau heb eu cynllunio ac i lyfnhau effaith newidiadau ar gyfraddau cyfraniadau'r

Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FFPS) yn gynllun heb ei ariannu â buddion wedi'u diffinio, sy'n golygu na ddelir buddsoddiadau i ariannu'r ymrwymiadau. Mae cyfraniadau, ar gyfradd a bennir gan Lywodraeth Cymru, a wneir gan y cyflogwr a'r cyflogeion ar enillion pensiynadwy yn cael eu cadw mewn cyfrif cronfa bensiwn. Mae buddion a delir i ymddeoledigion hefyd yn cael eu codi ar y cyfrif gydag unrhyw ddiffyg arian parod yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru neu ei dalu iddi.

Mae'r wybodaeth sy'n dilyn wedi'i thynnu o'r adroddiadau datgelu a ddarparwyd gan Mercer (ar ran cynllun pensiwn CPLlL) ac Adran Actiwari'r Llywodraeth (AALl) (ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FFPS)). Mae'r manylion mwyaf perthnasol sy'n effeithio ar y cronfeydd Pensiwn isod:

**Cyfartalu a Mynegeio Isafswm Pensiwn Gwaranatedig (GMP)**

Yn ddiweddar, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar fynegeio a chyfartalu Isafswm Pensiynau Gwarantedig (GMP), a'r cynnig yw ymestyn y "datrysiad interim” i'r aelodau sy’n cyrraedd Oedran Pensiwn Gwladol ar ôl 5 Ebrill 2021. Cafodd cost gwasanaeth blaenorol ei gynnwys yn natgeliadau 2019/20 ar gyfer ymestyn y cyfartalu i bawb sy'n ymddeol

Roedd dyfarniad llys pellach hefyd ar 20 Tachwedd 2020 ynghylch cyfartalu’r Cyfanswm Pensiwn Gwarantedig (GMP). Dyfarnodd y llys fod rhaid i ymddiriedolwyr cynlluniau ailedrych ar gyn-Werthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) er mwyn sicrhau bod GMP yn cael ei gyfartalu. Gallai hyn arwain at daliadau atodol ychwanegol pan fo cyfartalu GMP yn golygu nad yw aelodau wedi derbyn eu holl hawl. Ar gyfer cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus, disgwylir y bydd y dyfarniad hwn yn cael ei weithredu ar draws cynlluniau, a bydd angen mewnbwn cyfreithiol.

Efallai y bydd hyn yn gofyn am ailedrych ar achosion CETV yn y gorffennol ar gyfer aelodau ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 5 Ebrill 2016 ac a gymerodd CETV o'r cynllun cyn i CETV gael ei gyfartalu. Nid yw cwmpas unrhyw gostau wedi'i bennu eto. Nid yw data am CETV hanesyddol ar gael i amcangyfrif yr effaith bosibl. Disgwylir y bydd hwn yn godiad cymharol fach ar gyfer is-set gymharol fach o aelodau (h.y. y rhai a gymerodd CETV ac sydd o fewn y cwmpas ar gyfer ychwanegiad atodol).

**Dyfarniad McCloud a rheolaeth gwerth y costau 2016**

Yn dilyn achos Llys Apêl, cafwyd dyfarniad McCloud yn Rhagfyr 2018, a oedd yn dod i’r casgliad bod yr amddiffyniadau trosiannol a gyflwynwyd yn 2015 yn gwahaniaethu ar sail oedran. Yn dilyn hyn cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i fynd i’r afael â’r gwahaniaethu ar draws cynlluniau pensiwn sector cyhoeddus y DU yn cynnwys Cynllun

Mae costau gwasanaeth blaenorol wedi’u hamcangyfrif er mwyn ystyried effaith dyfarniad McCloud ac maent wedi'u cynnwys yn y Gronfa Bensiwn ers 2018/19. Mae'r amcangyfrifon hyn wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r rhwymedi a amlinellwyd gan Lywodraeth y DU a'r newidiadau gofynnol i Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a osodwyd gan Weinidogion Cymru a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2023.

Rheoliadau Pensiynau’r Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth y Gellir ei Unioni) (Cymru) 2023 a osodwyd ac a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2023, gyda’r nod o alluogi Rheolwyr Cynlluniau i weithredu’r newidiadau angenrheidiol i roi’r unioni ar waith. Rhaid cwblhau’r newidiadau hyn o fewn cyfnod o 18 mis. Oherwydd cymhlethdod a nifer y cyfrifiadau, ni lwyddodd y Gwasanaeth i gyrraedd y dyddiad cau o 31 Mawrth 2025 yn llawn.

O ganlyniad i’r methiant i gydymffurfio â gofynion statudol Adran 29 o Ddeddf PensIynau Gwasanaeth Cyhoeddus a’r Ombwdsmon 2022 (PSPJOA 2022), rhoddwyd gwybod am y mater i’r Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR). Gall TPR osod cosbau a dirwyon am fethu â chydymffurfio â’r dyddiad cau statudol. Y ddirwy leiaf y gall TPR ei osod am fethu â chydymffurfio â therfynau amser statudol yw £500. Gall y ddirwy hon gynyddu yn dibynnu ar fanylion yr achos, megis nifer yr aelodau yn y cynllun pensiwn. Ar hyn o bryd, nid yw gwerth na dyddiad unrhyw daliad allan yn hysbys.

**O'Brien**

Yn dilyn proses gyfreithiol hir, cyhoeddwyd y dyfarniad yn achos O’Brien vs Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod 2019. Canfu hwn fod y penderfyniad i gyfyngu ar y cyfnod pan allai gweithiwr rhan-amser ymuno â'r cynllun pensiwn yn un gwallus ac y dylai gweithwyr cymwys gael ymuno â'r cynllun perthnasol o ddechrau eu contractau.

Mae gan y dyfarniad hwn oblygiadau cenedlaethol i staff sy'n cael eu cyflogi fel diffoddwyr tân ar alwad ac y dechreuodd eu contract cyflogaeth cyn 1 Gorffennaf 2000 neu'r rhai nad ydynt eto wedi cael y cyfle llawn i brynu gwasanaeth blaenorol yr oedd ganddynt hawl iddo.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud diwygiadau i Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 2007 (Diwygiedig) i ddarparu mecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn. Cafodd Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu’r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024, ei wneud a’i osod ym mis Ionawr a daeth i rym ar 1 Chwefror 2024. Bydd pob person cymwys yn cael cyfle i brynu hawliau pensiwn yn ôl o fewn yr amserlenni a nodir yn y gorchymyn.

Ni ellir cyfrifo’n llawn effaith ariannol lawn y rheoliadau wedi'u diweddaru er bod amcangyfrif wedi'i gynnwys ym mhrisiad 2020 rhwymedigaethau cynllun pensiwn yr Awdurdod a gynhaliwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD).

Mae'r tablau isod yn darparu manylion pellach ynghylch y cronfeydd pensiwn:

| LGPS 2023/24 £'000 | FFPS 2023/24 £'000 | Trosglwyddiadau'r Gronfa Gyffredinol | LGPS 2024/25 £'000 | FFPS 2024/25 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | |
| | | **Cost Gwasanaethau** | | |
| | | **Cost Gwasanaeth sy'n cynnwys:** | | |
| 1,055 | 1,620 | Cost cyfredol y gwasanaeth | 1,033 | 1,870 |
| 0 | 0 | Cost blaenorol y gwasanaeth | 0 | 0 |
| 49 | 0 | Costau Gweinyddu | 51 | 0 |
| | | **Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi** | | |
| 69 | 10,310 | Gwariant Llog Net | (16) | 10,810 |
| 0 | 0 | Trosglwyddiadau allan o'r cynllun | 0 | 0 |
| 0 | 800 | Trosglwyddiadau i mewn i'r cynllun | 0 | (10) |
| 0 | 0 | Cwtogiadau | 0 | 0 |
| **1,173** | **12,730** | **Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth a Godir ar Ddarparu Gwasanaethau** | **1,068** | **12,670** |
| | | **Buddion Ôl-gyflogaeth Eraill a Godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | |
| | | **Ailfesur y budd/rhwymedigaeth net diffiniedig yn cynnwys:** | | |
| (1,852) | 0 | Adenillion ar Asedau'r Cynllun (ac eithrio llog) | 1,894 | 0 |
| (331) | 0 | (Enillion) / Colledion Actwaraidd yn dellio o Newidiadau i'r Rhagdybiaethau Demograffig | (51) | (530) |
| (1,359) | (4,410) | (Enillion) / Colledion Actwaraidd yn dellio o Newidiadau i'r Rhagdybiaethau Ariannol | (6,176) | (25,240) |
| 0 | 7,810 | (Enillion) / Colledion Actiwaraidd - profiad | 0 | (60) |
| **(3,542)** | **3,400** | **Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth a Godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **(4,333)** | **(25,830)** |
| | | **Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd** | | |
| (1,173) | (12,730) | Gwrthdroi costau net a wnaed i'r gwarged neu diffyg yn y Ddarpariaeth Gwasanaethau Buddion Ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod | (1,068) | (12,670) |
| | | **Symiau Gwirioneddol a godir ar y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn** | | |
| 0 | 9,910 | Buddion Ymddeol sy'n daladwy i Bensiynwyr | 0 | 10,370 |
| 622 | 0 | Cyfraniadau'r Cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun | 658 | 0 |

Mae'r swm a gynhwyswyd yn y Fantolen sy'n codi o rwymedigaeth yr Awdurdod mewn perthynas â'r cynlluniau buddion diffiniedig fel a ganlyn:

| LGPS 2023/24 £'000 | FFPF 2023/24 £'000 | Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau a Gydnabuwyd yn y Fantolen | LGPS 2024/25 £'000 | FFPF 2024/25 £'000 |
|---:|---:|---|---:|---:|
| (40,392) | (231,610) | Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig | (35,728) | (208,100) |
| 41,630 | | Gwerth Teg asedau'r cynllun | 40,950 | 0 |
| **1,238** | **(231,610)** | **Is-Gyfanswm** | **5,222** | **(208,100)** |
| (1,238) | | Effaith IAS19 / IFRIC 14 | (5,265) | |
| **0** | **(231,610)** | **Rhwymedigaeth net sy'n codi o'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig** | **(43)** | **(208,100)** |

| LGPS 2023/24 £'000 | FFPF 2023/24 £'000 | Symudiad yng Ngwerth Asedau'r Cynllun | LGPS 2024/25 £'000 | FFPF 2024/25 £'000 |
|---:|---:|---|---:|---:|
| 38,559 | 0 | Gwerth Teg Agoriadol Asedau'r Cynllun | 41,630 | 0 |
| 1,837 | 0 | Incwm Llog | 2,021 | 0 |
| | | **Enillion / Colledion wrth Ailfesur** | | |
| 1,852 | 0 | Yr enillion ar asedau'r cynllun, heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yn y draul llog net | (1,894) | 0 |
| 622 | 11,520 | Cyfraniadau gan y cyflogwr | 658 | 12,440 |
| 419 | 0 | Cyfraniadau gan weithwyr cyflogedigi'r cynllun | 437 | 0 |
| (1,610) | (11,520) | Buddion/trosglwyddiadau a Dalwyd | (1,851) | (12,440) |
| (49) | 0 | Costau Gweinyddu | (51) | 0 |
| **41,630** | **0** | **Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun** | **40,950** | **0** |

| LGPS 2023/24 £'000 | FFPF 2023/24 £'000 | Symudiad yng Ngwerth Teg Rhwymedigaethau'r Cynllun | LGPS 2024/25 £'000 | FFPF 2024/25 £'000 |
|---:|---:|---|---:|---:|
| (40,312) | (225,390) | Balans Agoriadol ar 1 Ebrill | (40,392) | (231,610) |
| (1,055) | (1,620) | **Cost Cyfredol y Gwasanaeth** | (1,033) | (1,870) |
| 0 | (800) | Trosglwyddiadau i mewn | 0 | (10) |
| (1,906) | (10,310) | Costau Llog | (1,944) | (10,810) |
| (419) | (1,610) | Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | (437) | (2,070) |
| | | **Enillion a Cholledion wrth Ailfesur** | | |
| 331 | (7,810) | Enillion / Colledion Actiwaraidd - profiad | 51 | 60 |
| 1,359 | 4,410 | Enillion / Colledion Actwaraidd yn dellio o newidiadau i'r rhagdybiaethau demograffig | 6,176 | 530 |
| 1,610 | 11,520 | Enillion / Colledion Actwaraidd yn dellio o newidiadau i'r rhagdybiaethau ariannol | 1,851 | 25,240 |
| 0 | 0 | Buddion/trosglwyddiadau a Dalwyd | 0 | 12,440 |
| 0 | 0 | Cwtogiadau | 0 | 0 |
| 0 | 0 | Cost Blaenorol y Gwasanaeth | 0 | 0 |
| **(40,392)** | **(231,610)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(35,728)** | **(208,100)** |

## Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL): Asedau sy'n Cynnwys:

| Quoted 2023/24 £'000 | Gwerth Teg Asedau'r Cynllun | Quoted 2024/25 £'000 |
|---:|---|---:|
| | **Arian a Chyfwerth Arian** | |
| 2,122 | Cyfrifon Arian | 0 |
| 0 | Buddsoddiadau Dros Dro | 0 |
| **2,122** | **Is-gyfanswm Arian a Chyfwerth Arian** | **0** |
| | | |
| | **Gwarantu Ecwiti** | |
| 5,787 | Dyfynnwyd yn fyd-eang | 6,296 |
| 0 | Marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg | 0 |
| **5,787** | **Is-gyfanswm Ecwiti** | **6,296** |
| | | |
| | **Bondiau** | |
| 4,205 | Eraill Tramor | 5,409 |
| 10,990 | LDI | 9,685 |
| **15,195** | **Is-gyfanswm Bondiau** | **15,094** |
| | | |
| | **Eiddo** | |
| 1,748 | DU | 1,550 |
| 167 | Tramor | 209 |
| **1,915** | **Is-gyfanswm Eiddo** | **1,759** |
| | | |
| | **Dewisiadau amgen** | |
| 2,040 | Cronfeydd Ymddiogelu | 6,298 |
| 6,119 | Ecwiti Preifat | 3,239 |
| 2,498 | Seilwaith | 123 |
| 167 | Coed ac Amaethyddiaeth | 4,808 |
| 4,746 | DGF | 1,380 |
| 1,041 | Credyd Preifat | 1,953 |
| **16,611** | **Is-gyfanswm Dewisiadau Amgen** | **17,801** |
| | | |
| **41,630** | **Cyfanswm yr Asedau** | **40,950** |

Mae gan holl asedau'r cynllun brisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol.

## Y Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau ac Ymrwymiadau

Mae gwerth yr ymrwymiadau wedi eu seilio'n actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull unedau rhagamcanol sy'n asesu ymrwymiadau'r cynllun yn y dyfodol gyda disgownt i'w gwerth presennol

Mae gwerth Cynllun y Diffoddwyr Tân wedi ei wneud gan Adran Actiwaraidd y Llywodraeth.

Mae gwerth ymrwymiadau LGPS wedi ei wneud gan Mercer, sef cwmni annibynnol o actiwariaid. Dyma'r prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau ac maent yn seiliedig ar brisiad llawn diweddaraf y cynllun ar 1 Ebrill 2023.

| 2023/24 | LGPS | 2024/25 |
|---|---|---|
| | **Rhagdybiaethau ynglŷn â Marwolaethau** | |
| | Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr presennol: | |
| 21 | Dynion | 21.1 |
| 23.5 | Menywod | 23.6 |
| | Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr y dyfodol: | |
| 22.4 | Dynion | 22.4 |
| 25.3 | Menywod | 25.4 |
| | **Rhagdybiaethau Eraill** | |
| 2.6% | Cyfradd Chwyddiant | 2.6% |
| 3.9% | Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau | 3.9% |
| 2.7% | Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau | 2.7% |
| 4.9% | Cyfradd Disgowntio Ymrwymiadau'r Cynllun | 5.9% |
| 2.6% | Cyfradd Ailbrisio CARE | 2.6% |

| 2023/24 | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân | 2024/25 |
|---|---|---|
| | **Rhagdybiaethau ynglŷn â Marwolaethau** | |
| | Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr presennol: | |
| 21.3 | Dynion | 21.3 |
| 21.3 | Menywod | 21.3 |
| | Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr y dyfodol: | |
| 22.9 | Dynion | 22.7 |
| 22.9 | Menywod | 22.7 |
| | **Rhagdybiaethau Eraill** | |
| 2.6% | Cyfradd Chwyddiant | 2.7% |
| 3.9% | Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau | 3.5% |
| 2.6% | Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau | 2.7% |
| 4.8% | Cyfradd Disgowntio Ymrwymiadau'r Cynllun | 5.7% |
| 3.9% | Cyfradd Ailbrisio CARE | 3.5% |

Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod.

Mae’r dadansoddiadau sensitifrwydd isod yn seiliedig ar newidiadau rhesymol bosibl i ragdybiaethau ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gyda phob un yn cael ei amrywio’n annibynnol. Er enghraifft, mae’r rhagdybiaeth ynghylch hirhoedledd yn ystyried newidiadau yn disgwyliad oes dynion a menywod. Er nad yw newidiadau unigol fel hyn yn debygol yn ymarferol, gall rhai rhagdybiaethau fod yn gysylltiedig. Mae’r amcangyfrifon yn dilyn polisïau cyfrifyddu’r cynllun—gan ddefnyddio dull credyd uned ragamcanol ar sail actiwaraidd. Nid yw’r dulliau na’r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wedi newid ers y cyfnod blaenorol.

**Effaith Rhagdybiaethau ar yr ymrwymiad - LGPS**

| | **Fel yr Adroddwyd** | **+0.5% gostyngiad y flwyddyn** | **+0.25% chwyddiant y flwyddyn** | **+0.25% twf cyflog y flwyddyn** | **Cynnydd o 1 flwyddyn mewn disgwyliad oes** | **+/-1% o newid yn enillion buddsoddi 2023/24** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | **+1%** | **-1%** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Ymrwymiadau | 35,728 | 33,166 | 37,082 | 36,010 | 36,440 | 35,728 | 35,728 |
| Asedau | (40,950) | (40,950) | (40,950) | (40,950) | (40,950) | (41,356) | (40,544) |
| Diffyg (gwarged) | (5,222) | (7,784) | (3,868) | (4,940) | (4,510) | (5,628) | (4,816) |
| Cost a Ragamcanwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf | 771 | 667 | 827 | 771 | 791 | 771 | 771 |
| Cost Llog Net a Ragamcanwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf | (327) | (519) | (247) | (310) | (285) | (351) | (303) |

| | **Fel yr Adroddwyd** | **Cyfradd disgownt ar rwymedigaeth-au Cynnydd o 0.5%** | **Cynnydd mewn cyflogau Cynnydd o 0.5%** | **Disgwyliad oes Cynnydd o 1 flwyddyn** | **Cynnydd mewn pensiynau Cynnydd o 0.5%** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| | **Effaith** | 0.00% | 0% | 0.00% | 0% |
| FFPS | (208,100) | (194,574) | (210,181) | (221,627) | (212,262) |

**Effaith ar lif arian yr Awdurdod**

Cydnabyddir cost buddion ymddeol yng nghost gwasanaethau a nodwyd pan gânt eu hennill gan weithwyr cyflogedig, yn hytrach na phan delir y buddion ar ffurf pensiynau yn y pen draw. Fodd bynnag, mae'r taliad sy’n rhaid ei godi yn erbyn yr ardoll yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddion ôl-gyflogaeth / buddion ymddeol ei gwrthdroi o'r Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a balans y Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

## 31 NATUR A MAINT Y RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, sy'n sicrhau bod gan yr Awdurdod fesurau ar waith i reoli risgiau ariannol. Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2024/25 mewn cyfarfod ar 15 Ebrill 2024. Mae'r Strategaeth yn nodi'r Dangosyddion Darbodus (PI) ar gyfer y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn mae adroddiadau chwarterol yn manylu ar y cynnydd o'i gymharu â'r strategaeth ac, os oes angen, adolygiad o'r Dangosyddion Perfformiad.

Ar ddiwedd y flwyddyn, mae adroddiad terfynol yn nodi sut mae'r Awdurdod wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Ceir manylion ynghylch sut mae'r Awdurdod yn rheoli risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol yn adroddiadau'r trysorlys a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ac maent ar gael o wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru -

Mae gweithgareddau'r awdurdod yn ei amlygu i amrywiaeth o risgiau ariannol, gan gynnwys:

### Risg Credyd

Dyma'r posibilrwydd y gallai partïon eraill fethu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod.

Buddsoddiadau sy'n peri'r risg credyd uchaf ac mae'r rhain yn cael eu rheoli drwy Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n nodi'r paramedrau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol ac yn pwysleisio bod blaenoriaeth i'w rhoi i ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach nag arenillion. Polisi'r Awdurdod ar fuddsoddiadau'r trysorlys yw rhoi arian sydd dros ben yn y tymor byr mewn cyfrifon galw mewn banciau hyd nes y bydd ei angen. Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau tymor hir. Mae arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y tymor byrrach yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, gyda banciau dethol o ansawdd uchel, i leihau'r risg o

### Risg Hylifedd

Dyma'r posibilrwydd na fydd gan yr Awdurdod ddigon o arian ar gael i fodloni ei ymrwymiadau i wneud taliadau.

Mae'r Awdurdod yn monitro ei falans arian parod i sicrhau bod arian parod ar gael yn ôl yr angen. Os bydd symudiadau annisgwyl yn digwydd, gall yr Awdurdod gael gafael yn rhwydd ar fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, ac felly nid oes unrhyw risg canfyddedig na fyddai'r Awdurdod yn gallu codi'r arian i fodloni ei ymrwymiadau dan yr offerynnau ariannol. Yn hytrach, y risg yw y bydd yr Awdurdod wedi ei rwymo i ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg pan fo cyfraddau llog yn anffafriol.

### Risg y Farchnad

Dyma'r posibilrwydd y gallai colled ariannol ddigwydd i'r Awdurdod o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel cyfraddau llog a symudiadau yn y farchnad stoc.
Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan yr Awdurdod fenthyciadau marchnad o £5m (2023/24: dim).

Mae'r Awdurdod mewn sefyllfa agored i symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar yr Awdurdod, yn dibynnu sut mae cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn symud ar draws gwahanol gyfnodau offerynnau ariannol. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn cael yr effeithiau canlynol:

- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiol – bydd y gost llog a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn codi;
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg y benthyca yn gostwng (dim effaith ar falansau refeniw);
- Buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – bydd yr incwm llog a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn codi; a
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn gostwng (dim effaith ar falansau refeniw);

Nid yw benthyciadau'n cael eu cario ar eu gwerth teg ar y fantolen, felly ni fyddai enillion a cholledion nominal ar fenthyciadau cyfradd sefydlog yn effeithio ar Warged neu Ddiffyg yn y Ddarpariaeth Gwasanaethau neu Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau yn y llog sy'n daladwy neu a dderbynnir ar fenthyciadau a buddsoddiadau ar gyfradd amrywiol yn cael eu gosod yn y Gwarged neu Ddiffyg yn y Ddarpariaeth Gwasanaethau ac yn effeithio ar Falans y Gronfa Gyffredinol.

Mae gan yr awdurdod nifer o strategaethau ar gyfer rheoli risg cyfraddau llog. Yn ystod cyfnodau pan fo cyfraddau llog yn gostwng, a lle mae amgylchiadau economaidd yn ei gwneud yn ffafriol, bydd benthyciadau ar gyfradd sefydlog yn cael eu had-dalu'n gynnar i wneud yr Awdurdod yn llai agored i golledion.

## 32 RHWYMEDIGAETHAU ANNISGWYL

### Hawliadau Pensiwn

Yn dilyn proses gyfreithiol hir, cyhoeddwyd y dyfarniad yn achos O'Brien vs Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod 2019. Canfu hwn fod y penderfyniad i gyfyngu ar y cyfnod pan gallai gweithiwr rhan-amser ymuno â'r cynllun pensiwn yn un gwallus ac y dylai gweithwyr cymwys gael ymuno â'r cynllun perthnasol o ddechrau eu contractau.

Mae gan y dyfarniad hwn oblygiadau cenedlaethol i staff sy'n cael eu cyflogi fel diffoddwyr tân ar alwad ac y dechreuodd eu contract cyflogaeth cyn 6 Ebrill 2000 neu'r rhai nad ydynt eto wedi cael y cyfle llawn i brynu gwasanaeth blaenorol yr oedd ganddynt hawl iddo.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud diwygiadau i Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 2007 (Diwygiedig) i ddarparu mecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn. Cafodd Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024 ei wneud a'i osod ym mis Ionawr a daeth i rym ar 1 Chwefror 2024. Bydd pob person cymwys yn cael cyfle i brynu hawliau pensiwn yn ôl o fewn yr amserlenni a nodir yn y gorchymyn.

Ni ellir cyfrifo'n llawn effaith ariannol lawn y rheoliadau sydd wedi'u diweddaru er bod amcangyfrif wedi'i gynnwys ym mhrisiad 2020 o rwymedigaethau cynllun pensiwn yr Awdurdod a gynhaliwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD).

**Contract Gwasanaethau Brys Airwave**

Ym mis Hydref 2021, agorodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ymchwiliad i wasanaethau rhwydwaith radio symudol oherwydd pryderon efallai nad oedd y farchnad yn gweithio'n dda. Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad nad oes gan wasanaethau brys y DU unrhyw ddewis ar hyn o bryd ond parhau i ddefnyddio Rhwydwaith Airwave Motorola, oherwydd diffyg darparwyr eraill. O'r herwydd, cododd Motorola brisiau sydd ymhell uwchlaw lefelau cystadleuol ar y Swyddfa Gartref - sy'n negodi contractau ar ran y gwasanaethau brys - gan arwain at gostau uwch i'r gwasanaethau brys.

Er mwyn lleihau'r costau hyn, gosododd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd gap prisiau ym mis Gorffennaf 2023, a ddaeth â'r pris i lawr i lefel y gellid ei ddisgwyl mewn marchnad gystadleuol sy'n gweithio'n iawn.

Apeliodd Motorola Solutions Limited yn erbyn y penderfyniad hwn ac ym mis Rhagfyr 2023, fe wnaeth y Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth, mewn penderfyniad unfrydol, gadarnhau canfyddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd bod Motorola yn prisio'n ormodol oherwydd ei fonopoli bron heb gyfyngiadau ar ddarparu gwasanaethau rhwydwaith cyfathrebu i wasanaethau brys y DU.

Mae Motorola Solutions wedi apelio ynghylch y mater i Lys Apêl y DU a wrthododd gais Motorola am ganiatâd i apelio ar 30 Ionawr 2025, a hynny'n unfrydol, ar y ddwy sail roedd yn pledio arnynt, ble roedd yn honni fod yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) wedi gwneud camgymeriadau wrth asesu'r gystadleuaeth yn y farchnad berthnasol ac ym mhroffidioldeb y Rhwydwaith Airwave yn 2021.

Yn 2024/25, o ganlyniad i'r cap prisiau, bu gostyngiad o £526,000 yn y costau (2023/24: £262,000), fodd bynnag, gan y gall Motorola apelio yn Llys Hawliau Dynol Ewrop, mae'r swm hwn wedi'i neilltuo mewn cronfeydd wedi'u clustnodi wrth gefn, rhag ofn y bydd yn rhaid ad-dalu hyn.

**Materion Perthnasol Cyfreithiol**

Gall yr Awdurdod wynebu her mewn perthynas ag ystod o faterion a allai fod yn destun ymgyfreitha ar unrhyw adeg. Ar ddiwedd y flwyddyn mae'r holl hawliadau hysbys yn cael eu hadolygu a'u hasesu. Os asesir bod atebolrwydd tebygol ac y gellir gwneud amcangyfrif rhesymol, rhoddir cydnabyddiaeth i ddarpariaeth ar gyfer symiau y byddai'r Awdurdod yn gorfod eu hysgwyddo. Pan fo'r tebygolrwydd o setliad yn isel neu pan na ellir amcangyfrif yr atebolrwydd yn rhesymol, ni chydnabyddir rhwymedigaeth. Fodd bynnag, mae'r posibilrwydd bod hawliadau yn codi yn y dyfodol o ganlyniad i weithredoedd yn y gorffennol sydd naill ai'n anhysbys ar ddyddiad y Fantolen neu lle mae'r canlyniad mor anrhagweladwy o ran canlyniad neu rwymedigaeth ariannol fel na ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r rhwymedigaeth. Mae'r Awdurdod yn cadw cronfa wrth gefn ar gyfer materion o'r fath.

**Tribiwnlys Cyflogaeth**

Ar ddiwedd y flwyddyn nid oedd unrhyw faterion a oedd angen cydnabyddiaeth ariannol.

## 33 ASED ANNISGWYL

### Cartél Tryciau

Ym mis Gorffennaf 2016, roedd y Comisiwn Ewropeaidd wedi rhoi dirwy o €2.9 biliwn i weithgynhyrchwyr tryciau Ewropeaidd am drefnu prisiau a gweithgareddau cartél eraill rhwng 1991 a 2001. Roedd DAF, Daimler, Iveco, MAN, a Volvo/Renault wedi cyfaddef eu bod yn euog gan gadarnhau eu bod wedi gwneud y canlynol:

- Ar lefel uwch reolwyr y Pencadlys, wedi pennu prisiau gros sefydlog ac weithiau prisiau
- Wedi alinio prisiau rhestr gros yn Ewrop gan gynnwys y DU ar ddechrau'r cartél.
- Wedi lleihau ad-daliadau pan gyflwynwyd yr Ewro.
- Oedi cyn cyflwyno technolegau Ewro 3, 4, 5 a 6 mwy effeithlon o ran
- Cytunwyd ar y gost y dylai gweithredwyr ei dalu am dechnolegau Ewro.

Ni wnaeth Scania gymryd rhan yn y weithdrefn setlo a chyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei benderfyniad yn canfod bod Scania wedi cymryd rhan yn yr un cartél gan roi dirwy o €880 miliwn i Scania. Mae Scania wedi defnyddio pob un o'i apeliadau yn erbyn y Penderfyniad, a oedd yn aflwyddiannus.

Mae'r mater hwn yn cynnwys unrhyw dryciau 6 thunnell a throsodd, a brynwyd yn llwyr, ar gytundeb ariannu neu a brydleswyd rhwng 1997 a 2011. Mae achos cyfreithiol bellach yn mynd rhagddo yn y sector cyhoeddus i adennill peth o'r arian a gollwyd oherwydd y trefnu prisiau yma gan y cartél. Nid yw'r gwerth penodol, y ganran na'r tebygolrwydd wedi'u cyfrif eto ac mae'r amserlenni'n parhau i fod yn aneglur. Fodd bynnag, mae'r treial ar gyfer yr Ail Don Hawliadau Tryciau wedi'i osod ar gyfer Medi 2026.

O dan y Cytundeb Cyllido Ymgyfreitha, dim ond y TAW sy'n daladwy gan yr Awdurdod am y costau cyfreithiol. Cyfanswm y taliadau cyfredol ar gyfer 2024/25 oedd £5,268 (2023/24: £67)

## CYFRIF CRONFA BENSIWN DIFFODDWYR TÂN

Cyfrif Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Mae’r datganiad hwn yn cyflwyno sefyllfa ariannol Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, gan nodi a oes gan yr Awdurdod falans sy’n daladwy neu’n dderbyniol gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y cyfrif yn gytbwys. Yn ogystal, mae’n darparu gwybodaeth am asedau net y gronfa.

| 2023/24 £'000 | | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| | **Cyfraniadau a Dderbynnir:** | |
| (4,055) | Cyfraniadau arferol y cyflogwr | (4,906) |
| 0 | Tâl afiechyd y cyflogwr | (156) |
| 0 | Cyfraniadau ôl-ddyddiedig y cyflogwr | 0 |
| (1,928) | Cyfraniadau arferol yr aelodau | (2,067) |
| (122) | Cyfraniadau ôl-ddyddiedig yr aelodau | (88) |
| (798) | Trosglwyddiadau i mewn | (321) |
| **(6,903)** | **CYFANSWM** | **(7,538)** |
| | **Buddion yn Daladwy:** | |
| 9,005 | Taliadau Pensiwn | 9,737 |
| 1,596 | Gohirio Pensiynau a Chyfandaliadau buddion ymddeol | 2,593 |
| 0 | Taliadau Gohirio Ôl-ddyddiedig | 0 |
| | **Taliadau i Ymadawyr ac ar eu rhan:** | |
| 195 | Trosglwyddiadau allan | 88 |
| **10,796** | **CYFANSWM** | **12,418** |
| 3,893 | Diffyg am y flwyddyn cyn i grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru | 4,880 |
| (3,893) | Grant atodol a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru | (4,880) |
| **0** | **SWM NET (TALADWY)/A DDERBYNNIR AR GYFER Y FLWYDDYN** | **0** |

### Datganiad Asedau Net ar 31 Mawrth 2025

| 2023/24 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| | **Asedau cyfredol** | |
| (2,320) | Swm sy'n ddyledus (gan) / i'r Gronfa Gyffredinol | (655) |
| **(2,320)** | **Cyfanswm Asedau Cyfredol** | **(655)** |
| | **Ymrwymiadau Cyfredol** | |
| 2,320 | Grant atodol yn daladwy (gan) / i Lywodraeth Cymru | 655 |
| **2,320** | **Cyfanswm Ymrwymiadau Cyfredol** | **655** |

**Nodiadau i Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân**

Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 2007, dan Orchymyn Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, ac mae'n cynnwys Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992, 2007 a 2015 ac fe'i gweinyddir gan yr Awdurdod. Mae’r cynllun yn un nad yw’n cael ei ariannu, nid oes ganddo asedau buddsoddi, a bydd unrhyw wahaniaeth rhwng y buddion sy’n daladwy a’r cyfraniadau derbyniadwy yn cael ei ateb gan Grant Atodol gan Lywodraeth Cymru.

Telir cyfraniadau cyflogai a chyflogwr i'r Gronfa, a gwneir taliadau ohoni i bensiynwyr. Mae lefelau cyfraniadau gweithwyr a chyflogwr yn seiliedig ar ganrannau o dâl pensiynadwy a osodir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru ac yn amodol ar ailbrisio gan Adran Actiwari’r Llywodraeth (GAD) bob pedair blynedd neu fel y cyfarwyddir fel arall gan Drysorlys EM.

Trosglwyddiadau i’r cynllun yw trosglwyddo buddion pensiwn o gynllun pensiwn arall ar gyfer gweithwyr newydd neu bresennol, a throsglwyddiadau allan yw trosglwyddo buddion i weithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod ac wedi ymuno â chynllun pensiwn arall.

Mae’r Awdurdod yn gyfrifol am dalu cyfraniadau’r cyflogwr i’r gronfa. Dyma’r costau sydd wedi’u cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer yr Awdurdod.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gwneir asesiad ynghylch swm y Grant Atodol sydd ei angen gan Lywodraeth Cymru. Mae'r amcangyfrif yn cynnwys asesiad o nifer y diffoddwyr tân sydd i fod i ymddeol o fewn y flwyddyn, yn seiliedig ar oedran a blynyddoedd o wasanaeth.

**Cyfraddau Cyfraniadau**

Ar 1 Ebrill 2022, trosglwyddwyd holl gyfranogwyr y cynllun i Gynllun 2015. Yn unol â Rheoliadau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, bydd cyfradd cyfraniad y cyflogwr ar gyfer Cynllun 2015 yn 31.0% o’r cyflog pensiynadwy, yn weithredol o 1 Ebrill 2024 (i fyny o 27.3% yn 2023/24). Bydd cyfradd cyfraniad y gweithiwr yn amrywio yn seiliedig ar fandio’r cyflog

| Band Cyflog Pensiynadwy | Cyfradd Cyfraniad % 2024/25 |
|---|---|
| Hyd at £27,818 | 11.0 |
| £27,819 i £51,515 | 12.9 |
| £51,516 i £142,500 | 13.5 |
| Mwy na 142,501 | 14.5 |

Nid yw Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cymryd ystyriaeth o’r ymrwymiadau am bensiynau a buddion eraill wedi diwedd y cyfnod, gan mai cyfrifoldeb yr Awdurdod yw hyn. Mae manylion am yr ymrwymiadau pensiwn tymor hir i’w cael yn Nodyn 30 o’r datganiadau ariannol craidd.

**Atodiad 1**

# POLISÏAU CYFRIFYDDU

## 1. EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2025. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n gofyn bod y cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn, o dan adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, yn cynnwys yn bennaf y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024/25 a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, wedi'i haddasu drwy ailbrisio categorïau penodol o asedau ac offerynnau ariannol nad ydynt yn gyfredol.

## 2. CRONIADAU O INCWM A GWARIANT

Yn y cyfrifon refeniw, cyfrifir am incwm a gwariant heb TAW (oni bai bod y TAW yn anadferadwy), yn y flwyddyn y maent yn codi, nid pan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn. Mae hyn yn cyd-fynd ag IAS 1, sy'n gorfodi cyfrifyddu ar sail groniadol i sicrhau cymhariaeth a golwg gywir a theg ar berfformiad a'r sefyllfa ariannol.

- **Treuliau:** Yn cael eu cofnodi pan dderbynnir gwasanaethau, nid pan fydd taliadau'n cael eu gwneud. Mae incwm gan gwsmeriaid yn cael ei gydnabod pan gaiff nwyddau neu wasanaethau eu darparu.
- **Cyflenwadau:** Yn cael eu cofnodi fel treuliau pan gânt eu defnyddio. Os cânt eu derbyn ond eu bod heb eu defnyddio eto, maent yn cael eu cario fel stocrestrau ar y Fantolen.
- **Llog:** Yn cael ei gyfrif gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol, yn hytrach na'r llif arian a bennir yn y contract.
- **Dyledwyr a Chredydwyr:** Os cydnabyddir refeniw a gwariant ond nad yw arian parod wedi'i dderbyn na'i dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr yn y Fantolen. Os yw'n bosibl na fydd dyledion yn cael eu setlo, caiff balans y dyledwyr ei nodi a chodir tâl ar refeniw am yr incwm na fydd o bosibl yn cael ei gasglu.

## 3. ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol y gellir eu tynnu allan heb gosb o fewn 24 awr. Mae buddsoddiadau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau sy'n aeddfedu o fewn tri mis o'u caffael ac y gellir eu trosi'n rhwydd yn arian parod heb fawr ddim risg.

Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir arian parod a chyfwerth ag arian parod heb orddrafftiau banc sy'n ad-daladwy yn ôl y galw ac sy'n rhan o system rheoli arian parod yr Awdurdod.

## 4. ADDASIADAU CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU MEWN POLISÏAU CYFRIFYDDU AC AMCANGYFRIFON A GWALLAU

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwallau materol. Mae newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu’n cael eu hystyried yn rhagolygol, gan effeithio ar y flwyddyn gyfredol a’r blynyddoedd i ddod, ac nid ydynt yn arwain at addasiadau cyfnod blaenorol.

Dim ond pan fo hynny’n angenrheidiol yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol y gwneir newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu, neu os yw'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Rhoddir y newidiadau hyn ar waith yn ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer cyfnodau blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi bod ar waith erioed. Caiff gwallau materol sy’n cael eu darganfod mewn ffigurau cyfnod blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

## 5. TALIADAU A GODIR AR REFENIW AM ASEDAU ANGHYFREDOL

Codir amcangyfrif o'r gost o ddal asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn ar wasanaethau, gwasanaethau cymorth a chyfrifon masnachu. Mae hyn yn cynnwys:

- **Dibrisiant:** Yn briodoledig i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol.
- **Ailbrisio a Cholledion Amhariad:** Ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronedig yn y gronfa ailbrisio wrth gefn i wrthbwyso'r colledion.
- **Amorteiddiad:** Asedau anniriaethol priodoledig i'r gwasanaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r Awdurdod godi ardoll i ariannu'r costau hyn. Yn hytrach, mae'n gwneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at leihau ei ofyniad benthyca cyffredinol, wedi'i gyfrifo ar sail ddarbodus. Caiff dibrisiant, ailbrisio a cholledion amhariad, ac amorteiddiad eu disodli gan y cyfraniad hwn ym malans y Gronfa Gyffredinol (MRP), trwy drafodiad addasu gyda'r cyfrif addasu cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

## 6. BUDDION I WEITHWYR

### Buddion sy’n daladwy yn ystod cyflogaeth

Buddion cyflogeion tymor byr yw'r rhai hynny sydd i'w setlo o fewn 12 mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol ac maent yn cynnwys tâl, cyflogau, gwyliau â thâl, taliadau bonws a buddion heb fod yn ariannol (e.e. ceir). Mae'r rhain yn cael eu cydnabod fel treuliau yn y flwyddyn y mae gweithwyr yn darparu gwasanaethau i'r Awdurdod.

Gwneir croniad am gost yr hawliau gwyliau (neu unrhyw fath o wyliau, e.e. amser i ffwrdd yn lle oriau ychwanegol a weithiwyd) y mae gweithwyr wedi’u hennill ond heb eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn ariannol ac y gall gweithwyr eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y croniad hwn ar y cyfraddau tâl a chyflog sy'n berthnasol yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol. Caiff y croniad ei godi ar y gwarged neu’r diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau, ond caiff wedyn ei wrthdroi trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn i'r cyfrif absenoldebau cronedig, gan sicrhau bod hawliadau gwyliau yn cael eu codi ar refeniw yn y flwyddyn y cymerir y gwyliau.

### Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr yr Awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- **Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân:** Gweinyddir y cynllun hwn gan Gronfa Bensiwn Dyfed, Cyngor Sir Gâr.
- **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:** Gweinyddir y cynllun hwn gan Gyngor Sir y Fflint

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig (cyfansymiau wrth ymddeol a phensiynau) a enillir wrth i weithwyr weithio i'r Awdurdod.

### Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FFPS)

Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn gynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu a heb unrhyw asedau nac incwm buddsoddi.

- **Rhwymedigaethau:** Wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig, yn seiliedig ar ragdybiaethau am gyfraddau marwolaethau, trosiant gweithwyr, ac enillion rhagamcanedig.
- **Cyfradd Ddisgownt:** Caiff rhwymedigaethau eu disgowntio i brisiau cyfredol gan ddefnyddio cyfradd sy'n seiliedig ar arenillion bondiau'r Llywodraeth ynghyd ag elw ychwanegol.

### Cost y Gwasanaeth:

- **Cost Gyfredol y Gwasanaeth:** Cynnydd mewn rhwymedigaethau o wasanaeth a enillwyd yn y flwyddyn, a ddyrannwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) i'r gwasanaethau y gweithiodd gweithwyr iddynt.
- **Cost y Gwasanaeth yn y Gorffennol:** Cynnydd mewn rhwymedigaethau yn sgil diwygiadau neu doriadau yn y cynllun sy'n gysylltiedig â blynyddoedd cynharach, wedi'u debydu i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- **Llog Net:** Traul sy'n codi dros amser ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net. Fe'i cyfrifir trwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt i'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig net ar ddechrau'r cyfnod. Codir y gwariant hwn ar y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yn ei hanfod, mae'n cynrychioli cost llog bod â rhwymedigaeth pensiwn dros amser.

### Ailfesuriadau:

- **Enillion a Cholledion Actiwaraidd:** Newidiadau mewn rhwymedigaeth pensiwn net o ganlyniad i ragdybiaethau neu ddigwyddiadau a ddiweddarwyd nad ydynt yn cyfateb i ragdybiaethau actiwari blaenorol, a godir ar y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
- **Cyfraniadau a dalwyd i'r Gronfa:** Arian parod a dalwyd fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn i setlo rhwymedigaethau; nid yw'n cael ei gyfrif fel cost.

Mewn perthynas â buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn pennu mai'r swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn sy'n cael ei godi ar Falans y Gronfa Gyffredinol, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau

cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae hyn yn golygu bod trosglwyddiadau'n cael eu gwneud i mewn i'r Gronfa Bensiynau ac allan ohoni i ddileu'r debydau a'r credydau tybiedig ar gyfer buddion ymddeol a'u disodli â debydau am yr arian a delir i'r gronfa bensiynau a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans negyddol sy'n codi yn y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn felly'n mesur yr effaith fuddiol i'r Gronfa Gyffredinol o orfod cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach nag wrth i weithwyr ennill buddion.

**Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)**

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei ystyried yn gynllun buddion diffiniedig:

- **Rhwymedigaethau:** Wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig, yn seiliedig ar ragdybiaethau am gyfraddau marwolaethau, trosiant gweithwyr, ac enillion rhagamcanedig.
- **Cyfradd Ddisgownt:** Caiff rhwymedigaethau eu disgowntio i brisiau cyfredol gan ddefnyddio cyfradd sy'n seiliedig ar fondiau corfforaethol.
- **Asedau:** Mae asedau Cronfa Bensiwn Clwyd y gellir eu priodoli i'r Awdurdod wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:
    - Gwarannau a ddyfynnwyd: pris cyfredol
    - Gwarannau heb eu dyfynnu: amcangyfrif proffesiynol
    - Gwarannau unedol: pris cyfredol
    - Eiddo: gwerth y farchnad

Caiff y newid yn y rhwymedigaeth bensiynau net ei ddadansoddi yn ôl y cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth sy'n cynnwys:

- **Cost Gyfredol y Gwasanaeth:** Y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni, wedi'u clustnodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y bu'r gweithwyr yn gweithio iddynt.
- **Cost y Gwasanaeth yn y Gorffennol:** Y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i ddiwygio neu gwtogi cynllun sy'n gysylltiedig â blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd yn ystod blynyddoedd cynharach, wedi'i ddebydu i'r gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- **Llog Net ar y Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig Net (Ased):** Y newid yn ystod y cyfnod yn y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (ased) oherwydd treigl amser, a godir ar linell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hyn yn cael ei gyfrifo trwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i fesur y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (ased) ar ddechrau'r cyfnod, gan ystyried unrhyw newidiadau yn ystod y cyfnod oherwydd cyfraniadau a thaliadau buddion.

Ailfesuriadau sy'n cynnwys:

- **Enillion ar Asedau'r Cynllun:** Ac eithrio symiau sydd wedi'u cynnwys mewn llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (ased), a godir ar y gronfa bensiynau wrth gefn fel incwm a gwariant cynhwysfawr arall.
- **Enillion a Cholledion Actiwaraidd:** Newidiadau yn y rhwymedigaeth bensiynau net oherwydd nad yw digwyddiadau'n cyd-fynd â rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad

actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïau wedi diweddaru eu rhagdybiaethau, sy’n cael eu codi ar y gronfa bensiwn wrth gefn fel incwm a gwariant cynhwysfawr arall.

- **Cyfraniadau a Dalwyd i Gronfa Bensiwn Clwyd:** Arian parod a delir fel cyfraniadau’r cyflogwr i'r gronfa bensiwn i setlo rhwymedigaethau, nid yw’n cael ei gyfrif fel cost.

**Darpariaethau Statudol**

Mewn perthynas â buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn gofyn bod y swm sy’n daladwy gan yr Awdurdod i’r gronfa bensiwn neu’n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn yn cael ei godi ar falans y Gronfa Gyffredinol, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Mae hyn yn golygu bod trosglwyddiadau’n digwydd i mewn i’r gronfa bensiynau wrth gefn ac allan ohoni i ddileu’r debydau a chredydau tybiedig ar gyfer buddion ymddeol â’u disodli â debydau am yr arian a delir i’r gronfa bensiynau a phensiynwyr ac unrhyw symiau o’r fath sy’n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans negyddol yn y gronfa bensiynau wrth gefn yn mesur yr effaith fuddiol i'r Gronfa Gyffredinol o orfod cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach nag wrth i weithwyr ennill buddion.

**Buddion Disgresiynol**

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i ddyfarnu buddion ymddeol yn ôl ei ddisgresiwn os bydd gweithwyr yn ymddeol yn gynnar. Caiff unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir eu bod o ganlyniad i ddyfarniad o’r fath eu cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad a’u cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisïau ag sy’n berthnasol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## 7. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Digwyddiadau ar ôl cyfnod adrodd y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad terfynu’r Fantolen a'r dyddiad pan gaiff y datganiad cyfrifon ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Mae'r digwyddiadau hyn yn cael eu dosbarthu'n ddau fath:

- **Digwyddiadau sy’n Darparu Tystiolaeth o Amodau ar Ddiwedd y Cyfnod Adrodd** – Os yw’r digwyddiad yn rhoi tystiolaeth o amodau oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd, caiff y datganiad cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o’r fath

- **Digwyddiadau sy’n Nodi Amodau a Gododd ar ôl y Cyfnod Adrodd** - Os yw’r digwyddiad yn nodi amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd, ni fydd y datganiad cyfrifon yn cael ei addasu. Fodd bynnag, pe bai’r digwyddiadau hyn yn cael effaith sylweddol, caiff eu natur a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig eu datgelu yn y nodiadau.

## 8. OFFERYNNAU ARIANNOL

Diffinnir Offeryn Ariannol fel ‘unrhyw gontract sy'n creu ased ariannol i un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti i un arall’.

Mesur Cychwynnol a Swm Cario:

- **Rhwymedigaethau Ariannol (Benthyciadau):** Wedi'u mesur i ddechrau ar werth teg a'u cario ar gost amorteiddio. Mae'r llog blynyddol a delir yn seiliedig ar swm cario'r benthyciad wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol.
- **Asedau Ariannol (Buddsoddiadau):** Wedi'u mesur i ddechrau ar werth teg a'u cario ar gost amorteiddio. Mae'r llog blynyddol a dderbynnir yn seiliedig ar swm cario'r benthyciad wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol.

Ar gyfer yr holl fenthyciadau a buddsoddiadau, y symiau a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm sy’n weddill ynghyd ag unrhyw log cronedig am y flwyddyn.

Cydnabod a Mesur

- **Rhwymedigaethau Ariannol:** Yn cael eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw’r Awdurdod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol. Wedi'u mesur i ddechrau ar werth teg a'u cario ar gost amorteiddio. Mae taliadau blynyddol am log sy’n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth wedi'i luosi â’r gyfradd llog effeithiol. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy’n disgowntio taliadau arian parod amcangyfrifedig y dyfodol yn union dros oes yr offeryn i'r swm a oedd yn berthnasol pan gafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau sydd gan yr Awdurdod, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm ad-daladwy sy'n weddill (ynghyd â llog cronedig); a'r llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

### Asedau ariannol

Mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu ar sail dull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae'r Awdurdod yn dal asedau ariannol a fesurir ar sail:

- Cost wedi’i Hamorteiddio
- Gwerth Teg Drwy Elw neu Golled (FVPL)

Model busnes yr Awdurdod yw dal buddsoddiadau er mwyn casglu llif arian cytundebol, felly caiff asedau ariannol eu dosbarthu fel costau wedi’u hamorteiddio.

### Asedau ariannol a fesurir ar sail cost wedi’i hamorteiddio

Caiff asedau ariannol wedi’u mesur ar gost wedi’i hamorteiddio eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw’r Awdurdod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol. Maent yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg.

Wedi hynny fe'u mesurir ar sail eu cost wedi’i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) ar gyfer llog derbyniadwy yn seiliedig ar swm cario'r ased wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r asedau ariannol sydd gan yr Awdurdod, y swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sy'n weddill (ynghyd â llog cronedig), a'r llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw’r swm sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Mae unrhyw enillion a cholledion sy'n codi o ddatgydnabod ased ariannol yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## 9. TRAFODION ARIAN TRAMOR

Pan fydd yr Awdurdod yn ymrwymo i drafodiad mewn arian tramor, caiff y trafodiad ei drosi'n sterling ar y gyfradd gyfnewid ar y dyddiad y mae'n digwydd. Os oes symiau mewn arian tramor sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn, maent yn cael eu haildrosi ar y gyfradd gyfnewid gyfredol ar 31 Mawrth. Caiff unrhyw enillion neu golledion sy’n deillio o hyn eu cydnabod yn llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi’r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

## 10. CYFRIFO AM GRANTIAU'R LLYWODRAETH

Caiff grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti eu cydnabod fel rhai sy’n ddyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol y bydd:

- yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sy'n gysylltiedig â'r taliadau, ac
- y bydd y grantiau neu’r cyfraniadau yn cael eu derbyn.

**Cydnabod:** Ni chaiff symiau sy’n cael eu cydnabod fel rhai sy'n ddyledus eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr nes bod yr amodau sydd ynghlwm â’r grant neu'r cyfraniad wedi’u bodloni.

**Amodau heb eu Bodloni:** Caiff arian a gafwyd fel grantiau a chyfraniadau nad yw’r amodau wedi'u bodloni ar eu cyfer eu cario yn y Fantolen fel credydwyr.

**Amodau wedi’u Bodloni:** Lle bodlonir yr amodau, caiff y grant neu'r cyfraniad ei gredydu i'r llinell wasanaeth berthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw y gellir eu priodoli) neu Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol (ar gyfer grantiau refeniw heb eu neilltuo a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan nad yw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei roi yn y Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio. Lle mae wedi'i ddefnyddio, caiff ei roi yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf. Caiff symiau yn y Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf pan fyddant wedi'u defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

## 11. ASEDAU ANNIRIAETHOL

Caiff gwariant ar asedau anariannol sydd heb sylwedd ffisegol ond sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod o ganlyniad i ddigwyddiadau'r gorffennol, ee trwyddedau meddalwedd, ei gyfalafu pan ddisgwylir y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol yn llifo o'r ased anniriaethol i'r Awdurdod.

Caiff asedau anniriaethol eu mesur ar sail cost i ddechrau. Dim ond os gellir pennu eu gwerth teg trwy gyfeirio at farchnad weithredol y cânt eu hailbrisio. Yn ymarferol, nid oes unrhyw asedau anniriaethol sy’n cael eu dal gan yr Awdurdod yn bodloni'r maen prawf hwn, felly maent yn cael eu cario ar sail cost llai’r dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad cronedig.

Bydd swm dibrisiedig ased anniriaethol yn cael ei amorteiddio dros gyfnod ei oes ddefnyddiol i'r llinell(au) wasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae ased yn cael ei brofi am amhariad pryd bynnag y mae arwydd o amhariad posibl. Caiff unrhyw golledion a gydnabyddir eu postio i'r llinellau gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw enillion neu golledion sy’n codi ar ôl gwaredu neu adael ased anniriaethol yn cael eu postio i’r llinell gwariant gweithredu arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fydd gwariant ar asedau anniriaethol yn cyfrif fel gwariant cyfalaf at ddibenion statudol, ni chaniateir i amorteiddio, colledion amharu ac enillion a cholledion gwaredu effeithio ar falans y Gronfa Gyffredinol. Caiff yr enillion a’r colledion hyn eu gwrthdroi o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad Mewn Cronfeydd Wrth Gefn a’u postio i’r cyfrif addasu cyfalaf. Ar gyfer unrhyw enillion gwerthu sy'n fwy na £10,000, mae'r symiau’n cael eu postio i’r gronfa derbyniadau cyfalaf

## 12. RHESTRAU STOC

Mae rhestrau stoc wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail pa bynnag un sydd isaf, y gost ynteu’r gwerth gwireddadwy net. Caiff cost rhestrau stoc ei phennu gan ddefnyddio’r fformiwla costio ‘y Cyntaf i Mewn, y Cyntaf Allan’( FIFO).

## 13. LESOEDD

O 1 Ebrill 2024, mae IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o brydlesi gael eu cyfrif fel rhan o'r model caffael. Mae hyn yn golygu cydnabod ased hawl-i-ddefnyddio ar y fantolen, gan adlewyrchu hawl y lesddeiliad i ddefnyddio’r eitem brydlesol.

Bydd prydlesi a ddosbarthwyd fel prydlesi ariannol ar 31 Mawrth 2024—lle mae’r brydles yn trosglwyddo bron pob risg a budd perchnogaeth i’r lesddeiliad—yn parhau i gael eu trin fel prydlesi ariannol.

Bydd pob prydles arall a ddosbarthwyd yn flaenorol fel prydlesi gweithredu, yn amodol ar unrhyw eithriadau cymwys, yn cael eu hailddosbarthu fel asedau hawl-i-ddefnyddio gyda rhwymedigaeth brydles cyfatebol wedi’i chofnodi ar y fantolen.
Lle mae prydles yn cynnwys tir ac adeiladau, asesir pob elfen ar wahân at ddibenion dosbarthiad.

Yn ogystal, bydd trefniadau nad ydynt yn gyfreithiol yn ffurfio prydles ond sy’n rhoi’r hawl i ddefnyddio ased penodol yn gyfnewid am daliad hefyd yn dod o dan y polisi hwn, ar yr amod bod y trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau a nodwyd.

**Lesoedd Cyllid**

Mae lesoedd yn cael eu dosbarthu’n lesoedd cyllid pan fo telerau'r les yn trosglwyddo'n sylweddol holl risgiau a gwobrwyon perchnogaeth i’r lesddeiliad; caiff pob prydles arall eu trin fel prydlesi gweithredu.

Ar gyfer prydlesi ariannol, cydnabyddir yr ased prydlesol ar y Fantolen ar y gwerth isaf rhwng ei werth teg neu werth presennol y taliadau prydles lleiaf, gyda rhwymedigaeth brydles gyfatebol. Ychwanegir unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol a phremiymau prydles at yr ased neu defnyddir hwy i leihau’r rhwymedigaeth. Caiff rhenti amodol eu costio wrth iddynt gael eu hysgwyddo.
Rhennir taliadau prydles rhwng:

- Ad-daliad cyfalaf sy’n lleihau’r rhwymedigaeth brydles, a
- Thâl ariannol a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Cyfrifir am eiddo, peiriannau, ac offer a gydnabyddir o dan lesoedd cyllid gan ddefnyddio'r un polisïau ag ar gyfer asedau eraill, gyda dibrisiant yn cael ei godi dros dymor y les oni bai bod perchnogaeth yn trosglwyddo i'r Awdurdod.

Nid oes angen i'r Awdurdod godi ardoll i dalu am ddibrisiant neu ailbrisio a cholledion amhariad ar asedau les. Yn hytrach, gwneir cyfraniad blynyddol darbodus o gronfeydd refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig, yn unol â gofynion statudol. Caiff hyn ei adlewyrchu drwy addasiad rhwng y Gronfa Gyffredinol a’r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

**Lesau Gweithredu**

Mae’r Awdurdod wedi mabwysiadu IFRS 16 o 1 Ebrill 2024. Mae Eiddo, Peiriannau ac Offer sy’n dod o dan gwmpas IFRS 16 bellach yn cael eu dosbarthu fel asedau hawl-i-ddefnyddio ar y fantolen.

Lle ystyrir bod y brydles weithredu yn un o werth isel (cost wreiddiol yr ased yn is na £10k) neu fod llai na 12 mis yn weddill ar y brydles, ni fydd y rhain yn cael eu cydnabod ar y fantolen. Yn yr achosion hyn, caiff rhent a dalwyd o dan brydlesi gweithredu ei godi fel cost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) i’r gwasanaethau sy’n elwa o ddefnyddio’r eiddo, y peiriannau neu’r offer prydlesol. Caiff y taliadau eu rhannu’n gyfartal dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyfateb i batrwm y taliadau (e.e., cyfnod rhent am ddim ar ddechrau’r brydles).

**IFRS16:** Bydd polisi IFRS16 yr Awdurdod yn berthnasol i’r lesoedd hynny lle mai’r Awdurdod yw’r lesddeiliad a bydd yr ymdriniaeth ganlynol yn cael ei mabwysiadu.

**Eithriad cost isel:** Caiff yr eithriad cost isel ei osod i ddechrau ar £10,000, yn unol â'r lefel gwariant de-minimis ar gyfer Eiddo, Peiriannau ac Offer. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i addasu gan ddefnyddio cyfradd CPI mis Mawrth, wedi'i thalgrynnu i'r £1,000 agosaf. Bydd lesoedd is na'r gwerth hwn yn cael eu heithrio o IFRS16.

**Defnydd o bortffolio o lesoedd gyda nodweddion eithaf tebyg:** Bydd yr Awdurdod yn defnyddio’r portffolio hwyluso ar gyfer llungopïwyr a pheiriannau tebyg (ee peiriannau aml-swyddogaeth, peiriannau ffrancio) Mae gan y lesoedd hyn nodweddion tebyg o ran swyddogaeth, cost, a chytundebau, a byddant yn dod o dan yr eithriad cost isel.

**Contractau cyfredol ar y dyddiad gweithredu:** Ni fydd yr Awdurdod yn ailasesu contractau cyfredol ar y dyddiad gweithredu (1 Ebrill 2024) i benderfynu a ydynt yn cynnwys les. Bydd contractau newydd o'r dyddiad hwn yn cael eu hasesu am drefniadau les.

**Lesoedd ar gyfer asedau anniriaethol:** Ni fydd IFRS16 yn cael ei gymhwyso i drefniadau les ar gyfer asedau anniriaethol (e.e. trwyddedau meddalwedd).

**Lesoedd sydd â llai na blwyddyn yn weddill ar y dyddiad gweithredu:** Bydd yr eithriad bywyd byr yn cael ei gymhwyso i lesoedd cyfredol gyda llai na blwyddyn yn weddill ar y dyddiad gweithredu. Bydd y driniaeth gyfrifyddu bresennol yn parhau oni bai bod addasiad ar ôl y dyddiad gweithredu, ac yn yr achos hwnnw bydd y les yn cael ei hystyried yn les newydd

### Yr Awdurdod fel Rhentwr

Dylid dileu asedau a wareddwyd o dan brydlesi ariannol o’r Fantolen, a dylid cydnabod swm fel dyledwr derbyniol ar y Fantolen sy’n adlewyrchu’r buddsoddiad net yn y brydles fel y’i diffinnir gan y safon gyfrifyddu briodol.

Dylid cyfrif elfen gyfalaf o unrhyw rent sy’n ddyledus o dan brydles ariannol fel derbyniad cyfalaf, gan leihau’r dyledwr a’r rhwymedigaeth gyfatebol gan y swm hwnnw. Dylid trin yr elfen ariannol fel incwm refeniw.

## 14. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

Mae asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu defnyddio wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol yn cael eu dosbarthu’n Eiddo, Peiriannau, ac Offer.

### Cydnabod

Caiff gwariant ar gaffael, creu, neu wella Eiddo, Peiriannau ac Offer ei gyfalafu ar sail croniadau, ar yr amod ei bod yn debygol y bydd y manteision economaidd neu’r potensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r eitem yn y dyfodol yn llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur y gost yn ddibynadwy. Bydd gwariant sy’n cynnal ond nid yn ychwanegu at botensial yr ased (e.e. atgyweirio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul wrth iddo ddigwydd.

Mae lefel gwariant de-minimis o £10,000 wedi'i gosod ar gyfer Eiddo, Peiriannau, ac Offer. Ni fydd gwariant o dan y lefel hon yn ddarostyngedig i ofynion cyfrifyddu cyfalaf. Os caiff ased ei ailbrisio o dan £10,000, bydd unrhyw wariant a dibrisiant cysylltiedig yn cael ei ysgrifennu allan, a bydd yr ased yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Asedau Sefydlog.

### Mesur

Mae asedau'n cael eu mesur i ddechrau ar gost, sy'n cynnwys y pris prynu, unrhyw gostau sy'n angenrheidiol i ddod â'r ased i'w leoliad a'i gyflwr arfaethedig, ac amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu ac adfer safle. Nid yw'r Awdurdod yn cyfalafu costau benthyca sy'n codi tra bo asedau'n cael eu hadeiladu. Ystyrir mai cost yr asedau sy'n cael eu caffael rywfodd heb eu prynu yw eu gwerth teg.

Mae asedau'n cael eu cario ar y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- Tir ac Adeiladau: Swyddfeydd/Gweithdai – gwerth cyfredol (Gwerth Defnydd Presennol)
- Tir ac Adeiladau: Gorsafoedd Tân – gwerth cyfredol (Cost Amnewid Ddibrisiedig)
- Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol
- Yr holl asedau eraill – gwerth cyfredol, wedi'i bennu fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol – EUV).

Lle nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth cyfredol oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewid ddibrisiedig (DRC) i amcangyfrif ei werth cyfredol. Mewn perthynas ag asedau heb fod yn eiddo sydd â bywydau defnyddiol byr neu werth isel, defnyddir cost hanesyddol ddibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth cyfredol.

Caiff cynnydd mewn gwerth ei gredydu i'r gronfa ailbrisio wrth gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Mewn achosion eithriadol, gellid credydu enillion i'r gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau os ydynt yn gwrthdroi colled a godwyd ar wasanaeth yn flaenorol.

Lle dynodir gostyngiadau mewn gwerth, cyfrifir amdanynt fel a ganlyn:

- pan fo balans o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y gronfa ailbrisio wrth gefn, mae swm cario'r ased yn cael ei ostwng yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- lle nad oes balans yn y gronfa ailbrisio wrth gefn neu os nad oes balans digonol, bydd swm cario'r ased yn cael ei ostwng yn erbyn y llinell(au) wasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

### Amhariad

Mae asedau'n cael eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ar gyfer arwyddion o amhariad. Os oes arwyddion a bod y gwahaniaethau'n sylweddol, amcangyfrifir y swm y gellir ei adennill o'r ased. Os yw hyn yn llai na'r swm cario, cydnabyddir colled amhariad am y diffyg.

Mae colledion amhariad yn cael eu cyfrif trwy ostwng swm cario'r ased yn erbyn unrhyw enillion ailbrisio yn y gronfa ailbrisio wrth gefn (hyd at swm yr enillion cronedig). Os nad oes gweddill yn y gronfa ailbrisio wrth gefn neu os nad oes gweddill digonol, bydd swm cario'r ased yn cael ei ostwng yn erbyn y llinell(au) wasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Os caiff colled amhariad ei gwrthdroi wedyn, caiff hynny ei gredydu i'r llinell(au) wasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i haddasu ar gyfer y dibrisiant y byddid wedi codi amdano pe na bai'r golled wedi cael ei chydnabod.

**Dibrisiant**

Darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Peiriannau, ac Offer trwy ddyrannu eu symiau dibrisiadwy’n systematig dros eu hoes ddefnyddiol. Mae oes economaidd ddefnyddiol asedau fel a ganlyn

| | |
|---|---|
| Tir | Diddiwedd (dim dibrisiant) |
| Adeiladau | Oes ddefnyddiol yr eiddo (yn ôl amcangyfrif y prisiwr) |
| Adeiladau (a lesir) | Tymor y les |
| Cerbydau, Peiriannau ac Offer | 5 - 20 mlynedd |
| Asedau Anniriaethol | 5 mlynedd |

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth, gyda chaffaeliadau’n cael eu dibrisio yn y flwyddyn ar ôl eu prynu. Codir am ddibrisiant blwyddyn gyfan yn ystod y flwyddyn waredu. Mae adeiladau'n cael eu dibrisio trwy eu rhannu’n gydrannau, gan amcangyfrif oes ddefnyddiol holl gydrannau’r adeilad, a defnyddir cyfartaledd wedi'i bwysoli i gyfrifo'r tâl blynyddol. Y canrannau a ddefnyddir yw:

| | |
|---|---|
| Adeiladau – gorsafoedd tân | 2.05% - 2.22% |
| Adeiladau – swyddfeydd/gweithdai | 1.98% - 2.15% |

Codir am ddibrisiant o fewn y cyfrif incwm a gwariant. Mae'r swm hwn yn cael ei gredydu i Falans y Gronfa Gyffredinol ac mae'n cael effaith niwtral ar y cyfraniadau a wneir gan yr awdurdodau cyfansoddol. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud cyfraniad blynyddol o’i refeniw tuag at ostwng ei ofyniad benthyca cyffredinol.

Caiff dibrisiant, ailbrisio, a cholledion amhariad ac amorteiddiad eu disodli gan y cyfraniad hwn o Falans y Gronfa Gyffredinol (MRP), trwy drafodiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Mae enillion ailbrisio hefyd yn cael eu dibrisio, gyda'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth cyfredol a dibrisiant cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i'r cyfrif addasu cyfalaf.

**Gwaredu**

Pan fydd yn debygol y bydd swm cario’r ased yn cael ei adennill yn bennaf trwy drafodiad gwerthu yn hytrach na pharhau i’w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu’n ased sy’n cael ei ddal i'w werthu. Caiff yr ased ei ailbrisio’n union cyn ei ailddosbarthu a’i gario wedyn ar ba bynnag un sydd isaf, y swm hwn neu’r gwerth teg, llai costau gwerthu. Caiff gostyngiadau dilynol i’r gwerth teg llai costau gwerthu eu postio i’r llinell gwariant gweithredu arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd swm unrhyw golledion cydnabyddedig blaenorol yn y gwarged neu’r diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau y bydd

enillion o ran gwerth teg yn cael eu cydnabod Ni chodir am ddibrisiant ar asedau sy’n cael eu dal i’w gwerthu.

Pan fydd ased yn cael ei waredu neu ei ddatgomisiynu, caiff swm cario'r ased yn y Fantolen ei ddileu a’i nodi ar y llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu'r golled wrth waredu. Mae derbyniadau o warediadau yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu'r golled wrth waredu. Bydd unrhyw enillion ailbrisio a gronnwyd ar gyfer yr ased yn y gronfa ailbrisio wrth gefn yn cael eu trosglwyddo i'r cyfrif addasu cyfalaf.

Mae symiau o fwy na £10,000 a dderbynnir am waredu yn cael eu dosbarthu’n dderbyniadau cyfalaf. Bydd balans y derbyniadau’n aros yn y gronfa derbyniadau cyfalaf a dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y gellir ei ddefnyddio, neu ei roi o'r neilltu i leihau angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca. Caiff derbyniadau eu priodoli i’r gronfa wrth gefn o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Nid yw gwerth gwarediadau a ddilëwyd yn dâl yn erbyn yr ardoll, gan y darperir yn llawn am gost asedau anghyfredol o dan drefniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf. Caiff symiau eu priodoli i’r cyfrif addasu cyfalaf o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

## 15. DARPARIAETHAU, RHWYMEDIGAETHAU AMODOL AC ASEDAU WRTH GEFN

**Darpariaethau**

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi digwydd ar ddyddiad y Fantolen neu ynghynt:

- sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfredol i'r Awdurdod
- y mae'n debyg y bydd angen ei setlo drwy drosglwyddiad buddion economaidd neu botensial gwasanaeth, a
- lle gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy.

Os nad yw'n glir a yw digwyddiad wedi digwydd ar neu cyn dyddiad y Fantolen, caiff ei ystyried fel rhwymedigaeth gyfredol, os, ar sail yr holl dystiolaeth sydd ar gael, yw’n fwy tebygol na pheidio bod rhwymedigaeth gyfredol yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen. Gall y rhwymedigaeth fod yn gyfreithiol neu'n adeiladol.

Caiff tâl am ddarpariaethau ei godi fel traul ar y llinell wasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fydd gan yr Awdurdod rwymedigaeth. Maent yn cael eu mesur ar yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth ar ddyddiad y Fantolen, gan ystyried risgiau ac ansicrwydd perthnasol. Bydd setliadau amcangyfrifedig yn cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Os daw'n llai tebygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd (neu os gwneir setliad is), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i chredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Os disgwylir i rywfaint neu'r cyfan o'r taliad sy'n ofynnol i setlo darpariaeth gael ei adennill gan barti arall (e.e. trwy hawliad yswiriant), dim ond os yw fwy neu lai’n sicr y ceir ad-daliad os bydd yr Awdurdod yn setlo'r rhwymedigaeth y bydd yn cael ei gydnabod fel incwm ar gyfer y gwasanaeth perthnasol.

### Rhwymedigaethau Dibynnol

Bydd rhwymedigaeth ddibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi bod sy'n rhoi'r Awdurdod o dan rwymedigaeth bosibl, a fydd yn cael ei gadarnhau dim ond os bydd digwyddiadau yn y dyfodol, nad oes unrhyw sicrwydd yn eu cylch ac nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod, yn digwydd neu ddim yn digwydd. Bydd rhwymedigaethau dibynnol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth fel arall yn cael ei gwneud ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu nid yw'n bosibl mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon dibynadwy.

Ni chaiff rhwymedigaethau dibynnol eu cydnabod yn y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

### Asedau Dibynnol

Bydd ased dibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi bod sy'n rhoi ased posibl i'r Awdurdod, a fydd yn cael ei gadarnhau dim ond os bydd digwyddiadau yn y dyfodol, nad oes unrhyw sicrwydd yn eu cylch ac nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod, yn digwydd neu ddim yn digwydd.
Ni chaiff asedau dibynnol eu cydnabod yn y Fantolen ond byddant yn cael eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon lle mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth.

## 16. CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r Awdurdod yn neilltuo symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn at ddibenion polisïau'r dyfodol neu i dalu am hapddigwyddiadau. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu drwy drosglwyddo symiau allan o falans y Gronfa Gyffredinol. Pan fydd gwariant yn cael ei ariannu o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno, gan effeithio ar y gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff y gronfa wedyn ei throsglwyddo'n ôl i falans y Gronfa Gyffredinol, fel nad oes tâl net yn cael ei godi yn erbyn yr ardoll am y gwariant.

Cynhelir rhai cronfeydd wrth gefn i reoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, ymddeol, a buddion cyflogeion. Nid yw'r cronfeydd wrth gefn hyn yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy i'r Awdurdod ac maent yn cael eu hegluro yn y polisïau perthnasol.

## 17. TAW

Mae TAW sy'n daladwy wedi'i gynnwys fel traul, ond dim ond i'r graddau nas gellir ei adennill gan CThEF. Mae TAW derbyniadwy wedi'i eithrio o'r incwm.

Archwilio Cymru
Audit Wales

1 Capital Quarter
Tyndall Street / Stryd Tyndall
Cardiff / Caerdydd
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.cymru / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub
Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau),
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury, Parc Busnes Llanelwy,
Llanelwy,
Sir Ddinbych,
LL17 0JJ

**Dyddiad cyhoeddi:** 16 Mai 2025

Cyhoeddwyd drwy e-bost

Annwyl Dylan a Helen,

## Ymholiadau archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant a rheoli

Mae Datganiad o Gyfrifoldebau yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi ei fod yn gyfrifol am gael sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol a gymerir yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau sylweddol, p'un a ydynt wedi'u hachosi gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hefyd yn nodi beth yw cyfrifoldebau priodol archwilwyr, rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant.

Mae'r llythyr hwn yn gofyn yn ffurfiol am ystyriaeth a dealltwriaeth ddogfennol ynghylch nifer o feysydd llywodraethiant sy'n effeithio ar ein harchwiliad o'ch datganiadau ariannol. Mae'r ystyriaethau hyn yn berthnasol i reolwyr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant' (yr Awdurdod Tân ac Achub).

Rwyf wedi nodi isod y meysydd llywodraethiant yr wyf yn gofyn eich barn amdanynt:

1. Materion mewn perthynas â thwyll
2. Materion mewn perthynas â chyfreithiau a rheoliadau
3. Materion mewn perthynas â phartïon cysylltiedig

Bydd yr wybodaeth y byddwch chi'n ei darparu yn llywio ein dealltwriaeth o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a'i brosesau busnes ac yn cynorthwyo ein gwaith o roi barn archwilio ar eich datganiadau ariannol 2024-25.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddiweddaru'r tabl atodedig yn Atodiad 1 i Atodiad 3 ar gyfer 2024-25.

Dylai Atodiad 1 i Atodiad 3 cael eu cwblhau a'u hystyried yn ffurfiol a'u cyfathrebu gyda ni ar ran y rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant erbyn 20/06/2025. Yn y cyfamser, os oes gennych ymholiadau, cysylltwch â mi ar 02920 829375 neu carwyn.rees@audit.cymru.

Yn gywir

*C.G. Rees*

**Carwyn Rees**
**Rheolwr Archwilio**

Ymholiadau archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant a rheoli Please contact us in Welsh or English / cysylltwch â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg.

## Atodiad 1

### Materion mewn perthynas â thwyll

Mae’r Safon Ryngwladol ar Archwilio (DU) 240 yn cynnwys cyfrifoldebau archwilwyr o ran twyll wrth archwilio datganiadau ariannol.

Mae'r prif gyfrifoldeb ar gyfer atal a chanfod twyll yn nwylo’r rheolwyr a'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant', sef yr Awdurdod Tân ac Achub. Dylai rheolwyr, gyda goruchwyliaeth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant, sicrhau bod pwyslais cryf ar atal a rhwystro twyll a chreu diwylliant o ymddygiad gonest a moesegol, wedi'i atgyfnerthu gan oruchwyliaeth weithredol gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant.

Fel archwilwyr allanol, rydym yn gyfrifol am gael sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau sylweddol oherwydd twyll neu gamgymeriad. Mae'n ofynnol i ni fod ag amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad, gan ystyried y potensial i reolwyr ddiystyru rheolaethau.

### Beth mae'n ofynnol i ni ei wneud?

Fel rhan o'n gweithdrefnau asesu risg, mae'n ofynnol i ni ystyried y risgiau o gamddatganiadau o bwys oherwydd twyll. Mae hyn yn cynnwys deall y trefniadau y mae'r rheolwyr wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â risgiau twyll. Mae'r Safon Ryngwladol ar Archwilio yn ystyried twyll fel naill ai:

- Camddefnyddio asedau yn fwriadol (arian parod, eiddo, ac ati); neu
- Driniaeth neu gamddatganiad bwriadol o’r datganiadau ariannol.

Mae angen i ni hefyd ddeall sut mae'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant yn goruchwylio’r prosesau rheoli. Mae'n ofynnol i ni hefyd wneud ymholiadau i'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant ynghylch eu gwybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, sy’n cael ei amau neu honedig, proses y rheolwyr ar gyfer nodi ac ymateb i'r risgiau a'r rheolaethau mewnol a sefydlwyd i'w lliniaru.

| Cwestiwn | Ymateb 2024-25 |
|---|---|
| 1. Beth yw asesiad rheolwyr o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol gael eu camddatgan yn sylweddol oherwydd twyll? Beth yw natur a maint asesiad y rheolwyr a pha mor aml mae'n digwydd? | Mae ein hasesiad yn dangos, oherwydd y rheolaethau priodol, bod y risg o gamddatganiad sylweddol o ganlyniad i dwyll yn isel:<br>• Nid oes unrhyw honiadau o dwyll, neu amheuaeth o dwyll, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyfathrebwyd gan weithwyr, cyn-weithwyr, rheoleiddwyr neu eraill.<br>• Mae gan uwch bersonél lefel uchel o wybodaeth ac ymwybyddiaeth<br>• Mae mynediad at arian parod a thaliadau sylweddol yn gyfyngedig.<br>• Mae'r Gwasanaeth yn cymryd rhan ym mhroses y Fenter Twyll Genedlaethol ac nid oes ganddo unrhyw bryderon wedi'u nodi mewn perthynas â rheolaethau mewnol<br>• Mae gweithdrefnau cadarn ar waith mewn perthynas â recriwtio a rheoli staff gydag adolygiadau Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd bod trefniadau'n gweithredu yn ôl y disgwyl<br>• Safonau proffesiynol pwrpasol o fewn yr adran Gyllid<br>• Mabwysiadir polisïau a gweithdrefnau priodol, gan gynnwys gweithredu rheolaethau mewnol a chynnal prosesau cofrestru asedau |

| Cwestiwn | Ymateb 2024-25 |
|---|---|
| | • Mae Rheoliadau Ariannol ar waith ac mae'r gweithdrefnau ariannol yn cynnwys rheolaethau allweddol fel y cynllun dirprwyo ariannol, rheolau'r weithdrefn contractau, gwahanu dyletswyddau a therfynau awdurdodi.<br>• Rhoddir dibyniaeth y rheolwyr ar brosesau rheoli cyllidebol, adolygu dadansoddol ac adolygiadau archwilio mewnol. |
| 2. A oes gennych wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, sy'n cael ei amau, neu honedig, sy'n effeithio ar y corff archwiliedig? | Cadarnheir nad oes gan reolwyr unrhyw wybodaeth am unrhyw dwyll sy'n cael ei amau neu honedig. |
| 3. Beth yw proses y rheolwyr ar gyfer nodi ac ymateb i'r risgiau o dwyll yn y corff archwiliedig, gan gynnwys unrhyw risgiau penodol o dwyll y mae'r rheolwyr wedi'u nodi neu sydd wedi'u dwyn i'w sylw? | Ystyrir bod lefel uchel o ymwybyddiaeth gan reolwyr, gyda risgiau allweddol wedi'u nodi ar y gofrestr risg gorfforaethol. Mae gan yr Awdurdod bolisi chwythu'r chwiban cadarn ac mae rolau'r swyddogion statudol ac archwilio mewnol wedi'u diffinio a'u deall yn glir.<br><br>Mae craffu rheolaidd ar linellau gwariant, gwahanu dyletswyddau mewn trefniadau, a defnydd rheoledig o daliadau electronig, gyda |

| Cwestiwn | Ymateb 2024-25 |
| --- | --- |
| | llwybr archwilio clir. Mae trefniadau cadarn ar waith sy'n llywodraethu'r trefniadau caffael gydag adolygiad diweddar gan Archwiliad Mewnol.<br><br>Mae gwiriadau cadarn ar waith ar gyfer gweithwyr newydd sy'n cael eu talu trwy'r system gyflogres ac ar gyfer sefydlu cyflenwyr newydd ar y system cyfrifon taladwy, o fewn Sicrwydd Mewnol ar fodolaeth a gweithrediad rheolaethau allweddol.<br><br>Mae pob anfoneb yn amodol ar gymeradwyaeth yn unol â chynllun dirprwyo ariannol y Gwasanaeth sydd wedi'i ymgorffori o fewn system ariannol TechOne. Byddai materion sy'n peri pryder yn cael eu codi'n fewnol o fewn yr adran Cyllid a'u cyfeirio at y PSTC Cyllid ac Adnoddau neu Drysorydd yr Awdurdod fel y bo'n briodol |
| 4. Pa ddosbarthiadau o drafodion, balansau cyfrifon a datgeliadau ydych chi wedi'u nodi fel rhai sydd fwyaf mewn perygl o dwyll? | Ystyrir bod risg o dwyll yn y meysydd canlynol:<br><br>Cyflogres – wedi'i lliniaru trwy wiriadau ar gyflogaeth |

| Cwestiwn | Ymateb 2024-25 |
| --- | --- |
| | Credydwyr – wedi'i lliniaru trwy brosesau i sicrhau bod newidiadau i fanylion cyflenwyr a manylion banc yn cael eu rheoli'n briodol. Mae cynllun dirprwyo ariannol ar waith i sicrhau bod archebion a gymeradwywyd cyn derbyn trefniadau i gadarnhau nwyddau yn cael eu derbyn.<br><br>Twyll contract – wedi'i lliniaru trwy ddefnyddio fframweithiau a thendrau lle cynhelir diwydrwydd dyladwy cyn dyfarnu contract. Mae pob contract yn cael ei adolygu gan Reolwr Caffael y Gwasanaeth.<br>Pensiynau – wedi'i lliniaru trwy wiriadau Adnabod cyn eu prosesu (e.e. tystysgrif geni a thystysgrif briodas). Mae gwiriadau pellach yn cael eu cynnal gan y gweinyddwr i groesgyfeirio taliadau pensiwn â chofnodion marwolaeth.<br><br>Seiberddiogelwch - wedi'i lliniaru trwy hyfforddiant, defnyddio cyfrineiriau cryf, gosod waliau tân, a bod yn un o'r awdurdodau cyntaf i ymuno â gwasanaeth SOC (canolfan gweithrediadau diogelwch) cwmwl Socura / CymruSOC. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn rhan o Grŵp Fframwaith Asesu Seiber Cymru gyfan. |

| Cwestiwn | Ymateb 2024-25 |
|---|---|
| 5. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw achos o chwythu'r chwiban neu gwynion gan ddarpar chwythwyr chwiban? Os felly, beth yw ymateb y corff archwiliedig? | Nid oes unrhyw gwynion o'r fath wedi'u derbyn |
| 6. Beth yw'r cyfathrebu a wneir gan reolwyr, os o gwbl, â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant ynghylch eu prosesau ar gyfer nodi ac ymateb i risgiau twyll? | Mae'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb yn derbyn adroddiad cydymffurfio mewn perthynas â'u cydymffurfiaeth â rheoliadau a gofynion ariannol allweddol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cael yr adroddiadau a gynhyrchir gan archwilwyr mewnol yr Awdurdod.<br><br>Yn ogystal, mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn cael y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ac adroddiadau archwilio mewnol blynyddol. |
| 7. Beth yw'r cyfathrebu a wneir gan reolwyr, os o gwbl, â gweithwyr ynghylch eu barn am arferion busnes ac ymddygiad moesegol? | Mae gan y Gwasanaeth Gynllun Dirprwyo Ariannol sydd wedi'i ymgorffori trwy reolaethau'r system o fewn y Systemau Ariannol. Mae'r adran Cyllid yn rhoi cyngor ac arweiniad i staff drwy gylchlythyrau a nodiadau canllaw penodol (e.e. Cardiau Corfforaethol Lloyds a ffurflenni milltiredd). Mae hyfforddiant parhaus wedi'i ddarparu i Ddeiliaid a Rheolwyr Cyllidebau. Mae pobl gyswllt allweddol |

| Cwestiwn | Ymateb 2024-25 |
| --- | --- |
| | wedi'u nodi ym mhob adran i dderbyn hyfforddiant caffael. Mae rheolau'r weithdrefn contractau wedi'u diweddaru er mwyn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gaffael gyfredol ac yn nodi bod y safonau gofynnol mewn perthynas â chontractau a llywodraethiant ariannol yn cael eu monitro trwy Bwyllgor Cyllid a Chaffael y Gwasanaeth sy'n rhan o strwythur llywodraethiant mewnol y Gwasanaeth. |
| 8. O ran sefydliadau gwasanaeth, ydych chi wedi rhoi gwybod am unrhyw dwyll i'r endid sy'n ddefnyddiwr? | Na |

| Ymholiadau i’r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant – mewn perthynas â thwyll | |
|---|---|
| Cwestiwn | Ymateb 2024-25 |
| 1. A oes gennych unrhyw wybodaeth am dwyll gwirioneddol, sy’n cael ei amau neu honedig, sy'n effeithio ar y corff archwiliedig? | Nid oes unrhyw achosion o dwyll sy’n cael ei amau yn hysbys i'r Awdurdod ar hyn o bryd. |
| 2. Beth yw eich asesiad o'r risg o dwyll o fewn y corff archwiliedig, gan gynnwys y risgiau hynny sy'n benodol i sector busnes y corff archwiliedig? | Ein hasesiad o'r risg o dwyll o fewn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yw isel. Mae rheolaethau priodol yn y systemau ariannol, ac mae swyddogion statudol (y Prif Swyddog Tân, y Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151) yn adrodd yn rheolaidd i'r Awdurdod. Mae archwilio mewnol hefyd yn adrodd i'r Awdurdod. Nid oes unrhyw dwyll honedig wedi'i adrodd.<br><br>Cyflogaeth – Rhoddir dibyniaeth ar ddiwydrwydd dyladwy yn y broses recriwtio. Mae hyn yn cynnwys cael geirdaon a gwirio cymwysterau ac aelodaeth o gyrff proffesiynol trwy gyfeirio at dystysgrifau gwreiddiol. Mae'n ofynnol i'r holl staff ddatgelu cyflogaeth eilaidd, ac mae'r Awdurdod yn cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol heb unrhyw |

| Ymholiadau i’r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant – mewn perthynas â thwyll | |
|---|---|
| Cwestiwn | Ymateb 2024-25 |
| | broblemau wedi'u nodi yn flaenorol. Mae pob absenoldeb yn cael ei fonitro gyda threfniadau ar gyfer ymyrraeth rheoli mewn absenoldebau tymor byr lluosog neu unrhyw absenoldeb dros 28 diwrnod.<br><br>Damweiniau sy'n gysylltiedig â gwaith – Mae trefniadau cadarn ar waith ar gyfer adrodd, ymchwilio ac asesu pob digwyddiad sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae'r rhai sy'n symud ymlaen i hawliad yn cael eu rheoli gan reolwyr hawliadau allanol sy'n gweithio ar ran yr Awdurdod a'r yswiriwr. Mae hyn yn sicrhau bod tystiolaeth lawn ar gyfer pob achos.<br><br>Taliadau cyflenwyr – Rhoddir dibyniaeth ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer sefydlu cyflenwyr, y rheolaethau caffael sylfaenol a'r gofyniad am orchmynion prynu.  Mae hyn yn darparu llwybr archwilio clir. |

| | |
|---|---|
| 3. Sut ydych chi'n arfer goruchwyliaeth o:<br><br>brosesau rheolwyr ar gyfer nodi ac ymateb i'r risg o dwyll yn y corff archwiliedig, a’r<br><br>rheolaethau y mae'r rheolwyr wedi'u sefydlu i liniaru'r risgiau hyn? | Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng Archwilio Mewnol (sy'n asesu'r amgylchedd o ran rheolaethau mewnol yr Awdurdod a rheolaethau mewn systemau, a phwy fyddai'n cyflawni swyddogaethau ymchwilio yn ôl yr angen) a'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau). Mae'r cyfarfodydd hynny hefyd yn cynnwys y Swyddog Adran 151 yn ôl yr angen.<br><br>Mae Swyddog Adran 151 yr Awdurdod yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd yr Awdurdod.<br><br>Mae'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn adrodd yn annibynnol i Bwyllgor Archwilio'r Awdurdod. |

## Atodiad 2

### Materion mewn perthynas â chyfreithiau a rheoliadau

Mae Safon Ryngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon) 250 yn cynnwys cyfrifoldebau archwilwyr i ystyried effaith cyfreithiau a rheoliadau mewn archwiliad o ddatganiadau ariannol.

Mae'r rheolwyr, gyda goruchwyliaeth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant, yn gyfrifol am sicrhau bod gweithrediadau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael eu cynnal yn unol â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys cydymffurfio â'r rhai sy'n pennu'r symiau a'r datgeliadau yr adroddwyd amdanynt yn y datganiadau ariannol.

Fel archwilwyr allanol, rydym yn gyfrifol am gael sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau sylweddol oherwydd twyll neu gamgymeriad, gan ystyried y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol priodol. Mae'r Safon Ryngwladol ar Archwilio yn gwahaniaethu rhwng dau gategori gwahanol o gyfreithiau a rheoliadau:

- cyfreithiau a rheoliadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar bennu symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- cyfreithiau a rheoliadau eraill lle gall cydymffurfiaeth fod yn sylfaenol i barhau â gweithrediadau, neu i osgoi cosbau sylweddol.

### Beth mae'n ofynnol i ni ei wneud?

Fel rhan o'n gweithdrefnau asesu risg, mae'n ofynnol i ni holi rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant a yw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol. Pan fyddwn yn dod yn ymwybodol o wybodaeth am ddiffyg cydymffurfiaeth neu amheuaeth o ddiffyg cydymffurfiaeth, mae angen i ni gael dealltwriaeth o'r diffyg cydymffurfiaeth a'r effaith bosibl ar y datganiadau ariannol.

| Ymholiadau i reolwyr – mewn perthynas â chyfreithiau a rheoliadau | |
|---|---|
| Cwestiwn | Ymateb 2024-25 |
| 1. A yw'r corff archwiliedig yn cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol? Sut ydych chi wedi cael sicrwydd y cydymffurfiwyd â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol? A oes unrhyw bolisïau neu weithdrefnau ar waith? | Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu strwythur llywodraethiant mewnol sy'n cynnwys pwyllgorau a grwpiau sy'n cynnwys pob agwedd ar weithgaredd. Mae hyn yn cynnwys adolygu a mynd i'r afael ag unrhyw ddeddfwriaeth newydd neu faterion rheoleiddio.<br><br>Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn mynd i'r afael â nifer o faterion rheoleiddio mewn perthynas â phensiynau. Mae'r rhain yn faterion cenedlaethol sy'n deillio o heriau cyfreithiol ac y mae wedi bod angen deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth ar eu cyfer. Mae dyfarniad McCloud yn mynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar sail oedran o fewn y newidiadau i'r cynllun pensiwn a gyflwynwyd yn 2015 ac yn ei gwneud yn ofynnol bod pob aelod o staff o fewn y cwmpas perthnasol yn cael datganiad gwasanaeth rhwymedïol erbyn 31 Mawrth. Oherwydd y cymhlethdod a'r llwyth gwaith sy'n codi, nid yw'r Awdurdod wedi gallu cwrdd â'r dyddiad cau hwn ac mae wedi adrodd ei hun i'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Mae'r mater hwn wedi'i adrodd i'r Bwrdd Pensiwn Lleol a'r Awdurdod Tân. |

| Ymholiadau i reolwyr – mewn perthynas â chyfreithiau a rheoliadau | |
|---|---|
| Cwestiwn | Ymateb 2024-25 |
| | Ar wahân i'r mater sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r amserlenni ar gyfer prosesu'r diwygiadau pensiwn uchod, nid oes unrhyw faterion pellach wedi'u nodi y mae angen eu hamlygu. Mae rheolwyr a staff yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant perthnasol sy'n berthnasol i'w rôl, ac mae swyddogion statudol profiadol yn cael eu cyflogi. Mae'r Awdurdod yn prynu arbenigedd lle bo angen, h.y. lle mae diffyg arbenigedd mewnol (e.e. defnyddio cyfreithwyr allanol mewn perthynas â materion cyflogaeth).<br><br>Mae'r Awdurdod yn dibynnu ar y trefniadau llywodraethiant cyffredinol sydd ar waith i roi sicrwydd y cydymffurfir â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol. Mae hyn yn cynnwys cyfansoddiad wedi'i ddogfennu sy'n darparu dirprwyaeth ar gyfer materion gweithredol o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Tân. Mae'r cyfansoddiad hefyd yn cynnwys materion neilltuedig yn ôl yr angen. |

## Ymholiadau i reolwyr – mewn perthynas â chyfreithiau a rheoliadau

| Cwestiwn | Ymateb 2024-25 |
|---|---|
| | Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Pwyllgorau sy'n cynnwys y Pwyllgor Archwilio, y Panel Gweithredol a'r Bwrdd Pensiwn Lleol. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Safonau wedi'i ffurfio ac yn gweithredu.<br><br>Mae'r Awdurdod yn cael ei gynorthwyo gan y Swyddog Monitro a'r Trysorydd sy'n darparu mewnbwn proffesiynol a diwydrwydd dyladwy. Mae trefniadau Archwilio Mewnol hefyd ar waith.<br><br>Ar Lefel Gwasanaeth mae fframwaith sicrwydd wedi'i ddogfennu sy'n cynnwys Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth gydag ystod o Bwyllgorau a Grwpiau. Mae gan y rhain Gadeiryddion wedi eu henwebu, cylch gorchwyl cytunedig a threfniadau adrodd.<br><br>Yn fewnol mae trefniadau adrodd i gofnodi digwyddiadau, a digwyddiadau fu bron â digwydd, a gweithdrefn wedi'i dogfennu ar gyfer cwynion. |

| Ymholiadau i reolwyr – mewn perthynas â chyfreithiau a rheoliadau | |
|---|---|
| Cwestiwn | Ymateb 2024-25 |
| 2. A fu unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio neu amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol yn y flwyddyn ariannol, neu'n gynharach, gyda'r effaith yn parhau ar ddatganiadau ariannol archwiliedig eleni? | Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar ddatganiadau ariannol 2024-25. Ni ystyrir bod y mater pensiynau y cyfeirir ato uchod yn cael effaith ariannol; mae'r rhwymedigaethau sy'n codi wedi'u cynnwys ym mhrisiadau Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) sy'n cael eu hadlewyrchu yn y Gronfa Bensiwn. |
| 3. A oes unrhyw ymgyfreitha neu hawliadau posibl a fyddai'n effeithio ar y datganiadau ariannol? | Na, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar ddatganiadau ariannol 2024-25.<br><br>Nid yw'r Awdurdod yn hunan-yswirio mewn perthynas ag unrhyw rwymedigaethau ac mae trefniadau yswiriant ar waith. Mae pob hawliad yn cael ei hysbysu i'r adran Cyllid a darperir ar gyfer tâl-dros-ben yr yswiriant fel y bo'n briodol. |

| Ymholiadau i reolwyr – mewn perthynas â chyfreithiau a rheoliadau | |
|---|---|
| Cwestiwn | Ymateb 2024-25 |
| 4. A oes unrhyw adroddiadau gan gyrff rheoleiddio eraill, fel Cyllid a Thollau EF sy'n nodi diffyg cydymffurfiaeth? | Roedd yr Awdurdod yn destun nifer o arolygiadau cydymffurfiaeth arferol yn ystod y blynyddoedd diwethaf (yn fwyaf diweddar yn 23/24). Ni nodwyd unrhyw faterion a fyddai'n dangos diffyg cydymffurfiaeth. |

| Ymholiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant – mewn perthynas â chyfreithiau a rheoliadau | |
|---|---|
| Cwestiwn | Ymateb 2024-25 |
| 1. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau y gellir disgwyl iddynt gael effaith sylfaenol ar weithrediadau'r endid? | Na, nid yw'r Awdurdod yn ymwybodol o unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth o'r fath yn ystod 2024/25 (h.y. y byddai disgwyl iddo gael effaith sylfaenol ar weithrediadau'r endid). |

| Ymholiadau i’r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant – mewn perthynas â chyfreithiau a rheoliadau | |
|---|---|
| Cwestiwn | Ymateb 2024-25 |
| 2. Sut mae'r Awdurdod Tân ac Achub, yn eich rôl fel y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant, yn cael sicrwydd y cydymffurfiwyd â’r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol? | Mae cynllun dirprwyo ar waith, ac mae ymddiriedaeth yn y swyddogion i ddilyn y trefniadau disgwyliedig. Fel arall, byddai'r Prif Swyddog Tân, y PSTCau, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, neu archwilio mewnol wedi adrodd i'r Awdurdod.<br><br>Darperir y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol sy'n rhoi sicrwydd i'r Awdurdod bod y cynllun dirprwyo ar gyfer swyddogion yn cael ei weithredu'n briodol. |

## Atodiad 3

### Materion mewn perthynas â phartïon cysylltiedig

Mae Safon Ryngwladol ar Archwilio (DU) 550 yn cynnwys cyfrifoldebau archwilwyr sy'n ymwneud â pherthnasoedd a thrafodion â phartïon cysylltiedig.

Gall natur perthnasoedd a thrafodion â phartïon cysylltiedig, mewn rhai amgylchiadau, arwain at risgiau uwch o gamddatganiad sylweddol o'r datganiadau ariannol na thrafodion â phartïon nad ydynt yn gysylltiedig.

Oherwydd nad yw partïon cysylltiedig yn annibynnol ar ei gilydd, mae llawer o fframweithiau adrodd ariannol yn sefydlu gofynion cyfrifyddu a datgelu penodol ar gyfer perthnasoedd, trafodion a balansau â phartïon cysylltiedig er mwyn galluogi defnyddwyr y datganiadau ariannol i ddeall eu natur a'u heffeithiau gwirioneddol neu bosibl ar y datganiadau ariannol. Mae dealltwriaeth o berthynas a thrafodion partïon cysylltiedig yr endid yn berthnasol i werthusiad yr archwilydd o p’un a oes un neu fwy o ffactorau risg twyll yn bresennol fel sy'n ofynnol gan y Safon Ryngwladol ar Archwilio (DU ac Iwerddon) 240, oherwydd gall twyll gael ei gyflawni'n haws trwy bartïon cysylltiedig.

### Beth mae'n ofynnol i ni ei wneud?

Fel rhan o'n gweithdrefnau asesu risg, mae'n ofynnol i ni gyflawni gweithdrefnau archwilio i nodi, asesu ac ymateb i risgiau camddatganiad sylweddol sy'n deillio o fethiant yr endid i roi cyfrif am neu ddatgelu perthnasoedd, trafodion neu falansau partïon cysylltiedig yn briodol yn unol â gofynion y fframwaith.

**Ymholiadau i reolwyr – mewn perthynas â phartïon cysylltiedig**

| Cwestiwn | Ymateb 2024-25 |
|---|---|
| 1. A fu unrhyw newidiadau i'r partïon cysylltiedig o'r flwyddyn flaenorol? Os felly, pwy yw'r partïon cysylltiedig a natur y perthnasoedd hynny? Cadarnhewch fod y rhain wedi'u datgelu i'r archwilydd. | Mae'n ofynnol i bob aelod ac uwch swyddog ddatgelu eu partïon cysylltiedig, ac mae unrhyw drafodion i gael eu cadarnhau wrth gynhyrchu'r Datganiad o Gyfrifon. Nid oes unrhyw faterion nodedig wedi'u nodi y mae angen eu datgelu. Derbyniwyd yr holl ddatganiadau ar gyfer blwyddyn ariannol 24/25. |
| 2. Pa drafodion sydd wedi'u gwneud gyda phartïon cysylltiedig yn ystod y cyfnod? Beth yw pwrpas y trafodion hyn? Cadarnhewch fod y rhain wedi'u datgelu i'r archwilydd. | Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, cynhelir gwiriad llawn o'r holl ddatganiadau partïon cysylltiedig a'u croesgyfeirio â thaliadau cyflenwyr. Nid oes unrhyw faterion presennol yn hysbys. |
| 3. Pa reolaethau sydd ar waith i nodi, rhoi cyfrif am a datgelu trafodion a pherthnasoedd â phartïon cysylltiedig? | Mae datgeliadau yn y Datganiad o Gyfrifon blynyddol yn cynnwys perthnasoedd allanol a buddiannau perthnasol.<br>Gofynnir am yr wybodaeth hon yn flynyddol gan yr Aelodau ac uwch reolwyr er mwyn cynnwys trafodion perthnasol yn y Datganiad o Gyfrifon.<br>Mae'r weithdrefn adolygu a datgan blynyddol i nodi buddiannau aelodau ac uwch swyddogion wedi cael ei chryfhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. |

| Ymholiadau i reolwyr – mewn perthynas â phartïon cysylltiedig | |
|---|---|
| Cwestiwn | Ymateb 2024-25 |
| 4. Pa reolaethau sydd ar waith i awdurdodi a chymeradwyo trafodion a threfniadau sylweddol:<br>5. gyda phartïon cysylltiedig, ac<br>6. y tu allan i drefn arferol busnes? | Diweddarwyd rheolau'r weithdrefn contractau yn ddiweddar ac maent yn darparu'r fframwaith rheoli, ac mae pob contract yn ddarostyngedig i'r gofyniad gwerth am arian a fyddai'n cynnwys dyfynbrisiau, tendrau neu fframweithiau caffael cydnabyddedig. Caniateir gwyro oddi wrth reolau'r weithdrefn contractau er bod rheolaethau pellach ar waith trwy ddefnyddio'r broses hepgoriadau tendr sengl. Mae hyn yn gofyn am ragor o wiriadau diwydrwydd dyladwy ariannol a chymeradwyaeth gan y Pennaeth Cyllid neu PSTC fel<br>y bo'n briodol. Yn benodol, byddai unrhyw dystiolaeth o berthnasoedd personol rhwng y swyddog contractio a'r cyflenwr trydydd parti yn destun ymchwiliad pellach. |

## Ymholiadau i’r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant – mewn perthynas â phartïon cysylltiedig.

| Cwestiwn | Ymateb 2024-25 |
|---|---|
| 1. Sut mae'r Awdurdod Tân ac Achub, yn ei rôl fel y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant, yn goruchwylio prosesau rheolwyr i nodi, awdurdodi, cymeradwyo, rhoi cyfrif am a datgelu trafodion a pherthnasoedd â phartïon cysylltiedig? | Mae'r gweithdrefnau adolygu a datgan blynyddol sydd ar waith yn sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni'r rôl hon.<br><br>Mae aelodau'r Awdurdod, wrth adolygu'r Datganiad o Gyfrifon drafft, bob amser yn wyliadwrus mewn perthynas â'r ddyletswydd hon. Rhoddir dibyniaeth ar y trefniadau sylfaenol sy'n cynnwys datgeliad llawn gan uwch staff ac aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub ynghylch cyflogaeth, buddiannau busnes a daliadau tir. Mae hyn yn rhoi tryloywder o'r risgiau sylfaenol, ac mae'r rhain yn cael eu rheoli trwy'r rheolau gweithdrefn contract sydd ar waith.<br><br>Mae cynhyrchu'r datganiadau ariannol yn cynnwys adolygiad o'r holl ddatgeliadau i nodi unrhyw drafodion perthnasol y mae angen eu datgelu. Os oes unrhyw ymholiadau neu bryderon, byddai'r rhain yn cael eu cyfeirio'n fewnol at y PSTC Cyllid ac Adnoddau yn y lle cyntaf a byddai cyngor yn cael ei geisio gan y Trysorydd neu'r Swyddog Monitro fel y bo'n briodol. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Gorffennaf 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones, Brif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024-2025** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno drafft o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Cyflwynwyd y drafft hwn i Archwilio Cymru cyn 31 Mai 2005, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth uchod.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol i ddangos:

- Bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol
- Bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol
- Bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwastraff, effeithlon ac effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol.

3 Mae angen cyflwyno fersiwn ddrafft i Archwilio Cymru erbyn 31 Mai 2025 fan bellaf i gael eu hadborth.

4 Mae AGS eleni wedi'i atodi.

**ARGYMHELLIADAU**

5 Gofynnir i'r Aelodau:

**i) nodi'r flaenraglen waith ar gyfer 2024/25; a**
**ii) awdurdodi cyflwyniad i Archwilio Cymru cyn 31 Mai 2025**

**CEFNDIR**

6 Mae’n ofynnol i bob corff llywodraeth leol, yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2015 baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gyhoeddir fel rhan o'r Cyfrifon Statudol.

7 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw asesu ac arddangos bod system gadarn o lywodraethu corfforaethol wedi’i sefydlu ar draws y sefydliad.

**GWYBODAETH**

8 Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, bydd dyluniad lleiaf posibl wedi'i gymhwyso i'r AGS.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion lles hirdymor ATAGC ac yn dangos y trefniadau llywodraethu sydd ar waith i alluogi'r Gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Dim goblygiadau |
| Cyfreithiol | Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â'r safonau rhagnodedig. |
| Staffio | Dim goblygiadau |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim goblygiadau |
| Risgiau | Mae fframwaith llywodraethu cadarn yn cefnogi trefniadau rheoli risg yr Awdurdod. |





ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL AR REOLAETH FEWNOL

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

Paratowyd y Datganiad hwn yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac â'r canllawiau a luniwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), sef fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Government' 2016. Mae'r berthynas rhwng y saith egwyddor ar gyfer llywodraethiant da yn y sector cyhoeddus i'w gweld isod.




Ffig. 1 Sut mae egwyddorion llywodraethiant da yn berthnasol i'w gilydd.

Ffynhonnell: international Framework-Good Governance in the Public Sector

Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol hwn yn esbonio sut mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wedi cydymffurfio â'r fframwaith a'i saith egwyddor graidd llywodraethiant da er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio yn unol â pholisïau a blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

**Cwmpas y Cyfrifoldeb**

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gyfrifol am sicrhau:

- bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol
- bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol
- bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd diwastraff, effeithlon, effeithiol a theg er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt, sydd er budd pobl leol.

Wrth gyflawni ei gyfrifoldeb cyffredinol, mae Aelodau a'r Uwch-swyddogion yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethiant materion yr Awdurdod, ynghyd â stiwardiaeth o'r adnoddau sydd ar gael iddo, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Awdurdod, ynghyd â'i amrywiol Bwyllgorau, paneli a gweithgorau, yn rhoi ac yn cyflawni arweinyddiaeth strategol, sy'n galluogi Aelodau i benderfynu ar y materion sy'n effeithio ar y gwaith o gynnal yr Awdurdod, yn unol ag egwyddorion atebolrwydd democrataidd a bod yn agored.

**Diben y System o Reolaeth Fewnol**

Er mwyn cyflawni ei ystod eang o swyddogaethau, rhaid i'r Awdurdod fodloni amcanion gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Golyga hyn fod y cyfyngiadau a'r cymhellion allanol a mewnol sydd arno yn wahanol i'r rhai a geir yn y sector preifat, ac mae pob un ohonynt yn effeithio ar ei drefniadau llywodraethiant.

Un darn allweddol o ddeddfwriaeth yng Nghymru yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried y tymor hwy wrth wneud ei benderfyniadau, ac i gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill i wella llesiant yng Nghymru.

Felly, mae gan randdeiliaid ddiddordeb mewn materion fel:

- a yw'r allbynnau a gynlluniwyd gan yr Awdurdod wedi'u cyflawni a'r canlyniadau wedi'u sicrhau, ac
- a yw hyn wedi'i wneud mewn modd effeithlon, diwastraff, effeithiol a theg.

Er mwyn sicrhau llywodraethiant da yn y sector cyhoeddus, mae angen i gyrff llywodraethu yn ogystal ag unigolion sy'n gweithio i sefydliadau'r sector cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd trwy'r adeg pan fyddant yn ceisio cyflawni eu hamcanion, sy'n awgrymu mai'r flaenoriaeth yw'r budd i gymdeithas, a dylai hynny arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r Datganiad hwn yn rhoi sicrwydd bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cydymffurfio â'r fframwaith llywodraethiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

**Y Fframwaith Llywodraethiant**

Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn cynnwys 28 o gynghorwyr etholedig o chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru, gyda nifer y cynrychiolwyr wedi'i bennu gan boblogaeth yr ardal. Mae mwy o wybodaeth am yr Awdurdod, ei aelodau a'i gyfrifoldebau ar gael yma.

Rhaid i'r Awdurdod adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y system lywodraethiant yn gadarn. Dyma rai o'r prif bethau sy'n cyfrannu at y broses hon:

Bod â strwythur Awdurdod a phwyllgorau sydd:

- yn monitro effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg
- yn adolygu'r trefniadau llywodraethiant yn rheolaidd
- yn ystyried ac yn adolygu strategaethau, cynlluniau ac adroddiadau archwilio mewnol ac allanol
- yn adolygu, yn craffu ar ac yn cymeradwyo'r datganiad cyfrifon blynyddol.

Bod â Phanel Gweithredol sydd:

- yn rhoi arweiniad o ran llywodraethiant
- yn cyfrannu at gwblhau ac at adolygu'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol
- yn darparu arweiniad clir i'r Gwasanaeth a'r uwch reolwyr.

Y defnydd o wybodaeth o wahanol ffynonellau i lywio'r trefniadau llywodraethiant, er enghraifft:

- adroddiadau byrddau gwella a pherfformiad
- trefniadau rheoli risg
- adroddiadau gan reoleiddwyr allanol
- adroddiadau archwilio mewnol

Mae cyfarfodydd arferol yr Awdurdod yn cael eu mynychu o bell. Mae cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn cael eu gweddarlledu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd. Mae pob cyfarfod ar gael i'r cyhoedd arsylwi arno, os ydynt yn gwneud cais i wneud hynny.

Yn gynnar yn 2023, sefydlodd yr Awdurdod ddau weithgor er mwyn cefnogi datblygiad dwy flaenoriaeth sefydliadol allweddol:

- Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, sydd bellach wedi'i ddisodli gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cytundeb ar y Cyd, gyda chynrychiolaeth gan yr Undebau Llafur, ond heb unrhyw gynrychiolaeth gan yr Awdurdod Tân bellach.
- Gweithgor newydd y Ganolfan Hyfforddi a Datblygu.

Yn ogystal, mae aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub yn eistedd ar y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel aelod sy'n hyrwyddwr, ac yn dilyn adroddiad adolygiad diwylliannol CREST mae'r Prif Swyddog Tân bellach yn cadeirio Bwrdd Diwylliannol i reoli'r gwaith o weithredu'r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol, sydd i fod i gael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Tân yn fuan.

Ym mis Ebrill 2025 cymeradwyodd yr Awdurdod yr ail o'i Gynlluniau Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CGRhRC 2025/26) i gyflawni yn erbyn yr amcanion a amlinellwyd yn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) pum mlynedd 2024-2029

Nod Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) yw nodi'r risgiau sy'n wynebu'r gymuned ac mae'n disgrifio sut y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rheoli'r risgiau hynny, ac yn parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill.

Mae'r Awdurdod wedi datblygu pum egwyddor er mwyn cadw cymunedau'n ddiogel, ac mae'r CRhRC:

- Yn cydnabod gofynion deddfwriaeth allweddol
- Yn ystyried gwaith parhaus y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Yn nodi'r risgiau sy'n wynebu ein cymunedau
- Yn amlinellu gweithgarwch yr Awdurdod i fynd i'r afael â'r risgiau hyn
- Yn egluro pa gamau y bydd yr Awdurdod yn eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf i liniaru'r risgiau hynny
- Yn cyd-fynd â chyllideb refeniw yr Awdurdod, ei gynllun cyfalaf a'i gynllun ariannol tymor canolig.

Ffig 2. Pwyllgorau'r Awdurdod Tân ac Achub

Mae'r Awdurdod wedi dirprwyo cyfrifoldeb am weithrediad y Gwasanaeth Tân ac Achub (y Gwasanaeth) o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Tân.

Mae'r Prif Swyddog Tân yn cael ei gefnogi gan y Grŵp Gweithredol, sy'n cynnwys y Prif Swyddogion (y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy a'r Swyddogion Tân Cynorthwyol), ac sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth strategol.

Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth, yn cynnwys y Prif Swyddogion, y Rheolwyr Ardal a'r Penaethiaid Adran. Mae'n cyfarfod fel Bwrdd Perfformiad er mwyn craffu ar berfformiad, ac fel Bwrdd Gwella er mwyn herio ac i oruchwylio rhaglenni, prosiectau a pholisïau ar lefel uchel. Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth yn rhoi arweinyddiaeth sefydliadol ac yn cyflwyno'r gwasanaethau.

Mae Strwythur Llywodraethiant a Sicrwydd y Gwasanaeth, sef y pwyllgorau a'r grwpiau, sy'n adrodd i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth, wedi'i ymgorffori ar draws y sefydliad, gan ddangos bod y llywodraethiant yn gadarn o ran adrodd, monitro, craffu a gwneud penderfyniadau ym mhob rhan o'r sefydliad.

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Prif Swyddog Tân

Dirprwy Brif Swyddog Tân

3 X Prif Swyddog Tân

Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth

5 Rheolwr Ardal a 6 Phennaeth Adran

Ffig 3. Strwythur Arweinyddiaeth y Gwasanaeth

## Cyfranwyr Allweddol at Ddatblygu a Chynnal y Fframwaith Llywodraethiant

| | |
|---|---|
| Cyfansoddiad | Diben y Cyfansoddiad yw nodi sut mae'r Awdurdod Tân yn gweithio a'r ffordd y mae'n gwneud penderfyniadau, a hynny mewn iaith glir |
| Yr Awdurdod Tân | Mae'n darparu'r arweinyddiaeth strategol, y rhyngwyneb gwleidyddol a'r her gorfforaethol mewn perthynas â darparu gwasanaethau tân ac achub ledled Gogledd Cymru, gan annog cyfranogiad y cyhoedd a chan gynnal ei faterion mewn modd agored a thryloyw. Mae'n cytuno ar y Cynllun Gwella a Llesiant, a'r cyllidebau refeniw a chyfalaf |
| Y Panel Gweithredol | Mae'n monitro perfformiad y Gwasanaeth a gwneud argymhellion i'r Awdurdod ar ei bolisïau allweddol, gan gynnwys y Cynllun Gwella a Llesiant. Mae'r Panel yn adolygu'r gofrestr risg strategol. |
| Y Pwyllgor Archwilio | Mae'n darparu adolygiad annibynnol o'r fframweithiau llywodraethiant, rheoli risg a rheoli, yn ogystal â goruchwylio'r adroddiadau ariannol, gan gynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r cyfrifon blynyddol. |
| Y Pwyllgor Safonau | Mae'n hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau'r Awdurdod ac yn goruchwylio polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn Aelodau'r Awdurdod. Hefyd, pan fo hynny'n bosibl yn statudol, mae'n cael adroddiadau a chŵynion am Aelodau ac yn cynnal neu oruchwylio ymchwiliadau a gwneud argymhellion i'r Awdurdod. |
| Gweithgorau'r Awdurdod Tân | Mae'n ymgymryd â gwaith manwl sy'n gysylltiedig â phroses cynllunio a phennu cyllidebau'r Awdurdod. Mae'n cyflwyno ei sylwadau i'r Panel Gweithredol sydd yn ei dro'n gwneud argymhellion ar gyfer gwella/lleihau risg/amcanion llesiant i'r Awdurdod. |
| Grŵp Gweithredol | Mae'n gweithredu'r fframwaith polisi a chyllidebol a bennir gan yr Awdurdod Tân, ac yn rhoi cyngor i'r Awdurdod Tân o ran datblygu materion polisi a chyllidebol yn y dyfodol. |
| Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | Mae'n gosod safonau llywodraethiant ar draws y Gwasanaeth ac yn arwain y gwaith o'u gweithredu. Mae'n cael y cynllun gwella blynyddol ac yn cyfrannu at yr hunanasesiad blynyddol. |
| Swyddog Adran 151 | Mae'n sicrhau bod penderfyniadau'n gyfreithlon ac yn ddarbodus yn ariannol.<br>Mae'n gweinyddu materion ariannol.<br>Mae'n atebol am ddatblygu a chynnal fframwaith llywodraethiant, risg a rheoli yr Awdurdod Tân.<br>Mae'n cyfrannu at reolaeth a llywodraethiant corfforaethol effeithiol yr Awdurdod Tân |
| Swyddog Monitro | Mae'n adrodd ar achosion o fynd yn groes i unrhyw ddeddfiad neu reolaeth y gyfraith.<br>Mae'n adrodd ar unrhyw gamweinyddu neu anghyfiawnder pan fo'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol wedi cynnal ymchwiliad.<br>Mae'n cynnal a diweddaru'r Cyfansoddiad.<br>Mae'n cynnal cofrestrau o fuddiannau aelodau yn ogystal â rhoddion a lletygarwch.<br>Mae'n cynghori Aelodau ar sut i ddehongli'r Cod Ymddygiad. |
| Archwilio Mewnol | Mae'n darparu sicrwydd annibynnol a barn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethiant, rheoli risg a rheoli yr Awdurdod Tân.<br>Mae'n cyflawni rhaglen flynyddol o weithgarwch archwilio ar sail risg, gan gynnwys gweithgaredd gwrth-dwyll ac ymchwilio.<br>Mae'n gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau mewn rheoli risg. |

## Egwyddorion CIPFA - Sicrwydd Llywodraethiant

### Egwyddor A: Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith.

Cyhoeddir Cenhadaeth a Gwerthoedd yr Awdurdod yn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol ac ar wefan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfansoddiad yn nodi cyfrifoldebau'r Awdurdod Tân ac Achub a'i bwyllgorau ac mae'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion wedi'i gynnwys ynddo.

Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn gyfreithlon ac yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cyfansoddiad.

Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau ac mae hwn yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Safonau.

Pan fo angen, ceisir cyngor cyfreithiol i lywio penderfyniadau.

Mae Codau Ymddygiad ar gyfer Aelodau a Swyddogion ar waith, sy'n gofyn am ddatgan buddiannau busnes a chofnodi rhoddion a/neu letygarwch a gafwyd. Mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod fel rhan o broffil personol pob Aelod.

Mae polisïau allweddol ar waith i atal ac i leihau risg twyll. Mae'r polisïau'n cynnwys: Polisi Chwythu'r Chwiban, Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth a Rheoliadau Ariannol a Rheolau Gweithdrefn Contractau. Pan amheuir afreoleidd-dra, mae trefniadau ar waith i sicrhau bod ymchwiliad trwyadl yn cael ei gynnal.

Mae'r polisi recriwtio a'r prosesau cynefino a hyfforddiant yn cynnwys ymddygiadau personol â gwerthoedd craidd.

Ailachrediad o'n dyfarniadau Aur a Phlatinwm gan raglen Iechyd Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru, cynllun gwobrwyo sy'n cael ei redeg gan Cymru Iach ar Waith, ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r gwobrau hyn yn caniatáu i gyflogwyr arddangos polisïau a gweithredoedd a ddyluniwyd i feithrin gweithluoedd hapusach ac iachach.

Sefydlwyd Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn 2022, a datblygwyd a chyhoeddwyd Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant  Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant bum mlynedd.

Bydd y broses o weithredu'r strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael ei llywio gan gynllun gweithredu blynyddol manwl, a fydd yn cael ei reoli ar sail perfformiad gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sy'n cyfarfod bob chwarter.

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i gynnal safonau ac mae'n cymryd yr holl bryderon o ddifrif. Ymchwilir i achosion disgyblu ac i unrhyw honiadau o gamwedd yn  unol â Llawlyfr Disgyblu'r Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth bellach wedi recriwtio dau Swyddog Disgyblaeth a Chŵynion Cyflogaeth, gan sicrhau bod honiadau'n cael eu hymchwilio'n brydlon ac yn broffesiynol.

Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar wefan yr Awdurdod, sy'n manylu ar gydymffurfiaeth yr Awdurdod â'r Safonau.

Fel rhan o'n hymrwymiad i'r Gymraeg, mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff gyrraedd o leiaf Lefel 2 yn eu sgiliau Cymraeg a Lefel 3 ar ôl cael dyrchafiad.

Ar hyn o bryd mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, sy'n cynnwys amcanion Gwella a Llesiant, yn destun ymgynghoriad â'r cyhoedd ac â rhanddeiliaid. Bydd y Cynllun Pum Mlynedd a Chynllun Gweithredu 2024-25 yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod, wedi iddynt gael eu cymeradwyo. Mae hyn yn bodloni ein rhwymedigaethau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae polisi a gweithdrefn Diogelu ar waith i gyfeirio unrhyw bobl agored i niwed y daw'r Gwasanaeth i gysylltiad â nhw at asiantaethau eraill.

Mae'r holl gynlluniau a pholisïau adrannol, lle bo'n berthnasol, yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Safecall, gwasanaeth proffesiynol, cyfrinachol ac annibynnol, yn rhoi modd i unrhyw aelod o staff adrodd am bryderon 24/7, 365 diwrnod o'r flwyddyn, ac mae'n cael cyhoeddusrwydd eang ar draws y Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd cynnig gwasanaeth adrodd ac ymgysylltu dienw mewn sefyllfaoedd sensitif.

Mae'r Gwasanaeth wedi mabwysiadu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, ac wedi adeiladu ar y trefniadau sefydledig hynny sydd rhwng y Gwasanaeth a'r cyrff sy'n cynrychioli staff er mwyn ymgynghori ar amcanion ac ar benderfyniadau strategol ynghylch sut mae'n bwriadu cyflawni'r amcanion hynny. Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol cyntaf ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol i'w gyhoeddi a'i gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ym mis Ebrill 2025.

## Egwyddor B: Sicrhau ein bod yn agored a bod gennym ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid.

Mae pob cyfarfod yn cael ei hysbysebu ac mae cyfarfodydd llawn yr Awdurdod yn cael eu gweddarlledu. Mae agendâu a phapurau i'w cael ar wefan yr Awdurdod.

Cyhoeddir gwybodaeth ar wefan yr Awdurdod fel rhan o'r cynllun cyhoeddi. Darperir fersiynau Darllen/Dweud a fersiynau Cymraeg o ddogfennau.

Mae trefniadau ymgynghori cyhoeddus ar waith i wahodd barn rhanddeiliaid cyn i newidiadau allweddol gael eu datblygu a'u gweithredu. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar yr Amcanion Gwella o fewn Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-25.

Mae'r Sefydliad Ymgynghori wedi cydnabod yn y gorffennol bod gan yr Awdurdod 'Arfer Da' ym mhob elfen o'r ymgynghoriad cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad parhaus o'r Ddarpariaeth Frys.

Mae'r ymrwymiad i fod yn agored hefyd yn cael ei ddangos trwy:

- gwblhau asesiadau effaith ar gyfer pob penderfyniad allweddol;
- y Weithdrefn Cwyno a Chanmoliaeth, sy'n cynnwys y gallu i uwchgyfeirio materion pwysig;
- y Strategaeth Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd;
- ymgysylltu â Chyrff Cynrychioliadol y Cyflogeion, yn anffurfiol ac yn ffurfiol, drwy'r Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Thrafod, rhywbeth a fydd yn cael ei gryfhau ymhellach trwy fabwysiadu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn y flwyddyn ariannol newydd;
- ymrwymiad unwaith bob dwy flynedd i ymgysylltu â staff drwy arolwg 'Teulu Tân'.
- aelodaeth o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Fforwm Arweinwyr Cydraddoldeb Gogledd Cymru, Race Council Cymru a Fforwm Rhyng-Ffydd Gogledd Cymru.

Defnyddir amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu gan gynnwys:

- cyfathrebu wedi'i gyfeirio gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, gyda chyfrifon ar Facebook ac X. Mae hyn yn cynnwys cyfrifon corfforaethol yn ogystal â'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a gynhelir gan staff gorsafoedd tân i ehangu ymgysylltiad mewn cymunedau lleol;
- y gallu i gofrestru ar y wefan i gael diweddariadau e-bost ar faterion penodol;
- ymgysylltu â phobl ifanc drwy raglen Ffenics, Cadetiaid tân ac ymweliadau ysgol;
- gwaith diogelwch cymunedol gyda deiliaid tai a busnesau;
- grŵp Gweithredu Cadarnhaol, dan gadeiryddiaeth y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, i gynllunio a chyfarwyddo digwyddiadau ar gyfer yr holl waith recriwtio diffoddwyr tân;

- mynd i ddiwrnodau agored/digwyddiadau - er enghraifft digwyddiadau wedi'u trefnu, fel yr Eisteddfod, yn ogystal â digwyddiadau gorsafoedd tân a drefnir gan staff;
- cyfathrebu mewnol, gan gynnwys cylchlythyr electronig y Crynodeb Wythnosol i staff;
- ymgyrchoedd cyfathrebu allanol, dan arweiniad y Rheolwyr Diogelwch Cymunedol.
- trwy weithgareddau Atal a Recriwtio, mae'r Gwasanaeth yn ymgysylltu â phobl o bob oedran a chefndiroedd amrywiol.

Mae trefniadau partneriaeth yn eu lle ar gyfer:

- Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd Cymru Gyfan, sy'n cael ei gadeirio gan y PST ar hyn o bryd;
- Fforymau Gwydnwch Lleol;
- y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol;
- y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol;
- y Bwrdd Strategol Lleihau Tanau Bwriadol;
- y Byrddau Diogelu Oedolion Lleol a'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol;
- cydweithio â Gwasanaethau Brys eraill.

## Egwyddor C: Diffinio canlyniadau o ran buddion cynaliadwy economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol pum mlynedd yn pennu cyfeiriad strategol yr Awdurdod ac yn manylu ar yr amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a'r amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae polisïau'r Awdurdod yn adlewyrchu egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nod y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig, sy'n cynnwys Cynllun Cyfalaf 10-mlynedd, a phroses y gyllideb flynyddol yw sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu cyfeirio at flaenoriaethau'r Awdurdod.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i sicrhau bod yr holl staff yn astudio'r e-ddysgu gorfodol mewn perthynas â'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Fel cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i recriwtio a chadw pobl anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd.

Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog, sy'n addewid gan y genedl i sicrhau bod y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan bolisi Lluoedd Arfog, Milwyr Wrth Gefn a Chyn-filwyr

Mae'r Gwasanaeth yn talu mwy na'r cyflog byw gwirioneddol.

Mae polisi a gweithdrefn diogelu ar waith er mwyn cyfeirio unrhyw bobl agored i niwed y daw'r Gwasanaeth i gysylltiad â nhw at asiantaethau eraill.

Mae'r gwiriadau cofnodion troseddol priodol yn hanfodol i'r Gwasanaeth i ddeall a lliniaru risg, i amddiffyn cydweithwyr a'r cyhoedd. Mae Awdurdodau Tân ac Achub bellach wedi'u rhestru yn Atodlen 1 Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) ac felly mae'r holl gyflogeion bellach yn gymwys i gael gwiriad DBS lefel sylfaenol, o leiaf, ac mae'r rhain bellach yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd.

Mae gan y Gwasanaeth ddyletswydd statudol i sefydlu trefniadau parhad busnes. Adolygir cynlluniau ar draws y Gwasanaeth yn flynyddol a cheir cydweithio parhaus â'r gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru i wella cynllunio ac i ystyried y risgiau presennol.

Mae pob penderfyniad allweddol yn cael asesiad effaith integredig, sy'n ystyried cydraddoldeb; diogelu data; iechyd, diogelwch a lles; y Gymraeg; cyllid; cynaliadwyedd a staffio; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a bydd hefyd yn ystyried y Ddyletswydd Iechyd statudol y disgwylir iddi gael ei chyflwyno.

Mae'r Awdurdod wedi datblygu a mabwysiadu Strategaeth Amgylcheddol sy'n nodi targedau perfformiad manwl a chadarn i leihau ein hallyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol sylweddol eraill.

## Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd i'r eithaf.

Cynhelir ymgyngoriadau cyhoeddus fel rhan o broses gosod amcanion yr Awdurdod, sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol.

Cyhoeddir asesiad o berfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei amcanion blynyddol ym mis Hydref bob blwyddyn.

Mae Polisi Rheoli Risg Strategol yr Awdurdod (sydd ar hyn o bryd yn cael ei adolygu yn sgil archwiliad mewnol) yn nodi'r broses a ddefnyddir i nodi ac i reoli amlygiad i ansicrwydd, a allai effeithio ar gyflawni'r amcanion neu'r gweithgareddau. Caiff ei adolygu drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

Cyflwynir adroddiadau perfformiad ac ariannol i'r Awdurdod a'i bwyllgorau, ar ôl i'r Grŵp Gweithredol gael cyfle i graffu arnynt.

Mae Adroddiad Monitro Perfformiad chwarterol yn cael ei baratoi er mwyn i'r Panel Gweithredol a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth graffu ar ddata sy'n ymwneud â'r galw i ddigwyddiadau, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac argaeledd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad, gan sicrhau bod materion yn cael eu nodi ac y cytunir ar ymyriadau priodol.

Mae'r prosesau cynllunio'r gyllideb, sy'n cynnwys arweinwyr y Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod, yn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu dyrannu i gefnogi amcanion sy'n seiliedig ar risg a'u bod, ar yr un pryd, yn cydbwyso'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal ystadau, cerbydau ac offer. Mae Pwyllgor y Gyllideb, Monitro a Chaffael yn darparu'r llywodraethiant a'r oruchwyliaeth strategol angenrheidiol.

Mae'r Pwyllgor Dysgu Sefydliadol yn darparu goruchwyliaeth strategol a llywodraethiant ar y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol a'r Dysgu Gweithredol ar y Cyd sydd ar gael ac yn gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Rhoddir adroddiadau am ddigwyddiadau Iechyd a Diogelwch, a chânt eu hadolygu a'u monitro er mwyn sicrhau bod diogelwch yr holl staff cystal ag y gall fod a bod y risgiau'n cael eu lleihau. Mae'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles yn llywodraethu ac yn rhoi goruchwyliaeth strategol.

Mae'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan yn nodi saith ymrwymiad lefel uchel mewn perthynas ag atal ac ymateb i danau mewn anheddau. Rhoddir adroddiadau blynyddol arni fel rhan o Asesiad Perfformiad Blynyddol yr Awdurdod.

## Egwyddor E: Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan o hynny.

Mae Cyfansoddiad yr Awdurdod yn amlinellu rolau aelodau etholedig a swyddogion dynodedig i alluogi cyd-ddealltwriaeth o rolau ac amcanion.

Mae'r swyddi dynodedig yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y Trysorydd a'r Swyddog Monitro.

Mae cydweithio rhanbarthol a chenedlaethol yn bodoli, er enghraifft, mae'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru yn cymryd rhan yn y Fforwm Hyfforddiant ar Ymchwilio i Danau ar gyfer Cymru Gyfan, ac mae hynny'n cefnogi dysgu ar y cyd ac yn annog cysondeb yn y dulliau a ddefnyddir ar draws Cymru.

Mae’r Awdurdod wedi mabwysiadu Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol Cymru Gyfan 2025-2028, a dyma sylfaen yr ymrwymiad i ddysgu gydol oes a chymhwysedd yn y gweithle.

Mae’r prosesau cynefino i Aelodau a chyflogeion yn cynnwys cyflwyniad i werthoedd craidd y sefydliad, y safonau ymddygiad, a gofynion y rôl.

Mae anghenion datblygu cyflogeion yn cael eu nodi trwy gyfarfodydd un-i-un.

Darperir cymorth iechyd a lles i gynnal lles corfforol a meddyliol. Mae ystod o fesurau wedi’u sefydlu i gyflawni hyn, gan gynnwys polisïau a chanllawiau AD, dull gweithio hyblyg, y gwasanaeth iechyd galwedigaethol a'r rhaglen cymorth i gyflogeion. Mae’r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles yn darparu goruchwyliaeth strategol a llywodraethiant.

Mae gan y Gwasanaeth adran hyfforddi bwrpasol, gyda fframweithiau cymhwysedd ar gyfer staff gweithredol. Rhoddir hyfforddiant gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau sy’n cynnwys modiwlau e-ddysgu gorfodol ar gyfer rhai pynciau e.e. Diogelu Data. Mae’r Pwyllgor Dysgu Sefydliadol yn darparu goruchwyliaeth strategol a llywodraethiant.

Mae’r staff yn aelodau o gyrff proffesiynol perthnasol ac yn ymgymryd â'r datblygiad proffesiynol parhaus gofynnol.

Mae'r Gwasanaeth yn sicrhau bod ei brosesau dyrchafu yn cyd-fynd â fframwaith arweinyddiaeth Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC).

## Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

Mae'r Trysorydd yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol yr Awdurdod yn briodol fel sy'n ofynnol gan Adran 151 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972.

Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau y cydymffurfir â pholisïau, gweithdrefnau, deddfau a rheoliadau sefydledig.

Mae'r Polisi Rheoli Risg Strategol (sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd yn dilyn archwiliad mewnol) yn manylu ar y broses ar gyfer nodi a rheoli risgiau. Mae’r Adran Cynllunio Corfforaethol yn cadw cofrestr risgiau corfforaethol ac mae'n cael ei monitro drwy gydol y flwyddyn.

Mae adroddiadau i'r Awdurdod a'i bwyllgorau yn cynnwys asesiad effaith integredig i lywio ac i gefnogi penderfyniadau.

Mae trefniadau parhad busnes ar waith i sicrhau y gellir parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol bob amser, a chânt eu hadolygu bob blwyddyn.

Mae Pwyllgor Archwilio'r Awdurdod yn sicrhau bod argymhellion gwella gan yr Archwilydd Allanol, Archwilio Cymru, a'r Archwilydd Mewnol yn cael eu cytuno a'u monitro.

Rhoddir adroddiadau chwarterol i Aelodau ac uwch reolwyr am welliant a pherfformiad y Gwasanaeth yn erbyn dangosyddion perfformiad a cherrig milltir allweddol.

Mae gan yr Awdurdod drefniadau i gadw cofrestrau o fuddiannau personol a busnes yr Aelodau a chofrestr o roddion a lletygarwch. Mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod fel rhan o broffil personol pob Aelod.

Ceir polisïau ar gyfer Gwrth-dwyll a Llygredd a Chwythu'r Chwiban sy'n cadarnhau ymrwymiad yr Awdurdod i weithredu mewn modd teg a thryloyw.

Mae polisïau a threfniadau ar waith i reoli'r modd y caiff data ei drin. Y rhain yw'r Polisi Diogelu Data, y Polisi Rhyddid Gwybodaeth, y Polisi Cadw Data a'r Polisi Diogelwch Cyfathrebu a Gwybodaeth. Mae'r polisïau hyn yn cael eu hategu gan hyfforddiant, ac mae'r modiwl e-ddysgu ar ddiogelu data yn orfodol i'r holl staff.

Datblygwyd a chytunwyd ar weithdrefnau rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid.

Mae rheolaeth ariannol yn cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau a newid trawsnewidiol yn ogystal â sicrhau stiwardiaeth dda. Cyflwynir diweddariad ariannol yn holl gyfarfodydd yr Awdurdod, gydag adroddiadau ar gael i'r cyhoedd ar y wefan.

Mae'r trefniadau Rheoli Trysorlys yn dilyn arferion proffesiynol ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan yr Aelodau.

Mae Datganiadau Cyfrifon yr Awdurdod a'i berfformiad yn erbyn meysydd risg a blaenoriaeth allweddol yn destun craffu drwy archwiliad allanol.

## Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol.

Aeth Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru ati ar y cyd i benodi Crest Advisory i hwyluso adolygiad diwylliannol annibynnol. Daw'r adolygiad ar ôl i Lywodraeth Cymru dderbyn cynnig gan y ddau Wasanaeth Tân ac Achub ym Mawrth 2024 i gael gwell dealltwriaeth o gynnydd y gwelliannau i ddiwylliant sefydliadol yn y ddau Wasanaeth.

Roedd y cynnig yn sail i ddatganiad ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar y pryd, Hannah Blythyn, y gellir darllen ei datganiad yn llawn yma.

Cynhaliodd Crest Advisory yr adolygiad a chyhoeddi adroddiad ar eu canfyddiadau ym mis Ionawr 2025, a oedd yn cynnwys 32 o argymhellion.

Mae Cadeirydd yr Awdurdod a'r Prif Swyddog Tân wedi addo:

- Troi argymhellion yr adroddiad yn gamau gweithredu a fydd yn arwain gwelliannau i ddiwylliant y gweithle.
- Ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid ar bob lefel i feithrin ymwybyddiaeth a chyfranogiad, er mwyn sicrhau bod newid yn ystyrlon ac yn adlewyrchu anghenion pawb.
- Cynnal tryloywder ac atebolrwydd trwy ddiweddariadau rheolaidd a chyfleoedd adborth gyda staff a rhanddeiliaid ehangach.

Mae'r Awdurdod, gyda chymorth y Swyddog Monitro, yn goruchwylio ac yn adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethiant a'r amgylchedd rheoli mewnol.

Mae agendâu a chofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub ar gael i'r cyhoedd ar y rhyngrwyd, ynghyd â gweddarllediadau o gyfarfodydd yr Awdurdod.

Mae adroddiadau'r Awdurdod yn dilyn fformat strwythuredig sy'n sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno mewn modd clir a chyson i gynorthwyo penderfyniadau.

Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mewn perthynas â'i rwymedigaeth i gyhoeddi gwybodaeth benodol fel rhan o'i gynllun cyhoeddi ac ymateb i geisiadau am wybodaeth gan aelodau o'r cyhoedd.

Mae’r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yn dogfennu amcanion gwella a llesiant yr Awdurdod ac mae’n cael ei adolygu gan Archwilio Cymru mewn cysylltiad â dyfarnu Tystysgrif Cydymffurfio.

Cynhyrchir y Datganiad Cyfrifon Blynyddol mewn fformat hawdd ei ddefnyddio. Mae hwn yn rhoi gwybodaeth glir am incwm a gwariant ac yn dangos y stiwardiaeth ar arian cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn. Cyflwynir y cyfrifon i'w harchwilio erbyn y dyddiad cau statudol.

Mae'r Datganiad Polisi Tâl Blynyddol yn cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011. Telir cyflogau'r Aelodau yn unol â phenderfyniadau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac adroddir amdanynt ar y rhyngrwyd.

Mae Aelodau ac uwch swyddogion yn datgan buddiannau perthnasol yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r Awdurdod i nodi ac i roi gwybod am unrhyw drafodion parti perthynol.

Paratoir adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru bob mis Ionawr a mis Gorffennaf yn manylu ar faterion disgyblaeth, cwynion cyflogaeth a chŵynion allanol. Yn benodol, mae'n tynnu sylw at achosion o gamymddwyn honedig/camymddwyn difrifol lle mae ymddygiad honedig unigolion yn cwestiynu diwylliant a gwerthoedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn darparu tryloywder ar y trefniadau llywodraethiant a'r camau gweithredu i wella llywodraethiant ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw'r archwilydd allanol a benodir drwy statud ac mae'n rhoi barn am y Datganiad Cyfrifon, a gyhoeddir ar wefan yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn gweithredu ar argymhellion ac, yn ôl yr angen, yn cymryd camau cywiro.

Mae'r trefniadau Archwilio Mewnol yn cynnwys dull sy'n seiliedig ar risg, ac mae'n rhoi sicrwydd bod risgiau allweddol yn cael eu rheoli. Mae'r Awdurdod yn gweithredu ar argymhellion ac, yn ôl yr angen, yn cymryd camau cywiro.

Yn dilyn adolygiad o'r trefniadau mewnol, penodwyd Archwilydd Mewnol newydd gan y Gwasanaeth ym mis Mehefin 2023, a hynny er mwyn cryfhau'r trefniadau sicrwydd.

Mae prosesau ar waith i sicrhau bod argymhellion gan gyrff arolygu a rheoleiddio yn cael eu gweithredu.

## Sut aeth yr Awdurdod i'r afael â Chamau Gwella Llywodraethiant 2024/25

| Maes Gwella o fewn Llywodraethiant | Cam Gweithredu a Gynlluniwyd | Fforwm | Cyfrifoldeb | Cynnydd erbyn mis Mawrth 2025 |
|---|---|---|---|---|
| Adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethiant | Gweithredu drwy Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth i gynllunio proses flynyddol, sy'n cynnwys Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth a'r adran Archwilio Mewnol yn benodol , i asesu i ba raddau y mae egwyddorion y Fframwaith Llywodraethiant Da yn cael eu gweithredu. | Bwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Nodwyd arweinwyr o blith Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth ar gyfer pob un o saith Egwyddor CIPFA ac maent wedi adolygu'r trefniadau presennol yn erbyn pob un o'r is-egwyddorion. |
| Trefniadau Llywodraethiant | Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o Drefniadau Llywodraethiant. | Awdurdod Tân ac Achub | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Cyflwynwyd yr Adroddiad i'r Awdurdod Tân ac Achub (ATA) llawn ar 21 Hydref 2024, lle nodwyd yr adroddiad a'i argymhellion. Fel ymateb uniongyrchol i un o'r argymhellion, yn ymwneud â hyfforddiant, cyflwynwyd hyfforddiant risg strategol Lefel 4 i aelodau Panel Gweithredol yr ATA ar 17 Mawrth 2025 a darparwyd yr adnoddau hyfforddi i holl aelodau'r ATA. |
| Effeithiolrwydd Gweithgareddau Atal | Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o Atal. | Awdurdod Tân ac Achub | Pennaeth Atal a Diogelu | Nid yw'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Ni chynhaliwyd yr Archwiliad fel yr oedd wedi'i drefnu'n wreiddiol ond mae bellach wedi'i gwblhau a disgwylir yr adroddiad gan Archwilio Cymru. Bydd y cam gweithredu hwn yn cael ei ddwyn ymlaen ar gyfer gweithredu ar unrhyw argymhellion yn ystod 2025/26. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Risg Strategol | Gweithredu argymhellion yr adolygiad Archwilio Mewnol o Reolaethau Craidd Rheoli Risg | Bwrdd Gwella Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, roedd Adroddiad Aseiniad Adolygiad Rheoli Risg 2024/25 gan archwilwyr mewnol ym mis Mawrth 2025 yn rhoi sicrwydd cyfyngedig a chytunwyd ar bum argymhelliad a byddant yn cael eu symud ymlaen i'w cwblhau yn 2025/26. |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Y rhwymedigaeth statudol i sicrhau bod yr amcanion llesiant yn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yn cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni. | Bwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Adroddodd Asesiad Perfformiad Blynyddol 2023/24 ar amcanion lles a gwella 2023/24 yn ogystal â myfyrio ar y cyflawniadau yn erbyn Cynllun Corfforaethol tair blynedd yr ATA.  Adroddwyd ar y cynnydd yn erbyn yr amcanion llesiant, a gynhwyswyd yn y Cynllun Gwella Rheoli Risg Cymunedol cyntaf 2024-25, i Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth, ac mae bellach wedi'i ymgorffori fel adroddiad chwarterol. |
| Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 | Ymgorffori egwyddorion a gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. | Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Mae'r Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid yn mynd i gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi gyda chynrychiolwyr yr Undeb i drafod gosod amcanion yn y cam ffurfiannol a darperir diweddariadau a gwahoddir adborth gan gynrychiolwyr yr Undeb, gan arwain at gytundeb ar yr Adroddiad Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol blynyddol a gadarnhawyd gan yr ATA ar 28 Ebrill 2025. |

## Camau Gwella Llywodraethiant yr Awdurdod 2025/26

| Maes Gwella o fewn Llywodraethiant | Cam Gweithredu a Gynlluniwyd | Fforwm | Cyfrifoldeb | I'w gwblhau erbyn |
|---|---|---|---|---|
| Effeithiolrwydd Gweithgareddau Atal | Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o waith Atal. | Awdurdod Tân ac Achub | Pennaeth Atal a Diogelu | Mawrth 2026 |
| Pennu'r Amcanion Llesiant | Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o osod amcanion llesiant. | | | Rhagfyr 2025 |
| Rheoli Risg Strategol | Gweithredu argymhellion yr adolygiad Archwilio Mewnol o Reolaethau Craidd Rheoli Risg. | Bwrdd Gwella Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Mawrth 2026 |
| Diwylliant Sefydliadol | Ymateb i argymhellion adolygiad diwylliannol annibynnol CREST trwy ymgysylltu â staff a'r Awdurdod Tân ac Achub, gan arwain at gyhoeddi cynllun gwella. | Awdurdod Tân ac Achub | Prif Swyddog Tân | Gorffennaf 2026 |
| Effeithiolrwydd Ymateb i Danau mewn Anheddau Domestig | Ymateb i argymhellion yn arolygiad Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân Cymru o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ystyried effeithiolrwydd ei ymateb i danau mewn anheddau domestig. | Awdurdod Tân ac Achub | Pennaeth Ymateb | Mawrth 2026 |
| Canllawiau gwirio cyflenwyr a Gwrth-dwyll | Ymateb i argymhellion gan yr Archwilydd Mewnol mewn perthynas â rheolaethau prosesu ariannol allweddol 2024/25 gan gynnwys gweithredu Gwirio Cyflenwyr, Canllawiau Gwrth-Dwyll ac Adolygiadau Rheolaidd o Fandadau Banc. | Y Pwyllgor Cyllid a Chaffael | Pennaeth Cyllid | Mawrth 2026 |

# Cydymffurfio â'r Cod Rheoli Ariannol

Cynlluniwyd Cod Rheoli Ariannol CIPFA (Cod RhA CIPFA) i gefnogi arfer da ym maes rheoli ariannol ac i gynorthwyo'r Awdurdod i ddangos eu cynaliadwyedd ariannol. Mae Cod RhA CIPFA felly'n gosod safonau rheoli ariannol i'r Awdurdod.

Mae'r Cod yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion a gefnogir gan safonau a datganiadau ymarfer penodol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ddarparu'r sylfaen gref i:

- Reoli cyllid yr Awdurdod yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir
- Rheoli gwydnwch ariannol er mwyn ateb y galw a ragwelir am wasanaethau
- Rheoli cyllid pan fo newidiadau annisgwyl yn eu hamgylchiadau ariannol.

Rhaid i bob Awdurdod ddangos bod gofynion y Cod yn cael eu bodloni.

Fel Swyddog Adran 151 mae gen i'r Cyfrifoldeb Statudol (gyda chefnogaeth Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod) dros sicrhau cydymffurfiaeth â Chod RhA CIPFA.

Rwyf wedi cynnal asesiad llawn o gydymffurfiaeth â Chod RhA CIPFA fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a gallaf gadarnhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r cod yn y mwyafrif o feysydd yn fy marn i.

**Llofnod:** ______________________ **(Trysorydd) 2025**

# Barn Llywodraethiant a Chasgliad

Mae'r Awdurdod yn cydnabod mai llywodraethiant da sy'n gosod y sylfaen ar gyfer darparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion rhanddeiliaid, ac sy'n sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda. Mae'r adolygiad hwn yn cadarnhau'r systemau llywodraethiant a'r monitro a oedd ar waith ar gyfer 2023/24 a'r camau a gymerwyd i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod trefniadau llywodraethiant priodol ar waith ac mae'n parhau i fod yn ymroddedig i wella'r rhain drwy weithredu'r cynllun gweithredu ar gyfer 2024/25.

**Llofnod** ______________________________ **(Cadeirydd)**

**Llofnod** ______________________________ **(Prif Swyddog Tân)**

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**North Wales Fire and Rescue Authority**

*This document is available in English*

Eitem Agenda 14

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Mehefin 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Carwyn Rees, Archwilio Cymru** |
| Pwnc | **Cynllun Archwilio 2025** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cadarnhau Cynllun Archwilio 2025 sy'n rhoi manylion y dull archwilio a'r gwaith i'w wneud gan Archwilio Cymru fel archwilwyr statudol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Archwilio Cymru yw archwilydd statudol yr Awdurdod ac mae ei waith yn cwmpasu'r datganiadau ariannol, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a'r egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n deillio o amcanion llesiant yr Awdurdod.

3 Mae'r cynllun archwilio ar gyfer 2025 wedi'i gynnwys yn atodiad 1 ac mae'n cadarnhau cyfrifoldebau'r archwilydd a'r dull gweithredu arfaethedig.

## ARGYMHELLION

4 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) Nodi cwmpas y gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru.**

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r cynllun archwilio yn ystyried y trefniadau ar gyfer cyflawni'r egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wedi'i chynnwys yn amcanion llesiant yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae ystyriaeth i drefniadau'r Awdurdod ar gyfer gwerth am arian wedi'i chynnwys yn y cynllun archwilio. |
| Cyfreithiol | Mae archwiliad allanol o ddatganiadau ariannol yr Awdurdod yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. |
| Staffio | Ddim yn uniongyrchol berthnasol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>y Gymraeg | Bydd y gwaith archwilio perfformiad yn ystyried ystod o fesurau gan gynnwys cydymffurfio â dyletswyddau cydraddoldeb a'r Gymraeg lle bo hynny'n berthnasol. |
| Risgiau | Bydd gwaith Archwilio Cymru yn cael ei gynllunio o amgylch risgiau hysbys. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Cynllun Archwilio 2025

Blwyddyn archwilio: 2025

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2025



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | 2 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Ein nodau a'n huchelgeisiau | 5 |
| Gwaith archwilio ariannol | 6 |
| Gwaith archwilio perfformiad | 13 |
| Swyddogaethau archwilio statudol eraill | 16 |
| Ffi archwilio | 16 |
| Tîm archwilio | 19 |
| Ansawdd yr archwilio | 20 |
| Eich cefnogi chi | 22 |

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw atebolrwydd o ran unrhyw ddibyniaeth neu ddefnydd arall o'r ddogfen hon gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn ei rinwedd unigol, nac unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael mwy o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu anfonwch e-bost i post@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cyflwyniad



**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Rwy'n falch o rannu fy Nghynllun Archwilio 2025. Mae'r Cynllun yn nodi sut y byddaf yn cynnal eich archwiliad.

Mae fy nhîm archwilio wedi datblygu'r Cynllun yn dilyn proses gynllunio strwythuredig ac yn seiliedig ar risg, a fydd yn parhau trwy gydol yr archwiliad. Mae fy Nghod Ymarfer Archwilio yn rhoi rhagor o fanylion o ran sut mae fy archwilwyr i fod i gynnal fy archwiliad a rhai swyddogaethau eraill.

Wrth wraidd ein holl waith mae ein hymrwymiad i gynnal y safonau uchaf o uniondeb proffesiynol, gwrthrychedd, annibyniaeth ac ansawdd archwilio. Mae ein model tair llinell sicrwydd (tudalen 21) yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod y safonau ansawdd hynny'n cael eu bodloni. Mae ein hadroddiad ansawdd blynyddol diweddaraf, Adroddiad Ansawdd Archwilio 2024, yn rhoi mwy o wybodaeth am ein trefniadau ansawdd archwilio.

Bydd fy nhîm archwilio yn gweithio'n gadarnhaol gyda'ch staff i ddeall y materion yr ydych chi'n eu hwynebu, gan sicrhau bod y broses archwilio yn gweithredu mor ddidrafferth â phosibl, gan ddarparu dealltwriaeth werthfawr am unrhyw feysydd i'w gwella.

Mae fy rhaglen waith archwilio perfformiad lleol, fel yr amlinellir yn y Cynllun hwn, yn sefyll ochr yn ochr â gwaith archwilio cenedlaethol arall a allai gynnwys eich sefydliad chi. Gall gwaith archwilio perfformiad lleol hefyd lywio adroddiadau cenedlaethol ehangach.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich archwiliad, bydd fy nhîm archwilio yn hapus i'w trafod â chi. Byddant hefyd yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i chi’n rheolaidd wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

# Ein nodau a'n huchelgeisiau

## Ein diben

- Sicrhau pobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda
- Eguro sut mae'r arian hwnnw'n cael ei wario
- Ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella

## Ein gweledigaeth

- Manteisio'n llawn ar ein persbectif, arbenigedd a dyfnder ein dirnadaeth unigryw
- Cryfhau ein sefyllfa fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol
- Cynyddu ein hamlygrwydd, ein dylanwad a'n perthnasedd
- Bod yn sefydliad enghreifftiol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

## Ein meysydd pwyslais

- Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel
- Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu
- Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

Gallwch ddarganfod mwy am Archwilio Cymru yn ein Cynllun Blynyddol 2024-25 a'n Strategaeth 2022-27.

# Gwaith archwilio ariannol

## Archwiliad o ddatganiadau ariannol

Mae'n ofynnol i mi gyhoeddi adroddiad ar eich datganiadau ariannol )a Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân) sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a thegwch' a'u paratoad priodol yn unol â gofynion cyfrifyddu a chyfreithiol.

Byddaf hefyd yn adrodd trwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fanylach yn ein Datganiad Cyfrifoldebau.

Yn ogystal â fy nghyfrifoldebau am archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod, mae gennyf hefyd gyfrifoldeb am ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau am y cyfrifon gan etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os oes angen).

Nid oes unrhyw gyfyngiadau wedi'u gosod arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

## Perthnasedd datganiadau ariannol

Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ar wirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond yn mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw nodi deunydd camddatganiadau, hynny yw, y rhai a allai arwain at gamarwain darllenydd y cyfrifon. Mae perthnasedd yn berthnasol nid yn unig i gamddatganiadau ariannol, ond hefyd i ofynion datgelu a gweithredu yn unol â'r y fframwaith cyfrifyddu a'r gyfraith berthnasol.

Rwy'n gosod perthnasedd cynllunio a pherfformiad er mwyn:

- pennu lefel y camddatganiad a allai achosi i ddefnyddiwr y cyfrifon gael ei gamarwain;
- cynorthwyo i gwmpasu ein dull archwilio a'n profion archwilio sy'n deillio ohono;
- pennu maint samplau;
- asesu effaith camddatganiadau hysbys a thebygol yn y datganiadau ariannol; ac

- adrodd i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu unrhyw gamddatganiadau heb eu haddasu uwchlaw lefel ddibwys, ein trothwy adrodd.

Rwyf yn pennu lefelau perthnasedd camddatganiadau o'r fath fel a ganlyn.

**Perthnasedd cynllunio**

yn cynrychioli 2% o'r gwariant gros yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol archwiliedig 2023-24

**Awdurdod**

**£959,000**

**Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân**

**£215,000**

**Trothwy adrodd (dibwys)**

yn cynrychioli 5% o berthnasedd.

**Awdurdod**

**£47,000**

**Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân**

**£10,000**

Mae rhai meysydd o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon, ac rydym wedi gosod lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain:

**Datgeliadau cydnabyddiaeth ariannol yr Uwch Swyddog**

£1,000

**Datgeliadau partïon cysylltiedig (unigolion)**

£10,000

Bydd fy nhîm archwilio yn asesu lefelau perthnasedd trwy gydol yr archwiliad.

## Risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol

Mae risgiau sylweddol yn risgiau a nodir o gamddatganiad o bwys y mae'r asesiad o risg gynhenid ar eu cyfer yn agos at ben uchaf y sbectrwm o risg gynhenid, neu'r rhai sydd i'w trin fel risg sylweddol yn unol â gofynion Safonau Rhyngwladol eraill ar Archwilio. Mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn gofyn i ni ganolbwyntio mwy o sylw i'r risgiau sylweddol hyn.

### Risg o wrthwneud gan y rheolwyr

Mae'r risg o wrthwneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai wrthwneud o'r fath ddigwydd, fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.32-33].

**Ein hymateb a gynlluniwyd**

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer tuedd; a
- gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan gwrs arferol busnes.

## Meysydd pwyslais eraill

Nodaf isod risgiau eraill a nodir o gamddatganiad perthnasol sydd, er nad ydynt yn cael eu nodi i fod yn risgiau sylweddol fel uchod, hoffwn eu dwyn at eich sylw.

### Prisio atebolrwydd/gwarged net cronfa bensiwn

Mae'r cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ac atebolrwydd cronfa bensiwn y Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân fel yr adlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrifon perthnasol.

Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn destun gradd uchel o ansicrwydd amcangyfrif gan ei fod yn sensitif i addasiadau bach yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir yn ei gyfrifo.

Mae effaith amodau economaidd, yn enwedig lefelau cyfraddau llog, hefyd yn cael effaith sylweddol ar yr atebolrwydd ar 31 Mawrth 2024, er enghraifft, roedd yr atebolrwydd mewn gwirionedd yn warged, yn bennaf oherwydd cyfraddau llog uwch.

Mae yna hefyd nifer o achosion cyfreithiol a allai effeithio ar brisio'r atebolrwydd net.

Mae risg felly bod yr atebolrwydd/gwarged yn cael ei gam-ddatgan yn sylweddol.

**Ein hymateb a gynlluniwyd**

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- gwerthuso'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan reolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;
- asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau;
- asesu cywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth a ddarperir gan yr Awdurdod i'r actiwari i amcangyfrif yr atebolrwydd;
- profi cywirdeb atebolrwydd a datgeliadau net y gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd gan yr actiwari;
- asesu pa mor rhesymol yw'r tybiaethau a wnaed gan yr actiwari drwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) a chynnal unrhyw weithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol; ac
- asesu a allai unrhyw achosion cyfreithiol gael effaith berthnasol ar yr atebolrwydd cyffredinol net, ac os felly, cadarnhau bod hyn wedi'i gydnabod a'i ddatgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol.

## Gwerthuso tir ac adeiladau

Mae gwerth y tir a'r adeiladau a adlewyrchir yn y fantolen a'r nodiadau i'r cyfrifon yn amcangyfrifon perthnasol.

Mae'n ofynnol dal tir ac adeiladau ar sail gwerthuso sy'n dibynnu ar natur a defnydd yr asedau. Mae'r amcangyfrif hwn yn destun gradd uchel o oddrychedd, yn dibynnu ar y rhagdybiaethau arbenigol a rheolwyr, a gall newidiadau yn y rhain arwain at newidiadau perthnasol i werthusiadau.

Mae'n ofynnol ailbrisio asedau bob pum mlynedd, ond gall gwerthoedd hefyd newid o flwyddyn i flwyddyn, ac mae risg y gallai gwerth cario asedau a gydnabyddir yn y cyfrifon fod yn sylweddol wahanol i werth cyfredol asedau ar 31 Mawrth 2025, yn enwedig yn yr amgylchedd economaidd presennol.

**Ein hymateb a gynlluniwyd**

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- asesu'r gwaith a wnaed gan yr awdurdod i benderfynu nad yw gwerthoedd asedau wedi'u camddatgan yn sylweddol.

## Tâl uwch swyddogion

Er nad oes unrhyw newidiadau sylweddol mewn uwch swyddogion ar gyfer 2024-25, mae tâl a delir i uwch swyddogion yn parhau i fod o ddiddordeb uchel ac yn berthnasol wrth ei natur.

Felly, gallai hyd yn oed gwallau gwerth isel yn y datgeliad arwain at gamddatganiad perthnasol.

**Ein hymateb a gynlluniwyd**

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- deall y symudiadau yn y tîm uwch reolwyr yn ystod 2024-25;
- sicrhau bod y tâl a ddatgelir yn gyson â thystiolaeth ategol;
- sicrhau bod y symiau a dalir yn gyson â'r rhai a gymeradwywyd gan yr Awdurdod; a
- sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn yn seiliedig ar wybodaeth y tîm ac yn cael eu paratoi yn unol â'r gofynion.

## Gweithredu'r Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IFRS) 16 – Prydlesi

Mae'n ofynnol i gyrff Llywodraeth Leol fabwysiadu Prydlesi IFRS16 o 1 Ebrill 2024.

Mae hyn yn newid yn sylweddol y driniaeth gyfrifyddu a'r datgeliadau sy'n ofynnol ar gyfer asedau ar brydles ac yn golygu y bydd y rhan fwyaf o brydlesi yn arwain at ased ac atebolrwydd ar fantolenni.

Mae risg nad yw gofynion y Safon Gyfrifyddu Ryngwladol yn cael eu mabwysiadu'n briodol ac o ganlyniad mae'r datganiadau ariannol yn cael eu cam-ddatgan yn sylweddol.

**Ein hymateb a gynlluniwyd**

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- adolygu papurau gwaith yr Awdurdod i sicrhau bod yr holl brydlesi sy'n dod o fewn cwmpas y Safon wedi'u cynnwys mewn cyfrifiadau;
- profi sampl o gyfrifiadau asedau ac atebolrwydd i sicrhau bod y tybiaethau yn rhesymol, a'r cyfrifiadau wedi'u paratoi'n gywir; a
- cadarnhau bod gwerthoedd asedau ac atebolrwydd wedi'u cyfrif a'u datgelu'n gywir yn y datganiadau ariannol.

## Datgeliadau partïon cysylltiedig

Rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthnasoedd partïon cysylltiedig ynghyd â'r trafodion a'r balansau rhwng yr Awdurdod a'r corff/parti arall.

Mae gan yr Awdurdod lawer o berthnasoedd y gellid eu hystyried yn bartïon cysylltiedig. Mae llawer ohonynt yn adnabyddus er enghraifft, Llywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, lle mae perthnasoedd partïon cysylltiedig yn codi trwy berthnasoedd swyddogion neu aelodau unigol, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder ynghylch y perthnasoedd hyn. Mae'r trafodiadau hyn o ddiddordeb mawr ac fe'u hystyrir yn berthnasol yn ôl eu natur.

Mae risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed pan fo'r rhain o werth cymharol isel.

**Ein hymateb a gynlluniwyd**

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- adolygu proses yr Awdurdod ar gyfer nodi perthnasoedd partïon cysylltiedig a thrafodiadau a balansau cysylltiedig;
- ymgymryd â gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnrwydd perthnasoedd partïon cysylltiedig; a
- sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol.

## Amserlen archwilio datganiadau ariannol

Isod mae amserlen sy'n dangos camau allweddol yr archwiliad a'n canlyniadau archwilio allweddol y byddwn yn eu darparu i chi.

**Arddangosyn 1: Amserlen archwilio datganiadau ariannol**

| Cam | Gweithgareddau |
|---|---|
| **Cynllunio**<br>**Chwefror-Ebrill 2025** | Cyfarfod cynllunio<br>Gweithdrefnau asesu risg lefel uchel<br>Asesiad risg twyll<br>Cynllunio amcangyfrifon cyfrifyddu<br>Asesiad risg amgylchedd TG<br>Ffi archwilio ddangosol |
| **Interim**<br>**Ebrill 2025** | Llif gwybodaeth<br>Gweithdrefnau manwl ar gyfer asesu risg<br>Adolygiad o reolaethau TG<br>Datblygu strategaeth brofi<br>Profi sampl cynnar ar symiau pensiwn cyfandaliadol |
| **Gwaith Maes**<br>**Mehefin i Orffennaf 2025** | Diweddaru asesiad risg<br>Archwiliad o ddatganiadau ariannol i gynnwys adroddiad naratif a datganiad llywodraethu blynyddol<br>Cwblhau profion archwilio<br>Gwerthuso canfyddiadau archwilio<br>Cyfarfod cau'r archwiliad |
| **Adrodd**<br>**Medi i Ragfyr 2025** | Adroddiad Archwilio Cyfrifon<br>Argymhellion ar gyfer gwella<br>Cyflwyno canfyddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu<br>Ardystiad yr Archwilydd Cyffredinol<br>Crynodeb o'r Archwiliad Blynyddol<br>Dysgu ar ôl y prosiect |

# Gwaith archwilio perfformiad

## Trefniadau priodol

Fel y nodir yn y Cod Ymarfer Archwilio, rhaid i mi fodloni fy hun bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio'r adnoddau ('gwerth am arian'), a dod i gasgliad yn unol â hynny.

Rwy'n gwneud hyn trwy ymgymryd â rhaglen briodol o waith archwilio perfformiad bob blwyddyn. Rwy'n seilio fy rhaglen waith ar asesiad o risgiau nad oes gan yr Awdurdod a'r sector Llywodraeth Leol ehangach yng Nghymru y trefniadau priodol ar waith, gyda'r gwaith fel arfer yn canolbwyntio ar y meysydd o risg fwyaf.

Wrth ddylunio'r rhaglen, rhaid bod fy archwilwyr wedi ystyried trefniadau corfforaethol a lefel gwasanaeth, gan gynnwys:

- Cynllunio strategol
- Rheoli asedau
- Cynllunio ariannol
- Gweithio ar y cyd
- Rheoli perfformiad a risg
- Llywodraethu cyffredinol
- Cynllunio’r gweithlu

Bydd fy archwilwyr hefyd wedi ystyried gwaith perthnasol sy'n cael ei wneud neu’i gynllunio gan gyrff archwilio, rheoleiddio ac arolygu eraill yn yr Awdurdod.

Rwy'n cynnal fy ngwaith archwilio perfformiad gan ddefnyddio'r safon ISSAI 3000 a ddatblygwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Mae INTOSAI yn sefydliad ymbarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad. Mae'n sefydliad anllywodraethol sydd â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig.

## Llesiant cenedlaethau'r dyfodol

Mae adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal archwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

Diffinnir yr **egwyddor datblygu cynaliadwy** fel ymddwyn mewn modd…

…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

I wneud hyn, mae'n rhaid iddynt ystyried y **'pum dull o weithio'**.




Mae'n rhaid i mi gynnal yr archwiliadau hyn ym mhob corff cyhoeddus sydd wedi'i gynnwys yn y Ddeddf o leiaf unwaith yn ystod cyfnod penodol.

Gallai'r rhain fod yn archwiliadau annibynnol fel rhan o fy rhaglen archwilio perfformiad. Fodd bynnag, lle bo'n berthnasol ac yn briodol i wneud hynny, bydd fy archwilwyr yn cyfannu'r gwaith sy'n ofynnol i waith archwilio perfformiad arall sydd wedi'i gynllunio ar gyfer yr Awdurdod. Bydd fy archwilwyr yn parhau i ymgysylltu'n agos â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i helpu i gydlynu ein gweithgareddau priodol.

## Mesur Llywodraeth Leol 2009

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, rhaid i mi hefyd fodloni fy hun bod yr Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig ac i asesu a yw'r Awdurdod yn debygol o fodloni'r gofynion hyn.

# Gwaith archwilio perfformiad a gynlluniwyd

Rwy'n nodi isod fanylion fy ngwaith archwilio perfformiad.

## Cynaliadwyedd ariannol

Mae'r sector cyhoeddus yn wynebu heriau ariannol sylweddol yn y tymor byr, canolig a hir a fydd yn gofyn am weithredu gan bob corff. Yn ddiweddar, rydym wedi archwilio cynaliadwyedd ariannol cyrff llywodraeth leol eraill i gael dealltwriaeth a chefnogi cyrff i ymateb i'r heriau hyn.

Rydym yn bwriadu adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau gwerth am arian wrth gynllunio ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol.

**Amserlenni dangosol**

Hydref 2025

# Amseru Gwaith Archwilio Perfformiad

Bydd fy nhîm yn gweithio gyda swyddogion yn yr Awdurdod i drefnu'r amserlenni manwl ar gyfer y prosiectau unigol a bydd yn cael eu cyfathrebu'n rheolaidd. Nod fy archwilwyr yw cwblhau'r gwaith archwilio perfformiad a nodir yn y cynllun hwn yn sylweddol erbyn diwedd Mehefin 2026.

# Swyddogaethau archwilio statudol eraill

Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf i gyfrifoldebau statudol i dderbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r cyfrifoldebau hyn:

- Adran 30 Arolygu dogfennau a chwestiynau yn ystod yr archwiliad; a
- Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod yr archwiliad.

Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi caniatáu amdano mewn unrhyw ffordd yn y ffi isod. Os byddaf yn derbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau, bydd fy archwilwyr yn trafod yr effaith bosibl ar ffioedd archwilio ar y pryd.

# Ffi archwilio

Ym mis Ionawr 2025, gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Ffioedd 2025-26 yn dilyn cymeradwyaeth gan Bwyllgor Cyllid y Senedd sy'n nodi'r cynnydd cyfartalog i gyfraddau ffioedd o 1.7%.

Mae'r ffi wirioneddol y bydd unrhyw gorff unigol wedi'i archwilio yn ei dalu yn dibynnu nid yn unig ar ein cyfraddau ffioedd ond ar faint o waith a'r cymysgedd sgiliau sydd eu hangen.

**Amcangyfrif o gyfanswm eich ffi archwilio:**
**£78,166**

Bydd cynllunio yn parhau, ac efallai y bydd angen newidiadau i fy rhaglen waith archwilio, ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb i fy archwilwyr eu trafod gyda'r Awdurdod yn gyntaf. **Mae Arddangosyn 2** yn nodi dadansoddiad pellach o'ch ffi archwilio amcangyfrifedig.

**Rwy'n seilio fy ffi archwilio ar y rhagdybiaethau canlynol:**

- Bod y canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion papur gwaith disgwyliedig i gefnogi'r datganiadau ariannol ac yn cynnwys amserlenni a chyfrifoldebau.
- Bod gofynion archwilio fy mhrosiectau archwilio perfformiad unigol yn cael eu bodloni gan y corff archwiliedig, neu fod trefniadau eraill addas yn cael eu rhoi ar waith sy'n bodloni anghenion fy nhîm archwilio.
- Nid oes unrhyw faterion sylweddol, ar wahân i'r hyn a grynhoir yn y cynllun hwn, yn cael eu nodi yn ystod yr archwiliad.

## Arddangosyn 2: Dadansoddiad o fy ffi archwilio amcangyfrifedig ar gyfer 2025 (a 2024 yn gymhariaeth)

### Amcangyfrif o'r ffi ar gyfer 2025 (£)[1]

| Archwiliad o ddatganiadau ariannol[2] | Gwaith archwilio perfformiad[3] |
| --- | --- |
| £60,442 | £17,724 |

**Cyfanswm y ffi: £78,166**

### Ffi ar gyfer 2024 (£)

| Archwiliad o ddatganiadau ariannol | Gwaith archwilio perfformiad |
| --- | --- |
| £59.432 | £17,428[4] |

**Cyfanswm y ffi: £79,385**

[1] Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW.

[2] Yn daladwy Tachwedd 2024 i Hydref 2025

[3] Yn daladwy Ebrill 2025 i Fawrth 2026.

[4] Mae'r gwaith yn parhau ac felly mae hwn yn amcangyfrif o hyd

# Tîm archwilio

Bydd fy nhîm archwilio yn parhau i weithio ac ymgysylltu o bell gan ddefnyddio technoleg, ond bydd rhywfaint o waith archwilio ar y safle yn parhau pan ei fod yn briodol gwneud hynny.

Yn wir, gwelodd fy nhîm archwilio a oedd ar y safle yn ystod yr archwilio o waith cyfrifon y llynedd fod bod yn agos at swyddogion yn ffordd fwy effeithlon o weithio, ac mae swyddogion wedi bwydo yn ôl yn gadarnhaol ar eu profiadau.

Mae gan gyrff a archwiliwyd gyfrifoldeb i sicrhau diogelwch a llesiant staff Archwilio Cymru pan fyddant ar eich safle.

Mae prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, wedi'u crynhoi yn **Arddangosyn 3**.

**Arddangosyn 3: Fy nhîm archwilio lleol**

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarwyddwr Ymgysylltu** | Gary Emery<br>gary.emery@archwilio.cymru | |
| | **Archwiliad Ariannol** | **Archwiliad Perfformiad** |
| **Arweinydd Ymgysylltu** | Kate Havard<br>Kate.Havard@archwilio.cymru | Gary Emery<br>Gary.Emery@archwilio.cymru |
| **Rheolwr Archwilio** | Carwyn Rees<br>carwyn.rees@audit.wales | Tim Buckle<br>Timothy.Buckle@archwilio.cymru |
| **Arweinydd Archwilio** | Kieran Vickery<br>kieran.vickery@audit.wales | Charles Rigby<br>Charles.Rigby@archwilio.cymru |

Gallaf gadarnhau bod pob aelod o fy nhîm yn annibynnol ar yr Awdurdod a'ch swyddogion.

Mae un gwrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi ei dynnu i'ch sylw.

O fis Ionawr i fis Gorffennaf 2024, roedd prentis o Archwilio Cymru ac ATAGC yn rhan o gytundeb secondiad cilyddol. Ni fydd yr unigolion yn cael eu cynnwys yn nhîm archwilio 2024-25.

# Ansawdd yr archwilio

Rydym wedi ymrwymo’n llwyr i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru. Rydym yn credu bod ansawdd archwilio yn ymwneud â chael pethau'n gywir y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Rydym yn destun ein gwaith i graffu annibynnol gan Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr ac mae ein Cadeirydd y Bwrdd, yn gweithredu fel cyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. Am ragor o wybodaeth gweler ein Adroddiad Ansawdd Archwilio 2024

### Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu

### Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Platfform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol

### Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

# Eich cefnogi chi

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i gefnogi'r gwaith o graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cefnogi i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

## Ewch i'n gwefan i weld:

Ein cyhoeddiadau sy'n cynnwys ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.

Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.

Offer data i'ch helpu i ddeall tueddiadau gwariant cyhoeddus yn well

Manylion ein gwaith Arfer Da a digwyddiadau, gan gynnwys rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg a mewnwelediadau o'n gwaith archwilio.

Ein cylchlythyr sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf reolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaeth cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: https://www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.